

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 12/11/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Yr Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol yng Ngogledd Cymru](#)

[Statement: The Review of Neonatal Services in North Wales](#)

[Datganiad: Y Gynhadledd Fawr—y Camau Nesaf](#)

[Statement: Y Gynhadledd Fawr—Next Steps](#)

[Datganiad: Paratodau ar gyfer Tywydd y Gaeaf](#)

[Statement: Preparations for Winter Weather](#)

[Datganiad: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad](#)

[Statement: Review of the Availability of Funding for SMEs: Second Report](#)

[Datganiad: Parhad a Newid—Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru](#)

[Statement: Continuity and Change—Refreshing the Relationship between Welsh Government and the Third Sector in Wales](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2013](#)

[Motion to Approve the Food Hygiene Rating \(Wales\) Regulations 2013](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol \(Cymru\) 2013](#)

[Motion to Approve the Family Absence for Members of Local Authorities \(Wales\) Regulations 2013](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol](#)

[Legislative Consent Memorandum on the Local Audit and Accountability Bill](#)

[Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf](#)

[NHS and Social Service Plans for Winter Preparedness](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)

[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gwasanaethau Iechyd yng Ngorllewin Cymru

## Questions to the First Minister

### Health Services in West Wales

13:30 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1315(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on health services in west Wales? OAQ(4)1315(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn y gorllewin, fel yng Nghymru gyfan, i'w gweld yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

Our priorities for the health service in west Wales, as for the whole of Wales, are set out in 'Together for Health'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:31

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel y mae'r Prif Weinidog yn ymwybodol, roedd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn un o'r byrddau cyntaf i gyhoeddi ei gynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau iechyd, ymhell cyn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n debyg bod cynlluniau bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn llawer mwy manwl, ac, yn anffodus, nid yw ei gynlluniau bob amser yn cyd-drefnu â chynlluniau bwrdd iechyd Hywel Dda. Mae cyd-drefnu yn hollbwysig, oherwydd mae fy etholwyr i yn dibynnu ar rai gwasanaethau sydd ar gael yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn unig. Yn yr amgylchiadau, a all y Prif Weinidog ddweud wrthym sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cyd-drefnu angenrheidiol hwn yn digwydd, a pham nac oedd y cynigion wedi cael eu cyhoeddi ar yr un pryd?

As the First Minister will know, the Hywel Dda Local Health Board was one of the first health boards to announce its reconfiguration plans—way before Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. It appears that Abertawe Bro Morgannwg health board's plans are far more detailed, and, unfortunately, its plans do not always run in accordance with Hywel Dda health board's plans. That co-ordination is crucial, of course, because my constituents depend on some of the services that are available only in the Abertawe Bro Morgannwg health board area. Under these circumstances, can the First Minister tell us how the Welsh Government is ensuring that the proper co-ordination is in place, and why were the proposals not published simultaneously?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y cynigion sy'n dod oddi wrth byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod cysylltiad o ran y gwasanaethau sydd ar gael rhwng ardaloedd y byrddau iechyd gwahanol ar draws Cymru.

Of course, the Minister for Health and Social Services is considering the proposals that are coming out of the health boards to ensure that there is a link between the services that are available between the different health board areas across Wales.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, progress towards the reconfigured Tenby minor injuries service seems to be stalling, because there does not seem to be agreement between the GPs and the local health board. I know that this matter is for local determination, but what action can the Government take if agreement cannot be reached locally?

Brif Weinidog, mae'n ymddangos bod cynnydd tuag at wasanaeth mân anafiadau wedi ei ad-drefnu yn Ninbych-y-pysgod yn arafu, oherwydd nad yw'n ymddangos bod cytundeb rhwng y meddygon teulu a'r bwrdd iechyd lleol. Gwn fod y mater hwn i'w benderfynu'n lleol, ond pa gamau all y Llywodraeth eu cymryd os na ellir dod i gytundeb yn lleol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand that there is a meeting today between the health board and the GPs in Tenby. Both sides are keen on reaching a solution, and we will await the outcome of that meeting. Our hope is that the issue can be resolved there and then today.

Rwy'n deall bod cyfarfod yn cael ei gynnal heddiw rhwng y bwrdd iechyd a'r meddygon teulu yn Ninbych-y-pysgod. Mae'r ddwy ochr yn awyddus i ddod o hyd i ateb, a byddwn yn aros am ganlyniad y cyfarfod hwnnw. Ein gobaith yw y gellir datrys y mater yn y fan a'r lle heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one health service that is used, and is widely valued, by the people of west Wales, and, indeed, further afield, is the pain management centre at Bronllys Hospital in Powys. Currently, the services at the pain management centre are under threat of suspension, because of the unit's failure of a recent fire safety assessment. Disappointingly, it has taken a number of months for issues that were raised in that assessment to be addressed by the local health board. Particularly in the current interregnum, before the arrival of the new chief executive, there is concern that that centre may be under threat of closure—or, indeed, that courses will be suspended—if these issues are not addressed appropriately. Will you please look into this matter, via your officials, as a matter of urgency?

Brif Weinidog, un gwasanaeth iechyd sy'n cael ei ddefnyddio, ac yn cael ei werthfawrogi'n eang, gan bobl gorllewin Cymru, ac, yn wir, ymhellach i ffwrdd, yw'r ganolfan rheoli poen yn Ysbyty Bronllys ym Mhowys. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau yn y ganolfan rheoli poen dan fygythiad o gael eu hatal dros dro, oherwydd methiant yr uned mewn asesiad diogelwch tân yn ddiweddar. Yn siomedig, mae wedi cymryd sawl mis i'r bwrdd iechyd lleol fynd i'r afael â materion a godwyd yn yr asesiad. Yn enwedig yn ystod y saib presennol, cyn i'r prif weithredwr newydd gyrraedd, ceir pryder y gallai'r ganolfan honno fod dan fygythiad o gael ei chau—neu, yn wir, y bydd cyrsiau'n cael eu hatal dros dro—os nad yw'r materion hyn yn cael sylw priodol. A wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn, drwy eich swyddogion, os gwelwch yn dda, fel mater o frys?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I will. I will write to the Member on this issue. It is incumbent, of course, on the LHB to ensure that the facility is appropriate. However, I am certainly not aware of any plans to remove or suspend the service, and I hope that this issue can be resolved quickly.

Gwnaf. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r mater hwn. Mae'n ddyletswydd, wrth gwrs, ar y BILL i sicrhau bod y cyfleuster yn briodol. Fodd bynnag, yn sicr nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddiddymu neu atal y gwasanaeth, ac rwy'n gobeithio y gellir datrys y mater hwn yn gyflym.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rydych chi a'r Gweinidog iechyd wedi dweud fwy nag unwaith fan hyn byddai pobl a oedd eisoes wedi cael dyddiad ar gyfer triniaeth orthopedig ddewisol yn cael y llawdriniaeth honno wedi ei chyflawni. Mae gennyf etholwyr a oedd wedi cael dyddiad ar gyfer yr apwyntiad cyn y driniaeth, y 'pre-op'—ac, wrth gwrs, fel rheol, mae'r driniaeth ei hun yn dilyn o fewn ychydig wythnosau—sydd nawr yn cael gwybod nad oes pwynt iddynt ddod i'r apwyntiad cyn y driniaeth, oherwydd na fydd y driniaeth ei hun yn digwydd. Sut yr ydych chi'n ymateb i hynny?

First Minister, you and the Minister for health have said more than once here that people who had already been given a date for elective orthopaedic treatment would have that surgery carried out. I have constituents who had been given a date for the pre-op appointment—and, of course, as a rule, the treatment itself would follow within a few weeks—who are now being told that there is no point in them attending the pre-op appointment, because the treatment will not take place. How do you respond to that?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Liciwn i weld y llythyr hwnnw, oherwydd nid dyna mae'r bwrdd iechyd yn ei ddweud. Mae wedi cadarnhau y bydd llawdriniaethau sydd wedi cael eu cynllunio yn cario ymlaen. Felly, os oes llythyr sy'n dweud hynny, byddai'n braf gweld oddi wrth bwy y mae'r llythyr hwnnw wedi dod, er mwyn i ni allu ystyried y peth ac er mwyn gweld beth yn union sydd wedi digwydd.

I would like to see that letter, because that is not what the health board is saying. It has confirmed that operations that have been planned will carry on. So, if there is a letter saying that, I would like to see who that letter has come from, so that we can consider that and see exactly what has happened.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Darpariaeth Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru

## Healthcare Provision in North Wales

13:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1326(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on healthcare provision in North Wales? OAQ(4)1326(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Our commitment to improving services in the north was reinforced last week by the announcement of funding for a new primary care centre in Colwyn Bay.

Gwnaf. Atgyfnerthwyd ein hymrwymiad i wella gwasanaethau yn y gogledd yr wythnos diwethaf gan y cyhoeddiad o gyllid ar gyfer canolfan gofal sylfaenol newydd ym Mae Colwyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:34 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Although the Minister for health in the last Assembly said that there is an overriding aim to secure as many services as could be safely provided within Wales's boundaries. This summer the expert, impartial Assembly Research Service told me it had spoken to a Welsh Government official who confirmed that it is Welsh Government policy to repatriate Welsh patients presently served in English in-patient settings. The Minister for Health and Social Services told me that there is no hidden policy to repatriate Welsh patients. How, therefore, will you address concern among both patients and healthcare providers just across the border that repatriation of health services into Wales is accentuating waiting lists and problems, and what is the Welsh Government doing to address this?
- Diolch yn fawr. Serch hynny, dywedodd y Gweinidog iechyd yn y Cynulliad diwethaf bod nod hollbwysig o sicrhau cymaint o wasanaethau ag y gellid eu darparu'n ddiogel o fewn ffiniau Cymru. Yr haf hwn, dywedodd Gwasanaeth Ymchwil arbenigol, diduedd y Cynulliad wrthyf ei fod wedi siarad â swyddog o Lywodraeth Cymru a gadarnhaodd mai polisi Llywodraeth Cymru yw dod â chleifion sy'n derbyn gwasanaeth mewn lleoliadau cleifion mewnol yn Lloegr ar hyn o bryd, yn ôl i Gymru. Fe'm hysbyswyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad oes unrhyw bolisi cudd i ddod â chleifion o Gymru yn ôl yma. Sut, felly, wnewch chi fynd i'r afael â'r pryder ymhlith cleifion a darparwyr gofal iechyd sydd nad ydynnt ond rhywfaint dros y ffin bod dod â gwasanaethau iechyd yn ôl i Gymru yn gwaethygu rhestrau aros a phroblemau, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I do not accept that. We want to see people treated in places that are closest to them and most convenient to them and that are safe for them. There is certainly no policy on our part as a Government whereby we are seeking to ensure that all treatments are delivered within Wales; we have never said that. Treatments will be delivered, inevitably, in England, particularly in specialised areas where the best outcome can be achieved for the patient.
- Nid wyf yn derbyn hynny. Rydym eisiau gweld pobl yn cael eu trin yn y manau sydd agosaf atynt ac sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw ac sy'n ddiogel iddyn nhw. Yn sicr, nid oes polisi ar ein rhan ni fel Llywodraeth lle'r ydym yn ceisio sicrhau bod yr holl driniaethau yn cael eu darparu yng Nghymru; nid ydym erioed wedi dweud hynny. Mae'n anochel y bydd triniaethau yn cael eu darparu yn Lloegr, yn enwedig mewn meysydd arbenigol lle gellir cyflawni'r canlyniad gorau i'r claf.
- 13:36 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I welcome the Minister for Finance's announcement in the draft budget that an additional £570 million has been put into our fantastic national health service, which is something on which, on these benches here, we pride ourselves. Adequate staffing levels, especially for our nursing staff, are vital to ensure that patients are well looked after. It seems that David Cameron does not agree with me—but I do not care really—as his Government has sacked 4,500 nurses in England alone. I urge you, First Minister, to please not accept any lessons from either David Cameron or the Welsh Conservatives on the national health service. Will you also outline what your Government is doing to ensure that there are sufficient specialist nurses to protect our NHS?
- Brif Weinidog, rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog Cyllid yn y gyllideb ddrafft bod swm ychwanegol o £570 miliwn wedi ei roi i'n gwasanaeth iechyd gwladol gwyb, sy'n rhywbeth rydym ni, ar y meinciau hyn, yn ymfalchio ynddo. Mae lefelau staffio digonol, yn enwedig ar gyfer ein staff nyrsio, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal da. Mae'n ymddangos nad yw David Cameron yn cytuno â mi—ond nid oes ots gen i a dweud y gwir—gan fod ei Lywodraeth ef wedi diswyddo 4,500 o nyrsys yn Lloegr yn unig. Rwy'n eich annog, os gwelwch yn dda Brif Weinidog, i beidio â derbyn unrhyw wersi gan naill ai David Cameron na Cheidwadwyr Cymru ar y gwasanaeth iechyd gwladol. A wnewch chi hefyd amlinellu'r hyn mae y eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod digon o nyrsys arbenigol i ddiogelu ein GIG?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We will not be sacking thousands of nurses in Wales; I can confirm that. We all know the woes of the English health service; we see again in the newspapers today the problems with bankrupt trusts, the problems with recruitment, the problems with outcomes and the fact that all the indicators are going in the wrong direction. There is nothing we can learn from the mishandling of the NHS in England.
- Ni fyddwn yn diswyddo miloedd o nyrsys yng Nghymru; gallaf gadarnhau hynny. Rydym i gyd yn gwybod am problemau gwasanaeth iechyd Lloegr; rydym yn gweld yn y papurau newydd eto heddiw y problemau gydag ymddiriedolaethau'n mynd yn fethdalwyr, y problemau gyda recriwtio, y problemau gyda chanlyniadau a'r ffaith fod yr holl ddangosyddion yn symud i'r cyfeiriad anghywir. Nid oes unrhyw beth y gallwn ni ei ddysgu oddi wrth y camdrafod o ran y GIG yn Lloegr.
- 13:37 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Fodd bynnag, rydych yn hapus, onid ydych chi, Brif Weinidog, i anfon ein babanod mwyaf bregus i'r gwasanaeth hwnnw?
- However, you are content, are you not, First Minister, to send our most vulnerable babies to that service?

- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Lle mae'r gwasanaeth hwnnw'n dda, mae hynny'n beth call, wrth gwrs. Beth ydych chi am ei wneud: cadw babies yng Nghymru lle nad ydynt yn mynd i gael y gwasanaeth y dylent ei gael? Nid wyf yn mynd i wneud hynny; mae hynny'n sicr. Yr hyn sy'n bwysig yw beth sy'n saff, nid beth sy'n siwtio eich gwleidyddiaeth chi.
- Where that service is good, that is a sensible thing to do, of course. What do you want to do: keep babies in Wales where they are not going to have the service they should have? I am not going to do that; that is for certain. What is important is doing what is safe, not what suits your politics.
- 13:37 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Brif Weinidog, byddwn yn sôn am fabanod yn mynd i Loegr yn ystod y prynhawn, ond hefyd mae diffyg rheolaeth strategol o ran Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn amlwg o fewn yr adroddiad rydym yn ei drafod. Wrth feddwl bod adran ddamweiniau Ysbyty Glan Clwyd wedi gorfod danfon ambiwlansys i Wrexham ac Ysbyty Gwynedd bythefnos yn ôl am ddiwrnod cyfan, a oes gyda chi ffydd yn y bwrdd iechyd a'r ffordd maent cynllunio'n strategol yn y gogledd?
- First Minister, we will be discussing babies going to England during this afternoon, but also a lack of strategic management in terms of Betsi Cadwaladr University Local Health Board is clearly demonstrated in the report we are discussing. Given that the A&E department at Glan Clwyd Hospital had to send ambulances to Wrexham and Ysbyty Gwynedd a fortnight ago for a whole day, do you have confidence in the health board and how it is strategically planning in north Wales?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Oes, yn enwedig o gofio'r ffaith bod arweinwyr newydd yn dod mewn i'r bwrdd iechyd; rhaid i ni gael ffydd ynddynt ac mae gan y Llywodraeth ffydd ynddynt.
- Yes, especially given the fact that new leaders coming into the health board; we have to have confidence in them and the Government has confidence in them.
- Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**
- Questions Without Notice from the Party Leaders**
- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
First Minister, a month ago, your Government Minister made a statement about the closure of the regeneration investment fund for Wales or RIFW for short. It is worth reflecting on what this fund was set up by your Government to do, which was to invest in the regeneration of town centres, and, according to its website, to encourage and promote sustainable development across the whole of Wales. This was going to be funded by the sale of 16 parcels of publicly-owned land, and that sale was concluded for the sum of approximately £20 million. In the interim, significant points of concern have been raised about the value of the sale that the Welsh Government undertook of its land. Are you able today to inform the Chamber as to the process that was undertaken by the Welsh Government, because, on the surface, it clearly looks as if the Welsh taxpayer was short-changed in the sale of these parcels of land?
- Brif Weinidog, fis yn ôl, gwnaeth eich Gweinidog Llywodraeth ddatganiad ar gau cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio neu CBCA yn gryno. Mae'n werth myfyrio ar yr hyn y sefydlwyd y gronfa hon gan eich Llywodraeth i'w wneud, sef buddsoddi yn y gwaith o adfywio canol trefi, ac, yn ôl ei gwefan, annog a hybu datblygiad cynaliadwy ledled Cymru gyfan. Roedd hyn yn mynd i gael ei ariannu trwy werthu 16 o glytiau o dir a oedd yn eiddo cyhoeddus, a gwerthwyd y clytiau hynny am swm o tua £20 miliwn. Yn y cyfamser, mae pwyntiau o bryder sylweddol wedi eu codi ynghylch gwerth yr achos hwn o Lywodraeth Cymru yn gwerthu ei thir. A allwch chi hysbysu'r Siambr heddiw am yr broses a ddilynwyd gan Lywodraeth Cymru, oherwydd, ar yr wyneb, mae'n amlwg yn fel pe bai trethdalwyr Cymru wedi cael bargaen wael yn yr achos o werthu'r clytiau tir hyn?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
This is a matter that is under investigation as we speak. I do not feel that I can comment further until those investigations are over.
- Mae hwn yn fater sy'n cael ei ymchwilio ar hyn o bryd. Nid wyf yn teimlo y gallaf wneud sylwadau pellach tan fydd yr ymchwiliadau hynny wedi dod i ben.

13:39

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is a poor answer, First Minister. You can comment, because all the points I raised with you are in the public domain. I would also invite you to congratulate my colleague, Byron Davies, on his efforts to bring this to light, because, without his tenacity, much of the short change that has gone on here for the Welsh taxpayer would not have been brought to light. What we know is that many communities across the whole of Wales have suffered because of the lack of money raised by the sale of land that your Government undertook. Therefore, vital regeneration projects will not be undertaken. You cannot tell me, as First Minister, that you are happy with the turn of events that has come about by your Government's action in selling this land off so cheaply.

Mae hwnna'n ateb gwael, Brif Weinidog. Mi allwch wneud sylwadau, gan fod yr holl bwyntiau a godais gyda chi yn eiddo i'r cyhoedd. Hoffwn eich gwahodd hefyd i longyfarch fy nghydweithiwr, Byron Davies, ar ei ymdrechion i ddod â hyn i'r amlwg, oherwydd, heb ei ddycnwch, ni fyddai llawer o'r fargen wael y mae trethdalwyr Cymru wedi ei chael yma wedi dod i'r amlwg. Yr hyn a wyddom yw bod llawer o gymunedau ledled Cymru gyfan wedi dioddef oherwydd y diffyg arian a godwyd trwy'r tir a werthwyd gan eich Llywodraeth. Felly, ni fydd prosiectau adfywio hanfodol yn cael eu cyflawni. Fedrwn chi ddim dweud wrthyf fi, fel Prif Weinidog, eich bod yn hapus â'r hyn sydd wedi digwydd yn sgil y ffaith fod eich Llywodraeth wedi gwerthu'r tir hwn mor rhad.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:40

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Government did not sell the land off. No, I am not happy with what has happened, but I have to wait until the investigations are over for many reasons, least of all the fact that investigations have to take their course. There will be plenty of opportunities, of course, for Members to raise questions when those investigations are over.

Ni werthodd y Llywodraeth y tir. Na, nid wyf yn hapus gyda'r hyn sydd wedi digwydd, ond mae'n rhaid i mi aros tan fod yr ymchwiliadau wedi dod i ben am nifer o resymau, yn enwedig oherwydd y ffaith bod yn rhaid i ymchwiliadau gael eu cynnal yn briodol. Bydd digon o gyfleoedd, wrth gwrs, i Aelodau godi cwestiynau pan fydd yr ymchwiliadau hynny wedi dod i ben.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:40

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have seen it time and again, have we not? Every time something like this comes about—the All Wales Ethnic Minority Association is a very good example—the Government immediately tries to close the discussion down. We can understand why you want to close that discussion down, because it highlights the embarrassing delivery that your Government has for the people of Wales. I will give one example of this—one example. [Interruption.] I appreciate the former First Minister is sitting on the back benches chundering away there, but he might like to listen to some of the questions that are put. The point that I am making is that, when you look at the land sales, in Lisvane in our own capital city in particular, 120 acres was sold for £1.8 million. The market value for that today with planning permission could be as much as £120 million. Just think what your Government could do to regenerate communities across the whole of Wales with that level of investment. Is it not a fact that RIFW really stands for the 'really incompetent financial waste' that your Government is presiding over? It is a damning shame that all you can offer today is to hide behind inquiries. No wonder the Labour benches are trying to shout me down. Let us have some answers, First Minister. Let us have some answers.

Rydym ni wedi ei weld dro ar ôl tro, onid ydym? Bob tro y mae rhywbeth fel hyn yn digwydd—mae Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn enghraifft dda iawn—mae'r Llywodraeth yn ceisio atal y drafodaeth yn syth. Gallwn ddeall pam yr ydych eisiau atal y drafodaeth honno, gan ei bod yn amlygu'r ddarpariaeth digon i godi cywilydd arnoch sydd gan eich Llywodraeth ar gyfer pobl Cymru. Rhoddaf un enghraifft o hyn—un enghraifft. [Torri ar draws.] Rwy'n sylweddoli fod y cyn-Brif Weinidog yn eistedd ar y meinciau cefn yn paldaruo yna, ond efallai yr hoffai wrando ar rai o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn. Y pwynt rwy'n ei wneud yw, pan fyddwch yn edrych ar yr achosion o werthu tir, yn Llysfaen yn ein prifddinas ein hunain yn arbennig, y gwerthwyd 120 erw am £1.8 filiwn. Gallai gwerth marchnad hynny gyda chaniatâd cynllunio fod cymaint â £120 miliwn heddiw. Meddyliwch am funud yr hyn y gallai eich Llywodraeth ei wneud i adfywio cymunedau ledled Cymru gyfan gyda'r lefel honno o fuddsoddiad. Onid yw'n wir fod RIFW mewn gwirionedd yn sefyll am y 'really incompetent financial waste' mae eich Llywodraeth chi yn gyfrifol amdano? Mae'n drueni sarhaus mai'r cwbl y gallwch chi ei gynnis heddiw yw cuddio y tu ôl i ymchwiliadau. Nid oes rhyfedd bod y meinciau Llafur yn ceisio gweiddi'n uwch na mi. Gadewch i ni gael rhywfaint o atebion, Brif Weinidog. Gadewch i ni gael rhywfaint o atebion.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:42

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He spends his time calling for inquiries all the time. He does not take any decisions, of course. He does not suggest solutions. He just calls for inquiries all the time. I wonder how long it took him—or took his advisers, actually—to work out that little line there. However, he raises important issues, of course, in terms of RIFW, and they are being dealt with by this Government by way of an inquiry. Had he been in Government, he would know that Government cannot comment before an investigation is over. I will say this to him. He quotes Byron Davies. Byron Davies is a man who, in this Chamber, told Members that there was £20 million gap in the pension scheme of Cardiff Airport. That is rubbish. It never existed. On more than one occasion he said that. He asserted that. It never existed. Byron Davies is also the man who, last week—this is a good one—in the ‘Glamorgan Gazette’ said that the bedroom tax and the evictions that were caused by it were the fault of the Labour Party. [Laughter.] That is what he said: it is the fault of the Labour Party. [Interruption.] So, I am not going to take any lessons from Byron Davies. Clearly, he lives in a world that the rest of us do not inhabit.

Mae'n treulio ei amser yn galw am ymchwiliadau drwy'r amser. Nid yw'n gwneud unrhyw benderfyniadau, wrth gwrs. Nid yw'n awgrymu atebion. Y cwbl mae'n ei wneud yw galw am ymchwiliadau drwy'r amser. Tybed faint o amser gymerodd hi iddo—neu a gymerodd i'w gynghorwyr, mewn gwirionedd—i feddwl am y llinell fach yna. Fodd bynnag, mae'n codi materion pwysig, wrth gwrs, o ran CBCA, ac mae'r Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â nhw ar ffurf ymchwiliad. Pe byddai wedi bod mewn Llywodraeth, byddai'n gwybod na all y Llywodraeth wneud sylwadau cyn y bydd ymchwiliad wedi dod i ben. Rwyf am ddweud hyn wrtho. Mae'n dyfynnu Byron Davies. Mae Byron Davies yn ŵr a ddywedodd wrth yr Aelodau, yn y Siambr hon, bod bwlch o £20 miliwn yng nghynllun pensiwn Maes Awyr Caerdydd. Mae hynny'n nonsens. Nid oedd erioed yn bodoli. Dywedodd hynny ar fwy nag un achlysur. Dywedodd hynny'n bendant. Nid oedd erioed yn bodoli. Byron Davies hefyd yw'r gŵr a ddywedodd, yr wythnos diwethaf—mae hon yn un dda—yn y 'Glamorgan Gazette' mai bai'r Blaid Lafur oedd y dreth ystafell wely a'r achosion o droi pobl allan a achoswyd ganddi. [Chwerthin.] Dyna ddywedodd ef: ar y Blaid Lafur mae'r bai. [Torri ar draws.] Felly, nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw wersi gan Byron Davies. Yn amlwg, mae'n byw mewn byd nad yw'r gweddill ohonom yn byw ynddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Order. Whatever is the matter with you all this afternoon? Gracious me.

Trefn. Trefn. Beth yn y byd sy'n bod arnoch chi i gyd y pryhawn yma? Mawredd mawr.

We now move to the Leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, the Minister for Health and Social Services tells us that fewer than 3% of hospital consultant posts are unfilled, yet the British Medical Association tells us today that consultants' exhaustion is risking patients' safety. Are you confident that we have the right number of doctors in the Welsh NHS?

Brif Weinidog, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud wrthym bod llai na 3% o swyddi ymgynghorwyr mewn ysbytai heb eu llenwi, ac eto mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn dweud wrthym heddiw fod blinder ymgynghorwyr yn peryglu diogelwch cleifion. A ydych chi'n hyderus bod gennym y nifer cywir o feddygon yn y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The report was based on one un-named consultant, not on consultants, and so there is no evidence to back up the story in any way that I can see. I was with a number of consultants on Saturday and not one of them raised this issue with me.

Ydw. Roedd yr adroddiad wedi ei seilio ar un ymgynghorydd dienw, nid ar ymgynghorwyr, ac felly nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r stori mewn unrhyw ffordd y gallaf i ei gweld. Roeddwn i gyda nifer o ymgynghorwyr ddydd Sadwrn ac ni chodwyd y mater hwn gyda mi gan yr un ohonynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the complaint is that there is a lack of middle-grade doctors in the Welsh NHS. A Plaid Cymru Government would provide training opportunities to recruit 1,000 additional doctors to help deal with capacity issues in the Welsh health service, which you deny exist. Are you telling us this afternoon that you are happy with staffing levels in our hospitals or do you support Plaid Cymru's calls for more training, more recruitment and better workforce planning?

Brif Weinidog, y gŵyn yw bod diffyg meddygon gradd ganolig yn y GIG yng Nghymru. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn darparu cyfleoedd hyfforddi i recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol i helpu i ymdrin â phroblemau gallu yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yr ydych chi'n gwadu eu bod yn bodoli. A ydych chi'n dweud wrthym y prynhawn yma eich bod yn hapus gyda lefelau staffio yn ein hysbytai neu a ydych chi'n cefnogi galwadau Plaid Cymru am fwy o hyfforddiant, mwy o recriwtio a gwell cynllunio gweithlu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am happy, because the vacancies show that, but training more people will not mean there are more doctors. If you train doctors they can travel anywhere in the world. What you have to do is recruit them and make sure that there are opportunities for them to stay in Wales. Simply training doctors will not mean there are more doctors in the NHS.

Rwy'n hapus, gan fod y swyddi gwag yn dangos hynny, ond ni fydd hyfforddi mwy o bobl yn golygu bod mwy o feddygon. Os byddwch yn hyfforddi meddygon gallant deithio i unrhyw le yn y byd. Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yw eu recriwtio a gwneud yn siŵr bod cyfleoedd iddyn nhw aros yng Nghymru. Ni fydd hyfforddi meddygon yn golygu bod mwy o feddygon yn y GIG.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would agree with that and that is why we have put forward calls to incentivise more doctors to stay here. First Minister, the Wales Audit Office is telling us that doctors are overworked. You are telling us that services have to be reorganised because we do not have enough specialist staff. Will you now accept the basic principle that we have been putting forward for some time, which is that recruiting and training 1,000 additional doctors in Wales will improve our Welsh health service—yes or no?

Byddwn yn cytuno â hynny, a dyna pam yr ydym ni wedi cyflwyno galwadau i gymell mwy o feddygon i aros yma. Brif Weinidog, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud wrthym bod meddygon yn cael eu gorweithio. Rydych chi'n dweud wrthym bod yn rhaid i wasanaethau gael eu had-drefnu gan nad oes gennym ddigon o aelodau staff arbenigol. A wnewch chi dderbyn nawr yr egwyddor sylfaenol yr ydym ni wedi bod yn ei chyflwyno ers cryn amser, sef y bydd recriwtio a hyfforddi 1,000 o feddygon ychwanegol yng Nghymru yn gwella ein gwasanaeth iechyd yng Nghymru—bydd neu na fydd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



13:45	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Is there any evidence that it has to be 1,000? Is there evidence to suggest whether they should be consultants or middle-grade doctors? Is there evidence to suggest that there is a shortage of consultants generally in Wales? Where is the evidence to suggest that training people, given the fact that it takes 10 years at least to train up to consultant level, will help? The reality is this: we are recruiting. Plaid Cymru's idea was to get people to consume more sugar to pay for more doctors. I notice that the leader of Plaid Cymru has been entirely silent on that issue, ever since its ridiculous nature was exposed within the Chamber. We are recruiting more doctors and ensuring that Wales is a place where doctors will want to come, while her party does not want to change things. Does she not realise that in order to recruit more doctors, you have to make sure that the training that they get is attractive? Without reconfiguration, that will not happen. You will not attract more consultants and middle-grade doctors into Wales if the training opportunities are not there, and yet her party opposes the provision of those facilities. You cannot have one without the other, yet, you are picking 1,000 doctors out of thin air without any evidence to back that up. I cannot believe that an opposition party would be that irresponsible. We will make sure that the health service, as it has been doing over the last month or two and beyond, will go from strength to strength, and we will not have cheap and uncoded political slogans.</p>	<p>A oes unrhyw dystiolaeth bod yn rhaid iddo fod yn 1,000? A oes tystiolaeth i awgrymu a ddylent fod yn ymgynghorwyr neu'n feddygon gradd ganolig? A oes tystiolaeth i awgrymu bod prinder ymgynghorwyr yn gyffredinol yng Nghymru? Ble mae'r dystiolaeth i awgrymu bod hyfforddi pobl, o ystyried y ffaith ei bod yn cymryd o leiaf 10 mlynedd i hyfforddi hyd at lefel ymgynghorydd, yn helpu? Y gwir amdani yw hyn: rydym ni yn recriwtio. Syniad Plaid Cymru oedd cael pobl i fwyta mwy o siwgr i dalu am fwy o feddygon. Rwy'n sylwi bod arweinydd Plaid Cymru wedi bod yn hollol ddistaw ar y mater hwnnw, ers i natur chwerthinlyd y syniad gael ei hamlygu yn y Siambr. Rydym yn recriwtio mwy o feddygon ac yn sicrhau bod Cymru yn fan lle bydd meddygon eisiau dod, tra nad yw ei phlaid hi eisiau newid pethau. Onid yw hi'n sylweddoli, er mwyn recriwtio mwy o feddygon, bod yn rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr hyfforddiant y maen nhw'n ei gael yn ddeniadol? Heb ad-drefnu, ni fydd hynny'n digwydd. Ni fyddwch yn denu mwy o ymgynghorwyr a meddygon gradd ganolig i Gymru os nad yw'r cyfleoedd hyfforddi ar gael, ac eto mae ei phlaid hi'n gwrthwynebu darpariaeth y cyfleusterau hynny. Ni allwch chi gael y naill heb y llall, ac eto, rydych chi'n dewis 1,000 o feddygon o'r pedwar gwynt heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny. Ni allaf gredu y byddai gwrthblaid mor anghyfrifol â hynny. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth iechyd, fel y mae wedi bod yn ei wneud yn ystod y mis neu ddau diwethaf, a thu hwnt, yn mynd o nerth i nerth, ac na fydd gennym sloganau gwleidyddol rhad a heb eu costio.</p>
13:46	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.</p>	<p>Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.</p>
13:46	<b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>First Minister, on 26 February, I asked you whether you would know whether there was a Mid Staffs-style scandal going on in the Welsh NHS. You said on that occasion that</p>	<p>Brif Weinidog, ar 26 Chwefror, gofynnais i chi a fydddech chi'n gwybod pe byddai sgandal tebyg i'r un yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn digwydd yn y GIG yng Nghymru. Dywedasocho ar yr achlysur hwnnw:</p>
	<p>'There is no suggestion that what happened in Mid Staffs would happen in Wales.'</p>	<p>Nid oes unrhyw awgrym y byddai'r hyn a ddigwyddodd yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn digwydd yng Nghymru.</p>
	<p>Do you stand by that answer?</p>	<p>A ydych chi'n sefyll wrth yr ateb hwnnw?</p>
13:46	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Yes.</p>	<p>Ydw.</p>
13:47	<b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Last week, in the Health and Social Care Committee, I asked the chief executive of Healthcare Inspectorate Wales, the inspector and the regulator of healthcare in Wales, whether she would know whether there was a Mid Staffs scandal going on in Wales, and she said this:</p>	<p>Yr wythnos diwethaf, yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gofynnais i brif weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, arolygydd a rheoleiddwr gofal iechyd yng Nghymru, a fyddai hi'n gwybod pe byddai sgandal fel yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn digwydd yng Nghymru, a dywedodd hyn:</p>

'I am not convinced that we have sufficient coverage, in terms of testing, for me to be able to give you that strong assurance.'

If your own inspectorate cannot give that assurance, how on earth can you?

Nid wyf yn argyhoeddedig bod gennym ddigon o ddarpariaeth, o ran profion, i mi allu rhoi'r sicrwydd cadarn hwnnw i chi.

Os na all eich arolygiaeth eich hun roi'r sicrwydd hwnnw, sut ar y ddaear allwch chi wneud hynny?

13:47

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We, of course, monitor what the health boards are doing, as does the Minister, on a day-to-day basis, and we are looking to strengthen the healthcare inspectorate where that is required. That does not mean that there is a Mid Staffs situation in Wales. You cannot extrapolate one from the other.

Rydym ni, wrth gwrs, yn monitro yr hyn y mae'r byrddau iechyd yn ei wneud, fel y mae'r Gweinidog, o ddydd i ddydd, a'n nod yw cryfhau'r arolygiaeth gofal iechyd pan fo angen gwneud hynny. Nid yw hynny'n golygu bod sefyllfa debyg i Ganolbarth Swydd Stafford yng Nghymru. Ni allwch ddweud bod un yn deillio o'r llall.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:47

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am not for one second implying that there is a Mid Staffs situation happening in the NHS, but I think that the people of Wales would be happier if we could be sure that we have the right systems and procedures in place to spot a crisis like Mid Staffs before it is too late. HIW says that it should be visiting every community hospital once every three years; in fact, it is doing it only once every five years. It says that it should be in our district general hospitals once every year, and our biggest hospitals more than that, but it can only get around them at a rate of one in every three years. Is it not time for the Welsh Government to take action to ensure that this body has a proper statutory, independent setting at arm's length from Government and is resourced, has the personnel and is managed to carry out the kind of inspection routine that it would like to so that it can be the critical friend that the Welsh NHS and the Welsh public need?

Brif Weinidog, nid wyf am eiliad yn awgrymu bod sefyllfa debyg i'r un yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn digwydd yn y GIG, ond rwy'n meddwl y byddai pobl Cymru yn hapusach pe gallem fod yn siŵr bod y systemau a'r gweithdrefnau cywir gennym ar waith i nodi argyfwng fel yr un yng Nghanolbarth Swydd Stafford cyn ei bod yn rhy hwyr. Dywed AGIC y dylai fod yn ymweld â phob ysbyty cymunedol unwaith bob tair blynedd; mewn gwirionedd, dim ond unwaith bob pum mlynedd mae'n gwneud hynny. Mae'n dweud y dylai fod yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth unwaith bob blwyddyn, ac yn ein hysbytai mwyaf yn amlach na hynny, ond dim ond ar gyfradd o unwaith bob tair blynedd y mae'n gallu ymweld â nhw. Onid yw'n bryd i Lywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod gan y corff hwn leoliad statudol, annibynnol priodol ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth a bod ganddo'r adnoddau, y personél a'i fod yn cael ei reoli i gyflawni'r fath o drefn arolygu y byddai'n ei dymuno, er mwyn iddo allu bod y cyfaill beirniadol sydd ei angen ar y GIG yng Nghymru a'r cyhoedd yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:48

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That has been done, as I said. Did you see the subtle change of emphasis there in the third question from the first one? That is exactly what the leader of the Welsh Lib Dems said; she did insinuate that there was a Mid Staffs crisis waiting in the Welsh health service. It is no good using weasel words later on and saying, 'I didn't mean to say that.' That is exactly what you said. Stand by what you mean or, otherwise, withdraw that suggestion. As I have said, the Minister for health is looking at Healthcare Inspectorate Wales and he is looking at ways to strengthen the healthcare inspectorate. There is no suggestion in Wales that there is a Mid Staffs-style situation, regardless of what the Lib Dems say.

Mae hynny wedi ei wneud, fel y dywedais. A welsoch chi'r newid cynnil i'r pwyslais yn y trydydd cwestiwn o'i gymharu â'r un cyntaf? Dyna'n union ddywedodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru; awgrymodd bod argyfwng tebyg i'r un yng Nghanolbarth Swydd Stafford ar fin digwydd yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Nid oes diben defnyddio geiriau amwys yn nes ymlaen gan ddweud, 'Doeddwn i ddim yn bwriadu dweud hynny.' Dyna'n union beth ddywedasochn chi. Cadarnhewch yr hyn yr ydych chi'n ei olygu, neu, fel arall, tynnwch yr awgrym hwnnw yn ôl. Fel yr wyf wedi ei ddweud, mae'r Gweinidog iechyd yn edrych ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac mae'n edrych ar ffyrdd i gryfhau'r arolygiaeth gofal iechyd. Nid oes unrhyw awgrym yng Nghymru fod sefyllfa debyg i'r un yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn bodoli, waeth beth mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:49 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Presiding Officer, may I clarify that? What I said was that on 26 February, I asked you whether you would know whether there was a scandal. That is what I said. You can check the Record. I did not say that there was; I asked you whether you would know, and it is clear, First Minister, that you would have no idea.

Lywydd, a gaf i egluro hynny? Yr hyn a ddywedais oedd fy mod wedi gofyn i chi ar 26 Chwefror pa un a fydddech chi'n gwybod a oedd sgandal ai peidio. Dyna ddywedais i. Gallwch chi edrych yn y Cofnod. Ni ddywedais fod sefyllfa o'r fath yn bodoli; gofyn i chi a fydddech chi'n gwybod wnes i, ac mae'n amlwg, Brif Weinidog, na fyddai gennych chi unrhyw syniad.

13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
That is the fourth question. Once again, I say to her: do not insinuate that there is a Mid Staffs-style crisis— [Interruption.]—in the Welsh health service. That is what you did. Do not pretend that that is not what you are trying to suggest, because it is.

Dyna'r pedwerydd cwestiwn. Unwaith eto, rwy'n dweud wrthi: peidiwch ag awgrymu bod argyfwng tebyg i Ganolbarth Swydd Stafford— [Torri ar draws.] —yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dyna'r hyn a wnaethoch chi. Peidiwch ag esgus nad dyna yr ydych chi'n ceisio ei awgrymu, oherwydd dyna yr ydych chi'n ei wneud.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I gave you your opportunity. Please do not speak when you are sitting down.

Rhoddais eich cyfle i chi. Peidiwch â siarad pan eich bod yn eistedd i lawr, os gwelwch yn dda.

Have you finished, First Minister?

A ydych chi wedi gorffen, Brif Weinidog?

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I have answered the fourth question.

Rwyf wedi ateb y pedwerydd cwestiwn.

## Cyd-bwyllgor Gweinidogion

## Joint Ministerial Committee

13:50 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*3. Pa sylwadau a wnaeth y Prif Weinidog yng nghyfarfod diweddar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion? OAQ(4)1325(FM)*

*3. What representations did the First Minister make at the recent Joint Ministerial Committee meeting? OAQ(4)1325(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I made many representations on a number of issues, including representations on part 1 of the Silk commission; the issue of the bedroom tax, at length; the issue of what is described as a health levy on those who wish to obtain visas to enter the UK; and, of course, on the state of relations between the different Governments of the UK.

Fe wnes i lawer o sylwadau ar nifer o faterion, gan gynnwys sylwadau ar ran 1 comisiwn Silk; mater y dreth ystafell wely, yn faith; mater yr hyn a ddisgrifir fel ardoll iechyd ar y rhai sy'n dymuno cael fisa i ddod i mewn i'r DU; ac, wrth gwrs, ar gyflwr y berthynas rhwng gwahanol Lywodraethau y DU.

13:50 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, First Minister. I am delighted to hear that you raised the issue of the bedroom tax with the Prime Minister. Will you tell us what he said in defence of this spiteful policy?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Rwy'n falch iawn o glywed eich bod wedi codi mater y dreth ystafell wely gyda Phrif Weinidog y DU. A wnech chi ddweud wrthym yr hyn a ddywedodd i amddiffyn y polisi sbeityld hwn?

13:50

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He had no defence. I said to him that we had a situation in Wales where people would potentially be evicted because the number of one-bedroomed houses and one-bedroomed accommodation was not available to the extent that it should be, and that we had people in rural Wales who would have to leave the villages where they had lived all of their lives, moving further away from their place of employment, quite often—up to 50 miles, according to the Welsh Local Government Association—purely because they have to move to towns and away from the villages where they have lived all of their lives. He had no answer to it. The only answer that I was given was that, in some cities, there is plenty of accommodation. However, that does not exist in Wales. It never did exist in Wales. For the Tories and Lib Dems to say that this is the Labour Party's fault—it was they who introduced this policy in April, and they are now saying that not enough houses have been built between April and October. It is pathetic. At least the Prime Minister did not run away and try to blame other parties. He stood up for a policy that he believed in, no matter how flawed it was, unlike the Welsh Tories who, when people are evicted because of a policy that they themselves supported, will say to those people who have been evicted, 'Yeah, sorry about the bedroom tax; it is the Labour Party's fault'. I have never heard anything quite so pathetic; I have never heard any party run away so quickly from a policy that its members themselves purport to support. In answer to the question: I am afraid that I raised this issue strongly, but received no satisfactory answer.

Nid oedd ganddo unrhyw amddiffyniad. Dywedais wrtho fod gennym sefyllfa yng Nghymru lle y byddai pobl o bosibl yn cael eu troi allan oherwydd nad yw nifer y tai un ystafell wely a'r llety un ystafell wely ar gael i'r graddau y dylent fod, a bod gennym bobl yng Nghymru wedig a fyddai'n gorfod gadael y pentrefi lle maen nhw wedi byw gydol eu hoes, gan symud ymhellach oddi wrth eu gweithleoedd, yn aml—hyd at 50 milltir, yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—dim ond oherwydd bod yn rhaid iddynt symud i drefi ac i ffwrdd o'r pentrefi lle maen nhw wedi byw gydol eu hoes. Nid oedd ganddo ateb. Yr unig ateb a gefais oedd bod digon o lety mewn rhai dinasoedd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n bodoli yng Nghymru. Nid oedd erioed yn bodoli yng Nghymru. I'r Torïaidd a'r Democratiaidd Rhyddfrydol ddweud mai bai'r Blaid Lafur yw hyn—nhw gyflwynodd y polisi hwn ym mis Ebrill, ac maen nhw bellach yn dweud nad oes digon o dai wedi cael eu hadeiladu rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Mae'n druenus. Ni wnaeth Prif Weinidog y DU redeg i ffwrdd a cheisio rhoi'r bai ar bartion eraill o leiaf. Safodd i fyny dros bolisi y mae'n credu ynnddo, waeth pa mor ddiffygiol yw e, yn wahanol i Doriaid Cymru a fydd, pan fydd pobl yn cael eu troi allan oherwydd polisi a gefnogwyd ganddyn nhw eu hunain, yn dweud wrth y bobl hynny sydd wedi cael eu troi allan, 'Ie, mae'n ddrwg gennym ni am y dreth ystafell wely: y Blaid Lafur sydd ar fai'. Nid wyf erioed wedi clywed unrhyw beth mor druenus; nid wyf erioed wedi clywed unrhyw blaid yn rhedeg i ffwrdd mor gyflym oddi wrth bolisi y mae ei haelodau eu hunain yn dweud eu bod yn ei gefnogi. I ateb y cwestiwn: mae gen i ofn fy mod wedi codi'r mater hwn yn gryf, ond ni dderbyniais unrhyw ateb boddhaol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Did the First Minister have any opportunities to raise at the JMC the issue about what would happen to the Severn bridge tolls at the end of the contract?

A gafodd y Prif Weinidog unrhyw gyfleoedd i godi yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion y mater ynglŷn â beth fyddai'n digwydd i dollau pont Hafren ar ddiwedd y contract?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Not at the JMC, but this is an issue that is an issue of regular dialogue between us and the Department for Transport. Our position is clear: we would wish to see the tolls being controlled from Wales. The last thing that we would want to see is the tolls being set by, and controlled by, a department based in Whitehall for a bridge that is a vital artery into south Wales.

Nid yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, ond mae hwn yn fater sy'n destun deialog rheolaidd rhyngom ni a'r Adran Drafnidiaeth. Mae ein safbwynt yn eglur: byddem yn dymuno gweld y tollau'n cael eu rheoli o Gymru. Y peth olaf y byddem ni eisiau ei weld yw'r tollau'n cael eu pennu gan, ac yn cael eu rheoli gan, adran wedi ei lleoli yn Whitehall ar gyfer pont sy'n wythïen hollbwysig i mewn i dde Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, at the joint ministerial committee, obviously all of the representatives from across the UK come together and can look at the assets of the UK. We have seen the horrendous scenes coming from the Philippines, with the typhoon and the damage that it has inflicted. Are you aware of any mechanisms that that committee can enact that can pull some of the emergency assets from around the UK? I presume that Wales will play its part in supporting some of the communities in the Philippines on the doorsteps of which the typhoon has wreaked devastation.

Brif Weinidog, yn y cydbwyllgor gweinidogion, mae'n amlwg bod yr holl gynrychiolwyr o bob rhan o'r DU ddod at ei gilydd ac y gallant edrych ar asedau'r DU. Rydym ni wedi gweld y golygfeydd erchyll sy'n dod o Ynysoedd y Philipinau, gyda'r teiffŵn a'r difrod y mae wedi ei achosi. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddulliau y gall y pwyllgor hwnnw eu rhoi ar waith a allai dynnu rhai o'r asedau brys o bob cwr o'r DU? Rwy'n cymryd y bydd Cymru yn chwarae ei rhan i gefnogi rhai o'r cymunedau yn Ynysoedd y Philipinau y mae'r teiffŵn wedi gwneud cymaint o ddifrod ar garreg eu drws.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Not via the JMC. We have all been appalled by the scenes that have been witnessed and experienced by people in the Philippines. I welcome the commitment that was given by the UK Government to contribute £10 million, I think, to the disaster emergency fund. I have also urged people in Wales to contribute to help their fellow human beings in the Philippines, but the JMC is not really the body where that kind of discussion takes place, bearing in mind also, of course, that the JMC took place before the typhoon actually occurred in the Philippines. However, there are other ways in which we work together in the UK to provide not just financial resources, but also expertise, which has been provided in the past, of course, by the Mid and West Wales Fire and Rescue Service to countries that need that expertise.

Nid drwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Mae'r golygfeydd a welwyd ac a ddiodefwyd gan bobl yn Ynysoedd y Philipinau wedi dychryn pob un ohonom. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad a roddwyd gan Lywodraeth y DU i gyfrannu £10 miliwn, rwy'n meddwl, i gronfa argyfwng y trychineb. Rwyf hefyd wedi annog pobl yng Nghymru i gyfrannu i helpu eu cyd-ddyn yn Ynysoedd y Philipinau, ond, a dweud y gwir, nid y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yw'r corff lle y cynhelir trafodaeth o'r fath, gan gofio hefyd, wrth gwrs, y cynhaliwyd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion cyn i'r teiffŵn ddiwydd yn Ynysoedd y Philipinau. Fodd bynnag, ceir ffyrdd eraill yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd yn y DU i ddarparu nid yn unig adnoddau ariannol, ond arbenigedd hefyd, sydd wedi cael ei ddarparu yn y gorffennol, wrth gwrs, gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i wledydd sydd angen yr arbenigedd hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you will be aware today that the Tories and the Lib Dems will be voting to keep the bedroom tax. In that meeting, did the Prime Minister make any comments on the report of the Welsh Affairs Committee, and the comment made, particularly by David Davies, Member of Parliament, the chair of that committee, that the bedroom tax is not working?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol heddiw y bydd y Torïaid a'r Democratïaid Rhyddfrydol yn pleidleisio i gadw'r dreth ystafell wely. Yn y cyfarfod hwnnw, a wnaeth Prif Weinidog y Du unrhyw sylwadau ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, a'r sylw a wnaed yn benodol gan David Davies, Aelod Seneddol, cadeirydd y pwyllgor hwnnw, nad yw'r dreth ystafell wely yn gweithio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that I have described what the Prime Minister said. He approaches this issue on the basis that there is plenty of accommodation of all sizes out there. That was a particularly metropolitan and London-centric view of the way in which accommodation is provided. The reality, as we know, is that this is a spiteful policy supported by the Tories and the Lib Dems, aimed at the low-paid, which will force people, quite often, to move further away from where they work and lead to people being evicted through no fault of their own. However, at the same time, they fail to defend that policy in the media. That shows how much of a mess the Welsh Conservatives are in.

Rwy'n credu fy mod wedi disgrifio yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU. Mae'n ymdrin â'r mater hwn ar y sail bod digon o lety o bob maint ar gael. Roedd honno'n farn arbennig o fetropolitan, wedi ei seilio ar Lundain, o'r ffordd y darperir llety. Y gwirionedd, fel y gwyddom, yw bod hwn yn bolisi sbeityd a gefnogir gan y Torïaid a'r Democratïaid Rhyddfrydol, sydd wedi ei anelu at y rhai ar gyflogau isel, a fydd yn gorfodi pobl, yn aml iawn, i symud ymhellach i ffwrdd o'u gweithleoedd ac yn arwain at bobl yn cael eu troi allan heb fod unrhyw fai arny'n nhw eu hunain. Fodd bynnag, ar yr un pryd, maen nhw'n methu ag amddiffyn y polisi hwnnw yn y cyfryngau. Mae hynny'n dangos faint o lanast mae Ceidwadwyr Cymru ynddo.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

## Hywel Dda Local Health Board

13:55

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ohirio rhai llawdriniaethau orthopedig yn ystod y gaeaf hwn? OAQ(4)1323(FM)*

*4. Will the Minister make a statement regarding the plans proposed by Hywel Dda Health Board to delay some orthopaedic surgery this coming winter? OAQ(4)1323(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The health board is exploring proposals to ensure that it is prepared to meet the anticipated increase in unscheduled care demand over the winter. One option involves a temporary reduction in some planned orthopaedic activity.

Gwnaf. Mae'r bwrdd iechyd yn archwilio cynigion i sicrhau ei fod yn barod i ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am ofal heb ei drefnu yn ystod y gaeaf. Mae un opsiwn yn golygu gostyngiad dros dro i rywffaint o'r gweithgarwch orthopedig a drefnwyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That one option has not been relayed to send people in my constituency. Before the recess, you and the Minister for health were prepared to back the process that Hywel Dda had taken—the Minister for health even went as far as to commend the health board on how it had consulted and engaged on the options it had put forward. Now, I have been made aware by general practitioners in the Machynlleth area that they knew nothing about the health board's plans, other than from local media after the event. To date, they have still not been contacted by the health board. On wider investigation, it appears that GPs in Powys have not been informed. Therefore, I ask whether you think it acceptable that Hywel Dda Local Health Board has failed to consult or inform beyond its area, ignoring GPs and stakeholders in Powys, and are you still prepared to back its handling of the process?

Nid yw'r un opsiwn hwnnw wedi cael ei gyfleu i bobl yn fy etholaeth i. Cyn y toriad, roeddech chi a'r Gweinidog iechyd yn barod i gefnogi'r broses yr oedd Hywel Dda wedi ei dilyn—roedd y Gweinidog iechyd hyd yn oed yn barod i ganmol y bwrdd iechyd ar sut yr oedd wedi ymgynghori ac ymgysylltu ar y dewisiadau yr oedd wedi eu cyflwyno. Bellach, rwyf wedi cael fy hysbysu gan feddygon teulu yn ardal Machynlleth nad oeddent yn gwybod dim am gynlluniau'r bwrdd iechyd, ac eithrio gan gyfryngau lleol ar ôl y digwyddiad. Hyd yn hyn, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod heb gysylltu â nhw. Ar ôl ymchwilio'n ehangach, mae'n ymddangos nad oedd meddygon teulu ym Mhowys wedi cael eu hysbysu. Felly, rwy'n gofyn a ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi methu ag ymgynghori na hysbysu y tu hwnt i'w ardal, gan anwybyddu meddygon teulu a rhanddeiliaid ym Mhowys, ac a ydych chi'n dal yn barod i gefnogi'r ffordd y mae wedi ymdrin â'r broses?

13:56

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, yes; these plans are important. I think these plans are now well known. It is very important that I should re-emphasise that clear and unequivocal instructions have been issued by the chief executive, the medical director and the operations director that no operations currently booked as part of this initiative are to be cancelled. Also, I am assured that all cancer, urgent trauma and orthopaedic day surgery would continue during this period if this option is adopted. I think that it is important to put that on the record.

Wel, ydw; mae'r cynlluniau hyn yn bwysig. Rwy'n credu bod y cynlluniau hyn yn hysbys iawn bellach. Mae'n bwysig iawn i mi ail-bwysleisio bod cyfarwyddiadau eglur a diamwys wedi eu cyhoeddi gan y prif weithredwr, y cyfarwyddwr meddygol a'r cyfarwyddwr gweithrediadau na ddylid canslo unrhyw lawdriniaethau a drefnwyd eisoes yn rhan o'r fenter hon. Hefyd, fe'm sicrhawyd y byddai pob llawdriniaeth canser, trawma brys a llawfeddygaeth ddydd orthopedig yn parhau yn ystod y cyfnod hwn os mabwysiadir yr opsiwn hwn. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig rhoi hynny ar y cofnod.

13:56

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, o ran eich ateb i Rhodri Glyn Thomas ynghynt, fe soniodd Rhodri Glyn Thomas am etholwr iddo gafodd lythyr yn gohirio apwyntiad 'pre-med'. Mae dau o'm hetholwyr i wedi troi i fyny yn yr ysbty am eu hapwyntiadau 'pre-med'—un ym Mronglais, a'r llall yng Nglangwili—dim ond iddynt gael y 'surgeon' yn dweud wrthynt fod eu hapwyntiadau 'pre-med', yn ogystal â'u llawdriniaeth, wedi cael eu gohirio tan fis Ebrill. Nid yw hynny'n swnio i mi fel ymgynghoriad a 'business as usual' yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda. A wnewch chi felly fynd yn ôl at fwrdd iechyd Hywel Dda? Mae'n amlwg bod y bwrdd wedi cyfathrebu â chi eisoes, ond mae'r realiti ar lawr gwlad yn wahanol iawn i'r hyn yr ydych yn ei ddweud o safbwynt fy etholwyr i. A ewch chi yn ôl at fwrdd iechyd Hywel Dda a gofyn faint o lawdriniaethau y mae'n eu gwneud ar hyn o bryd yn y cyfnod hwn o ymgynghoriad, a hefyd sawl llythyr ynghylch apwyntiadau 'pre-med' y mae yn eu danfon at gleifion yn Nyfed a Phowys?

First Minister, in terms of your response to Rhodri Glyn Thomas earlier, Rhodri Glyn Thomas mentioned a constituent who had received a letter cancelling a pre-med appointment. Two constituents of mine have turned up to hospital for their pre-med appointments—one in Bronglais and the other in Glangwili—only to have their surgeon tell them that their pre-med, as well as their operation, has been delayed until April. That does not sound to me like a consultation or business as usual in the Hywel Dda health board area. Therefore, will you return to the Hywel Dda health board? The board has clearly been in touch with you already, but the reality on the ground is very different to what you say in respect of the situation of my constituents. Will you return to Hywel Dda health board and ask it how much surgery it is carrying out at present during this consultation period, and also how many letters regarding pre-med appointments it is sending out to patients in Dyfed and Powys?

13:57

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Heb dystiolaeth, mae'n anodd ateb y cwestiwn. Nid wyf wedi gweld y llythron, ac nid wyf wedi gweld y dystiolaeth oddi wrth eich etholwyr. Byddwn yn gofyn pa 'surgeon' a ddywedodd hynny, rhaid imi ddweud. Mae hynny'n bwysig dros ben er mwyn i ni sicrhau bod y meddygon eu hunain yn gwybod beth yn gymwys yw'r sefyllfa. Felly, os oes ffordd o roi mwy o dystiolaeth i ni fel Llywodraeth, byddwn yn barod i ystyried y sefyllfa. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn gweld y dystiolaeth honno.

Without evidence, it is difficult to answer the question. I have not seen the letters, and I have not seen the evidence from your constituents. I have to say that I would ask which surgeon said that. That is very important in order for us to ensure that doctors themselves know exactly what the situation is. Therefore, if there is a way to provide more evidence to us as a Government, we would be prepared to consider the situation. It is very important that we see that evidence.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cynhyrchu Jammie Dodgers**

**The Production of Jammie Dodgers**

13:58

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith o gynhyrchu Jammie Dodgers yn aros yng Nghymru? OAQ(4)1328(FM)*

*5. Will the First Minister outline Welsh Government actions to ensure the production of Jammie Dodgers remains in Wales? OAQ(4)1328(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that this is the most original question I have ever had at First Minister's questions. Nevertheless, it is an important question, as the Member knows. There is no indication at this stage of any threat to the continued production of Jammie Dodgers, or any other biscuits manufactured at the moment at Llantarnam. We know that Burtons Biscuits has been offered for sale, and we would of course be ready to engage with new owners, should a sale be agreed.

Rwy'n meddwl mai dyma'r cwestiwn mwyaf gwreiddiol yr wyf erioed wedi ei gael yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Serch hynny, mae'n gwestiwn pwysig, fel y mae'r Aelod yn ei wybod. Nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd o unrhyw fygythiad i gynhyrchu parhaus Jammie Dodgers, nac unrhyw fisgedi eraill a gynhyrchir yn Llantarnam ar hyn o bryd. Rydym yn gwybod bod Burtons Biscuits wedi ei roi ar werth, a byddem wrth gwrs yn barod i ymgysylltu gyda pherchnogion newydd, pe byddai'n cael ei werthu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am most grateful to the First Minister for seeing behind my question. It is not a question about a popular item of confectionery, but, of course, about Burtons Biscuits in Llantarnam. The firm has been there since 1937, and it employs over 800 people. This profitable company has seen steady growth for many years, and it is a company with a long and established record of equal pay and equal opportunities. I would ask the First Minister that should his officials be engaged by potential buyers, they should retain this very important company in Llantarnam.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am weld y sail i'm cwestiwn. Nid yw'n gwestiwn am felysyn poblogaidd, ond, wrth gwrs, am Burtons Biscuits yn Llantarnam. Mae'r cwmni wedi bod yno ers 1937, ac mae'n cyflogi dros 800 o bobl. Mae'r cwmni proffidiol hwn wedi gweld twf cyson am flynyddoedd lawer, ac mae'n gwmni sydd â hanes maith a sefydledig o gyflog cyfartal a chyfle cyfartal. Byddwn yn gofyn i'r Prif Weinidog, pe byddai darpar brynwyr yn ymgysylltu â'i swyddogion, y dylent gadw'r cwmni hynod bwysig hwn yn Llantarnam.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that the Member and I are at one on this matter. It is obviously a time of uncertainty when any manufacturing facility is offered for sale. We will of course be monitoring the situation closely, to make sure that a new buyer is found, and one who wishes to continue production as it is and, hopefully, to expand in the future.

Rwy'n meddwl bod yr Aelod a minnau yn gytûn ar y mater hwn. Mae'n amlwg yn gyfnod o ansicrwydd pan fydd unrhyw gyfleuster gweithgynhyrchu yn cael ei roi ar werth. Wrth gwrs, byddwn yn monitro'r sefyllfa yn ofalus, er mwyn sicrhau ein bod yn dod o hyd i brynwr newydd, a hwnnw'n un sy'n dymuno parhau i gynhyrchu fel ag y mae, a gobeithio, ehangu yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I know that you are well aware of the importance of Burtons as a key employer in my constituency, and that you are aware that Paul Murphy and I, together with trade union colleagues, visited the factory earlier this year to see the £6 million investment that is taking place to modernise production there. Clearly, the fact that the company is up for sale means that there is an element of uncertainty and it is right that we monitor the situation very closely. However, is it not also the case, First Minister, that we must avoid talking down the plant's future, particularly given the large investment that we have seen in recent years?

Brif Weinidog, gwn eich bod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd Burtons fel cyflogwr allweddol yn fy etholaeth i, ac eich bod yn ymwybodol bod Paul Murphy a minnau, ynghyd â chydweithwyr undebau llafur, wedi ymweld â'r ffatri yn gynharach eleni i weld y £6 miliwn o fuddsoddiad sy'n cael ei wneud i foderneiddio cynhyrchu yno. Yn amlwg, mae'r ffaith fod y cwmni ar werth yn golygu bod yna elfen o ansicrwydd ac mae'n iawn ein bod yn monitro'r sefyllfa yn ofalus iawn. Fodd bynnag, onid yw hefyd yn wir, Brif Weinidog, bod yn rhaid i ni osgoi siarad yn negyddol am ddyfodol y ffatri, yn enwedig o ystyried y buddsoddiad helaeth yr ydym ni wedi ei weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Quite so. When somewhere like this is offered for sale, there is a time of uncertainty, but there is no suggestion that the plant is in difficulty, and no suggestion at this very early stage that there might not be a buyer. We have to wait and see. Of course, we as a Government will be encouraging new buyers to come forward, and we will look to do all we can to help them and those who work at the facility itself.

Felly'n wir. Pan fydd rhywle fel hwn yn cael ei roi ar werth, ceir cyfnod o ansicrwydd, ond nid oes unrhyw awgrym bod y ffatri mewn trafferthion, ac nid oes unrhyw awgrym yn cyfnod cynnar iawn hwn efallai na fydd prynwr ar gael. Bydd yn rhaid i ni aros i gael gweld. Wrth gwrs, byddwn ni fel Llywodraeth yn annog prynwyr newydd i ddod ymlaen, a byddwn yn ceisio gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu nhw a'r rhai sy'n gweithio yn y cyfleuster ei hun.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Pwerau Benthycia

## Borrowing Powers

14:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y gallai pwerau benthycia newydd i Lywodraeth Cymru arwain at wella'r A55? OAQ(4)1331(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on how new borrowing powers for the Welsh Government could lead to improvements to the A55? OAQ(4)1331(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I very much welcome the UK Government's commitment to ensure that we have borrowing powers. Those borrowing powers are not dependent on particular projects, nor would we have to bid on each occasion for each project in order to borrow for it. It is important that borrowing powers, over time, benefit the whole of Wales. I am mindful of that because I know that the M4 relief road has been the project most mentioned with regard to borrowing powers, but I am very keen that borrowing powers are used to benefit those who use the A55 as well, and, of course, other major road projects and other transport projects in Wales.

Rwy'n croesawu'n fawr ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau bod gennym bwerau benthycia. Nid yw'r pwerau benthycia hynny yn dibynnu ar brosiectau penodol, ac ni fyddai'n rhaid i ni wneud cais ar bob achlysur ar gyfer pob prosiect er mwyn benthycio ar ei gyfer. Mae'n bwysig bod pwerau benthycia, dros amser, o fudd i Gymru gyfan. Rwy'n ymwybodol o hynny gan fy mod yn gwybod mai ffordd liniaru'r M4 yw'r prosiect y soniwyd amdano fwyaf o ran pwerau benthycia, ond rwy'n awyddus iawn bod pwerau benthycia yn cael eu defnyddio er lles y rhai sy'n defnyddio'r A55 hefyd, ac, wrth gwrs, prosiectau ffyrdd mawr eraill a phrosiectau trafnidiaeth eraill yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:01

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to hear that, First Minister. I know that £17 million has already been budgeted for making improvements. However, anyone who uses what is the main arterial road—leading from Gwynedd, in many ways, to all points past my constituency—will know how just a vehicle breakdown, a lorry breakdown, accidents or incidents can lead to very long closures. They affect not just members of the public, but tourism, business and many other things. May I make a plea that when we look at borrowing powers in the future, further improvements to the A55, along with improvements to integrated transport in north-east Wales, are considered?

Rwy'n falch iawn o glywed hynny, Brif Weinidog. Rwy'n gwybod bod £17 miliwn eisoes wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r brif ffordd wythienol—sy'n arwain o Wynedd, mewn sawl ffordd, i bob pwynt y tu hwnt i'm hetholaeth—yn gwybod sut y gall cyn lleied â cherbyd yn torri i lawr, lori yn torri i lawr, damweiniau neu ddigwyddiadau arwain at gau'r ffordd am amser maith iawn. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar y cyhoedd, ond ar dwristiaeth, busnes a llawer o bethau eraill. A gaf i wneud cais, pan fyddwn yn edrych ar bwerau benthycu yn y dyfodol, bod gwelliannau pellach i'r A55, ynghyd â gwelliannau i drafnidiaeth integredig yn y gogledd-ddwyrain, yn cael eu hystyried?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, the A55 is key to the economy of north Wales. I should mention what has been done in the meantime. I know that the Minister for Economy, Science and Transport has allocated £4.2 million for short-term interventions to improve resilience on the A55 and the A494 corridor. We have looked at safe havens for broken-down vehicles, measures to facilitate the release of traffic in more major incidents, and potential improvements to diversion routes as well, which are important. Since the introduction of a Welsh Government traffic officer service, we have seen a vast improvement in the time taken to deal with breakdowns. With borrowing powers, the intention will be to look at whether there are major projects in the future that would help to facilitate traffic along the A55. However, in the meantime, the Minister has introduced measures to improve traffic flow as we look at what projects might be taken forward in the future.

Ydy, mae'r A55 yn allweddol i economi gogledd Cymru. Dylwn sôn am yr hyn a wnaed yn y cyfamser. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi neilltuo £4.2 miliwn ar gyfer ymyraethau byrdymor i wella gwytnwch ar yr A55 a choridor yr A494. Rydym wedi edrych ar hafanau diogel ar gyfer cerbydau sydd wedi torri i lawr, mesurau i hwyluso'r broses o ryddhau traffig mewn digwyddiadau mwy difrifol, a gwelliannau posibl i lwybrau gwyrto hefyd, sy'n bwysig. Ers cyflwyno gwasanaeth swyddogion traffig Llywodraeth Cymru, rydym ni wedi gweld gwelliant mawr yn yr amser a gymerir i ymdrin ag achosion o dorri i lawr. Gyda phwerau benthycu, y bwriad fydd ystyried a oes prosiectau mawr yn y dyfodol a fyddai'n helpu i hwyluso traffig ar hyd yr A55. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r Gweinidog wedi cyflwyno mesurau i wella llif traffig wrth i ni ystyried pa brosiectau y gellid eu datblygu yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I welcome your commitment to the A55 and your recognition that any borrowing powers that are to be used by the Welsh Government should be used for the whole of Wales and not just certain parts of the country that have traditionally had what many people perceive to be the lion's share of investment. Can you tell us whether your Government is considering the need for hard shoulders on significant parts of the A55 that do not currently have hard shoulders and which can lead to some of the problems that Sandy Mewies identified with regard to traffic congestion at peak times, during the tourist season in particular?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu eich ymrwymiad i'r A55 a'ch cydnabyddiaeth y dylai unrhyw bwerau benthycu sydd i gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru gael eu defnyddio ar gyfer Cymru gyfan ac nid dim ond rhai rhannau o'r wlad y mae llawer o bobl o'r farn sydd wedi derbyn y gyfran fwyaf o fuddsoddiad yn draddodiadol. A allwch chi ddweud wrthym a yw eich Llywodraeth yn ystyried yr angen am leiniau caled ar rannau sylweddol o'r A55 nad oes ganddynt leiniau caled ar hyn o bryd ac sy'n gallu arwain at rai o'r problemau a nodwyd gan Sandy Mewies o ran tagfeydd traffig ar yr adegau prysuraf, yn ystod y tymor twristiaeth yn arbennig?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have already mentioned the plans for safe havens for vehicles. There was a mania for building dual carriageways without hard shoulders in the 1980s, as those who travel the A4232 to and from this building will know—where there is a breakdown, chaos ensues. These things cannot be resolved overnight, but improvements can be made and being able to put safe havens in place to get vehicles out of the way when they have broken down is an important way of making sure that there is improved traffic flow in the future.

Rwyf eisoes wedi sôn am y cynlluniau ar gyfer hafanau diogel i gerbydau. Roedd gorawydd i adeiladu ffyrdd deuol heb leiniau caled yn y 1980au, fel y bydd y rhai sy'n teithio ar yr A4232 i'r adeilad hwn ac oddi yma'n gwybod—pan geir achos o dorri i lawr, mae anhrefn yn dilyn. Ni ellir datrys y pethau hyn dros nos, ond gellir gwneud gwelliannau ac mae gallu sefydlu hafanau diogel i gael cerbydau allan o'r ffordd pan fyddant wedi torri i lawr yn fodd pwysig o sicrhau gwell llif traffig yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:04 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, roeddwn yn falch eich bod wedi crybwyll y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau benthyg i dalu am drydydd croesiad ar draws y Fenai. Mae'n bwysig nad yw pwerau benthyg yn y dyfodol yn cael eu llyncu gan brosiectau mewn un rhan o Gymru. Yn y cyfamser, mae pethau y gellid eu gwneud—fel arwyddion yn annog pobl i ddefnyddio'r ddwy lôn wrth fynd am bont Britannia—ond pa gynlluniau sydd gennych chi fel Llywodraeth i edrych eto ar y syniadau a ddaeth allan o'r astudiaeth ddichonoldeb byrdymor i leddfu traffig ar bont Britannia, gan drïo adfywio rhai o'r syniadau a gafodd eu crybwyll yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I was pleased that you mentioned the possibility of using borrowing powers to pay for a third crossing across the Menai. It is important that borrowing powers in future are not subsumed entirely by projects in one part of Wales. In the meantime, there are things that could be done—such as signs encouraging people to use both lanes in approaching the Britannia bridge—but what plans do you as a Government have to look again at the ideas that emerged from the short-term feasibility study to alleviate traffic on the Britannia bridge, and to regenerate some of the ideas mentioned during the One Wales Government?

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fe wnaif i ofyn i'r Gweinidog i ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â sefyllfa ddiweddaraf pont Britannia. Wrth gwrs, mae'n rhaid inni dderbyn mai un prosiect, yn y pen draw, yw edrych i weld a oes ffordd i ehangu'r pontydd sydd yn, sy'n anodd, wrth gwrs, neu edrych ar bont arall yn y dyfodol. Fodd bynnag, fe wnaif i ofyn i'r Gweinidog i ysgrifennu ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf ac ym mha ffyrdd y gallem sicrhau bod llif y traffig ar bont Britannia, a phont Menai, yn cael ei wella yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I will ask the Minister to write to the Member about the current situation as regards Britannia bridge. Of course, we have to accept that one project, ultimately, will be to look at whether we can expand the bridges that are there, which would be difficult of course, or to look at another bridge in the future. However, I will ask the Minister to write to the Member about the latest position and about the ways in which we can ensure that traffic flows on the Britannia and Menai bridges are improved in the future.

14:05 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Problems on the A55 obviously cause huge congestion problems across north Wales, but residents in areas such as Splott, Tremorfa and Rumney suffer congestion problems on a daily basis because of a lack of direct access to the M4 from the east of Cardiff. Will the First Minister undertake that if borrowing powers are used to fund any new road building or improvements in Wales, the missing section of the eastern bay link road can be completed as a priority?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae problemau ar yr A55 yn amlwg yn achosi problemau enfawr o ran tagfeydd ar draws gogledd Cymru, ond mae trigolion mewn ardaloedd fel Sblot, Tremorfa a Thredelerch yn dioddef problemau gyda thagfeydd yn feunyddiol oherwydd diffyg mynediad uniongyrchol at yr M4 o ddwyrain Caerdydd. A wnaiff y Prif Weinidog addo y gellir cwblhau darn coll ffordd gyswllt y bae dwyreiniol fel blaenoriaeth, os defnyddir pwerau benthyca i ariannu unrhyw waith adeiladu ffyrdd newydd neu welliannau yng Nghymru?

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It will not help them get on the A55, which is what the question says, but nevertheless I take the point. It is unfortunate that the access road to link with the eastern end of the A4232 has not yet been built. These are all issues that we are looking at at the moment. It would certainly help people who live in that part of eastern Cardiff to access the M4. Improvements were put in place along Eastern Avenue when the connection was made with the M4 through Cardiff Gate, which certainly improved access from Pontprenhau and St Mellons, but, of course, in time we would hope to be in a position to look at the eastern extension of the A4232 in order to help further.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Ni fydd yn eu helpu nhw i fynd ar yr A55, sef yr hyn y mae'r cwestiwn yn ei ddweud, ond rwy'n derbyn y pwynt serch hynny. Mae'n anffodus nad yw'r ffordd fynediad i gysylltu â phen dwyreiniol yr A4232 wedi ei hadeiladu eto. Mae'r rhain i gyd yn faterion yr ydym ni'n eu hystyried ar hyn o bryd. Byddai'n sicr yn helpu pobl sy'n byw yn y rhan honno o ddwyrain Caerdydd i gael mynediad at yr M4. Gwnaed gwelliannau ar hyd Eastern Avenue pan wnaed y cysylltiad â'r M4 trwy Borth Caerdydd, a wellhaodd mynediad o Bontprenhau a Llaneirwg yn sicr, ond, wrth gwrs, byddem yn gobeithio gydag amser bod mewn sefyllfa i edrych ar yr ymestyniad dwyreiniol yr A4232 er mwyn helpu ymhellach.

## Cyn-weithwyr Remploy

## Former Remploy Workers

14:06 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Grant Cymorth i Gyflogwyr ar gyfer cyn-weithwyr Remploy? OAQ(4)1320(FM)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

7. Will the First Minister make a statement on the Employer Support Grant for former Remploy workers? OAQ(4)1320(FM)

- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
The grant has been extended twice since its launch in July 2012. It supports businesses offering employment to disabled former Remploy staff. So far, the scheme has supported 185 job starts. Recruitment efforts continue for a further 209 employment opportunities approved by the ESG assessment panel.  
Mae'r grant wedi cael ei ymestyn ddwywaith ers ei lansio yn mis Gorffennaf 2012. Mae'n cefnogi busnesau sy'n cynnig cyflogaeth i gyn-aelodau staff anabl Remploy. Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi cefnogi 185 o bobl i ddechrau swyddi. Mae ymdrechion recriwtio yn parhau ar gyfer 209 o gyfleoedd cyflogaeth a gymeradwywyd gan banel asesu'r Grant Cymorth i Gyflogwyr.
- 14:07 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The First Minister will be aware that there has been a successful management-led bid for the Remploy factor in my constituency by eCycle Ltd, which has also benefited from a three-year contract from the Welsh Government. Does he agree with me that the employer support grant is a great demonstration of how we can do things differently in Wales, and that we have taken the lead here in Wales in a way that is the envy of trade unionists working for Remploy in both England and Scotland?  
Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol y bu cais llwyddiannus a arweinwyd gan reolwyr eCycle Cyf am y ffatri Remploy yn fy etholaeth i, sydd hefyd wedi elwa ar gontract tair blynedd gan Lywodraeth Cymru. A yw'n cytuno â mi fod y grant cymorth i gyflogwyr yn enghraifft wych o sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru, a'n bod ar flaen y gad yma yng Nghymru mewn ffordd sy'n destun cenfigen i undebwyr llafur sy'n gweithio i Remploy yn Lloegr ac yn yr Alban?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Indeed we have, and the results speak for themselves. There are occasions, of course, when we have to take action that is forced upon us, and this is an occasion when that action has proven to be very successful indeed. I pay tribute to all those who were involved in setting up the employment support grant, and I am sure that those who benefited from it will see it as another example of the Welsh Government taking action where it is needed.  
Ydym yn wir, ac mae'r canlyniadau yn gwneud hynny'n blaen. Ceir achlysuron, wrth gwrs, pan fo'n rhaid i ni gymryd camau sy'n cael eu gorfodi arnom ni, ac mae hwn yn achlysur pan fo'r camau hynny wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Rwy'n talu teyrnged i bawb a oedd yn rhan o sefydlu'r grant cymorth i gyflogwyr, ac rwy'n siŵr y bydd y rhai a wnaeth elwa ohono yn ei weld fel enghraifft arall o Lywodraeth Cymru yn cymryd camau pan fo angen hynny.
- 14:08 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
In Wrexham, as you will be aware, Enterprising Employment has opened a factory employing former Remploy employees, with the support of the employer support grant, Wrexham council and the Department for Work and Pensions. I have since introduced them to the disability cross-party group here and held a meeting with Flintshire council to look at opportunities for possible contracts there. How, however, can you assist them and others trying to deliver in these areas in terms of the commissioning of those services? You might be aware that, in Wrexham, problems have arisen with the scale of the contract promised because of commissioning limitations. Flintshire wants to support the factory, but, again, there has to be community benefit to enable the council to commission those services from it.  
Yn Wrecsam, fel y byddwch yn ymwybodol, Mae Enterprising Employment wedi agor ffatri sy'n cyflogi cyn-weithwyr Remploy, gyda chefnogaeth y grant cymorth i gyflogwyr, cyngor Wrecsam a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ers hynny, rwyf wedi eu cyflwyno i'r grŵp anabledd trawsbleidiol yma ac wedi cynnal cyfarfod gyda chyngor Sir y Fflint i edrych ar gyfleoedd ar gyfer contractau posibl yno. Sut, fodd bynnag, allwch chi eu cynorthwyo nhw ac eraill sy'n ceisio darparu yn yr ardaloedd hyn o ran comisiynu'r gwasanaethau hynny? Efallai y byddwch yn ymwybodol, yn Wrecsam, bod problemau wedi codi gyda maint y contract a addawyd oherwydd cyfyngiadau comisiynu. Mae Sir y Fflint eisiau cefnogi'r ffatri, ond, unwaith eto, mae'n rhaid bod budd cymunedol er mwyn galluogi'r cyngor i gomisiynu'r gwasanaethau hynny ganddi.
- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
It is difficult for me to discuss ongoing issues because of commercial confidentiality, but our intention as a Government has always been to look to provide as many job opportunities and employment opportunities as possible to those who no longer have employment because of the UK Government's closure of the Remploy factories.  
Mae'n anodd i mi i drafod materion sy'n dal i fynd rhagddynt oherwydd cyfrinachedd masnachol, ond ein bwriad fel Llywodraeth erioed fu ceisio darparu cymaint o gyfleoedd am swyddi a chyfleoedd cyflogaeth â phosibl i'r rhai nad oes ganddynt gyflogaeth bellach oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi cau ffatrioedd Remploy.

14:09 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, wedi siarad â rhai o weithwyr presennol Remploy, maent yn dweud bod rhai o'r cyn-weithwyr a ddiswyddwyd mor bell yn ôl â 2008 yn dal i fod heb swyddi. Pa asesiad yr ydych wedi ei wneud fel Llywodraeth o effaith hirdymor cau ffatrioedd Remploy, a ddechreuodd o dan Lywodraeth Llafur ond sy'n parhau yn awr? Pa newid y mae'r asesiad hwnnw wedi ei wneud i bolisi'r Llywodraeth tuag at gefnogi'r garfan hon o bobl? Os nad oes ffatrioedd ar gael, a oes rhywbeth pellach y gellid ei wneud i sicrhau bod gwaith ar gael i bobl a oedd yn arfer gweithio yn ffatrioedd Remploy?

First Minister, in speaking to some of the current Remploy workforce, I heard that some of their former colleagues who lost their jobs as far back as 2008 still have not found employment. What assessment have you made as a Government of the long-term impact of the closure of the Remploy factories, which started under a Labour Government and which continue now? How has that assessment led to a change to Government policy on supporting this group of people? If the factories are not available, is there anything more that we can do to ensure that there is work available to those people who used to work in Remploy factories?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n credu bod y system o grantiau wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Mae'n wir dweud nad pawb sydd wedi cael cyflogaeth ar ôl cau ffatrioedd Remploy, ond wrth gofio'r ffaith nad yw hyn yn rhywbeth sydd wedi ei ddatganoli, rydym wedi dod â system i rym beth bynnag sydd wedi rhoi cyfle i bobl gael cyflogaeth. Wrth gwrs, y broblem sydd gan lawer o'r rhai a oedd yn gweithio i Remploy yw ei bod yn anodd iddynt ffeindio gwaith mewn lleoedd eraill—ta beth y dywedwn ynglŷn â sicrhau bod yn rhaid i gyflogwyr eu hystyried yn ôl eu record gwaith, rydym i gyd yn gwybod ym mha ffyrdd y mae'r bobl hyn yn cael eu trin.

I think that the grant system has been very successful. It is true to say that not everyone has found employment following the closure of the Remploy factories, but, bearing in mind that this is not a devolved issue, we have nevertheless put in place a system that has brought employment opportunities. Of course, the problem that many former Remploy employees have is that they find it difficult to find work elsewhere—regardless of what we say about ensuring that employers have to assess them on their employment record, we all know how these people are treated.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Un o'r pethau a gafodd ei ddweud wrthyf ym Mhen-y-bont oedd bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu cael cyflogaeth yno, ond yr ofn yr oedd ganddynt oedd, o achos eu record feddygol, y byddai'n anodd iddynt ffeindio cyflogaeth yn rhywle arall. Roedd y pwynt hwn yn un a wnaethom i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond nid oedd yn ei dderbyn. Ta beth, rydym yn gwybod bod sawl un wedi cael lles o achos y cynllun grantiau a roddwyd yn ei le gennym. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn dal i barhau er mwyn sicrhau bod gwaith gan bawb yn y dyfodol.

One of the things I heard from people in Bridgend is that they felt that they could gain employment there, but their fear was that, because of their medical record, they would find it difficult to find employment elsewhere. That was a point that we made to the United Kingdom Government and which it rejected. However, we know that several people have benefited from the grant scheme that we have introduced, but, of course, work is ongoing to ensure that everyone finds employment in the future.

## Cyflog Cyfartal

## Equal Pay

14:11 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed i sicrhau cyflog cyfartal yng Nghymru? OAQ(4)1319(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on progress towards achieving equal pay in Wales? OAQ(4)1319(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are wholly committed to improving equality of opportunity for women in the workplace. There is a long way to go on achieving equal pay for women, or parity between women and men, but this remains a priority that is reflected within our Welsh specific equality duties and our strategic equality plan objectives.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wella cyfle cyfartal i fenywod yn y gweithle. Mae llawer iawn i'w wneud i sicrhau cyflog cyfartal i fenywod, neu gydraddoldeb rhwng menywod a dynion, ond mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth sy'n cael ei hadlewyrchu yn ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru ac yn amcanion ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:11

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I want to pay tribute to the Welsh Government—particularly the current Minister for Local Government, Lesley Griffiths, and the previous Ministers, Carl Sargeant and Brian Gibbons—for its work with local authorities to correct the gender pay gap. Last Thursday, I held an event here in the Senedd to highlight the fact that women who are working, who do not have the advantage of the equal pay scheme, will, in effect, work from 7 November to 31 December for no pay whatsoever, the gender gap being so big. This is particularly true of the private health sector, where a gap of some 37% exists.

First Minister, I know that you agree that men and women should be paid exactly the same amount for doing the same job, so it is a case of equal pay for equal worth. What further recommendations can you make to the private sector to ensure that women who work are paid the same as their male colleagues?

Diolch yn fawr iawn. Hoffwn dalu teyrnged i Lywodraeth Cymru—yn enwedig y Gweinidog Llywodraeth Leol presennol, Lesley Griffiths, a'r Gweinidogion blaenorol, Carl Sargeant a Brian Gibbons—am ei gwaith gydag awdurdodau lleol i gywiro'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Ddydd lau diwethaf, cynhaliais ddiwyddiad yma yn y Senedd i dynnu sylw at y ffaith y bydd menywod sy'n gweithio, nad oes ganddynt fantais y cynllun cyflog cyfartal, yn gweithio o 7 Tachwedd i 31 Rhagfyr am ddim cyflog o gwbl i bob pwrpas, gan fod y bwllch rhwng y rhywiau mor fawr. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector iechyd preifat, lle ceir bwllch o tua 37%.

Brif Weinidog, gwn eich bod yn cytuno y dylai dynion a menywod gael eu talu yn union yr un faint am wneud yr un gwaith, felly mae'n achos o gyflog cyfartal am werth cyfartal. Pa argymhellion pellach allwch chi eu gwneud i'r sector preifat i sicrhau bod menywod sy'n gweithio yn cael eu talu yr un faint â'u cydweithwyr gwrywaidd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Objective 2 of our strategic equality plan sets out what we are doing to tackle gender stereotyping and to address occupational segregation, as well as to provide support to enable women to access the careers of their choice. I cannot pretend that this is easy to resolve, and we know that because, despite a number of items of legislation over the years, the problem still remains. If anything, the problem might well get worse in future. However, working with partners, including those in the private sector, we are continuing to take concerted action to address the gender pay gap. We will, of course, urge the UK Government to do the same.

Mae Amcan 2 ein cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi'r hyn yr ydym ni'n ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio rhywiol ac i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol, yn ogystal â darparu cefnogaeth i alluogi menywod i gael mynediad at y gyrfaedd o'u dewis. Ni allaf honni bod hyn yn hawdd i'w ddatrys, a gwyddom hynny oherwydd, er gwaethaf nifer o eitemau o ddeddfwriaeth dros y blynyddoedd, mae'r broblem yn dal i fodoli. Os rhywbeth, gallai'r broblem waethygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y rheini yn y sector preifat, rydym yn parhau i gymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn, wrth gwrs, yn annog Llywodraeth y DU i wneud yr un fath.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Westminster Government recently held a consultation on the use of equal-pay audits to identify and tackle any pay inequalities that may exist between male and female workers. Will the First Minister advise whether the Welsh Government made a submission to this consultation and whether he supports the introduction of equal-pay audits in Wales?

Cynhaliodd Llywodraeth San Steffan ymgynghoriad yn ddiweddar ar y defnydd o archwiliadau cyflog cyfartal i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau cyflog a allai fodoli rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud a wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r ymgynghoriad hwn ac a yw'n cefnogi cyflwyno archwiliadau cyflog cyfartal yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

From what I caught of that, I was being asked if I support the introduction of equal pay in Wales. The answer to that is clearly 'yes'.

O'r hyn a ddeallais o hynna, mae'n gofyn a wyf yn cefnogi cyflwyno cyflog cyfartal yng Nghymru. Mae'n amlwg mai'r ateb i hynny yw 'ydw'.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I said 'equal-pay audits'.

'Archwiliadau cyflog cyfartal' ddywedais i.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Equal-pay audits—I beg the Member's pardon. Of course, we support anything that ensures that equal pay moves from being an aspiration to a reality. We have, within the UK, perhaps the most robust equal-pay duty, which we introduced under the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011. With regard to public sector employers, there is an obligation on them to report annually if they have more than 150 employees, in terms of identifying what their disparities are in pay and what they will do about them. Clearly, we will work with the UK Government on anything that it would wish to do to narrow the gender gap in pay.

Archwiliadau cyflog cyfartal—ymddiheuraf i'r Aelod. Wrth gwrs, rydym yn cefnogi unrhyw beth sy'n sicrhau bod cyflog cyfartal yn symud o fod yn ddyhead i fod yn wirionedd. Mae gennym ni, yn y DU, y ddyletswydd cyflog cyfartal fwyaf cadarn o bosibl, a gyflwynwyd gennym dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. O ran cyflogwyr y sector cyhoeddus, mae'n ddyletswydd arnynt i adrodd yn flynyddol os oes ganddynt fwy na 150 o weithwyr, o ran nodi beth yw eu gwahaniaethau mewn cyflogau a beth maen nhw'n bwriadu ei wneud yn eu cylch. Yn amlwg, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar unrhyw beth y byddai'n dymuno ei wneud i gau'r bwloch rhwng y rhywiau o ran cyflogau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am very concerned about how equal pay can be sustained and developed in future, especially in local government at the moment. As you will know, in Bridgend, the leader has said recently that he cannot rule out compulsory redundancies. Already, job evaluation has come about, whereby lots of women have suffered due to that process. How can we ensure that women do not suffer disproportionately due to these local government cuts if, for example, they should lose their jobs eventually or lose more of the salary than they deserve? We have to ensure that this is a reality on the ground, and I seek assurances from your Government that you will be doing everything possible to make this so.

Brif Weinidog, rwy'n bryderus iawn ynghylch sut y gellir cynnal a datblygu cyflog cyfartal yn y dyfodol, yn enwedig mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd. Fel y gwyddoch, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r arweinydd wedi dweud yn ddiweddar nad yw'n gallu addo na fydd diswyddiadau gorfodol. Bu proses gwerthuso swyddi eisoes, ac mae llawer o fenywod wedi dioddef o ganlyniad i'r broses honno. Sut allwn ni sicrhau nad yw merched yn dioddef yn anghymesur oherwydd y toriadau hyn mewn llywodraeth leol, pe byddent, er enghraifft, yn colli eu swyddi yn y pen draw, neu'n colli mwy o'r cyflog nag y maen nhw'n haeddu ei gollu? Mae'n rhaid i ni sicrhau mai dyma'r gwirionedd ar lawr gwlad, ac rwy'n gofyn am sicrwydd gan eich Llywodraeth y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We would expect local authorities to be mindful of their statutory duties when it comes to equal pay, as they take what will inevitably be difficult decisions, because of the funding cuts from the UK Government.

Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol wrth ystyried cyflog cyfartal, gan ei bod yn anochel y byddant yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd, oherwydd y toriadau mewn cyllid gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, when considering the issues of equal pay, do you also agree that some of the biggest issues affecting women at the moment are the reduction in terms and conditions and the growth of zero-hour contracts, which have doubled since 2010 and are still increasing, disproportionately affecting women?

Brif Weinidog, wrth ystyried materion cyflog cyfartal, a ydych chi hefyd yn cytuno mai rhai o'r problemau mwyaf sy'n effeithio ar fenywod ar hyn o bryd yw'r gostyngiad i delerau ac amodau a thwf contractau dim oriau, sydd wedi dyblu ers 2010 ac sy'n dal i gynyddu, gan effeithio'n anghymesur ar fenywod?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Although this issue is not within the devolved competence of Welsh Government, clearly zero-hour contracts do pose risks to many employees in Wales, particularly in terms of the impact on the employment of women. We will work closely with the Office for National Statistics in Newport and Cardiff University, through the women adding value to the economy project, to better identify the types of casual contracts and their associated earnings. That will help us to understand the effects of zero-hour contracts. Then, we can look to see what we can do to help and, particularly, what the UK Government can do to help.
- Er nad yw'r mater hwn yn rhan o gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg bod contractau dim oriau yn peri risg i lawer o weithwyr yng Nghymru, yn enwedig o ran yr effaith ar gyflogi menywod. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghasnewydd a Phrifysgol Caerdydd, drwy'r prosiect menywod yn ychwanegu gwerth at yr economi, i nodi'n well y mathau o gontractau achlysurol a'u henllion cysylltiedig. Bydd hynny'n ein helpu i ddeall effeithiau contractau dim oriau. Yna, gallwn edrych i weld beth allwn ni ei wneud i helpu ac, yn arbennig, beth y gall Llywodraeth y DU ei wneud i helpu.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, First Minister. Diolch i chi, Brif Weinidog.
- 14:16 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
**Business Statement and Announcement**  
**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I have one change to report to this week's business. The First Minister will make a statement on the review of neonatal services in north Wales immediately after this business statement.  
Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar yr adolygiad o wasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn.  
Business for the next few weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.  
Mae busnes ar gyfer yr wythnosau nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.
- 14:16 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Good afternoon, Minister. I wonder whether the Minister for Health and Social Services would give serious consideration to conducting a review into the implementation of the independent patient funding requests. Following a recent and rather upsetting case in my region, I have some serious concerns about the consistency of how this national policy is implemented across local health boards in Wales. It would help to relieve a lot of concerns if a review could be conducted, to avoid accusations of inequity in how this policy is being implemented at the moment.  
Prynhawn da, Weinidog. Tybed a fyddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gynnal adolygiad o weithrediad y ceisiadau cyllido cleifion annibynnol. Yn dilyn achos diweddar a braidd yn annifyr yn fy rhanbarth i, mae gennyf rai pryderon difrifol am gysondeb sut y mae'r polisi cenedlaethol hwn yn cael ei weithredu ar draws byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Byddai'n helpu i leddfu llawer o bryderon pe gellid cynnal adolygiad, er mwyn osgoi cyhuddiadau o annhegwch yn y ffordd y mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I know that the Minister for Health and Social Services has done a great deal of work around this, to make sure that there is consistency across Wales. Workshops were held for clinicians who were making these decisions. I am sure that that work is on-going.  
Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud llawer iawn o waith ar hyn, i sicrhau bod cysondeb ar draws Cymru. Cynhaliwyd gweithdai ar gyfer clinigwyr a oedd yn gwneud y penderfyniadau hyn. Rwy'n siŵr bod y gwaith hwnnw yn parhau.

14:17

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could we have a statement on the Strengthening Families programme? I very much welcome the programme, which has been rolled out in several counties—including my own, Rhondda Cynon Taf. This programme enables parents to help their children build skills to avoid problems with alcohol and drugs. While I realise that the results of the programme will be available in March 2014, I would welcome an update, as Wales is currently showing very high levels of binge drinking among young people in comparison with other countries across Europe. We know that almost half of 15 year olds in Wales say that they have been drunk at least twice, compared with around one in five in the Netherlands and Luxembourg. One in eight 15-year-old girls in Wales drinks spirits at least once a week. These statistics are concerning, and I would like an update on this issue.

Weinidog, a allwn ni gael datganiad ar y rhaglen Cryfhau Teuluoedd? Rwy'n croesawu'r rhaglen yn fawr, sydd wedi cael ei chyflwyno mewn nifer o siroedd—gan gynnwys sir fy hun, Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhaglen hon yn galluogi rhieni i helpu eu plant i ddatblygu sgiliau i osgoi problemau gydag alcohol a chyffuriau. Er fy mod yn sylweddoli y bydd canlyniadau'r rhaglen ar gael ym mis Mawrth 2014, byddwn yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf, gan fod Cymru yn dangos lefelau uchel iawn o oryfed mewn pyliau ymhlith pobl ifanc ar hyn o bryd, o'i chymharu â gwledydd eraill ledled Ewrop. Gwyddom fod bron i hanner y bobl ifanc 15 oed yng Nghymru yn dweud eu bod wedi bod yn feddw o leiaf ddwywaith, o'i gymharu â thua un o bob pump yn yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg. Mae un o bob wyth o ferched 15 mlwydd oed yng Nghymru yn yfed gwirodydd o leiaf unwaith yr wythnos. Mae'r ystadegau hyn yn peri pryder, a hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You mentioned that the report would be available in March 2014. I am unsure whether there will be an evaluation before then, but I will speak to the Minister to see whether there is any information that we can share with Members.

Soniasoch y byddai'r adroddiad ar gael ym mis Mawrth 2014. Nid wyf yn siŵr a fydd gwerthusiad cyn hynny, ond byddaf yn siarad â'r Gweinidog i weld a oes unrhyw wybodaeth y gallwn ni ei rhannu gyda'r Aelodau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ofyn i chi sicrhau y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn dod â datganiad buan i'r Senedd hon ynglŷn â'r llifogydd diweddar yng Nglastir? Rydym yn dod lan at flwyddyn cyn bo hir ers yr achlysur. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod Cyngor Sir Ddinbych a'r datblygwyr wedi cytuno i gyfrannu £100,000 yr un tuag at y gwaith sydd angen ei gwblhau ar y safle, ac rydym yn aros i glywed ymateb y Gweinidog. Byddwn yn awyddus i wybod, yn y lle cyntaf, pryd y mae'n bwriadu dod i benderfyniad, ac wedyn y rhesymau dros gyfrannu neu beidio â chyfrannu. Rydym i gyd yn cofio bod cyfraniadau wedi eu gwneud—a hynny yn gywir—mewn mannau eraill, fel Ceredigion ar ôl y llifogydd llynedd.

May I ask you to ensure that the Minister for Natural Resources and Food brings an early statement to this Chamber on the recent flooding in Glastir? It will shortly be the 12-month anniversary of those floods. The Minister will be aware that Denbighshire County Council and the developer have agreed to contribute £100,000 each towards the work that needs to be done on the site, and we are awaiting the Minister's response. I would like to know, in the first place, when he intends to make his decision and then his reasons for contributing or not contributing. We all remember that contributions have previously been made—and rightly so—in other places, such as Ceredigion following last year's flooding.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that the Minister for Natural Resources and Food had a conversation with Denbighshire County Council this morning. I am sure that, when he is in a position to update Members, he will do so.

Rwy'n deall bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi cael sgwrs gyda Chyngor Sir Ddinbych y bore yma. Rwy'n siŵr, pan fydd mewn sefyllfa i ddiweddarau'r Aelodau, y bydd yn gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, would you make time available for a statement by the Minister for health to explain the huge increase in the cost of importing blood supplies by the Welsh Blood Service, due, it seems, to the sharp decrease in the number of blood units being collected over the past three years, so that we can understand why that has happened, and to receive assurances regarding the way forward, given that it is the Government's intention to merge the south and mid Wales service with the north Wales service, to form an all-Wales blood service?

Weinidog, a wnewch chi neilltuo amser ar gyfer datganiad gan y Gweinidog iechyd i esbonio'r cynnydd enfawr yn y gost o fewnforio cyflenwadau gwaed gan Wasanaeth Gwaed Cymru, o ganlyniad, mae'n ymddangos, i'r gostyngiad sydyn i nifer yr unedau gwaed a gasglwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, fel y gallwn ddeall pam mae hynny wedi digwydd, a chael sicrwydd ynglŷn â'r ffordd ymlaen, o gofio mai bwriad y Llywodraeth yw uno gwasanaeth de a chanolbarth Cymru gyda gwasanaeth gogledd Cymru, i ffurfio gwasanaeth gwaed Cymru gyfan?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:20

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an operational and planning responsibility for the Welsh Blood Service. As you said, it is part of the modernisation process that has been under way for a number of years. The Welsh Blood Service has undertaken a change management programme, which has included a training programme for staff and a temporary agreement to import extra blood from outside the WBS. Obviously, it is a priority for the Minister to continue to look at this issue, and safety and continuity are always a priority.

Cyfrifoldeb gweithredol a chynllunio i Wasanaeth Gwaed Cymru yw hwn. Fel y dywedasoch, mae'n rhan o'r broses foderneiddio sydd wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi ymgymryd â rhaglen rheoli newid, sydd wedi cynnwys rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau staff a chytundeb dros dro i fewnforio gwaed ychwanegol o'r tu allan i Wasanaeth Gwaed Cymru. Yn amlwg, mae'n flaenoriaeth i'r Gweinidog barhau i edrych ar y mater hwn, ac mae diogelwch a pharhad yn flaenoriaeth bob amser.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When can we have a debate on extending the working of the NHS to seven days a week? I was very pleased to visit the microbiology laboratories at the Heath hospital a week ago. I was pleased to see that they had moved to seven-day working, which means that they do not just turn up at the weekend when they are called out to analyse a sample of blood, for example; Saturdays and Sundays have become normal working days.

Pryd allwn ni gael dadl ar ymestyn gwaith y GIG i saith diwrnod yr wythnos? Roeddwn i'n falch iawn o ymweld â'r labordai microbioleg yn ysbyty'r Waun wythnos yn ôl. Roeddwn yn falch o weld eu bod wedi symud at weithio saith diwrnod, sy'n golygu nad ydynt yn dod i mewn ar y penwythnos dim ond pan eu bod yn cael eu galw allan i ddadansoddi sampl o waed, er enghraifft; mae dydd Sadwrn a dydd Sul wedi dod yn ddiwrnodau gwaith arferol bellach.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, large parts of NHS Wales operate seven-day working, but it is good to see any department, such as the one you mentioned, the microbiology laboratory, doing the same. The Minister for Health and Social Services would actively support any move towards seven-day working, but there would be issues about changes to employment contracts, for instance. However, I am sure that this is something that the Minister for health will continue to monitor.

Yn amlwg, mae rhannau helaeth o GIG Cymru yn gweithio saith diwrnod, ond mae'n dda gweld unrhyw adran, fel yr un a grybwyllwyd gennych, y labordy microbioleg, yn gwneud yr un peth. Byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi'n ymarferol unrhyw symudiad at weithio saith diwrnod, ond byddai problemau yn ymwneud â newidiadau i gontractau cyflogaeth, er enghraifft. Fodd bynnag, rwy'n siŵr bod hyn yn rhywbeth y bydd y Gweinidog Iechyd yn parhau i'w fonitro.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have two requests. The first relates to the National Institute for Health and Clinical Excellence's clinical guidelines and compliance with those. I am very grateful to the Minister for health, who has written to me today to indicate that a new body is being set up to look at compliance with NICE's clinical guidelines. I have been raising, for some time, the question of nuchal scans, which can only be obtained by privately paying in Wales, despite a NICE guideline that should have been implemented from 2008—so, some years ago. I asked the First Minister recently how many NICE clinical guidelines remained unimplemented in Wales, and setting up this group to look at implementation and audit would make it appear that a number of guidelines are not currently being complied with. It would be useful to have a statement from the Minister or a debate on that.

Weinidog, mae gennyf ddau gais. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chanllawiau clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol a chydymffurfiaid â'r rheini. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog Iechyd, sydd wedi ysgrifennu ataf heddiw i nodi bod corff newydd yn cael ei sefydlu i edrych ar gydymffurfiaid â chanllawiau clinigol NICE. Rwyf wedi bod yn codi, ers cryn amser, y cwestiwn o sganiau gwegilog, y gellir ond eu cael drwy dalu'n breifat yng Nghymru, er gwaethaf canllaw NICE a ddylai fod wedi cael ei weithredu ers 2008—rai blynyddoedd yn ôl, felly. Holais y Prif Weinidog yn ddiweddar faint o ganllawiau clinigol NICE sy'n dal i fod heb eu gweithredu yng Nghymru, a byddai sefydlu'r grŵp hwn i edrych ar weithrediad ac archwiliad yn ei gwneud iddi ymddangos nad oes cydymffurfiaid â nifer o ganllawiau ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol cael datganiad gan y Gweinidog neu ddadl ar hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The second issue relates to the National Science Academy. As I understand it, that is the responsibility of the Minister, for Economy, Science and Transport. I raised last week the CREativity in Science and Technology awards, which it appears are funded through the National Science Academy. Schools were only informed in October that there was a cut to the funding, but they had started projects in September. Without that funding, this cannot be delivered bilingually, so Welsh schools will, in effect, lose out. These awards have been running for 25 years and CREST funding covered approximately 70% of the costs. I know that the Minister for Economy, Science and Transport will have heard what I said about it last week to the Minister for Education and Skills, and I have written to him already. However, I would be very grateful if we could be updated on the CREST awards, given their importance in supporting science, technology, engineering and mathematics, in both the primary and secondary education sectors.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Fel rwy'n ei deall hi, cyfrifoldeb Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hyn. Codais wobrau CREativity in Science and Technology yr wythnos diwethaf, y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu hariannu drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Dim ond ym mis Hydref yr hysbyswyd ysgolion fod toriad i'r cyllid, ond roedden nhw wedi dechrau prosiectau ym mis Medi. Heb y cyllid hwnnw, ni ellir darparu hyn yn ddwyieithog, felly, mewn gwirionedd, bydd ysgolion yng Nghymru yn dioddef. Mae'r gwobrau hyn wedi bod yn rhedeg ers 25 mlynedd ac roedd cyllid CREST yn talu tua 70% o'r costau. Gwn y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi clywed yr hyn a ddywedais am y mater wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr wythnos diwethaf, ac rwyf wedi ysgrifennu ato eisoes. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallem gael y wybodaeth ddiweddaraf am wobrau CREST, o ystyried eu pwysigrwydd o ran cefnogi gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, yn y sectorau addysg gynradd ac uwchradd.

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You referred in your opening remarks to the NICE guidelines; the Minister for Health and Social Services wrote to you today and I am sure that he has given you as much up-to-date information as is available.

Cyfeiriasoch yn eich sylwadau agoriadol at ganllawiau NICE; ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol atoch heddiw, ac rwy'n siŵr ei fod wedi rhoi cymaint o'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ag sydd ar gael.

In response to your request regarding the CREST awards, it is very important that we support STEM subjects, and that is exactly what the National Science Academy does and what it was set up to do. Indeed, the Minister has heard your question and she will write to you.

I ymateb i'ch cais am wobrau CREST, mae'n bwysig iawn ein bod yn cefnogi pynciau STEM, a dyna'n union yr hyn y mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn ei wneud a'r hyn y'i sefydlwyd i'w wneud. Yn wir, mae'r Gweinidog wedi clywed eich cwestiwn a bydd yn ysgrifennu atoch.

14:24 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae cryn dipyn o ddryswch ynglŷn â gobeithion y Llywodraeth o ran canlyniadau profion y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ym mis Rhagfyr. A wnaiff y Llywodraeth sicrhau bod datganiad yn cael ei wneud gan y Gweinidog cyn y Nadolig, neu bod y Llywodraeth yn gadael inni gael amser i ddeall yn union beth mae'n ei wneud yn eu cylch?

Minister, there is some confusion regarding the hopes of the Government in relation to the results of the Programme for International Student Assessment tests in December. Will the Government ensure that a statement is made by the Minister before Christmas, or allow us sufficient time to understand exactly what the Government is doing about them?

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we are expecting the results in December and, if we are sitting, I am sure that the Minister will update Members before the Christmas recess.

Ydym, rydym yn disgwyl y canlyniadau ym mis Rhagfyr ac, os bydd y tymor heb ddod i ben, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau cyn toriad y Nadolig.

14:24 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, a worldwide Stop Pressure Ulcer Day takes place later this month. To mark the day, I would welcome a statement detailing the incidence of pressure sores in the NHS and in social care in Wales and details of the action that is being taken to prevent and treat pressure sores, which can be extremely painful and have a devastating effect on people's quality of life.

Weinidog, cynhelir Diwrnod Atal Briwiau Pwysu byd-eang yn ddiweddarach y mis hwn. I nodi'r diwrnod, byddwn yn croesawu datganiad yn rhoi manylion nifer yr achosion o friwiau pwysu yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru a manylion y camau sy'n cael eu cymryd i atal a thrin briwiau pwysu, sy'n gallu bod yn hynod boenus ac sy'n cael effaith ddifrifol ar ansawdd bywyd pobl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There is certainly a great deal of work taking place in NHS Wales to eradicate pressure ulcers, which has been very successful in the majority of health boards. The all-Wales fundamentals of care audit results for 2012 were published earlier this year, in April, showing that health boards were above 85% compliant with the standard. I am sure that the Minister will update us when we have the next audit results.
- Yn sicr, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn GIG Cymru i gael gwared ar friwiau pwysu, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd. Cyhoeddwyd canlyniadau archwiliad hanfodion gofal Cymru gyfan ar gyfer 2012 yn gynharach eleni, ym mis Ebrill, gan ddangos bod byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r safon mewn mwy nag 85% o achosion. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni pan fydd canlyniadau'r archwiliad nesaf gennym.
- 14:25 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, is it possible to have a statement from the Government outlining what the emergency services in Wales will contribute to the efforts of the UK as a whole to the relief operation as a result of the typhoon in the Philippines? There will be an appeal by the Disasters Emergency Committee this evening, to which many people will hopefully feel able to give some financial contribution. We have a great history across all our emergency services of contributing resources to such relief operations—Haiti was a good example—across the world. I do not think that we can ever lose sight of the heroic efforts of our emergency services and charities. If the Government could bring forward a statement pulling all that together, so that people in Wales know exactly what is being done in their name, it would be hugely appreciated by all communities.
- Weinidog, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Llywodraeth yn amlinellu beth fydd y gwasanaethau brys yng Nghymru yn ei gyfrannu at ymdrechion y DU yn ei chyfanrwydd i'r gwaith cymorth yn sgil y teiffŵn yn Ynysoedd y Philipinau? Bydd apêl gan y Pwyllgor Argyfyngau heno, y bydd llawer o bobl yn teimlo y gallant wneud rhywfaint o gyfraniad ariannol iddo gobeithio. Mae gennym hanes gwych ar draws ein holl wasanaethau brys o gyfrannu adnoddau at waith cymorth o'r fath—roedd Haiti yn enghraifft dda—ym mhedwar ban byd. Nid wyf yn meddwl y gallwn byth golli golwg ar ymdrechion arwrol ein gwasanaethau brys a'n helusennau. Pe gallai'r Llywodraeth gyflwyno datganiad yn tynnu hynny oll at ei gilydd, fel bod pobl yng Nghymru yn gwybod yn union yr hyn sy'n cael ei wneud yn eu henwau, byddai pob cymuned yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This was raised in questions to the First Minister, and he has spoken about it this morning. We will look to put a statement out to that effect in due course.
- Codwyd hyn yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac mae wedi siarad amdano y bore yma. Ein bwriad yw cyflwyno datganiad i'r perwyl hwnnw maes o law.
- 14:26 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the Minister consider bringing forward a statement in Government time regarding options currently being considered by the Mid and West Wales Fire and Rescue Service about reconfiguring its service and making cost reductions? There is particular alarm in Knighton, which has been raised by my colleague Kirsty Williams, and also in Montgomery in terms of the potential closure of the fire station there, given its proximity to Welshpool airport, the operating base of the Wales Air Ambulance. I am also aware that the proposal to move from full-time to part-time cover in Milford Haven and Pembroke Dock in Pembrokeshire is causing considerable concern, particularly given the energy installations and oil refineries that are very close by.
- A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno datganiad yn amser y Llywodraeth ynglŷn â'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch ad-drefnu ei wasanaeth a gwneud gostyngiadau cost? Ceir pryder arbennig yn Nhrefcyclo, a godwyd gan fy nghydweithiwr Kirsty Williams, a hefyd yn Nhrefaldwyn o ran y posibilrwydd y bydd yr orsaf dân yno'n cau, o ystyried pa mor agos ydyw i faes awyr y Trallwng, sef canolfan weithredol Ambiwllans Awyr Cymru. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y cynnig i symud o ddarpariaeth lawn amser i ddarpariaeth ran-amser yn Aberdaugleddau a Doc Penfro yn Sir Benfro yn achosi pryder sylweddol, yn enwedig o ystyried y gosodiadau ynni a'r purfeydd olew sydd yn agos iawn.
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the question. Fire and rescue authorities are autonomous bodies. There will be a period of public consultation, and I suggest that Members feed into that consultation when appropriate.
- Diolch i chi am y cwestiwn. Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrff ymreolaethol. Bydd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, ac awgrymaf fod yr Aelodau'n cyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw pan fo hynny'n briodol.

14:27

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I expect that you will have seen the BBC news story yesterday about children being moved from area to area while they are in care. I am sure that you will share my concerns about the report's warning that moving vulnerable children around puts them at a higher risk of sexual exploitation and of falling through gaps in the health and education system. Therefore, do you intend to hold a debate on this issue? I did some research into the issue earlier this year, and I was surprised to discover how uneven the out-of-area placement system is. For example, Rhondda Cynon Taf County Borough Council placed 216 children out of the area, but Merthyr Tydfil County Borough Council, the authority next door, displaced just 11 children. Many people would be concerned to learn that more than a quarter of the 5,900 children in care in Wales live outside of county. I accept that it is often the responsible decision to move those children, for their own safety, but I have also been made aware that it is equally because of a shortage of care placements. Minister, do you think that this is a good topic for Members to discuss in the future?

Weinidog, rwy'n disgwyl y byddwch wedi gweld stori newyddion y BBC ddoe am blant yn cael eu symud o ardal i ardal tra eu bod yn derbyn gofal. Rwy'n siŵr y byddwch yn rhannu fy mhryderon am rybudd yr adroddiad bod symud plant sy'n agored i niwed o gwmpas yn eu rhoi mewn mwy o risg o gam-fanteisio rhywiol ac o gwmpo trwy fylchau yn y system iechyd ac addysg. Felly, a ydych chi'n bwriadu cynnal dadl ar y mater hwn? Fe wnes i rywfaint o waith ymchwil i'r mater yn gynharach eleni, a chefais fy synnu o ddarganfod pa mor anghyson yw'r system lleoli y tu allan i'r ardal. Er enghraifft, lleolwyd 216 o blant y tu allan i'r ardal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ond dim ond 11 o blant a adleolwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yr awdurdod drws nesaf. Byddai llawer o bobl yn bryderus o ddarganfod bod mwy na chwarter y 5,900 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn byw y tu allan i'w sir. Rwy'n derbyn mai symud y plant hynny yw'r penderfyniad cyfrifol yn aml, er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain, ond fe'm hysbyswyd hefyd bod prinder lleoliadau gofal yr un mor gyfrifol am y sefyllfa. Weinidog, a ydych chi'n credu bod hwn yn bwnc da i'r Aelodau ei drafod yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Several Ministers are brought together in relation to this issue, and I know that local authorities do all that they can to keep children in-county when they are looking for care for them. You mentioned a couple of reasons why they would have to be out-of-county. The Welsh Government is determined to do all it can to help combat child sexual exploitation in Wales. You will be aware that the Deputy Minister for Social Services published guidance on the safeguarding of children and young people from sexual exploitation in 2011. When we look at ongoing work, we will bring forward a statement in Government time if we think it appropriate to do so.

Deur â nifer o Weinidogion at ei gilydd ynglŷn â'r mater hwn, a gwn fod awdurdodau lleol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw plant yn y sir pan fyddant yn chwilio am ofal ar eu cyfer. Soniasoch am un neu ddau o resymau pam y byddai'n rhaid iddynt fod y tu allan i'r sir. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei gallu i helpu i frwydro cam-fanteisio rhywiol ar blant yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol bod Dirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi canllawiau ar ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cam-fanteisio rhywiol yn 2011. Pan fyddwn yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud, byddwn yn cyflwyno datganiad yn amser y Llywodraeth os byddwn yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I ask for a statement on the demographic projections provided to local authorities to inform planning decisions, such as local development plans. I have been made aware that Vale of Glamorgan Council, for example, is using revised information on population changes from the last LDP, but is using the older data set for housing needs, meaning that the LDP proposes building 9,500 new homes for 5,500 new people. Could you also include in that statement any plans to review the housing needs assessment, to better reflect the most up-to-date demographic information?

Weinidog, gofynnaf am ddatganiad ar yr amcanestyniadau demograffig a ddarparwyd i awdurdodau lleol i lywio penderfyniadau cynllunio, fel cynlluniau datblygu lleol. Fe'm hysbyswyd bod Cyngor Bro Morgannwg, er enghraifft, yn defnyddio gwybodaeth ddiwygiedig ar newidiadau i'r boblogaeth o'r CDLI diwethaf, ond yn defnyddio'r data hyn ar gyfer anghenion tai, sy'n golygu bod y CDLI yn cynnig adeiladu 9,500 o gartrefi newydd ar gyfer 5,500 o bobl newydd. A allech chi gynnwys yn y datganiad hwnnw hefyd unrhyw gynlluniau i adolygu'r asesiad o anghenion o ran tai, i adlewyrchu'r wybodaeth ddemograffig fwyaf diweddar yn well?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that, for some local authorities, the population predictions are very stark, and are very large, across Wales. Therefore, I think that this is a matter for local authorities, as they take their plans through.

Rwy'n gwybod, i rai awdurdodau lleol, bod y rhagolygon poblogaeth yn llwm iawn, ac yn fawr iawn, ledled Cymru. Felly, rwy'n credu mai mater i awdurdodau lleol yw hwn, wrth iddynt fwrw ymlaen â'u cynlluniau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

## Datganiad: Yr Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol yng Ngogledd Cymru

We now move to item 3, which is the statement by the First Minister and I call on the First Minister.

14:30

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Llywydd. I have two statements this afternoon; this is the one on neonatal services.

On 28 March this year, I announced my intention to seek further independent advice on whether there is an alternative model to maintain all levels of neonatal services within the north in the longer term. I commissioned the Royal College of Paediatrics and Child Health to conduct the review, and it reported its findings to me at the end of September.

I would like to thank the royal college team for its work in conducting this review. It took a thorough approach, meeting in person with clinical teams, health board managers, health professionals and patient groups. I also know that it met many Assembly Members from the north during the review process. I welcome the report, and fully accept the recommendations that are contained within it. I also accept the Royal College of Paediatrics and Child Health's proposed model for the delivery of neonatal services in the north in the longer term, with the development of a sub-regional neonatal intensive care centre, or SuRNICC, as it is often abbreviated to.

The review confirms that the Arrowe Park Hospital model is sufficient in the short term, subject to the strengthening of the governance arrangements. The report identifies models that could provide all levels of neonatal services exclusively in the north of Wales. However, with the staffing levels needed, and the associated costs, it could take up to 10 years to achieve, and that is not an option that I am pursuing at this time. The review therefore proposes a model where links with England are maintained for the most specialised care, but enhanced services are retained and developed in Wales, which will result in the vast majority of babies remaining in Wales.

The report is complex and the recommendations will not be simple to achieve. However, I want to make it clear to families in the north what the next steps are: in the short term, it is to secure the delivery of excellent services, and, in the longer term, it is to develop the model that is set out in the review.

## Statement: The Review of Neonatal Services in North Wales

### Llywydd / The Presiding

Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn at eitem 3 nawr, sef y datganiad gan y Prif Weinidog a galwaf ar y Prif Weinidog.

Diolch yn fawr, Lywydd. Mae gennyf ddau ddatganiad y prynhawn yma; dyma'r datganiad am wasanaethau newyddenedigol.

Ar 28 Mawrth eleni, cyhoeddais fy mwriad i geisio cyngor annibynnol pellach ynghylch a oes model amgen er mwyn cynnal pob lefel o wasanaethau newyddenedigol yn y gogledd yn y tymor hwy. Comisiynais y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant i gynnal yr adolygiad, a cheffais adroddiad ar ei ganfyddiadau ddiwedd mis Medi.

Hoffwn ddiolch i dîm y coleg brenhinol am eu gwaith wrth gynnal yr adolygiad hwn. Defnyddiodd ymagwedd drylwyr, a chyfarfu'n bersonol â thimau clinigol, rheolwyr byrddau iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol a grwpiau cleifion. Gwn hefyd fod y tîm wedi cwrrd â llawer o Aelodau'r Cynulliad o'r gogledd yn ystod y broses adolygu. Rwyf yn croesawu'r adroddiad, ac yn derbyn yn llawn yr argymhellion sydd ynddo. Rwyf hefyd yn derbyn model arfaethedig y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar gyfer darparu gwasanaethau newyddenedigol yn y gogledd yn y tymor hwy, a datblygu canolfan isranbarthol ar gyfer gofal newyddenedigol dwys, neu SuRNICC, sef y talfyriad a ddefnyddir yn aml.

Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod model Ysbyty Arrowe Park yn ddigonol yn y tymor byr, yn amodol ar gryfhau'r trefniadau llywodraethu. Mae'r adroddiad yn nodi modelau a allai ddarparu pob lefel o wasanaethau newyddenedigol, i gyd yn y gogledd. Fodd bynnag, gyda'r lefelau staffio y byddai eu hangen, a'r costau cysylltiedig, gallai gymryd hyd at 10 mlynedd i gyflawni hynny, ac nid yw'n opsiwn yr wyf yn mynd ar ei drywydd ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad felly'n cynnig model lle cedwir cysylltiadau â Lloegr ar gyfer y gofal mwyaf arbenigol, ond lle caiff gwasanaethau ychwanegol eu cadw a'u datblygu yng Nghymru, a fydd yn golygu y bydd y mwyafrif helaeth o fabanod yn aros yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn gymhleth ac ni fydd yn hawdd cyflawni'r argymhellion. Fodd bynnag, rwyf am ei gwneud yn glir i deuluoedd yn y gogledd beth yw'r camau nesaf: yn y tymor byr, sicrhau y darperir gwasanaethau rhagorol, ac, yn y tymor hwy, datblygu'r model sydd wedi'i amlinellu yn yr adolygiad.

Y [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I want to confirm to Assembly Members that I will be taking a decision on the location of the SuRNICC that is proposed in the review. Detailed information on financial costings, population analysis, linked services, and discussions with Cheshire and Merseyside NHS trusts, will now need to take place. We have to ensure that the decision on the location of the SuRNICC is based on a robust and complete business case. I will therefore be establishing an independent panel to work with the Royal College of Paediatrics and Child Health, and with Betsi Cadwaladr University Local Health Board, to develop that business case, and to recommend to me the best site for the location of the centre, along—importantly—with the implications for the remaining sites and other interdependent services. My officials are in the process of establishing the panel, and I have asked for recommendations to be made to me by the beginning of March.

I am aware that any decisions on neonatal services are likely to have significant implications for associated services, such as obstetrics and midwifery. I will therefore be asking the panel to consider what other changes will need to be made to acute clinical services in the north to support and complement its recommendations on the location of neonatal services. I will expect the health board to act quickly on these wider matters, to ensure that all services are configured optimally, and that, together, they provide for safe and sustainable services across the north Wales region.

While this review has always been about the future models of services in the longer term, the review does identify a need to clarify the governance around the transfer of babies to Arrowe Park Hospital. I have given the health board until the end of the month to make this clarification, and to publish, on its website, the revised arrangements. This review supports the widely known principles that, to deliver safe and sustainable services, some centralisation of expertise must take place. I want to see the best services possible available to the people of Wales and I anticipate that this review and subsequent actions will lead to the delivery of strong, sustainable services. I will, of course, update the Assembly in March and a copy of the RCPCH report is now available on the Welsh Government website.

Hoffwn gadarnhau wrth Aelodau'r Cynulliad y byddaf yn gwneud penderfyniad am leoliad y SuRNICC a gynigir yn yr adolygiad. Bydd angen gwybodaeth fanwl am gostau ariannol, dadansoddiad o'r boblogaeth, gwasanaethau cysylltiedig, a thrafodaethau ag ymddiriedolaethau GIG Swydd Gaer a Glannau Mersi yn awr. Rhaid inni sicrhau bod y penderfyniad am leoliad y SuRNICC yn seiliedig ar achos busnes cadarn a chyflawn. Felly, byddaf yn sefydlu panel annibynnol i gydweithio â'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, ac â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddatblygu'r achos busnes hwnnw, ac i argymhell imi'r safle gorau ar gyfer y ganolfan, ynghyd—yn bwysig—â'r goblygiadau i'r safleoedd sy'n weddill a gwasanaethau cyd-ddibynnol eraill. Mae fy swyddogion wrthi'n sefydlu'r panel, ac rwyf wedi gofyn iddo roi argymhellion imi erbyn dechrau mis Mawrth.

Gwn fod unrhyw benderfyniadau am wasanaethau newyddenedigol yn debygol o beri goblygiadau sylweddol i wasanaethau cysylltiedig, megis obstetreg a bydwreigiaeth. Felly, byddaf yn gofyn i'r panel ystyried pa newidiadau eraill y bydd eu hangen i wasanaethau clinigol aciwt yn y gogledd i gefnogi ac ategu ei argymhellion am leoliad gwasanaethau newyddenedigol. Byddaf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd weithredu'n gyflym ar y materion ehangach hyn, er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau wedi'u cyd-drefnu cystal â phosibl, a'u bod, gyda'i gilydd, yn darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy ledled rhanbarth y gogledd.

Er mai diben yr adolygiad hwn bob amser oedd edrych ar fodelau gwasanaethau'r dyfodol yn y tymor hwy, mae'r adolygiad yn nodi bod angen egluro'r drefn lywodraethu o ran trosglwyddo babanod i Ysbyty Arrowe Park. Rwyf wedi rhoi tan ddiwedd y mis i'r bwrdd iechyd i ddarparu'r eglurhad hwnnw, a chyhoeddi'r trefniadau diwygiedig ar ei wefan. Mae'r adolygiad hwn yn cefnogi'r egwyddorion cydnabyddedig, sef bod yn rhaid wrth rywfaint o ganoli arbenigedd er mwyn darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy. Rwyf am weld bod y gwasanaethau gorau posibl ar gael i bobl Cymru ac rwyf yn rhagweld y bydd yr adolygiad hwn a'r camau gweithredu dilynol yn golygu y bydd modd darparu gwasanaethau cryf, cynaliadwy. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ym mis Mawrth ac mae copi o adroddiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn awr.

14:35

## **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for your statement today. It is a statement that I very much welcome and I know that there will be echoes of that welcome across north Wales today. Your statement and the report that it flows from—the royal college report—vindicate the position of the people of north Wales that the service that was being proposed by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board was not the right approach to take for neonatal care in the region. I am very pleased today to see an announcement being made that will lead to the safeguarding of neonatal care services in north Wales—and not just their safeguarding; they will be built upon and enhanced as well. I pay tribute to you for recognising the wrong decision having been made by the health board earlier this year and for commissioning the royal college review.

Diolch, Brif Weinidog, am eich datganiad heddiw. Mae'n ddatganiad yr wyf yn ei groesawu'n fawr a gwn y caiff y croeso hwnnw ei adleisio ledled y gogledd heddiw. Mae eich datganiad a'r adroddiad y mae'n deillio ohono—adroddiad y coleg brenhinol—yn cadarnhau safbwynt pobl y gogledd nad y gwasanaeth a oedd yn cael ei gynig gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd y ffordd orau ymlaen o ran gofal newyddenedigol yn y rhanbarth. Heddiw, rwyf yn falch iawn o weld cyhoeddiad a fydd yn arwain at ddiogelu gwasanaethau gofal newyddenedigol yn y gogledd—ac nid dim ond yn eu diogelu; adeiladir arnynt a chânt eu gwella hefyd. Talaf deyrnged ichi am gydnabod bod y bwrdd iechyd wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn gynharach eleni ac am gomisiynu adolygiad y coleg brenhinol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Obviously, there is still some uncertainty over services in north Wales, particularly in terms of the location of the new sub-regional neonatal intensive care centre. I hope, First Minister, that you will be involving many of the stakeholders who have been involved in the campaign for neonatal services in making that decision. I want to put on record, Presiding Officer, my thanks to Cuddles, Cherish, to the Royal College of Nursing and to the British Medical Association for their involvement and contribution in informing the decision that you have made.

I will ask some specific questions now about the future of services in the region. You mentioned the independent panel. Who will you be drawing together to make up that panel and what might their backgrounds be? Can you assure us that it will include membership from the Welsh ambulance service to ensure that the neonatal transfer arrangements for those babies—albeit fewer in number—who will still have to be cared for outside north Wales will be adequate?

Can you also tell us whether you will take into account the accommodation arrangements for parents and families when their child might need to be admitted into a neonatal intensive care unit? I have seen, for example, the excellent facilities at Ysbyty Glan Clwyd, which are provided by Ty Croeso: Dawn Elizabeth House. I know that it is unique in the region and I do feel that its availability ought to be reflected in the decision-making process. Can you also tell us what consideration you might be able to give to those babies who are not neonates, but who have developed problems as mature infants? This was something that the royal college report refers to as having been effectively overlooked by the Betsi Cadwaladr health board in arriving at its decision on the future of neonatal care. I would appreciate it if you could assure us that you have discussed that particular matter and that you will be discussing the arrangements for those mature infants when finalising the decision that you will make about the location of services in the region. Thank you.

Wrth gwrs, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch gwasanaethau yn y gogledd, yn enwedig o ran lleoliad y ganolfan isranbarthol newydd ar gyfer gofal newyddenedigol dwys. Rwyf yn gobeithio, Brif Weinidog, y byddwch yn cynnwys llawer o'r rhanddeiliaid sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch dros wasanaethau newyddenedigol wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Hoffwn gofnodi, Lywydd, fy niolch i Cuddles, Cherish, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain am y rhan y maent wedi'i chwarae a'u cyfraniad i lywio'r penderfyniad yr ydych wedi'i wneud.

Yn awr, gofynnaf rai cwestiynau penodol am ddyfodol gwasanaethau yn y rhanbarth. Soniasoch am y panel annibynnol. Pwy y byddwch yn eu tynnu at ei gilydd i greu'r panel hwnnw ac o ba gefndiroedd y byddant yn dod? A allwch roi sicrwydd inni y bydd yn cynnwys aelodau o wasanaeth ambiwlans Cymru er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y babanod newydd-anedig hynny—er y bydd llai ohonynt—a fydd yn dal i orfod cael gofal y tu allan i ogledd Cymru yn ddigonol?

A allwch hefyd ddweud wrthym a fyddwch yn ystyried trefniadau llety i rieni a theuluoedd pan allai fod angen i blentyn gael ei dderbyn i uned gofal newyddenedigol dwys? Rwyf wedi gweld, er enghraifft, y cyfleusterau ardderchog yn Ysbyty Glan Clwyd, sy'n cael eu darparu gan Dŷ Croeso: Dawn Elizabeth House. Gwn ei fod yn unigryw yn y rhanbarth ac rwyf o'r farn y dylid ystyried y ffaith ei fod ar gael wrth wneud penderfyniadau. A allwch ddweud wrthym hefyd sut y gallech efallai ystyried y babanod hynny nad ydynt yn newydd-anedig, ond sydd wedi datblygu problemau'n fabanod aeddfed? Mae hyn yn rhywbeth y mae adroddiad y coleg brenhinol yn dweud ei fod wedi'i esgeuluso i bob diben gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wrth iddo wneud ei benderfyniad am ddyfodol gofal newyddenedigol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ein sicrhau eich bod wedi trafod y mater penodol hwnnw ac y byddwch yn trafod y trefniadau ar gyfer y babanod aeddfed hynny wrth wneud eich penderfyniad terfynol am leoliad gwasanaethau yn y rhanbarth. Diolch.

14:38

## **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for his comments. He asked three questions in particular. He asked firstly about the panel. I can tell him that officials are in the process of drawing up the panel's membership. I will approve the final membership and I will update Members as to who those panel members are.

In terms of accommodation and transport particularly, given the geographical size of the area to be covered, these are issues that are ongoing in terms of the consideration that is being given to them. We all understand the need to ensure that people are able to travel easily and can stay, particularly with newborn babies. I am sure that all of us would recognise the need to make what is a traumatic situation potentially easier on parents.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Gofynnodd dri chwestiwn yn arbennig. Gofynnodd yn gyntaf am y panel. Gallaf ddweud wrtho fod swyddogion wrthi'n llunio aelodaeth y panel. Byddaf yn cymeradwyo'r aelodaeth derfynol ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau pwy yw aelodau'r panel.

O ran llety a chlodiant yn benodol, ac ystyried maint daearyddol yr ardal dan sylw, mae'r rhain yn faterion parhaus o ran yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi iddynt. Rydym i gyd yn deall bod angen sicrhau bod pobl yn gallu teithio'n rhwydd ac yn gallu aros, yn enwedig gyda babanod newydd-anedig. Rwyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn cydnabod bod angen gwneud y sefyllfa drawmatig hon yn haws o bosibl i rieni.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

With regard to the third point, he talks about mature infants. That would bring them, I suspect, within the purview and expertise of paediatricians. The proposal in the SuRNICC is to recruit five more paediatricians, who will bring with them a broader range of expertise. So, the centre itself would be a centre that would attract more paediatricians, but there are, of course, as he has recognised, potential impacts on other maternity and paediatric services elsewhere across the whole of the north. That is why the decision on the location of the centre is not one to be taken in haste. It has to be given due consideration, because there will be impacts on services elsewhere. Nevertheless, the model that is being proposed, I believe, gives us as much opportunity as possible to provide as many safe services as possible in Wales. However, as he recognises, there will still be some babies, probably in the low tens in terms of numbers, who will still need that specialised care at Arrowe Park Hospital.

Yn ei drydydd pwynt, mae'n sôn am fabanod aeddfed. Byddai hynny'n dod â hwy, rwyf yn amau, o fewn cylch gorchwyl ac arbenigedd pediatregwyr. Y cynnig yn y SuRNICC yw recriwtio pum pediatregydd arall, a fydd yn gallu cynnig ystod ehangach o arbenigedd. Felly, byddai'r ganolfan ei hun yn ganolfan a fyddai'n denu mwy o bediatregwyr, ond, wrth gwrs, fel y mae wedi'i gydnabod, gallai hyn effeithio ar wasanaethau mamolaeth a phediatric eraill mewn mannau eraill ledled y gogledd. Dyna pam na ddylid brysio i wneud penderfyniad am leoliad y ganolfan. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol iddo, oherwydd bydd yn effeithio ar wasanaethau mewn mannau eraill. Serch hynny, mae'r model sy'n cael ei gynnig, yn fy marn i, yn rhoi cymaint o gyfle â phosibl inni i ddarparu cynifer o wasanaethau diogel â phosibl yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y mae'n cydnabod, bydd rhai babanod o hyd, yn ôl pob tebyg yn y degau isel o ran niferoedd, a fydd yn dal i fod ag angen y gofal arbenigol hwnnw yn Ysbyty Arrowe Park.

14:40

## **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for the statement today and for releasing the report. I also thank you for taking on this issue. I realise that there would have been a conflict of interest with the previous Minister for health, Lesley Griffiths. I know that Lesley will have submitted her own views to this report as an individual Assembly Member. There has never been any doubt for people across north Wales that when they have to, they will use cross-border services. I have a specific personal interest as my own grandson obtained very specialist tertiary treatment at Alder Hey Children's Hospital from when he was a week old. That has always been the case and people do not mind that. However, I think that the haste with which Betsi Cadwaladr was looking to transfer neonatal care—as Darren has said, this report today gives those people of north Wales some assurances that the Welsh Government has listened to their views, even when the health board particularly did not.

I would like some further information from you on the full review of maternity and obstetric services, as well as other interdependent services, that will stem from some of the recommendations in this report today. I would also like assurances from you and the Minister for health that the health board will be offered assistance to assist it to be able to consult properly with the people of north Wales on the plans that it has to look at very quickly now to come up to speed with this report.

All in all, I think that this report will give the people of north Wales some satisfaction that this Welsh Government has taken what they have been saying to heart. I too would like to thank the members of the reporting team for the way in which they offered me the courtesy to speak to them on behalf of the many members who contacted me.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am y datganiad heddiw ac am ryddhau'r adroddiad. Rwyf hefyd yn diolch ichi am ymdrin â'r mater hwn. Gwn y byddai wedi achosi gwrthdaro buddiannau i'r Gweinidog iechyd blaenorol, Lesley Griffiths. Gwn y bydd Lesley wedi cyfrannu ei barn ei hun at yr adroddiad hwn fel Aelod Cynulliad unigol. Ni fu erioed ddim amheuaeth gan bobl y gogledd y byddent yn defnyddio gwasanaethau traws-ffiniol pan fyddai'n rhaid iddynt wneud hynny. Mae gennyf ddiddordeb personol penodol gan fod fy wŷr i fy hun wedi cael triniaeth drydyddol arbenigol iawn yn Ysbyty Plant Alder Hey pan oedd yn wythnos oed. Dyna fu'r sefyllfa erioed ac nid oes ots gan bobl am hynny. Fodd bynnag, credaf fod y brys a ddangosodd Betsi Cadwaladr wrth geisio trosglwyddo gofal newyddenedigol—fel y mae Darren wedi'i ddweud, mae'r adroddiad hwn heddiw'n rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl i'r bobl hynny yn y gogledd fod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar eu barn, hyd yn oed pan na wnaeth y bwrdd iechyd hynny.

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth gennyh am yr adolygiad llawn o wasanaethau obstetrig a mamolaeth, yn ogystal â gwasanaethau cyd-ddibynnol eraill, a fydd yn deillio o rai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn heddiw. Hoffwn hefyd gael sicrwydd gennyh chi a'r Gweinidog iechyd y bydd y bwrdd iechyd yn cael cynnig cymorth i'w helpu i ymgynghori'n briodol â phobl y gogledd am y cynlluniau y mae'n rhaid iddo edrych arnynt yn gyflym iawn yn awr er mwyn mynd i'r afael â'r adroddiad hwn.

Ar y cyfan, rwyf yn credu y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi rhywfaint o foddhad i bobl y gogledd fod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar yr hyn y maent wedi bod yn ei ddweud. Hoffwn innau hefyd ddiolch i aelodau'r tîm adrodd am y modd y cefais gyfle i siarad â hwy ar ran yr aelodau niferus a gysylltodd â mi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for her comments. She mentioned the issue of a full review of obstetric and paediatric provision. It is inevitable that where there are service changes and where there is to be the establishment of a more specialised centre, there will be an effect on other services. We know, of course, that obstetrics and gynaecology link very closely with paediatrics. That is why, of course, the review that the panel will undertake is important in terms of providing a general picture for the whole of the Betsi Cadwaladr region.

Of course, the local health board, which is now developing, now has new leaders, in any event. I have confidence in them that they will be able to take this forward. Their initial challenge, of course, is to ensure that the clarification that I have asked from them regarding governance is provided to me by the end of this month. I think that it is worth emphasising to Members that, as I was the Government Minister who brought this matter in to be looked at by Welsh Government, I will be taking all subsequent decisions with regard to future provision. I think that it is right to see this process to its conclusion.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Soniodd am adolygiad llawn o ddarpariaeth obstetrig a phediatrig. Mae'n anochel, lle ceir newidiadau i'r gwasanaeth a lle caiff canolfan fwy arbenigol ei sefydlu, y bydd hynny'n effeithio ar wasanaethau eraill. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, fod cysylltiad agos iawn rhwng obstetreg a gynaeocolleg a phediatreg. Dyna pam, wrth gwrs, y bydd adolygiad y panel yn bwysig o ran darparu darlun cyffredinol i ranbarth cyfan Betsi Cadwaladr.

Wrth gwrs, erbyn hyn mae gan y bwrdd iechyd lleol, sydd bellach yn datblygu, arweinwyr newydd, beth bynnag. Mae gennyf ffydd y byddant yn gallu symud ymlaen â hyn. Eu her gyntaf, wrth gwrs, yw sicrhau bod yr eglurhad yr wyf wedi gofyn amdano ganddynt o ran y drefn lywodraethu yn cael ei roi imi erbyn diwedd y mis hwn. Credaf ei bod yn werth pwysleisio wrth yr Aelodau, gan mai fi oedd Gweinidog y Llywodraeth a ddaeth â'r mater hwn i sylw Llywodraeth Cymru, mai fi fydd yn gwneud pob penderfyniad dilynol am ddarpariaeth yn y dyfodol. Credaf ei bod yn iawn imi ddilyn y broses hon i'r pen draw.

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid wyf yn siŵr os wyf wedi darllen yr un adroddiad â llfarydd y Ceidwadwyr a'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd oherwydd os oes buddugoliaeth yn y fan hon mae'n teimlo i mi fel buddugoliaeth wag yn sicr, oherwydd yr hyn mae'r Llywodraeth wedi ei ddweud mewn gwirionedd, o safbwynt gweledigaeth tymor hir i ddatblygu'r gwasanaeth, yw ei bod yn dewis peidio â mynd ar hyd y llwybr hwnnw. Mae'n dangos yn glir ein bod ni, rwy'n teimlo, wedi ennill y ddadl, ond, wrth gwrs, nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn ewyllys y Llywodraeth i ddangos y weledigaeth sydd ei hangen. Mae'n ddamniol, rwy'n meddwl, o'r diffyg buddsoddiad sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth yn y gogledd. Mae diffyg gweledigaeth eich Llywodraeth yn amlwg o'ch ymateb.

Mae'n dystiolaeth bellach hefyd o fethiannau rheolaethol y bwrdd iechyd, yn fy marn i. A yw'n dderbyniol, er enghraifft, mai'r diffyg data cyflawn gan y bwrdd iechyd, yn ôl yr adroddiad, sy'n golygu na allai fod yn gwbl hyderus fod y gwasanaeth yn gwbl ddiogel? A ydy'r fath sefyllfa yn dangos yn glir bod eich Llywodraeth wedi methu felly'n llwyr yn ei chyfrifoldeb i oruchwylio'r bwrdd iechyd lleol? Mae'r adroddiad yn dweud nad oes rheswm pam nad all y gwasanaeth gael ei ddarparu yn y gogledd os yw'r ewyllys gwleidyddol yno. Heddiw, rydym wedi clywed ei bod yn amlwg nad yw'r ewyllys gwleidyddol hwnnw'n bodoli.

I am not sure if I have read the same report as the Conservative spokesperson and the Member for the Vale of Clwyd because if there is a victory here, it appears to be a pyrrhic victory, because what the Government has said in reality, in terms of a long-term vision to develop the service, is that it is choosing not to go down that particular route. It does demonstrate clearly, I feel, that we won the argument, but, of course, that is not reflected in the will of the Government to show the vision required. It is damning, I believe, of the lack of investment that there has been in the north Wales service. The lack of vision from your Government is clearly apparent in your response.

It is further evidence of the regulatory failures of the health board, in my opinion. Is it acceptable, for example, that the health board's lack of complete data, according to the report, means that it cannot be entirely confident that the service is quite safe? Does that situation demonstrate that your Government has totally failed in your responsibility of overseeing the local health board? The report states that there is no reason why the service could not be provided in north Wales if the political will were in place. Today, we have heard that that political will is clearly not in place.

Why is the health service in north Wales second best once again, First Minister? Why is the health service, once again in north Wales, a one-way ticket to a Tory privatised health service in England? It is a service whose deficiencies you reminded us of about an hour ago, and yet now you are telling us that you are happy to send our most vulnerable babies into its care. The report tells us that the service that we want could be provided, and you admit that it might take 10 years, but you are choosing not to pursue that option. It could well take 10 years to turn Cardiff Airport around, but that does not mean that you do not do it. Where is your ambition to build a world-class service in north Wales, First Minister, where we would perhaps see patients coming into north Wales for treatment and care? Why does it always have to be the other way around with this Government?

You could have taken the bull by its horns this afternoon, but you have chosen not to. One of the reasons we are in this situation is because your Government has stood idly by while we have seen Betsi Cadwaladr health board effectively run down the intensive care neonatal service that we have in north Wales.

First Minister, leading a country is not a spectator sport. Is it now becoming clear that the defining characteristic of your leadership is that you just do not want any responsibility?

Pam mae'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd yn ail orau unwaith eto, Brif Weinidog? Pam mae'r gwasanaeth iechyd, yn y gogledd unwaith eto, yn docyn unffordd i wasanaeth iechyd wedi'i breifateiddio gan y Torïaid yn Lloegr? Gwnaethoch ein hatgoffa o ddiffygion y gwasanaeth hwnnw tuag awr yn ôl, ac eto rydych yn awr yn dweud wrthym eich bod yn hapus i anfon ein babanod mwyaf agored i niwed dan ei ofal. Mae'r adroddiad yn dweud wrthym y gellid darparu'r gwasanaeth yr hoffem ei gael, ac rydych yn cyfaddef y gallai gymryd 10 mlynedd, ond rydych yn dewis peidio â mynd ar drywydd yr opsiwn hwnnw. Mae'n ddigon posibl y gallai gymryd 10 mlynedd i weld newid byd ym Maes Awyr Caerdydd, ond nid yw hynny'n golygu nad ydych yn gwneud hynny. Ble mae eich uchelgais i greu gwasanaeth o'r radd flaenaf yn y gogledd, Brif Weinidog, lle y byddem efallai yn gweld cleifion yn dod i'r gogledd i gael triniaeth a gofal? Pam y mae'n rhaid i bethau fod fel arall bob amser gyda'r Llywodraeth hon?

Gallech fod wedi mentro y prynhawn yma, ond rydych wedi dewis peidio. Un o'r rhesymau pam yr ydym yn y sefyllfa hon yw oherwydd bod eich Llywodraeth chi wedi sefyll o'r neilltu wrth inni weld bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, i bob pwrpas, yn gwanychu'r gwasanaeth gofal dwys newyddenedigol sydd gennym yn y gogledd.

Brif Weinidog, nid camp i'w gwyllo o'r ystlys yw arwain gwlad. A yw bellach yn dod yn amlwg mai'r nodwedd sy'n diffinio eich arweinyddiaeth yw nad oes arnoch eisiau dim cyfrifoldeb?

14:46

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Some years ago, in the 1970s and 1980s, I used to listen to Plaid Cymru spokespeople and they had this view of nationalism in Wales as a kind of autarchy, a place where everything would be done within Wales—the Adfer approach—and I have just heard it again today. Nationalism is sought before safety; that is what I have heard today. It is more important to have every facility provided in Wales, than it is to have a safe facility provided, regardless of where it is: that is what I have heard today.

It is a fact that there will be treatments available in the NHS outside Wales that will never be provided in Wales. Great Ormond Street Hospital for Children in London provides treatments there that can only ever be provided in one place in the whole of Britain. That is where the expertise is. There will be patients who will leave Wales to have treatment in England—or is he saying that they should be prevented from doing so?

Rai blynyddoedd yn ôl, yn y 1970au a'r 1980au, arferwn wrando ar lefarwyr Plaid Cymru ac roedd ganddynt ryw syniad am genedlaetholdeb yng Nghymru fel rhyw fath o awtarchiaeth, lle y byddai popeth yn cael ei wneud yng Nghymru—y dull Adfer—ac rwyf newydd ei glywed eto heddiw. Rhoddir cenedlaetholdeb o flaen diogelwch; dyna yr wyf wedi ei glywed heddiw. Mae'n bwysicach darparu pob cyfleuster yng Nghymru na darparu cyfleuster diogel, waeth ble y mae hynny: dyna yr wyf wedi ei glywed heddiw.

Mae'n ffaith y bydd triniaethau ar gael yn y GIG y tu allan i Gymru na chânt byth eu darparu yng Nghymru. Mae Ysbyty Great Ormond Street i Blant yn Llundain yn darparu triniaethau na ellir ond eu darparu mewn un lle ym Mhrydain i gyd. Dyna ble mae'r arbenigedd. Bydd rhai cleifion yn gadael Cymru i gael triniaeth yn Lloegr—ynteua yw'n dweud y dylid eu hatal rhag gwneud hynny?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is a reality, and has been a reality for many years, that patients from north-east Wales and across north Wales have sought treatment in hospitals in Liverpool. If his party is saying that it wants to prevent them from accessing those services in the future, or that that is a matter of shame as far as Wales is concerned, he should say that to them now. He clearly has not read the report, otherwise he would have noticed that, within the model proposed, there will be some babies who will be coming into Wales—he has not read that part of the report—as a result of the joint working, which clearly he does not welcome, with the hospitals in England. From my point of view, what I want to see is a safe service, regardless of where it is provided.

Yes, I want to see that service provided as much as possible in Wales, which is why I took the step of looking at this issue myself. However, it remains the case that some babies, in the low tens in terms of numbers, will still need specialised services outside of Wales. That is what the doctors say and that is what the royal college says, but, for Plaid Cymru, those comments are not important. What is important to that party when it comes to this issue, it seems, is flag waving, not the safety of children.

14:48

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch am yr adroddiad, ac rwyf hefyd eisiau diolch i'r Prif Weinidog am adael i ni gael golwg ar yr adroddiad cyn y datganiad y prynhawn yma. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod cwestiynau'n codi o'r adroddiad. Yn gyntaf, nid wyf yn glir, o fewn y trafodaethau pellach sydd i gymryd lle dros y mis nesaf, ynglŷn â rheoleiddio a llywodraethu.

Mae argymhelliad 1 yn sôn am ryw 10 pwynt lle nad yw'r cytundeb rhwng Betsi Cadwaladr ac Arrows Park yn ddigonol. Nid wyf yn glir, o'r hyn rwyf wedi ei weld o'ch datganiad heddiw, os bydd angen i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ymwneud â phob un o'r materion hynny.

I must say also that I think there are issues that question the strategic planning as far as Betsi Cadwaladr is concerned. It is clear that, surprisingly, it did not engage with the north-west England neonatal network; it engaged contractually with one hospital. Having read the report, there are issues where neonatal development in Manchester mean that the occupancy at Arrows Park now is lower than current standards in England.

There is also to be a trust-wide review at Arrows Park in 2014, some three or four months after services will have been transferred from Wales to Arrows Park. It is not clear from this report whether certain assurances will have been obtained from the network in the meantime. I am not clear whether, if facilities were transferred further into England, the Welsh Government is content on the basis of this report—and it is a very comprehensive report—with the strength of those arrangements.

Y gwir yw bod cleifion o'r gogledd-ddwyrain a ledled y gogledd yn mynd i ysbytai Lerpwl i gael triniaeth, ac mae hynny wedi bod yn wir ers blyneddau lawer. Os yw ei blaid yn dweud yr hoffent eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol, neu fod hynny'n destun cywilydd o safbwynt Cymru, dylai ddweud hynny wrthynt yn awr. Mae'n amlwg nad yw wedi darllen yr adroddiad, neu byddai wedi sylwi, o fewn y model a gynigir, y bydd rhai babanod yn dod i mewn i Gymru—nid yw wedi darllen y rhan honno o'r adroddiad—yn sgil y cydweithio â'r ysbytai yn Lloegr, sy'n amlwg yn rhywbeth nad yw ef yn ei groesawu. O'm safbwynt i, yr hyn yr hoffwn ei weld yw gwasanaeth diogel, waeth ble y caiff ei ddarparu.

Ydw, rwyf am weld cymaint â phosibl o'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu yng Nghymru, a dyna pam y penderfynais edrych ar y mater hwn fy hun. Fodd bynnag, y sefyllfa yw y bydd angen gwasanaethau arbenigol y tu allan i Gymru ar rai babanod o hyd, yn y degau isel o ran niferoedd. Dyna'r hyn y mae'r meddygon yn ei ddweud a dyna'r hyn y mae'r coleg brenhinol yn ei ddweud, ond, i Blaid Cymru, nid yw'r sylwadau hynny'n bwysig. Mae'n ymddangos mai'r hyn sy'n bwysig i'r blaid honno yn hyn o beth yw chwifio baneri, nid diogelwch plant.

I would like to give my thanks for the report, and I also want to thank the First Minister for allowing us to see the report before the statement this afternoon. However, I think that there are questions arising from the report. First, I am not clear, within the further negotiations that will take place over the next month, about regulation and governance.

Recommendation 1 talks about some 10 points where the agreement between Betsi Cadwaladr and Arrows Park is not adequate. I am not clear, from what I have seen of your statement today, whether Betsi Cadwaladr health board will need to be involved in all of those issues.

Rhaid imi ddweud hefyd fy mod yn meddwl bod rhai materion sy'n codi amheuaeth ynghylch cynllunio strategol o ran Betsi Cadwaladr. Mae'n amlwg nad ymgysylltodd, yn rhyfedd iawn, â rhwydwaith newyddenedigol gogledd-orllewin Lloegr; ag un ysbyty yr oedd ganddo gontract. Wedi darllen yr adroddiad, mae rhai materion yn codi lle mae datblygiadau newyddenedigol ym Manceinion yn golygu bod y niferoedd yn Arrows Park bellach yn is na'r safonau cyfredol yn Lloegr.

Hefyd, bydd adolygiad ledled yr ymddiriedolaeth yn Arrows Park yn 2014, ryw dri neu bedwar mis ar ôl i wasanaethau gael eu trosglwyddo o Gymru i Arrows Park. Nid yw'n glir o'r adroddiad hwn a fydd rhywfaint o sicrwydd wedi ei roi gan y rhwydwaith yn y cyfamser. Nid wyf yn glir, pe câi cyfleusterau eu trosglwyddo ymhellach i Loegr, a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar sail yr adroddiad hwn—ac mae'n adroddiad cynhwysfawr iawn—â chryfder y trefniadau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I also think that there are weaknesses in the report itself. There is reference to Welsh-speaking families being placed on Language Line as far as the provision of services is concerned. I certainly do not think that that is acceptable, given the nature of the debate that we will have after this particular statement.

I am unclear as well with regard to whether or not issues that have been put in train by Betsi Cadwaladr since its original decision, which related only to level 3 provision, will mean that its proposals that certain level 2 provisions will also be transferred out of Wales in the short term will continue. What people need is clarity with regard to these arrangements. If this is the decision that the Government has endorsed—and I think that all of us as north Wales AMs were grateful to the royal college team for the time that it gave us—it is this confidence in the transparency of governance and practical arrangements going forward that is missing from our relationship with Betsi Cadwaladr at the current time.

14:51

## **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The issue of governance is important, of course, and I made mention of that in my statement and, subsequently, that the issue of governance has to be resolved to my satisfaction by the end of this month. I expect the health board to resolve all issues regarding the governance on transfer to Arrowe Park by that point. The people who live in the Betsi Cadwaladr area deserve to have that assurance.

When we look at level 3, we have to understand, as Members do, that the provision of level 3 care has an effect on the provision of all care, and that is why it is important that the issue of the different levels of neonatal care are considered by the panel leading up to March of next year. We know what the royal college has suggested; the Member will know that I have agreed with its recommendations. However, I am not going to pretend that it is going to be easy to look at what the effect might be on other hospitals, particularly those that do not have the centre, and the centre may well take work away from other hospitals as it develops its expertise. How that is done and how that is managed in other hospitals will be crucial and, of course, the location is crucial. All of us in the Chamber will know that the location of the new centre is bound to be controversial. We know that that is the case within the health service. I want to make sure that, when the decision is taken about the location of the new centre, that is done on a transparent, rational and evidential basis. That is why I have asked this panel to look at this issue and to make recommendations to me by the beginning of March.

Rwyf hefyd yn credu bod gwendidau yn yr adroddiad ei hun. Mae'n cyfeirio at roi teuluoedd sy'n siarad Cymraeg ar y Llinell Iaith o ran darparu gwasanaethau. Yn sicr, nid wyf yn credu bod hynny'n dderbyniol, o gofio natur y ddadl y byddwn yn ei chael ar ôl y datganiad penodol hwn.

Nid wyf yn siŵr ychwaith a yw materion y mae Betsi Cadwaladr wedi eu rhoi ar waith ers ei benderfyniad gwreiddiol, a oedd yn ymwneud â darpariaeth lefel 3 yn unig, yn golygu y bydd ei gynigion i drosglwyddo rhai darpariaethau lefel 2 allan o Gymru hefyd yn y tymor byr yn parhau. Mae angen eglurder ar bobl o ran y trefniadau hyn. Os dyna'r penderfyniad y mae'r Llywodraeth wedi'i gymeradwyo—a chredaf fod pob un ohonom fel Aelodau Cynulliad y gogledd yn ddiolchgar i dîm y coleg brenhinol am yr amser a roddasant inni—yr hyn sydd ar goll yn ein perthynas â Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yw'r hyder hwn yn nhryloywder y trefniadau ymarferol a'r trefniadau llywodraethu at y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae llywodraethu'n fater pwysig, wrth gwrs, a soniais am hynny yn fy natganiad ac, wedi hynny, fod yn rhaid datrys y mater hwn ynghylch llywodraethu mewn modd sy'n fy modloni erbyn diwedd y mis hwn. Rwyf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd ddatrys yr holl faterion yn ymwneud â threfn llywodraethu trosglwyddo i Arrowe Park erbyn hynny. Mae'r bobl sy'n byw yn ardal Betsi Cadwaladr yn haeddu cael y sicrwydd hwnnw.

Pan fyddwn yn edrych ar lefel 3, mae'n rhaid inni ddeall, fel y mae'r Aelodau'n deall, fod darpariaeth gofal lefel 3 yn effeithio ar ddarpariaeth pob gofal, a dyna pam y mae'n bwysig fod y panel yn ystyried gwahanol lefelau o ofal newyddenedigol cyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Gwyddom beth y mae'r coleg brenhinol wedi'i awgrymu, a bydd yr Aelod yn gwybod fy mod wedi cytuno â'i argymhellion. Fodd bynnag, nid wyf am esgus y bydd yn hawdd edrych ar yr effaith bosibl ar ysbytai eraill, yn enwedig y rhai nad yw'r ganolfan ganddynt, ac mae'n bosibl iawn y bydd y ganolfan yn cymryd gwaith oddi ar ysbytai eraill wrth iddi ddatblygu ei harbenigedd. Bydd y ffordd y gwneir hynny a'r ffordd y rheolir hynny mewn ysbytai eraill yn hollbwysig ac, wrth gwrs, mae'r lleoliad yn hollbwysig. Bydd pob un ohonom yn y Siambur yn gwybod bod lleoliad y ganolfan newydd yn sicr o fod yn ddadleuol. Rydym yn gwybod mai dyna'r sefyllfa yn y gwasanaeth iechyd. Rwyf am wneud yn siŵr, pan gaiff penderfyniad ei wneud am leoliad y ganolfan newydd, y caiff ei wneud ar sail dryloyw, rhesymegol a thystiolaethol. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i'r panel hwn edrych ar y mater hwn a gwneud argymhellion imi erbyn dechrau mis Mawrth.

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept that there are concerns about some of these movements going over the border in relation to Arrowe Park, partly because the British Association of Perinatal Medicine standards are not being complied with there at present. I do not know whether your governance assurances relate to those standards at Arrowe Park, because there were very real concerns about, in effect, services being moved to a hospital that was not BAPM-compliant itself. There was also very real concern that there was a conflict of interest, because one of the members of the consultation—not this consultation team, but the original health board consultation team—moved and got a job at Arrowe Park, so there were concerns around the health board why that had not been disclosed.

Derbyniaf fod pryderon ynglŷn â mynd dros y ffin o ran Arrowe Park, yn rhannol oherwydd nad yw safonau Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain yn cael eu bodloni yno ar hyn o bryd. Nid wyf yn gwybod a yw eich sicrwydd ynghylch y drefn lywodraethu'n ymwneud â'r safonau hynny yn Arrowe Park, oherwydd roedd pryderon gwirioneddol am symud gwasanaethau, i bob pwrpas, i ystyby nad oedd yn cydymffurfio â'r safonau hynny ei hunan. Roedd pryder gwirioneddol hefyd am wrthdaro buddiannau, oherwydd symudodd un o aelodau'r ymgynghoriad—nid y tîm ymgynghori hwn, ond tîm ymgynghori gwreiddiol y bwrdd iechyd—i gymryd swydd yn Arrowe Park, felly roedd pryderon o gwmpas y bwrdd iechyd ynghylch pam na chafodd hynny ei ddatgelu.

You have mentioned the difficulty of looking at a single site. In the 2005 'Designed for Life' NHS consultation, there was a recommendation that there should be a single site in north Wales, and it has been the failure to address that issue for over 10 years—well, it is nearly 10 years; it will be eight years—that has led to this problem, First Minister. That is where the lack of political will has come from: the fact that you did not follow the 2005 'Designed for Life' conclusions. My concerns are that something similar will happen here. We need a very strong road map towards the delivery of this enhanced unit. First Minister, could you give me an assurance that, when you are looking at this site, you will rural-proof the location so that you take into account the needs of rural communities in relation to their access to services, because this is so crucial in terms of access and travel times? Those were very real concerns for some of the patients, which you can see in the report.

Rydych wedi sôn am anhawster edrych ar un safle. Roedd ymgynghoriad 2005 y GIG, 'Cynllun Oes', yn argymhell y dylai fod un safle yn y gogledd, a'r methiant i ymdrin â'r mater hwnnw am dros 10 mlynedd—wel, bron i 10 mlynedd; bydd yn wyth mlynedd—sydd wedi arwain at y broblem hon, Brif Weinidog. Dyna o ble y daeth y diffyg ewyllys gwleidyddol: y ffaith na wnaethoch ddilyn casgliadau 'Cynllun Oes' 2005. Rwyf yn pryderu y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yma. Mae angen map ffordd cryf iawn arnom i gyflwyno'r uned well hon. Brif Weinidog, a allwch roi sicrwydd imi, pan fyddwch yn edrych ar y safle hwn, y byddwch yn ei brawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad er mwyn ystyried anghenion cymunedau gwledig o ran cael gafael ar wasanaethau, oherwydd mae hyn mor bwysig o ran mynediad ac amseroedd teithio? Roedd y rhain yn bryderon gwirioneddol i rai o'r cleifion, fel y gwelwch yn yr adroddiad.

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am not sure that this suggestion was in 'Designed for Life', but, nevertheless, I remember that 'Designed for Life' was opposed by a number of Members from different parties as a general principle. Nevertheless, there it is. In terms of rural areas, of course that is important. Accessibility to the facility is important when balanced, of course, with the need to make sure that the facility is in a place that can attract the right calibre of professional. That much we understand. These are not easy balances to make, but nevertheless they have to be done. What is important is that, as a result of these recommendations, we have been able to put in place, in a reasonable timescale, the highest level of neonatal care that is possible to be put in north Wales. Where that should be, of course, will no doubt be an issue for debate, but I look forward to the recommendations that will come forth from the panel.

Nid wyf yn siŵr bod yr awgrym hwn yn 'Cynllun Oes', ond, serch hynny, cofiaf fod nifer o Aelodau o wahanol bleidiau wedi gwrthwynebu 'Cynllun Oes' fel egwyddor gyffredinol. Serch hynny, dyna ni. O ran ardaloedd gwledig, wrth gwrs, mae hynny'n bwysig. Mae hygyrchedd y cyfleuster yn bwysig o'i gydbwysu, wrth gwrs, â'r angen i sicrhau bod y cyfleuster mewn lle a all ddenu gweithwyr proffesiynol o'r safon iawn. Rydym yn deall hynny. Nid yw'n hawdd cadw'r ddysgl yn wastad, ond mae'n rhaid gwneud hynny. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod, o ganlyniad i'r argymhellion hyn, wedi gallu sefydlu, o fewn amserlen resymol, y lefel uchaf o ofal newyddenedigol y mae'n bosibl ei rhoi yn y gogledd. Wrth gwrs, bydd cryn drafod ar ble y dylai fod, ond edrychaf ymlaen at yr argymhellion a ddaw gan y panel.

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr am y datganiad. Fel aelod o deulu sydd wedi profi gwerth gwasanaeth ysbyty arbenigol Arrowe Park, nid wyf eisiau darlith gan y Prif Weinidog ynglŷn â gwerth gwasanaeth arbenigol, lle bynnag y mae. Y cwestiwn y dylid ei ofyn heddiw, rwy'n meddwl, yw a ddylid gwasanaeth lefel 3 ar gyfer babanod newydd-anedig fod ar gael yn weddol hwylus i boblogaeth gogledd Cymru yng ngogledd Cymru. Mae tri chwestiwn yn codi o hynny. Sut yr ydym wedi cyrraedd sefyllfa lle nad oes y fath wasanaeth ar gael yng ngogledd Cymru? Beth sydd wedi achosi'r dirywiad hwnnw? Yn ail, Brif Weinidog, a ydych yn ystyried bod Arrowe Park yn ddigon cyfleus i rieni babanod newydd eu geni o ardaloedd fel gogledd Môn a phen Llŷn? A fydddech yn licio fod yn rhiant di-waith, neu efallai'r unig riant mewn gwaith, a gorfod teithio i Arrowe Park mewn sefyllfa felly? Yn olaf, ynglŷn â'r ffigurau yr oeddech yn cyfeirio atynt, nid yw'r ffigur o 30 y mae bwrdd iechyd wedi cyfeirio ato, y byddai'n mynd i Arrowe Park am flynyddoedd, yn cyfateb i nifer y babanod sydd yn cael gofal dwys yn ne Cymru, er enghraifft, yn ôl pen y boblogaeth. A ydych yn ystyried bod yr amcangyfrif hwnnw yn un cywir a rhesymol?

Thank you for the statement. As a member of a family that has experienced the value of the specialised hospital service provided by the Arrowe Park, I do not want a lecture from the First Minister about the value of specialised services, wherever those services may be. The question that should be asked today, I believe, is whether level 3 services for new-born babies should be available relatively conveniently for the population of north Wales in north Wales. There are three questions arising from that. How have we reached a position where there is no such provision available in north Wales? What has caused that decline? Secondly, First Minister, do you believe that Arrowe Park is sufficiently convenient for the parents of new-born babies from areas such as north Anglesey and the Llyn peninsula? Would you like to be an unemployed parent, or perhaps the single breadwinner, and having to travel to Arrowe Park in such circumstances? Finally, in terms of the figures that you referred to, the figure of 30 that the health board made reference to, that would go to Arrowe Park for many years, does not correspond to the number of babies that receive intensive care in south Wales, for example, per head of population. Do you believe that that estimate is correct and reasonable?

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ydw. Fel un a gafodd ei eni mewn ysbyty oedd ar y pryd yn ysbyty byddai nawr yn ysbyty lefel 3, sef Ysbyty Treforys, ar ôl i fy mam gael ei symud yno o Ysbyty Dyffryn Aman, rwy'n deall yn gymwys sut mor bwysig yw sicrhau bod rhywle i fenywod er mwyn cael babis. Yr hyn sydd yn bwysig dros ben yw bod ysbytai yn gallu sicrhau bod y babis hynny yn gallu cael eu geni mewn ffordd sydd yn saff. Nid yw'n fwy cyfleus i bobl yng Nghaerdybi fynd i Wrecsam, Glan Clwyd neu Lerpwl. Mae Wrecsam yn bell iawn iddynt hefyd. Wrth gwrs, mae Lerpwl yn Lloegr—dyna'r bwynt yn y fan hon i chi. Fodd bynnag, mae'r pwynt yw bod yn rhaid i ni ystyried ym mha ffordd y gallem sicrhau gwasanaeth sydd yn saff. Os ydym yn dweud bod yr hyn sydd yn bwysig yw gwasanaeth sydd wastad yn agos at bobl, efallai bydddech yn trio cael uned lefel 3 ym mhob ysbyty yng Nghymru. Nid yw hynny'n gall nag yn synhwyrol. Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, ar gyfer rhai o'r babis sydd yn mynd i ysbyty lefel 3, byddai hynny wedi cael ei gynllunio ymlaen llaw. Byddai rhai, wrth gwrs, yn mynd yno mewn argyfwng, ond nid yw pob un sydd yn mynd yno mewn argyfwng. Felly, beth sydd gennym fan hyn yw system lle byddai'r mwyafrif helaeth o fabis yn cael aros yng Nghymru, ond byddai rhai, ar adegau, fel y dywedais, yn gorfod mynd i gael triniaeth, ond triniaeth dda dros ben, yn Ysbyty Arrowe Park. Mae'n rhaid i mi ofyn y cwestiwn: pe bai Arrowe Park yn sir y Fflint, byddai'r ddadl yr un peth? Nid wyf yn gwybod. Yr hyn sydd yn bwysig i fi yw bod pobl yn gallu cael triniaeth yn lle sydd mwyaf saff a diogel iddynt.

Yes, I do. As someone who was born in a hospital that was at the time what would now be a level 3 hospital, namely Morryston Hospital, after my mother had been moved there from Amman Valley Hospital, I understand exactly how important it is to ensure that there is somewhere available for women to have babies. What is extremely important is that hospitals can ensure that those babies can be born in a safe way. It is not more convenient for people in Holyhead to go to Wrexham, Glan Clwyd or Liverpool. Wrexham is very far away for them too. The point here, for you, of course, is that Liverpool is in England. However, the point is that we have to consider how we can ensure a service that is safe. If we say that what is important is to have a service that is always close to people, perhaps you would try to get a level 3 unit in every hospital in Wales. That is neither wise nor sensible. We must remember, of course, that some of these babies go to a level 3 hospital through prior arrangement. Although some would be admitted as an emergency, not all of them are emergency cases. Therefore, what we have here is a system where the vast majority of babies would be able to stay in Wales, but some, at times, as I said, would have to go for treatment, but extremely good treatment, in Arrowe Park Hospital. I must ask the question: if Arrowe Park was in Flintshire, would the argument be the same? I am not sure. What is important to me is that people can have treatment in the place that offers the safest service for them.

Mae'n rhaid i ni newid y drefn. Nid ydym yn gallu cadw'r drefn fel y mae. Fodd bynnag, unwaith eto, yn ôl Aelodau Plaid Cymru, mae'r doctoriaid yn anghywir ac maen nhw yn gywir. Nid wyf yn derbyn hynny, achos pe bai unrhyw wleidydd yn cymryd penderfyniad yn ôl tystiolaeth sy'n dangos yn glir taw honno yw'r system orau am sicrhau gwasanaeth saff yn y dyfodol—wel, nid wyf yn gweld ym mha ffordd y gallech chi gymryd penderfyniad arall. Fel cyfreithiwr, byddem wedi dwlu cwestiynu unrhyw wleidydd a oedd wedi cymryd penderfyniad gan osgoi pob darn o dystiolaeth. Nid wyf yn mynd i wneud hynny. Mae'n bwysig dros ben bod y gwasanaeth ar gael i bawb yn y gogledd, ac nid oes ots gennyf ymhle y mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal. Rwy'n mo'yn gweld y rhan fwyaf o wasanaethau ar gael yng Nghymru, ond lle nad yw hynny'n ymarferol ac yn saff, ni fyddaf yn stopio pobl rhag teithio i Lerpwl.

We have to change the system. We cannot keep it as it is. However, once again, according to Plaid Cymru Members, the doctors are wrong and they are right. I do not accept that, because if any politician takes a decision according to the evidence that shows clearly that that is the best system for ensuring a safe service in the future—well, I do not see how you could take another decision. As a lawyer, I would have loved to have questioned any politician who had taken a decision and had avoided every piece of evidence. I am not going to do that. It is very important that the services are available to everyone in north Wales, and I do not care where that service is provided. I want to see the majority of services being available in Wales, but where that is not practical and safe, I will not be stopping people from travelling to Liverpool.

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, and briefly, Rhun ap Iorwerth.

Yn olaf, ac yn fyr, Rhun ap Iorwerth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could we please stop making the political points and think about the patient for a second? [Interruption.] Just picking up on the point made by the Member for North Wales, the report itself identifies models that could provide all levels of care in north Wales. It is not an option that you are considering—and, clearly, what you are going to put in place is better than what we had before. It is not just Plaid, as the review itself clearly thinks that this model is worthy of consideration, though it could take years to implement. Now, rather than trying to score the cheap political points by saying that this is some sort of narrow nationalism by Plaid Cymru, you could agree with us and agree with the principle that care should be delivered as close to as many parts of the population as possible. So, why not promise today that the total enhanced care in future can be accommodated within the proposals that you want to implement immediately?

A gawn ni, os gwelwch yn dda, roi'r gorau i wneud pwyntiau gwleidyddol a meddwl am y cleifion am eiliad? [Torri ar draws.] I godi'r pwynt a wnaeth yr Aelod dros Ogledd Cymru, mae'r adroddiad ei hun yn nodi modelau a allai ddarparu gofal ar bob lefel yn y gogledd. Nid yw'n opsiwn yr ydych yn ei ystyried—ac, yn amlwg, mae'r hyn yr ydych yn mynd i'w roi ar waith yn well na'r hyn a oedd gennym o'r blaen. Nid dim ond Plaid Cymru yw hyn—mae'r adolygiad ei hun yn amlwg yn meddwl ei bod yn werth ystyried y model hwn, er y gallai gymryd blynyddoedd i'w roi ar waith. Yn awr, yn hytrach na cheisio sgorio pwyntiau gwleidyddol hawdd drwy ddweud bod hyn yn rhyw fath o genedlaetholdeb cul gan Plaid Cymru, gallech gytuno â ni a chytuno â'r egwyddor y dylid darparu gofal mor agos at gynifer o rannau o'r boblogaeth â phosibl. Felly, pam na roddwch addewid heddiw y gellir cynnwys y cyfan o'r gofal lefel uwch yn y dyfodol o fewn y cynigion yr ydych am eu gweithredu ar unwaith?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There was a certain amount of irony, let us say, in those comments. I listened carefully to the questions that were put to me by the spokespeople for the Liberal Democrats and the Conservative party. I detected from them a genuine desire to ask more questions about a proposal. When I listened to your spokesperson, Llyr Huws Gruffydd, all I heard was a diatribe of politics. I do not think that anybody rational listening to his contribution would have been under the impression that it was anything other than an attempt to score political points. I cannot take lessons from the Member for Ynys Môn in that regard.

Roedd rhywfaint o eironi, gadewch inni ddweud, yn y sylwadau hynny. Gwrandewais yn astud ar y cwestiynau a ofynnwyd imi gan lefarwyr y Democratiaid Rhyddfrydol a'r blaid Geidwadol. Roeddwn yn teimlo bod ganddynt awydd gwirioneddol i ofyn mwy o gwestiynau am gynnyg penodol. Pan wrandewais ar eich llafar ydych chi, Llyr Huws Gruffydd, y cwbl a glywais oedd ymosodiad gwleidyddol. Nid wyf yn meddwl y byddai neb rhesymol a wrandawodd ar ei gyfraniad yn teimlo ei fod yn ddim ond ymgais i sgorio pwyntiau gwleidyddol. Ni allaf gymryd gwersi gan Aelod Ynys Môn yn hynny o beth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

From my point of view, yes, he is right to say that it was an option that a full service could be developed in Wales, but that would take at least 10 years, probably with the appointment of 12 or 13 qualified staff—neonatologists. Now, I have to say that, from my point of view, I want to ensure the safest service as quickly as possible for the people of Wales. I do not share his hang-ups about people from Wales being treated in England—I do not share Plaid Cymru's hang-ups. No other party in the Chamber has displayed comments this afternoon that are based in reality and on the fact that some babies in Wales will have to have treatment in England, and that is what this is about. I want to see that treatment being carried out safely, and I want to make sure that that treatment is available as soon as possible. For me, it is about safety; it is not about pride.

O'm safbwynt i, ydy, mae'n gywir bod datblygu gwasanaeth llawn yng Nghymru yn opsiwn, ond byddai hynny'n cymryd o leiaf 10 mlynedd, ac yn ôl pob tebyg yn golygu penodi 12 neu 13 o staff cymwysedig—neonatolegwyr. Nawr, rhaid imi ddweud, o'm safbwynt i, fy mod am sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf diogel ar gael cyn gynted ag y bo modd i bobl Cymru. Nid wyf yn rhannu ei bryderon am drin pobl o Gymru yn Lloegr—nid wyf yn rhannu pryderon Plaid Cymru. Nid oes yr un blaid arall yn y Siambwr wedi gwneud sylwadau y prynhawn yma sy'n seiliedig ar realiti ac ar y ffaith y bydd rhai babanod yng Nghymru yn gorfod cael triniaeth yn Lloegr, a dyna yw'r pwynt yma. Rwyf am weld y driniaeth honno'n cael ei rhoi'n ddiogel, ac rwyf am wneud yn siŵr bod y driniaeth honno ar gael cyn gynted ag y bo modd. I mi, mater o ddiogelwch yw hyn; nid mater o falchder.

15:03

## Datganiad: Y Gynhadledd Fawr— Camau Nesaf

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y gynhadledd fawr ac am yr egni a'r brwdfrydedd sydd yn bodoli dros gydweithio i hybu'r Gymraeg. Heddiw, rwy'n mynd i amlinellu rhai o'r pethau cychwynnol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ymateb i'r heriau y mae'r gynhadledd fawr wedi eu hamlygu. Rwy'n pwysleisio taw dyma'r camau cyntaf, wrth gwrs—mae mwy o waith gennym i'w wneud, a byddaf yn gwneud datganiad pellach yn y gwanwyn.

Yn ystod y gynhadledd fawr, dywedwyd wrthym fod sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith yn golygu, yn gyntaf, bod angen gweithredu'n fwriadus i gryfhau'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith; yn ail, fod angen i ni sicrhau ein bod yn adeiladu ar y llwyddiannau yn y system addysg, gan wella'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg, a chryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion, y gymuned a'r gweithle; ac, yn drydydd, fod angen hyrwyddo gwerth y Gymraeg er mwyn codi ei statws yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Clywsom hefyd fod hyder ac arferiad yn ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd unigolion o'r iaith. Clywsom hefyd fod llawer o waith da ac arloesol yn digwydd ar lawr gwlad i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r iaith.

Ein tasg yn awr yw harneisio'r brwdfrydedd a'r arfer da hyn er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gwladwy a chlywadwy yn ein cymunedau a'n gweithleoedd. Felly, beth ydym yn ystyried ei wneud? O'n rhan ni fel Llywodraeth, rydym wedi gwrandao ac yn cydnabod bod angen inni wneud mwy i brif-frydio'r Gymraeg ar draws portffolios gweinidogol. Byddwn felly yn gweithredu cynllun gwella i gynyddu ymwybyddiaeth o fewn y Llywodraeth a gwella sgiliau mewn cynllunio ieithyddol. Bydd y cynllun gwella hefyd yn canolbwyntio ar greu systemau i'n galluogi i asesu yn fwy effeithiol ein gwariant ar y Gymraeg ar draws y portffolios.

## Statement: Y Gynhadledd Fawr— Next Steps

I am grateful to everyone who took part in the 'cynhadledd fawr' and for the energy and enthusiasm that exist for working together to promote the Welsh language. Today, I am going to outline some of the initial things that the Welsh Government will do to respond to the challenges highlighted by the 'cynhadledd fawr'. I emphasise that these are the initial steps—of course, there is further work to do—and we will make a further statement in the spring.

During the 'cynhadledd fawr', people told us that securing the future of the language means, first, that we need purposeful action to strengthen the link between the economy and the language; secondly, we need to ensure that we build on the successes in the education system, by improving the provision for teaching Welsh in English-medium schools, and strengthening the link between schools, the community and the workplace; and, thirdly, we need to promote the value of the Welsh language in order to increase its status socially and in the workplace. We also heard that confidence and use are also factors that influence individuals' use of the language. We also heard that there is good and innovative work happening on the ground to address the challenges facing the language.

Our task now is to harness this enthusiasm and good practice so that the Welsh language becomes more visible and audible in our communities and our workplaces. So, what are we considering that we should do? From our part as a Government, we have listened and we recognise that we need to do more to mainstream Welsh across ministerial portfolios. We will therefore implement an improvement plan to increase awareness within the Government and improve skills in language planning. The improvement plan will also focus on creating systems to allow us to more effectively assess our expenditure on the Welsh language across portfolios.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Rydym eisoes wedi cyhoeddi nodyn cyngor technegol 20, sy'n amlinellu'r hyn y disgwylir i awdurdodau cynllunio ei wneud. Yr hyn a glywais yn y gynhadledd fawr oedd bod awdurdodau cynllunio hefyd angen gwybod sut i asesu effaith datblygiadau ar yr iaith wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol. Byddwn felly yn datblygu canllawiau i awdurdodau cynllunio i'w helpu i asesu effaith dros y misoedd nesaf.

O ran y system addysg, mae gwaith ardderchog wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn gynharach eleni, pasiwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn statudol i awdurdodau lleol gynllunio i gynyddu a chodi safonau addysg Gymraeg. Un o'r prif heriau mewn addysg yw gwella safonau Cymraeg ail iaith. Mae adroddiad y grŵp adolygu a gyhoeddwyd ym mis Medi yn herio'r Llywodraeth i feddwl yn radical am sut y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau yn y ddwy iaith. Rydym yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r her hon mewn adolygiad ehangach o'r cwricwlwm.

Yn rhy aml, rydym yn clywed am golli hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Yr her nesaf i ni fel Llywodraeth yw meithrin sgiliau siaradwyr Cymraeg ar gyfer y gweithle. Eisoes, mae gwaith yn digwydd i ganfod beth yw anghenion sgiliau dwyieithog cyflogwyr mewn nifer o sectorau. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i adeiladu pecyn o gymorth i gyflogwyr, gweithwyr a darpar weithwyr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd y Gymraeg yn y gweithle.

Yn ddi-os, mae dyfodol yr iaith yn nwylo ein pobl ifanc, ond mae gosod y seiliau a'r amgylchiadau iddynt gael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein dwylo ni. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthyf mewn sawl gwaith eu bod eisiau gwneud gweithgareddau chwaraeon yn Gymraeg. Mae'r Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r mentrau iaith yn gwneud hynny yn gynyddol, wrth gwrs. Fodd bynnag, bydd y safonau, maes o law, yn gallu helpu i sicrhau bod darpariaeth gan gyrrff cyhoeddus ac eraill ar gael yn Gymraeg yn y gymuned ar draws Cymru, i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw y tu hwnt i ffiniau'r ysgol. Mae gan y gyrrff sy'n llywodraethu chwaraeon hefyd rôl a dylanwad pwysig ymhlith pobl ifanc. Mae hynny'n cynnwys Undeb Rygbi Cymru—undeb y mae sôn wedi bod amdani—ac mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi bod yn trafod y pwnc hwn gyda'r undeb yn ddiweddar.

Wrth sôn am feysydd newydd, mae technoleg a'r byd digidol yn allweddol bwysig. Rwy'n falch iawn, felly, o gyhoeddi heddiw fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £200,000 mewn chwe chynllun cyffrous a fydd yn cyfrannu mewn ffordd hollol ymarferol i gynyddu'r cynnwys a'r hyn fydd yn bosibl ei wneud drwy dechnoleg yn y Gymraeg. Yn y flwyddyn newydd, byddwn yn ailagor y gronfa i wahodd rhagor o gynigion ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

We have already published technical advice note 20, which outlines what the planning authorities are expected to do. What I heard during the 'cynhadledd fawr' was that planning authorities also need to know how to assess the impact of developments on the language when preparing their local development plans. We will therefore develop guidance for planning authorities to help them to assess the impact over the coming months.

With regard to the education system, a lot of excellent work has been done over a number of years to improve the provision of Welsh-medium and bilingual education. Earlier this year, the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 was passed, which places a statutory obligation on local authorities to plan to increase and raise the standards of Welsh education. One of the main challenges in the field of education is improving the standard of Welsh as a second language. The review group report published in September challenges the Welsh Government to think radically about how the Welsh language is taught in our English-medium schools in order to ensure that every pupil in Wales has an opportunity to develop skills in our two languages. We are considering what steps to take to tackle this challenge as part of a wider review of the curriculum.

Too often, we hear of people losing confidence to use the Welsh language after leaving school. The next challenge for us as a Government is to nurture the skills of Welsh speakers for the workplace. Work is already in progress to find out what bilingual skills employers in many sectors require. The Government will use that information to build a package for employers, employees and prospective employees in order to increase awareness and use of the Welsh language in the workplace.

Undoubtedly, the future of the language is in the hands of our young people, but laying the foundations for them to use the Welsh language lies in our hands. Young people have told us several times that they want to do sports activities through the medium of Welsh. The Urdd, Wales Young Farmers Clubs, and mentrau iaith are increasingly providing these opportunities, of course. However, the standards, in due course, will help to ensure that provision is made available by public bodies and others across Wales, to ensure that the language is a living language outside the school gates. Our sports governing bodies also have an important role and influence among young people. This includes the Welsh Rugby Union, which has been mentioned, and the Minister for Culture and Sport has been in discussions with the union on this topic recently.

On the subject of new areas, technology and the digital world deserve particular attention. I am delighted, therefore, to announce today that the Welsh Government has invested £200,000 in six exciting projects that will contribute in a very practical way to increasing the digital content and the availability of technology through the medium of Welsh. In the new year, we will reopen the fund to invite further proposals for the 2014-15 financial year.

Un peth a ddaeth yn amlwg o'r gynhadledd fawr oedd bod llawer o weithgareddau Cymraeg yn digwydd ar lawr gwlad, a bod llawer o wasanaethau Cymraeg ar gael gan wahanol fusnesau, ond bod diffyg ymwybyddiaeth ohonynt. Dros y misoedd nesaf bydd y Llywodraeth yn datblygu gwasanaeth gwybodaeth digidol—ar ffurf ap a gwefan—a fydd yn galluogi busnesau a mudiadau i hybu eu gwasanaethau a digwyddiadau Cymraeg.

Rwy'n awyddus i weld mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith bob dydd. Mae nifer o bethau eisoes yn bodoli. Mae angen gwneud llawer mwy o ddefnydd o fathodyn Iaith Gwaith, fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu adnabod ei gilydd a'i bod yn haws dechrau sgysiau yn Gymraeg. Rwyf hefyd yn awyddus i bob un ohonom feddwl am wneud o leiaf pum peth yn Gymraeg bob dydd—rwyf am adael hynny i chi feddwl amdano—yn gymdeithasol neu'n broffesiynol. Er enghraifft, cynnal pum sgwrs yn Gymraeg, dysgwyr yn dysgu pum gair newydd, ysgrifennu pum e-bost yn Gymraeg—neu gallai fod yn gyfuniad o'r rhain—hynny yw, creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd newydd.

Dyma'r camau cyntaf y byddwn yn eu cymryd dros y misoedd nesaf. Ar yr un pryd, byddwn hefyd, dros y misoedd nesaf, yn ystyried yn ddwys ein hymateb i'r adolygiadau polisi sydd newydd eu cyhoeddi a'r rhai sydd eto i'w cwblhau. Bydd hyn yn cynnwys yr adolygiad diweddar o'r Eisteddfod Genedlaethol.

Wrth i ni fel Llywodraeth wneud popeth y gallwn i hybu defnydd y Gymraeg, galwaf hefyd ar ein partneriaid, cyrff cenedlaethol a lleol, cymdeithas sifil ac unigolion ar draws Cymru, i ymuno â ni i ddathlu, hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg.

One thing that emerged from the 'cynhadledd fawr' was that many Welsh activities are happening on the ground, and that there are many Welsh language services provided by different businesses, but that there is a lack of awareness of those. Over the coming months the Government will develop a digital information service—in the form of an app and a website—that will allow businesses and organisations to advertise their Welsh services and events.

I am keen to see more opportunities for Welsh speakers to use the language every day. A number of things already exist. More use needs to be made of the Iaith Gwaith badge, so that Welsh speakers can recognise each other and so that it is easier to start a conversation in Welsh. I am also keen for all of us to think about doing at least five things in Welsh every day—I will leave that for you to think about—socially or professionally. For example, having five conversations in Welsh, learners to learn five new words, writing five emails in Welsh every day—or a combination of these—that is, creating opportunities to use the language in new situations.

These are the first steps we will take in the coming months. At the same time, over the next months, we will be giving serious consideration to how we respond to the numerous policy reviews that have been published and those that have not yet been completed. This will include the recent review of the National Eisteddfod.

As we as a Government do everything that we can to promote the use of the Welsh language, I call on our partners, national and local organisations, Welsh civic society and individuals across Wales, to join us to celebrate, promote and facilitate the use of the Welsh language.

15:10

### **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Brif Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n croesawu llawer o'r pethau yr ydych wedi bod yn sôn amdanynt. Un o'm pryderon am y gynhadledd fawr oedd y byddai yn bennaf yn denu diddordeb y rhai sydd eisoes yn cymryd rhan mewn sgysiau ar ddyfodol yr iaith, yn siaradwyr Cymraeg ac yn ddi-gymraeg—pobl, er enghraifft, sy'n edrych ar hyn yn wleidyddol, neu yn academaidd, neu o ran eu cyfranogiad eu hunain mewn addysgu neu hyfforddi, neu o safbwynt diwylliant. Felly, yr hyn yr hoffwn ofyn yn gyntaf yw hyn: sut allwch fod yn sicr eich bod wedi cyrraedd canran ystyrion o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn ei defnyddio—hynny yw, y rheini nad ydynt wedi bod yn 'usual suspects', os gallaf eu galw felly, mewn sgysiau blaenorol?

Thank you, First Minister, for your statement. I welcome much of the things that you have been talking about. One of my concerns about the 'cynhadledd fawr' is that it would attract interest mainly from those who are already involved in conversations about the future of the language, Welsh speakers and non-Welsh speakers—people, for example, who look at this from a political or an academic perspective, or from their own participation in educating or training, or from a culture point of view. So, what I would like to ask first of all is this: how can you be sure that you have reached a meaningful percentage of people who can speak Welsh but who do not necessarily use it—that is, those who have not been among the usual suspects, if I can call them that, in previous conversations?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I droi at eich datganiad, mae'n debyg bod y gynhadledd fawr wedi cadarnhau'r hyn y mae nifer o bobl yn ei ddweud yn barod. Felly, yr hyn sydd o ddiddordeb yn awr, rwy'n credu, yw sut yr ydych yn bwriadu datblygu'r cynlluniau a gafodd eu sefydlu ar ganlyniadau'r gynhadledd, a sut yr ydych yn bwriadu talu amdanynt. Rwy'n falch eich bod wedi tynnu sylw at yr economi, ac rwy'n edrych ymlaen at adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Gweinidog yr economi cyn bo hir. Mae llawer i'w wneud yn fy rhanbarth i, lle nad yw rhai darparwyr gwasanaethau lleol yn dal i dderbyn bod sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y bobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Beth bynnag yw eich cynlluniau ar gyfer sgiliau yn y gweithle, bydd y galw am y sgiliau hynny yn cael ei yrru gan safonau ar yr un llaw, a chan ddymuniad cyhoeddus ar y llaw arall. A wnewch chi ddweud, felly, sut fydd safonau, ac unrhyw welliannau mewn addysg Gymraeg fel ail iaith, yn gweithio gyda'i gilydd i droi ewyllys da i ddefnydd gwirioneddol o'r iaith mewn bywyd bob dydd?

Hoffwn droi yn awr at sut yr ydych yn bwriadu talu am hyn. Ni allwn wybod o'r gyllideb sut y bydd eich cynlluniau ar gyfer prif-frydio dros y Llywodraeth yn cael eu gweithredu. Felly, os oes gennych rywbeth i'w ddweud ar hynny ar hyn o bryd, byddai hynny o help mawr. Ni allwn wybod yn hawdd o'r gyllideb sut y bydd y prosiectau iaith presennol yn cael eu heffeithio, ac ni allwn wybod o'r gyllideb sut y bydd unrhyw gynlluniau a amlinellwyd yn eich datganiad heddiw yn cael eu hariannu. Felly, a wnewch chi ymrwymo heddiw i ddarparu rhyw fath o ddatganiad atodol yn nodi manylion ynghylch ble fydd toriadau gwariant yr iaith Gymraeg yn digwydd eleni ym mhob portffolio, effaith hynny ar ddatblygiad y Gymraeg, a sut y bydd eich cynigion newydd yn cael eu hariannu?

Turning to the statement itself, it appears that the 'cynhadledd fawr' confirmed what many already knew. So, what is of interest now, I believe, is how you intend to develop the plans that were established as a result of the 'cynhadledd fawr', and how you intend to pay for those proposals. I am pleased that you have highlighted the economy, and I look forward to seeing the Minister for the economy's task and finish group report soon. There is much to be done in my own region, where some local service providers still cannot accept that Welsh language skills improve employment opportunities for people in the communities that they serve.

Whatever your plans for workplace skills, the demand for those skills will be driven by standards on the one hand, and by public desire on the other. Can you therefore tell us how standards, and any improvements in the teaching of Welsh as a second language, can work together to turn goodwill towards the language into real use of the language in everyday life?

I would now like to turn to how you intend to pay for all of this. We cannot identify from the budget how your plans for mainstreaming the language across Government will be put in place. Therefore, if you have any comments on that, that would be of great assistance. We cannot easily identify from the budget how current language projects will be affected, and we do not know from the budget how any plans outlined in today's statement will be funded. So, will you commit today to provide some sort of supplementary statement noting where cuts in expenditure on the Welsh language will happen this year in every portfolio, the impact of that on the development of the Welsh language, and how your new proposals will be funded?

15:13

## **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yr unig beth rwyf wedi ei ddatgan heddiw sydd ag unrhyw fath o bris ynghlwm wrtho, wrth gwrs, yw'r £200,000 ar gyfer y prosiectau technolegol y byddwn yn symud yn eu blaen. Mae hynny'n dod mas o gyllideb yr iaith Gymraeg, wrth gwrs.

O ran cyrraedd pobl, ac o ran y gynhadledd fawr, roeddwn yn gwybod ei fod yn bwysig dros ben i sicrhau bod pobl y tu hwnt i'r bobl sy'n gweithio'n broffesiynol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn cael eu targedu. Rwy'n credu i hynny ddigwydd. Nid dim ond y gynhadledd yn Aberystwyth a roddodd gyfle i bobl fynegi barn; roedd sawl grŵp dros Gymru gyfan, ac roedd modd mynegi barn ar safle we. Mae'n bwysig dros ben i sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am ddyfodol yr iaith—y rheini, yn benodol, sy'n siarad Cymraeg—yn teimlo eu bod yn rhan o brosiect pwysig dros ben. Rwy'n gwerthfawrogi, wrth gwrs, y gwaith sy'n cael ei wneud gan bobl sy'n delio â'r Gymraeg yn broffesiynol, ond mae hefyd yn bwysig dros ben ein bod yn sicrhau bod y bobl nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg yn dod yn fwy hyderus, neu ni fyddant yn gweld unrhyw fath o werth yn eu Cymraeg, ac felly, wrth gwrs, bydd perygl na fyddant yn trosglwyddo'r iaith i'w plant; dyna beth oedd nod y gynhadledd fawr ei hun.

The only thing that I have stated today that has any kind of price attached to it, of course, is the £200,000 for the technological projects that we will be moving ahead with. That comes out of the Welsh language budget, of course.

In terms of reaching people, and in terms of the 'cynhadledd fawr', I knew that it was very important to ensure that people beyond those who work professionally through the medium of Welsh are targeted. That did happen. It was not just the conference in Aberystwyth that gave people the opportunity to express their opinion; there were several groups across Wales, and it was possible to express opinions on a website. It is very important to ensure that those who are responsible for the future of the Welsh language—those specifically who speak Welsh—feel that they are part of a very important project. I of course appreciate the work that is done by people who deal with the Welsh language in a professional capacity, but it is very important that we ensure that people who are not confident in the Welsh language become more confident, or they will not see any value in their Welsh, and therefore, of course, there is a risk that they do not transfer the language to their children; that was one of the aims of the 'cynhadledd fawr'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n credu fy mod wedi rhoi ateb cyflawn yn ystod y datganiad i'r cwestiynau y soniodd yr Aelod amdanynt. Mae'n bwysig dros ben inni sylweddoli nad yw dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ym mhob rhan o Gymru am dros 20 mlynedd yn awr, efallai, wedi bod yn llwyddiant mawr. Nid yw hynny'n golygu na ddylai'r Gymraeg fod yn orfodol, ond mae'n rhaid inni sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ffordd sy'n creu siaradwyr Cymraeg hyderus. Rwyf wedi ei weld yn digwydd yn Ysgol Gyfun Treorci, yn etholaeth Leighton Andrews, lle gwelais blant mewn ysgol Saesneg—neu ysgol Saesneg a pheth Cymraeg—a oedd yn hyderus iawn yn y Gymraeg, er eu bod wedi mynd i ysgol Saesneg ac yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Mae ffordd i wneud hynny, felly.

Fodd bynnag, ynglŷn â'r hyn yr wyf wedi'i ddatgan heddiw, nid oes pris mawr ynglŷn â beth sydd wedi cael ei ddweud. Rydym wedi dweud beth yr ydym yn mynd i'w wneud ynglŷn â symud ymlaen gyda'r ap, gyda'r dechnoleg a gyda siarad â chyrrff eraill sy'n hollbwysig i sicrhau dyfodol yr iaith, sef y cyrrff y soniais amdanynt, fel Undeb Rygbi Cymru.

15:16 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Brif Weinidog, am y datganiad. Pwrpas strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Iaith Fyw: Iaith Byw', yw arwain at gynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Rwy'n derbyn y bydd yn rhaid gwneud newidiadau sylfaenol, ac mae'ch datganiad heddiw yn cynnig nifer o enghreifftiau gwerthfawr i wneud hyn. Rydych wedi sôn yn barod am y peth mwyaf yr oeddwn yn mynd i'w godi gyda chi, sef y ffaith y derbyniwyd, ym mis Medi, adroddiad grŵp Sioned Davies ar y Gymraeg fel ail iaith yn ein hysgolion. Roedd yn dweud nad yw'r disgyblion yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bod y cyfleoedd iddynt wneud hynny yn gyfyngedig iawn. Gan fod tua 80% o ddisgyblion Cymru yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, mae eisiau inni gytuno bod gwella'r sefyllfa yn hollbwysig i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol. Pa gamau fyddwch chi, fel Llywodraeth, yn eu cymryd i sicrhau hyn?

I think that I have given a comprehensive answer during the statement to the questions that the Member referred to. It is very important for us to realise that the teaching of Welsh as a second language in every part of Wales for more than 20 years has not, perhaps, been a huge success. That does not mean that the Welsh language should not be compulsory, but we have to ensure that the language is taught in a way where we can create confident Welsh speakers. I have seen it happen in Treorchy Comprehensive School, in Leighton Andrews's constituency. I met schoolchildren in this English school—or an English school with an element of Welsh—who were confident Welsh speakers even though they attended an English school and came from English-speaking backgrounds.

However, as regards what I have said today, there is not a great cost attached to what has been stated. We have said what we are going to do about moving forward with the app, with the technology and through speaking to other bodies that are crucial when it comes to securing the future of the language, such as the Welsh Rugby Union.

Thank you, First Minister, for your statement. The purpose of the Welsh Government's strategy, 'A Living Language: A Language for Living' is to increase the number of people who speak and use the Welsh language. I accept that fundamental changes will have to be made, and your statement today offers a number of valuable examples in taking this forward. You have already mentioned the main point that I wanted to discuss with you this afternoon, which is the fact that, in September, we received the Sioned Davies report on the teaching of Welsh as a second language. It stated that pupils do not feel confident enough to use the Welsh language outside the classroom and that opportunities for them to do so are very limited. As some 80% of Welsh pupils learn Welsh as a second language, we should agree that improving this situation is crucially important in order to increase the use of the language. What steps will you as a Government take in order to ensure that this happens?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gallaf ddweud, ynglŷn â'r adroddiad hwnnw, fod Huw Lewis yn ystyried yr argymhellion ar hyn o bryd. Mae'r ddau ohonom wedi cwrrd yn barod i ystyried beth y dylem ei wneud er mwyn symud ymlaen, ond mae'n rhaid inni dderbyn mae ychydig iawn o bobl sydd wedi mynd drwy'r system addysg Saesneg ac wedi dod mas fel siaradwyr hyderus yn y Gymraeg. Mae hynny'n her fawr; rydym yn deall hynny, a byddwn ni, fel Llywodraeth, yn ymateb i'r adroddiad hwnnw.

I would like to say, as regards that report, that Huw Lewis is considering the recommendations at present. He and I have met to discuss what we need to do in order to move things forward, but we have to accept that it is only very few people who come through English-medium education as confident Welsh speakers. That is a great challenge, which we all understand, and we, as a Government, will be responding to the report in due course.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:18 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n diolch i'r Prif Weinidog am ddod â'r adroddiad ger ein bron heddiw, ond dywedaf wrtho ar y cychwyn fod mwy o heriau yn ei ddatganiad nag sydd o atebion. Wrth ofyn ynglŷn â'i bum peth bob dydd dros y Gymraeg, mae arnaf ofn ei fod wedi syrthio'n brin heddiw, gan mai dim ond pedwar peth penodol yr wyf yn eu gweld yn cael eu gweithredu yn sgil y datganiad hwn.

I thank the First Minister for bringing this statement to the Chamber today, but may I tell him at the outset that there are more challenges in the statement than there are solutions? In asking us to do five things every day through the medium of Welsh, I am afraid that he has fallen short today, because there are only four specifics that I can see being implemented as a result of this statement.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae Plaid Cymru yn meddwl ei bod yn hynod bwysig bod y gynhadledd fawr yn arwain at weithredu mawr. Rwyf wedi darllen yr adroddiad ar y gynhadledd fawr gan Gwmni Iait. Rwy'n teimlo mai'r prif ganlyniadau oedd pethau o gwmpas pwysigrwydd cynyddu buddsoddiad ariannol yn y Gymraeg yn gyffredinol; bod angen ailasesu yn llwyr ac o'r newydd sut yr ydym yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith; bod angen safonau iaith cryfion a fydd yn mynd i'r afael â'r diffygion ymysg y cyrff presennol; a bod angen newidiadau sylfaenol i'r system gynllunio sy'n galluogi rhoi blaenoriaeth i bobl leol ac yn arwain at sefydlu arolygiaeth gynllunio annibynnol i Gymru.

Fe ddawnsiodd y Prif Weinidog o gwmpas rhai o'r themâu hyn, ond, yn anffodus, ers iddo gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg, mae nifer o bethau a phenderfyniadau anffodus wedi cael eu gwneud. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn inni feddwl yn nhermau'r rhif pump heddiw. Y traddodiad llenyddol Cymraeg, wrth gwrs, oedd meddwl yn nhermau trioedd, ond os ydym yn mynd am bumawdau, fel petai, gallwn edrych ar bum anffawd anffodus sydd wedi digwydd ers i'r Prif Weinidog ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y Gymraeg.

Gwelsom doriad yng nghyllideb y Gymraeg eleni o £700,000, ac o £1.5 miliwn dros ddwy flynedd. Gwelsom fod y nodyn cyngor technegol 20 newydd wedi cael ei ddisgrifio fel un aneffeithiol yn gyffredinol, ac mae Comisiynydd y Gymraeg, hyd yn oed, wedi gofyn cwestiynau sylfaenol yn ei gylch. Rydym wedi gweld oedi pellach wrth gyflwyno safonau iaith ar gyfer eu cymeradwyo gan y Cynulliad hwn; methiant llwyr i wneud yr asesiad o wariant ar yr iaith a addawodd ef yn ôl ym mis Ebrill; a thoriad yng nghyllideb addysg gyddol oes ôl-19, a all effeithio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith i oedolion. Dyma'r pump peth sydd wedi mynd o'u lle efallai.

A gaf i ofyn cwestiwn ynglŷn ag addysg yn gyntaf? A ydy'r Prif Weinidog bellach yn gwybod—

Plaid Cymru believes that it is extremely important that the 'cynhadledd fawr' should lead to real action. I have read the report on the 'cynhadledd fawr' by Cwmni Iait. I feel that the main outcomes therein were things around the importance of increasing financial investment in the language in general; that we need to reassess completely and anew how we teach Welsh as a second language; that we need robust language standards that will get to grips with problems in terms of language schemes; and that we need fundamental changes to the planning system that will mean that priority can be given to local people and that we can establish an independent planning inspectorate for Wales.

The First Minister danced around some of those themes, but, unfortunately, since he took responsibility for the Welsh language, a number of unfortunate decisions have been taken. The First Minister has asked us to think in terms of five things. The Welsh literary tradition, of course, was to think in triads. However, if we are looking for groups of five, we can perhaps look at five unfortunate events that have taken place since the First Minister took responsibility for the Welsh language.

We saw a cut in the Welsh language budget this year of £700,000, and £1.5 million over two years. We saw the new TAN 20 being described as being generally ineffective, and the Welsh Language Commissioner has even raised questions about it. We have seen further delays in introducing Welsh language standards for approval by this Assembly; an utter failure to make an assessment of expenditure on the language, which he promised back in April; and a cut in the lifelong learning budget for post-19, which could impact on the teaching of Welsh as a second language for adults. These are five things that have gone wrong, perhaps.

May I first ask a question on education? Does the First Minister now know—

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you come to your question, please?

A wnewch chi ddod at eich cwestiwn, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:20 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn dod at y cwestiwn—sawl cwestiwn, a mwy na phump, o bosibl, Lywydd. A yw e'n derbyn bellach fod amcan y Llywodraeth o weld 25% o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015 yn annhebygol o gael ei wireddu? Os ydyw'n derbyn bod hynny'n annhebygol o ddigwydd, a yw e'n credu ei bod hi'n bwysig trosglwyddo'r Gymraeg yn fwy effeithlon i'r genhedlaeth ifanc nesaf—er enghraifft drwy sicrhau bod pob plentyn yn y pen draw yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen, ac hefyd i sicrhau bod llawer mwy o ddarpariaeth yn cael ei weithredu yn rhaglenni addysg cynnar y Llywodraeth, megis Dechrau'n Deg—efallai fod darpariaeth ar gael, ond mae'r 'take-up' yn sicr yn brin iawn, ac mae hynny wedi ei gydnabod mewn gohebiaeth gan swyddogion y Llywodraeth ei hunan?

I am coming to the question—several, in fact, and possibly more than five, Llywydd. Does the First Minister now accept that the Government's objective of seeing 25% of seven-year-olds being taught through the medium of Welsh by 2015 is very unlikely to be achieved? If he accepts that that is unlikely to happen, does he believe that it is important to transfer the Welsh language more effectively to the next generation of young people, for example through ensuring that every child ultimately receives a Welsh-medium education in the foundation phase, and by ensuring that there is far more provision available in the Government's early-years programmes, such as Flying Start—there may well be provision available, but the take-up is very disappointing, as has been recognised in correspondence from Government officials themselves?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

A gaf i ofyn yn fwy penodol iddo fe wneud pump peth dros yr iaith heddiw, fel y mae ef wedi addo yn ei ddatganiad? O edrych ar addysg, a wnaiff sicrhau ein bod yn edrych ar daclo dysgu Cymraeg fel ail iaith drwy fynd i'r afael â'r cyfnod sylfaen? Wrth ddysgu yn ifanc, mae modd sicrhau crap ar yr iaith.

Yn ail, a wnaiff yr asesiad o effeithlonrwydd gwariant? Mae wedi crybwyll cynllun gwella yn ei ddatganiad heddiw, ond a fydd e'n edrych yn benodol ar beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill, megis Gwlad y Basg, a'r enghreifftiau o ardderchogrwydd rhyngwladol yno?

Yn drydydd, a fydd e'n sicrhau bod safonau iaith yn ymwneud â datblygu gweithlu ar draws y sector gyhoeddus yn eu lle, ac nid dim ond yn y Llywodraeth ac mewn awdurdodau lleol? Roedd yn ddi-ddorol clywed y Prif Weinidog yn dweud bod angen gyrru e-byst yn y Gymraeg ac ati. A wnaiff e ddatgan heddiw ei bod yn iawn i weision sifil yr e-byst yn y Gymraeg at eu huwch-reolwyr yn Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os nad yw eu huwch-reolwyr yn deall nac yn siarad Cymraeg?

Yn bedwerydd, a wnaiff y Prif Weinidog ddatgan y bydd Llywodraeth Cymru yn symud at sefydlu safonau iaith y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, gan ddechrau gyda thelegyfathrebu?

Yn bumed, ac yn olaf, Lywydd, a wnaiff sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei darparu yn gyfartal a theg ym mhob cynllun a ariennir gan y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus, fel bod y Gymraeg yn cael ei chydabod o wersi nofio i Ddechrau'n Deg?

May I ask more specifically therefore for him to do five things for the language today, as he pledged to do in his statement? In looking at education, will he ensure that we look to tackle the teaching of Welsh as a second language by getting to grips with the foundation phase? By starting early, you can ensure that people have a grasp of the language.

Secondly, will he make the assessment of the efficiency of spending? He mentioned the improvement plan in his statement, but will he specifically look at other nations, such as the Basque Country, and at the examples of international excellence there?

Thirdly, will he ensure that language standards are in place which relate to the development of the workforce across the public sector, and not only within Government and local government. It was interesting to hear the First Minister talking about sending e-mails in Welsh and so on. Will he state today that it would be acceptable for civil servants to write Welsh-medium e-mails to their senior managers within the Welsh Government even if those senior managers do not understand or speak Welsh?

Fourthly, will the First Minister state that the Welsh Government will move towards the establishment of language standards beyond the public sector, starting with telecommunications?

Fifthly, and finally, Presiding Officer, will he ensure that the Welsh language is provided equally and fairly in all proposals funded by the Government and public bodies, so that the Welsh language is acknowledged from swimming lessons through to Flying Start?

15:23

## **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Roedd sawl cwestiwn gan yr Aelod, ac fe ddechreuaf gyda chwestiwn cyllidebau. Mae'n wir bod cyllidebau wedi torri, ac rydym ni i gyd yn deall hynny. Mae wedi bod yn amhosibl, felly, i sicrhau bod mwy o arian yn cael ei wario wrth gofio bod llai o arian ar gael i ni. Wrth ddweud hynny, mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n sicrhau ein bod ni'n symud ymlaen gyda chynlluniau i hybu'r Gymraeg mewn ffyrdd eraill.

Ynglŷn ag asesiad o effaith gwariant ar y Gymraeg, mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Rydym wedi cynnal lefel y cyllid yn y gyllideb ddrafft ar gyfer prosiectau i ddatblygu'r Gymraeg yn y gymuned. Rydym hefyd wedi cymryd camau i ystyried effaith agweddau eraill y gyllideb ar y Gymraeg. Rydym yn cydnabod mai hwn yw dechrau'r broses a bod rhagor o waith i'w wneud i sefydlu'r arferion hyn ledled y Llywodraeth.

The Member asked several questions, and I will start with the question of budgets. It is true to say that budgets have been cut, and we all understand that. It has been impossible, therefore, to ensure that more money is spent when there is less money available to us. Having said that, it is very important that we ensure that we move forward with plans to boost and promote the Welsh language in other ways.

In terms of assessing the efficiency of expenditure on the Welsh language, this is something that we are considering at present. We have sustained budget levels in the draft budget for projects that have the aim of developing the use of the language in communities. We have also taken steps to consider other aspects of the budget for the Welsh language. We acknowledge that this is just the start of the process and that there is more work to be done to establish these practices across the Government.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Ynglŷn â gweision sifil, pan fydd pobl yn anfon e-byst mae'n bwysig iddynt sicrhau bod pobl eraill yn gallu eu deall. Mae hynny'n bwysig dros ben. A ddylem symud i system lle mae pob e-bost yn cael ei gyfieithu? Byddai'n rhaid inni ystyried pa mor ymarferol y byddai hynny. Wrth ddweud hynny, mae pethau wedi newid er gwell dros y blynyddoedd. Tua 10 mlynedd yn ôl, dim ond 5% o weision sifil yng Nghaerdydd oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r nifer wedi codi, ac mae'r sefyllfa yn well o lawer mewn rhannau eraill o Gymru.

Nid oeddwn cweit yn deall yr hyn yr oedd yr Aelod yn ei ddweud ynglŷn â'r cyfnod sylfaen. A oedd yn dweud y dylai plant gael addysg ddim ond yn Gymraeg, neu addysg hollol ddwyieithog? O ran addysg Gymraeg yn unig, mae sawl peth yn codi. Byddai'n rhaid inni gymryd pobl Cymru gyda ni, ac nid yw'n glir fod y gefnogaeth yno i fynd mor bell â hynny ar hyn o bryd. Yn ail, yn ymarferol, byddai'n rhaid sicrhau bod digon o athrawon ar gael, ac nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Gall hynny gael ei wneud dros y blynyddoedd, efallai, ond nid wyf am weld sefyllfa lle y gallwch ddysgu yng Nghymru ddim ond os ydych yn gallu siarad Cymraeg. Ni fyddai hynny'n iawn, wrth gofio mai lleiafrif o bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg. Byddai neges yn cael ei roi i bobl ddi-Gymraeg na fyddent yn cael dysgu yng Nghymru oni bai eu bod yn siarad Cymraeg. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus. Rwy'n deall, wrth gwrs, beth yw'r nod, ond mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn ynglŷn â sut rydym yn symud ymlaen.

Un o'r cryfderau sydd gennym yw'r ffaith bod pobl wedi dewis mwy a mwy o addysg Gymraeg i'w plant. Mae'r targed yn dal i fod yn ei le ar gyfer 2015, ac mae'n galonogol dros ben i weld bod mwy a mwy o bobl wedi dewis addysg Gymraeg a bod addysg Gymraeg yn cynyddu yng Nghymru.

Ynglŷn â safonau, nid oes oedi; mae'r amserlen yn dal i fod yn ei lle ac rydym am weld safonau yn cael eu rhoi yn eu lle a gweld cyrff cyhoeddus y tu allan i'r Llywodraeth yn eu hystyried hefyd. Nid oes pwynt cael safonau sydd ddim ond yn berthnasol i'r Llywodraeth; mae'n bwysig dros ben bod y safonau hynny yn safonau ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y sector preifat, mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried yn y pen draw. Mae'n rhaid inni ystyried pethau newydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n rhan o'u bywydau. Rwyf wedi bod mewn nifer o gymunedau Cymraeg lle nad oes un arwydd yn y Gymraeg. Roeddwn ym mhentref Clunderwen yr wythnos diwethaf ac ni welais yr un siop gydag unrhyw fath o arwydd yn Gymraeg. Roedd hynny'n drueni mawr. Nid yw hynny'n rhoi'r argraff bod y pentref yn un lle mae'r Gymraeg yn gryf ac yn iaith gyntaf mwyafrif y bobl sy'n byw yn y pentref. Mae hynny'n bwysig dros ben, hefyd.

In terms of civil servants, when people send e-mails, it is very important that they ensure that those e-mails can be understood by other people. That is extremely important, of course. Should we move to a system where every e-mail is translated? We would have to consider how practical that would be. Having said that, things have changed for the better over the years. Some 10 years ago, only 5% of civil servants in Cardiff could speak Welsh. The number has increased, and the position is also far better in other parts of Wales.

I did not really understand what the Member was saying about the foundation phase. Was he saying that children should have their education only through the medium of Welsh or that they should have a completely bilingual education? In terms of having a wholly Welsh-medium education, several issues arise. We would have to take the people of Wales with us, and it is not clear that the support is there at present for us to go that far. Secondly, and in practical terms, we would have to ensure that we have sufficient numbers of teachers, and that is not the case at present. That could be done over the years, perhaps, but I would not want to see a situation where you can teach in Wales only if you can speak Welsh. That would not be right, given that only a minority of people in Wales can speak Welsh. That would send a message to non-Welsh speakers that they would not be allowed to teach in Wales unless they were Welsh speakers. I understand, of course, what the objective is, but we have to be very careful about how we move forward.

One of the strengths is the fact that people have chosen more and more Welsh-medium education for their children. The target remains in place for 2015, and it is encouraging to see that more and more people have chosen Welsh-medium education and that Welsh-medium education is on the increase in Wales.

In terms of standards, there is no delay; the timetable stands and we want to see standards being put in place and to see public bodies outwith Government also being considered. There is no point having standards that are only relevant to the Government; it is very important that those standards apply to every public body in Wales.

In terms of what is happening in the private sector, that is something to be considered ultimately. We need to consider new things in order to ensure that people see the Welsh language as something that is part of their lives. I have been in many Welsh-speaking communities where there is not one sign in Welsh. I was in Clunderwen last week and not one shop that I saw had any signage in Welsh. That is a great shame. That does not give the impression that the village is one where Welsh is strong and the first language of the majority of the people who live in the village. That is very important, too.

Felly, mae sawl her; mae hynny'n wir. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, mae'n fater o hyder. Ym mha ffordd y gallwn sicrhau bod pobl ifanc yn enwedig yn defnyddio'r iaith? Mae mwy o bobl ifanc sy'n gallu siarad yr iaith ond nid ydynt yn siarad yr iaith y tu allan i'r ysgol. Felly, dyna'r her. Nid yw'n rhywbeth sy'n rhwydd i'w ddatrys. Roeddwn yng nghynhadledd flynyddol y mentrau iaith ddoe yn Llandrindod, a bu inni drafod y pwnc hwn. Roedd pawb yn ystyried bod gwaith i'w wneud ac nad oes modd rhwydd i'w wneud. Un peth sydd angen ei wneud yw sicrhau bod gweithgareddau ar gael. Cefais fy siomi pan glywais, er enghraifft, nad yw'n bosibl i gael unrhyw fath o wers nofio yng Ngheredigion yn Gymraeg. Mae hynny'n siomedig dros ben. Mae hynny'n bosibl yng Nghaerdydd. Felly, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o weithgareddau ar gael yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod plant—hyd yn oed plant sy'n byw mewn cymunedau lle maent yn clywed y Gymraeg—yn deall bod y Gymraeg yn rhywbeth sy'n berthnasol iddynt ac yn berthnasol i'w bywydau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Therefore, there are several challenges; that is true. However, at the end of the day, it comes down to confidence. In what way can we ensure that young people in particular use the language? More young people can speak Welsh but they do not speak the language outside of school. That is the challenge. It is not something that is easy to resolve. I was at the annual conference of the mentrau iaith yesterday in Llandrindod, and we discussed this subject. Everyone realised that there was work to be done but that it is not easy to do. One thing that needs to be done is to ensure that activities are available. I was disappointed when I heard, for example, that it is not possible to have any kind of swimming lesson in Ceredigion in Welsh. That is very disappointing. That is possible in Cardiff. Therefore, there is a duty on local authorities to ensure that sufficient activities are available in their areas to ensure that children—even those who live in who live in areas where they hear Welsh—understand that Welsh is relevant to them and is relevant to their lives outside of the classroom.

15:28

### **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwy'n derbyn nad yw rhai o'r heriau hyn yn hawdd i'w datrys, ond ar ôl darllen adroddiad Cwmni Iaith, credaf fod atebion mwy radical y bydd yn rhaid inni eu hystyried, a bydd yn rhaid inni gael trafodaethau eithaf anodd, o ran addysg, ac ati, i ofyn cwestiynau os yw'r strategaethau dros y 15 mlynedd diwethaf wedi creu sefyllfa lle mae dirywiad pellach wedi bod o ran yr iaith Gymraeg.

First Minister, I accept that some of these challenges are not easily resolved, but having read the Cwmni Iaith report, I think that there are more radical solutions that we will have to consider, and we will have to have some difficult discussions, in terms of education and so on, and ask some questions if the strategies over the past 15 years have created a situation where there has been further decline in the Welsh language.

O ran yr arian, rwy'n cydweld â'r hyn a ddywedodd Simon Thomas. Rwy'n derbyn bod arian yn anodd, ond mae rhai ohonom wedi ein siomi bod cymaint o doriad wedi bod yn y gefnogaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg wrth ystyried canlyniadau'r cyfrifiad a'r holl waith sydd angen ei wneud. A ydych yn hyderus, wrth ystyried y cwtogiad hwnnw, y gall y Llywodraeth gyrraedd ei thargedau o ran y strategaethau iaith sydd ar waith ar hyn o bryd?

In terms of the funding, I agree with the comments made by Simon Thomas. I accept that the funding situation is difficult, but some of us have been disappointed that there has been such a cut in terms of support for the Welsh language, given the census results and all of the work that needs to be done. Are you confident, given that cut, that the Government will be able to achieve its targets in terms of the language strategies that are currently being implemented?

Hoffwn hefyd ofyn ichi am TAN 20, gan fod eich adroddiad yn sôn amdano. Credaf fod yn rhaid inni ystyried cynlluniau mwy radical o ran diogelu'r iaith Gymraeg nag sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd, gan gynnwys ystyried a yw'r arolygaeth bresennol yn ein galluogi i ryw raddau i ddiogelu'r iaith. O ran y canllawiau, a oes gennyhych chi amserlen benodol ynglŷn â phryd y byddwn yn gweld y canllawiau sy'n cefnogi TAN 20?

I also want to ask you about TAN 20, given that your report mentions it. I believe that we need to consider more radical proposals in terms of safeguarding the Welsh language than those that are currently being implemented, including considering whether the current planning inspectorate enables us to some extent to safeguard the Welsh language. In terms of the guidelines, do you have a specific timetable as to when we will see the guidance supporting TAN 20 being published?

O ran addysg, sonioch am y cynlluniau addysg Gymraeg. Rwyf wedi gweld pob un o'r cynlluniau, ac rwyf hefyd wedi gweld ymateb y Llywodraeth i'r cynlluniau sydd wedi cael eu paratoi gan y cynghorau, ac rwy'n siomedig nad oes llawer o symud wedi bod o ran y cynghorau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, ers iddynt gael ymateb agoriadol y Llywodraeth. Bydd y cynlluniau hynny yn barod erbyn mis Rhagfyr. Erbyn pryd y bydd y Llywodraeth yn dweud wrth y cynghorau unigol hyn ei bod yn derbyn neu'n gwrthod y cynlluniau, os nad ydych yn fodlon â'r targedau a'r weledigaeth o ran darpariaeth addysg Gymraeg? Wrth gwrs, bydd rhai ohonom fel llefarwyr yn cael cyfle i drafod adroddiad Sioned Davies ymhellach gyda'r Gweinidog yn ystod yr wythnosau nesaf.

In terms of education, you mentioned the Welsh-medium education plans. I have seen each and every one of these, and I have also seen the Government's response to the plans that have been put forward by the councils, and I am disappointed that there has not been much progress in terms of the councils over the past year, since they received the Government's initial response. Those plans will be ready by December. When will the Government tell individual councils that they accept or reject their proposals, if you are not content with the absence of targets and vision in terms of Welsh-medium provision? Of course, some of us, as spokespeople, will have further opportunities to discuss Sioned Davies's report with the Minister over the next few weeks.



Yn fyr hefyd, dywedwch fod y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wedi cael trafodaethau gydag Undeb Rygbi Cymru. Soniais yr wythnos diwethaf bod 44 o gyrff chwaraeon yng Nghymru nad ydynt yn gweithredu cynlluniau iaith. Rwy'n lwcus i gael 'debenture' yng Nghaerdydd—sydd wedi cael ei brynu ers tua 20 mlynedd—a derbyniais lythyr uniaith Saesneg gan yr undeb rygbi eto yr wythnos diwethaf, er i nifer ohonom gwyno nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan yr undeb. Y cwbl y mae'r undeb yn ei wneud, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yw addo ei bod yn mynd i wella'r sefyllfa, ond nid oes dim o gwbl yn digwydd.

Rwy'n siŵr eich bod wedi derbyn gohebiaeth yn ystod yr wythnos diwethaf gan athrawon—nid wyf yn siŵr a ydych wedi ei gweld yn bersonol. Dywedwch ei bod yn bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae'ch Llywodraeth wedi trefnu nifer o gyfarfodydd ar gyfer athrawon yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys un tua phythefnos yn ôl ar fentora, ond nid oedd darpariaeth Gymraeg o gwbl yno. Pan ofynnodd un o'r athrawon pam nad oedd darpariaeth Gymraeg, er bod tua 50% o'r athrawon hynny yn Gymry Cymraeg, yr ateb a gafwyd gan was sifil oedd, 'Pam?'

Rwy'n credu eich bod chi'n ddiffuant iawn o ran eich cefnogaeth i'r iaith Gymraeg, ond rwy'n cwestiynu faint o fonitro sy'n digwydd o fewn yr adrannau, er mwyn i chi allu dweud eich bod yn cyflawni gobeithion Cymry Cymraeg o ran defnyddio'r iaith yn y gweithle.

Briefly, also, you say that the Minister for Culture and Sport has had discussions with the Welsh Rugby Union. I mentioned last week that 44 sports bodies in Wales did not operate Welsh language schemes. I am lucky to have a debenture in Cardiff—which was bought some 20 years ago—and I received a monolingual letter in English from the WRU last week, despite many of us complaining that it makes no Welsh-medium provision. All that it does, year on year, is promise that it will improve the situation, but no action is taken.

I am sure that you have received correspondence during the week from teachers—I am not sure that you will have seen it personally. You say that it is very important that Welsh speakers have an opportunity to use the language in the workplace. Your own Government has organised a number of meetings for teachers over these past few months, including one a fortnight or so ago on mentoring where there was no Welsh-medium provision whatsoever. When one of the teachers asked why there was no such provision, despite some 50% of the teachers present being Welsh speaking, the response from a civil servant was, 'Why?'

I believe that you are sincere in your own support for the Welsh language, but I question how much monitoring takes place within departments so that you can state that you are achieving the hopes of Welsh speakers in making use of the Welsh language in the workplace.

15:32

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Os yw'r hyn a ddywedodd yr Aelod ar y diwedd yn wir, hoffwn weld y dystiolaeth, mae'n rhaid i mi ddweud, er mwyn gweld beth yn union a ddigwyddodd. Rydym ni fel Llywodraeth yn ceisio gweithio'n ddwyieithog, ac mae'n bwysig dros ben bod hynny'n digwydd pan rydym yn cwrdd yn gyhoeddus, neu'n cwrdd yn ffurfiol, â grwpiau o bobl broffesiynol. Rhoddaf ystyriaeth i'r sefyllfa honno.

Rwyf wedi codi'r sefyllfa gydag Undeb Rygbi Cymru fy hun hefyd, ac wedi dweud wrth yr undeb ei bod yn bwysig dros ben ei bod yn dangos ei bod yn gefnogol i'r Gymraeg, o gofio, wrth gwrs, bolisi hollol ddwyieithog Cymdeithas Bêl-droed Cymru, sy'n dangos ei fod yn gallu cael ei wneud. Dylid cofio hefyd fod gan y gymdeithas bêl-droed, efallai, lai o arian na'r undeb rygbi. Mae'n bwysig dros ben bod yr undeb rygbi, fel un o sefydliadau mawr Cymru, yn gallu rhoi enghraifft dda o ddefnyddio'r Gymraeg yn ei gwaith.

O ran y canllawiau, byddant ar gael o fewn misoedd, fel y dywedais.

If what the Member said at the end is true, I would like to see the evidence to see what exactly happened. As a Government, we are trying to work bilingually, and it is very important that that happens when we meet publicly or formally with groups of professional people. I will consider that situation.

I have raised the situation with the WRU myself, and I have told it that it is very important that it shows that it is supportive of the language, bearing in mind, of course, the bilingual policy of the Football Association of Wales, which shows that it can be done. We must also bear in mind that the FAW has less money, possibly, than the WRU. It is vital that the WRU, as one of Wales's big institutions, sets a good example on the use of Welsh in its work.

On the guidelines, they will be available within the next few months, as I said.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r cwestiwn ynglŷn â TAN 20 fel a ganlyn. Rydym i gyd yn gwybod, fel Aelodau, bod pobl yn dod atom â phroblemau ynglŷn â chaniatâd cynllunio. Weithiau, rydym yn edrych ar gais sydd wedi cael ei gyflwyno i awdurdod lleol ond mae'r cais yn dod oddi mewn i'r cynllun datblygu lleol, ac mae'n rhy hwyr erbyn hynny i wneud unrhyw fath o sylwadau. Felly, yr hyn sy'n bwysig yw bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau'r broses, sef pan fo'r cynllun datblygu lleol yn cael ei ystyried, i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r broses honno. Y broblem ymarferol o ystyried yr iaith yng nghyd-destun pob cais cynllunio yw: a ydych yn edrych ar bob cais cynllunio, ynteu a ydych yn edrych ar rai? Os felly, pa rai? A ydych yn dweud bod yn rhaid cael asesiad o unrhyw ddatblygiad o fwy nag, efallai, 20 o dai? Wedyn, wrth gwrs, byddai rhai datblygwyr yn dweud, 'Wel, rwy'n mynd i gyflwyno pedwar cais o bump tŷ yr un'. Felly, mae ffordd o gwmpas y system. Mae'n bwysig dros ben bod gennym system sy'n gryf iawn o ran asesu'r effaith ar yr iaith, a'r ffordd i wneud hynny yw cael system asesu sy'n gryf—mae honno'n cael ei datblygu ar hyn o bryd—a system sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau'r broses.

Mae'n rhaid imi ddweud unwaith eto bod TAN 20 wedi cael ei groesawu, a'i fod wedi cael cefnogaeth gan y cynghorydd Dyfed Edwards, arweinydd Plaid Cymru ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Aelod o'r ardal honno yn anghytuno. Dyna beth ddywedwyd; roedd yn rhan o ddatganiad i'r wasg ar y pryd. Felly, nid wyf yn credu ei bod yn hollol wir bod aelodau Plaid Cymru, hyd yn oed, i gyd yn erbyn beth a wnaed o ran TAN 20, ond mae hynny'n fater i Blaid Cymru.

Nid wyf yn credu bod neb yn erfyn y ffigurau yn y cyfrifiad. Gweithiais i fel aelod o'r Cabinet am bedair blynedd gyda dau Weinidog o Blaid Cymru a oedd yn gyfrifol am yr iaith. Nid wyf yn meddwl bod un ohonom yn erfyn y ffigurau a welwyd, ac nid wyf yn credu y gallaf gwestiynu eu cefnogaeth nhw i'r iaith o gwbl. Felly, mae'n bwysig dros ben ein bod ni yn ystyried ffyrdd newydd o sicrhau dyfodol yr iaith. Rydym yn gwybod bod llawer wedi ei wneud dros y degawd diwethaf, ond rydym wedi gweld y canlyniadau, felly rhaid inni ystyried ffyrdd newydd o weithio a ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl yn defnyddio'r iaith, er enghraifft drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg—rydym wedi sôn am yr arian ar gyfer hynny—a thrwy'r ap ei hunan. Mae llawer o bobl wedi dweud wrthyf, 'Hoffwn wneud pethau yn y Gymraeg ond nid wyf yn gwybod lle y gallaf fynd i fwynhau yn Gymraeg neu i gael gwasanaeth yn Gymraeg'. Wrth gael un lle i bobl weld lle a phryd mae pethau'n digwydd yn eu hardaloedd, maent yn gallu mynd i wahanol fannau a chreu'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly, mae'r hen ffyrdd yn gallu gweithio—rydym yn gwybod hynny gydag addysg—ond mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried ffyrdd newydd er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith.

The question on TAN 20 is as follows. We all know, as Members, that people come to us with problems related to planning consent. Sometimes, we look at an application made to a local authority, and the application is located within the local development plan, so it is too late by then to make any representations. So, what is important is that the Welsh language is considered at the start of the process, when the LDP is being considered, to ensure that the language is a part of that process. The practical problem of giving consideration to the language in each planning application is this: do you look at every planning application, or do you look at some? If so, which ones do you look at? Do you say that any development of over 20 houses has to have an assessment? Then, of course, some developers would say, 'Well, I will submit four applications of five houses each'. So, there are ways around the system. It is very important that we have a strong system of assessing the impact on the language, and the way to do that is to have a robust assessment system—it is currently being developed—which ensures that the language is considered at the start of the process.

I must say once again that TAN 20 was welcomed, and that it was supported by councillor Dyfed Edwards, the Plaid Cymru leader of Gwynedd Council. The Member from that area disagrees. That is what was said; it was in a press release at the time. So, I do not think that it is true to say that all Plaid Cymru members, even, are against what was done in TAN 20, but that is a matter for Plaid Cymru.

I do not believe that anyone expected the census results. I worked for four years as a member of the Cabinet that had two Plaid Cymru Ministers responsible for the language. I do not think that any of us expected the figures that we saw, and I do not think that I can question in any way their support for the language. So, it is very important that we consider new ways of securing the future of the language. We know that a lot has been done over the last decade, but we have seen the results, so we have to consider new ways of working and new ways of ensuring that people use the language, for example by using more technology—we have talked about the money for that—and by using the app itself. Many people have told me that they would like to do things through the medium of Welsh but that they are not sure where they can go to receive services in Welsh. By having one place for people to see where and when things happen in their areas, they will be able to go to different places, and they will have the confidence to use the language. So, the old ways can work—we know that with education—but it is very important that we consider new ways in order to secure the future of the language.

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the First Minister is aware that in Cardiff there are now 37,000 Welsh speakers, which is up 15% on 2001. So, it is a big challenge in the capital to provide opportunities for those Welsh speakers. I know that he believes that Welsh should not only be the language of the classroom. I declare an interest here, because I have five grandchildren who, between them, play rugby, football and netball, take drama lessons and go to holiday clubs organised by Menter Caerdydd, all through the medium of Welsh, which is a tremendous achievement in the capital city. Does he agree that it is essential that there are opportunities for children who need to use the language to have access to activities that are fun and cheap, and that it is essential that those activities are accessible? Can he take those issues into account when he looks to develop his strategy?

Does he also think that it is very important that parents who want to learn Welsh have the opportunity to do so at their children's schools? About 80% of parents of children in Welsh-medium schools in Cardiff are English-speaking and many of them want to learn Welsh, but it is not always easy to access suitable classes. Does he agree that it would be a good idea for those lessons to be available at the schools that the children attend, and that there could be a drive to ensure that that happens? Does he also agree that it is easier to do this with younger children and that, when children become teenagers and are out doing their own activities, it is quite difficult to direct them to somewhere where they are able to use the Welsh language? For example, I do not know of youth clubs in Cardiff where Welsh is the first language; there may be some that I just do not know about. We want to make it cool for teenagers to take part in Welsh-language activities.

Finally, I draw his attention to Cardiff Council's activities. Following a member's debate last month, the council agreed to hold a Welsh-language summit at the beginning of next year, involving all stakeholders, to set up a cross-party working group and to have a consultation on the standards, when they come forward. It is really taking a lead in trying to promote Welsh in the capital city and I hope that the First Minister will congratulate it on its activities.

Gwn fod y Prif Weinidog yn ymwybodol bod 37,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd bellach, sef 15% yn fwy nag yn 2001. Felly, mae'n her fawr yn y brifddinas i roi cyfleoedd i'r siaradwyr Cymraeg hynny. Gwn ei fod o'r farn na ddylai'r Gymraeg fod yn iaith y dosbarth yn unig. Rwyf yn datgan diddordeb yma, oherwydd mae gennyf bump o wyrion sydd, rhyngddynt, yn chwarae rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd, yn cael gwersi drama ac yn mynd i glybiau gwyliau wedi'u trefnu gan Fenter Caerdydd, i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gamp aruthrol yn y brifddinas. A yw'n cytuno ei bod yn hanfodol bod gweithgareddau ar gael i blant y mae angen defnyddio'r iaith arnynt sy'n hwyl ac yn rhad, a'i bod yn hanfodol bod y gweithgareddau hynny'n hygyrch? A all ystyried y materion hynny pan fydd yn datblygu ei strategaeth?

A yw hefyd yn credu ei bod yn bwysig iawn fod rhieni sydd am ddysgu Cymraeg yn cael cyfle i wneud hynny yn ysgolion eu plant? Mae tua 80% o rieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn Saesneg eu hiaith ac mae ar lawer ohonynt eisiau dysgu Cymraeg, ond nid yw bob amser yn hawdd cael gafael ar ddsobarthiadau addas. A yw'n cytuno y byddai'n syniad da i'r gwersi hynny fod ar gael yn yr ysgolion y mae'r plant yn mynd iddynt, ac y gellid cynnal ymgyrch i sicrhau bod hynny'n digwydd? A yw hefyd yn cytuno ei bod yn haws gwneud hyn gyda phlant iau a'i bod yn eithaf anodd, pan fydd plant yn cyrraedd eu harddegau ac allan yn gwneud eu gweithgareddau eu hunain, eu cyfeirio at rywle lle y gallant ddefnyddio'r Gymraeg? Er enghraifft, nid wyf yn gwybod am glybiau ieuenctid yng Nghaerdydd lle y defnyddir y Gymraeg yn iaith gyntaf, efallai fod rhai nad wyf yn gwybod amdanynt. Rydym am ei gwneud yn cwl i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

Yn olaf, tynnaf ei sylw at weithgareddau Cyngor Caerdydd. Ar ôl dadl aelod y mis diwethaf, cytunodd y cyngor i gynnal uwchgynhadledd ar y Gymraeg ddechrau'r flwyddyn nesaf, gan gynnwys yr holl randdeiliaid, i sefydlu gweithgor trawsbleidiol a chynnal ymgynghorriad ar y safonau, pan gânt eu cyflwyno. Mae'n arwain y ffordd o ran ceisio hyrwyddo'r Gymraeg yn y brifddinas ac rwyf yn gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn llongyfarch y cyngor ar ei weithgareddau.

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes; I certainly join the Member in offering my congratulations on the activities that she outlined and, of course, I wish the council all the best. With regard to young people, this is where the app comes in. If young people are able to access activities through the medium of Welsh through technology, they are more likely to go there—although some will not—and they are more likely to know what is available in their area. You asked me the question; I do not know what is available. It is a natural question. The app and the website will help not just young people, but also their parents, to understand what is available in the area so that people can practice and use their Welsh.

Ydw; rwyf yn sicr yn ymuno â'r Aelod ac yn cynnig fy llongyfarchiadau am y gweithgareddau yr amlinellodd ac, wrth gwrs, rwyf yn dymuno'n dda i'r cyngor. O ran pobl ifanc, dyma lle mae'r ap yn bwysig. Os yw pobl ifanc yn gallu cael mynediad at weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy dechnoleg, maent yn fwy tebygol o fynd yno—er na wnaiff rhai—ac maent yn fwy tebygol o wybod beth sydd ar gael yn eu hardal. Rydych wedi gofyn y cwestiwn imi; nid wyf yn gwybod beth sydd ar gael. Mae'n gwestiwn naturiol. Bydd yr ap a'r wefan yn helpu nid yn unig pobl ifanc, ond hefyd eu rhieni, i ddeall beth sydd ar gael yn yr ardal fel y gall pobl ymarfer a defnyddio eu Cymraeg.

It is important for parents to be able to have easier access to learning Welsh. Many of them, of course, pick it up with their children as they go along. In my part of the world, I would say that no more than 5% of the parents whose children are in Welsh-medium education are Welsh speakers. Certainly, among my own children's groups of friends, I am the only Welsh-speaking parent, I think, which means, of course, that it is even more important to ensure that those children, fluent though they are in Welsh, understand that it has an existence outside the classroom. The biggest eye opener that they had was to go to the Glanllyn Urdd camp and to go to Bala and find people speaking Welsh around them, which, for a lot of them, was a new experience. It really made them think that it is a community language, not just something that they had to do in school. That is hugely important.

It is also important for them to have fun. For me, when I was younger, the impression that I had of the Urdd—wrong as I suspected that it was—was that it was to do with recitation, which I could do, singing, which I could not, and dancing, which I will leave to your imagination. [Interruption.] I certainly will not give Members a demonstration of that; I will not inflict that on you. I used to play a lot of was sport. Even though there was sport available—I know that now—the impression given at the time was that it was not available. So, it is important to appeal to as many young people as possible, including those who are not interested in cultural activities at that stage in their lives. However, we need to be able to use Welsh in the course of sport and other activities. In fairness, I have to praise the Urdd for what it has done. I recently opened a new accommodation block at the Urdd camp in Llangrannog. What an improvement on the old one; with the old accommodation block, there was more of an emphasis on building character than, perhaps, encouraging the language. However, it is a fantastic facility. It is a wonderfully forward-thinking organisation. It has thought real hard about how to reach those children whose Welsh does not go beyond the classroom, but who could use their Welsh in circumstances such as sport—when they are on the ski slope, on horseback and playing football there. That is the way, I think. More of those activities are the way to ensure that children use the language. It does mean, of course, making sure that local authorities provide activities to complement those that are already provided by the Urdd.

Mae'n bwysig ei gwneud yn haws i rieni allu dysgu Cymraeg. Mae llawer ohonynt, wrth gwrs, yn ei dysgu gyda'u plant wrth fynd ymlaen. Yn fy rhan i o'r byd, byddwn yn dweud nad oes dim mwy na 5% o rieni y mae eu plant yn cael addysg Gymraeg yn siaradwyr Cymraeg. Yn sicr, ymhlith grwpiau ffrindiau fy mhlant fy hun, fi yw'r unig riant sy'n siarad Cymraeg, rwyf yn meddwl, sy'n golygu, wrth gwrs, ei bod yn bwysicach fyth sicrhau bod y plant hynny, er eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn deall bod yr iaith yn bodoli y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yr agoriad llygad mwyaf a gawsant oedd mynd i wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn a mynd i'r Bala a chlywed pobl yn siarad Cymraeg o'u hamgylch; roedd hynny'n brofiad newydd i lawer ohonynt. Roedd yn gwneud iddynt feddwl ei bod yn iaith gymunedol, nid dim ond yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud yn yr ysgol. Mae hynny'n hynod bwysig.

Mae hefyd yn bwysig eu bod yn cael hwyl. I mi, pan oeddwn yn iau, yr argraff a gefais o'r Urdd—er fy mod yn amau ei fod yn anghywir—oedd ei fod yn ymwneud ag adrodd, y gallwn ei wneud, canu, na allwn i ei wneud, a dawnsio—gadawaf hynny i'ch dychymyg. [Torri ar draws.] Yn sicr, ni roddaf arddangosiad o hynny i'r Aelodau; ni wnaf ichi ddioddef hynny. Roeddwn yn arfer chwarae llawer o chwaraeon. Er bod chwaraeon ar gael—rwyf yn gwybod hynny yn awr—yr argraff a roddwyd ar y pryd oedd nad oedd ar gael. Felly, mae'n bwysig apelio at gynifer o bobl ifanc â phosibl, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt ddi-ddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol ar yr adeg honno yn eu bywydau. Fodd bynnag, mae angen inni allu defnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon ac mewn gweithgareddau eraill. A bod yn deg, rhaid imi ganmol yr Urdd am yr hyn y mae wedi'i wneud. Yn ddiweddar, agorais floc lleu newydd yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Am welliant ar yr hen un; yn yr hen floc lleu, roedd mwy o bwyslais ar fagu cymeriad, efallai, nag ar annog yr iaith. Fodd bynnag, mae'n gyfleuster gwych. Mae'n sefydliad hynod flaengar. Mae wedi meddwl o ddifrif am sut i gyrraedd y plant hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ond a allai ddefnyddio eu Cymraeg mewn amgylchiadau fel chwaraeon—pan fyddant ar y llethr sgio, ar gefn ceffyl ac yn chwarae pêl-droed yno. Dyna'r ffordd, yn fy marn i. Drwy fwy o'r gweithgareddau hynny y mae sicrhau bod plant yn defnyddio'r iaith. Mae'n golygu, wrth gwrs, sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gweithgareddau i ategu'r rhai sydd eisoes yn cael eu darparu gan yr Urdd.

15:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Datganiad: Paratodau ar gyfer Tywydd y Gaeaf

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

In November 2012, we saw the devastating impact of flooding in St Asaph, Ruthin and Rhuddlan, and the distress it brought to those affected. In south Wales in January, and in north-east Wales in March, we experienced heavy snowfalls. So far this winter, we have experienced high winds and heavy rain, which have swept across parts of Wales. Earlier weather warnings allow us to be better equipped and organised. It is important that we make best use of the notice available to us to prepare. In doing so, our priorities are to support the most vulnerable and safeguard our economy and infrastructure. Communities can do a lot to help themselves and it is important that people come together to help and support one another. It is a message that we need to reinforce. As a Government, we have a number of schemes in place to help those who will be most at risk from the cold weather.

With regard to healthcare, our focus this winter is on improving integrated planning between the NHS and local authorities. Health boards, local authorities and the ambulance service have all developed unscheduled care recovery plans. These plans are designed to improve delivery of services and to ensure that people receive the care that they need in the most appropriate place. The plans include actions designed to deliver safe and effective services during winter. The Minister for Health and Social Services will address these issues in more detail in the debate later this afternoon.

It is important that people are able to keep warm over winter. Our energy efficiency programmes are making a real difference to household energy bills and we urge households to access all the support available to them. Our fuel poverty scheme, Nest, provides advice on decreasing energy use, benefit entitlement, money management and fuel tariffs, along with access to free or subsidised home-energy improvements for eligible households. Similarly, Arbed, the area based energy improvement programme, is improving energy performance and reducing the fuel bills of nearly 5,000 homes in Wales. We are aware that the availability of domestic fuel oil, particularly in rural areas, is an issue of concern. While energy security is the responsibility of the UK Government, we will work with the public and businesses in Wales, through campaigns such as buy oil early, to encourage consumers to stock up before winter and join oil-buying groups. Fuel suppliers have also been reminded to maintain stocks of grit for the winter.

Movement of goods and availability of staff are some of the biggest risks to the economy during winter. The greatest vulnerability rests with smaller enterprises and businesses, only some of which have contingency plans to respond to short-term disruption. We are in regular contact with key companies, a range of small and medium-sized enterprises, partner organisations, including trade bodies and sector forums, to offer support and to ensure that lines of communication are kept open.

## Statement: Preparations for Winter Weather

Ym mis Tachwedd 2012, gwelom effaith ddinistriol y llifogydd yn Llanelwy, Rhuthun a Rhuddlan, a'r trallod a achoswyd i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Yn y de ym mis Ionawr, ac yn y gogledd-ddwyrain ym mis Mawrth, cawsom eira trwm. Hyd yma y gaeaf hwn, rydym wedi cael gwyntoedd cryfion a glaw trwm, sydd wedi ysgubo ar draws rhannau o Gymru. Mae rhybuddion tywydd cynharach yn ein galluogi i ymbarato'n well a bod yn fwy trefnus. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y gorau o'r rhybudd sydd ar gael inni i ymbaratoi. Wrth wneud hynny, ein blaenoriaethau yw cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed a diogelu ein heconomi a'n seilwaith. Gall cymunedau wneud llawer i'w helpu eu hunain ac mae'n bwysig fod pobl yn dod at ei gilydd i helpu ac i gefnogi ei gilydd. Mae'n neges y mae angen inni ei hatgyfnerthu. Mae gennym ni yn y Llywodraeth nifer o gynlluniau ar waith i helpu'r rheini a fydd yn y perygl mwyaf oherwydd tywydd oer.

O ran iechyd, mae ein pwyslais y gaeaf hwn ar wella cynllunio integredig rhwng y GIG ac awdurdodau lleol. Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r gwasanaeth ambiwlans i gyd wedi datblygu cynlluniau adfer gofal heb ei drefnu. Bwriedir i'r cynlluniau hyn wella'r gwasanaethau a ddarperir a sicrhau bod pobl yn cael y gofal sydd ei angen yn y man mwyaf priodol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol yn ystod y gaeaf. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi sylw mwy manwl i'r materion hyn yn y ddadl yn nes ymlaen y prynhawn yma.

Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cadw'n gynnes dros y gaeaf. Mae ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn gwneud gwahaniaeth go iawn i filiau ynni aelwydydd ac rydym yn annog teuluoedd i ddefnyddio'r holl gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae ein cynllun tlodi tanwydd, Nyth, yn rhoi cyngor am ddefnyddio llai o ynni, hawl i fudd-daliadau, rheoli arian a thariffau tanwydd, ynghyd â chyfle i gael gwelliannau ynni cartref rhad ac am ddim neu welliannau â chymhorthdal i aelwydydd cymwys. Yn yr un modd, mae Arbed, y rhaglen gwella ynni ar sail ardal, yn gwella perfformiad ynni ac yn lleihau biliau tanwydd bron i 5,000 o gartrefi yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod argaeledd olew tanwydd domestig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn destun pryder. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw diogelu ynni, byddwn yn gweithio gyda'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru, drwy ymgyrchoedd megis prynu olew'n gynnar, i annog defnyddwyr i brynu stoc cyn y gaeaf ac i ymuno â grwpiau prynu olew. Mae cyflenwyr tanwydd hefyd wedi eu hatgoffa i gadw stociau graean at y gaeaf.

Symud nwyddau a nifer y staff sydd ar gael yw rhai o'r risgiau mwyaf i'r economi yn ystod y gaeaf. Mentrau a busnesau llai sydd fwyaf agored i niwed; dim ond rhai ohonynt sydd â chynlluniau wrth gefn i ymateb i darfu tymor byr. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â chwmnïau allweddol, ystod o fentrau bach a chanolig, sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys cyrff masnach a fforymau sector, i gynnig cymorth ac i sicrhau bod llinellau cyfathrebu'n aros ar agor.

It is vital during the winter months to ensure that roads are kept open during icy periods or when snow has fallen. Inaccessible routes not only affect vulnerable groups reliant upon support services, but can also damage our economy. For these reasons, the pre-winter season salt stock levels reported to me have been increased to 250,000 tonnes. Two additional strategic salt storage facilities have been established this year in mid and north Wales, supplementing those already available. Complementing this is the all-Wales salt procurement framework contract, to provisionally reserve replenishment supplies during critical periods.

Aligned to these activities, we have worked with the Welsh Local Government Association to improve procedures, operations and mutual aid across local authorities. Consequently, Wales will be as self-sufficient as possible in the event of a national salt shortage.

On the railways, Network Rail has measures in place to ensure that the 936 rail route miles across Wales and the borders remain open. If conditions dictate, Network Rail can implement its key route strategy with Arriva Trains Wales to keep open prioritised routes.

In March of this year, we saw the impact of heavy snow on farming communities in mid and north Wales. We understand the need for greater resilience in these communities, and we have worked towards this for the coming winter. The independent review, established in the wake of the snow earlier this year, is considering the resilience of farming in Wales in its widest context. Ahead of publication later this month of the full report, work has been taken forward to put in place a contingency management plan for the farming communities.

To alleviate the impact of school closures on the public and private sectors in general, and also on businesses, the Welsh Government and the Welsh Local Government Association have issued joint guidance to headteachers and local authorities on whether schools should remain open or close.

Wales has experienced a number of flooding events in recent years. We continue to invest in flood-risk management to protect those areas most at risk. Such investment includes a new flood warning system across Wales, and the construction of new flood defences in Swansea and Fairbourne in Gwynedd.

It is vital that people are aware of the risks they face, what services they can expect from public authorities and what action they can take to reduce the impact of winter weather. We want members of the public in Wales to take appropriate steps to prepare themselves for winter. To assist this, we have published practical advice on our winter weather advice page on the Welsh Government website.

Yn ystod y gaeaf, mae'n hollbwysig sicrhau bod y ffyrdd yn aros ar agor yn ystod cyfnodau rhewllyd neu pan fydd eira wedi disgyn. Gall ffyrdd sydd wedi eu cau niweidio ein heconomi, yn ogystal ag effeithio ar grwpiau sy'n agored i niwed sy'n dibynnu ar wasanaethau cymorth. Am y rhesymau hyn, mae lefelau'r stoc halen cyn tymor y gaeaf a adroddwyd imi wedi cynyddu i 250,000 o dunelli. Mae dau gyfleuster storio halen strategol ychwanegol wedi eu sefydlu eleni yn y canolbarth a'r gogledd, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar gael. Yn ategu hyn mae contract fframwaith caffael halen Cymru gyfan, i archebu cyflenwadau ail-lenwi dros dro yn ystod cyfnodau allweddol.

I gyd-fynd â'r gweithgareddau hyn, rydym wedi cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wella gweithdrefnau, gweithrediadau a chymorth ar y cyd ar draws awdurdodau lleol. O ganlyniad, bydd Cymru mor hunangynhaliol â phosibl os ceir prinder halen cenedlaethol.

Ar y rheilffyrdd, mae gan Network Rail fesurau ar waith i sicrhau bod y 936 o filltiroedd o reilffyrdd ar draws Cymru a'r gororau'n aros ar agor. Os ceir amodau gwael, gall Network Rail weithredu ei strategaeth llwybrau allweddol gyda Threnau Arriva Cymru i gadw llwybrau â blaenoriaeth ar agor.

Ym mis Mawrth eleni, gwelsom effaith eira trwm ar gymunedau ffermio yn y canolbarth a'r gogledd. Rydym yn deall bod angen mwy o gydnerthedd yn y cymunedau hyn, ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at hynny ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae'r adolygiad annibynnol, a sefydlwyd yn sgil yr eira'n gynharach eleni, yn ystyried cydnerthedd ffermio yng Nghymru yn ei gyd-destun ehangaf. Cyn cyhoeddi'r adroddiad llawn yn ddiweddarach y mis hwn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i roi cynllun rheoli wrth gefn ar waith ar gyfer cymunedau ffermio.

I liniaru effaith cau ysgolion ar y sectorau cyhoeddus a phreifat yn gyffredinol, a hefyd ar fusnesau, mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y cyd i benaethiaid ac awdurdodau lleol ynghylch a ddylai ysgolion aros ar agor ynteu a ddylent gau.

Cafwyd nifer o ddigwyddiadau llifogydd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rheoli risg llifogydd i ddiogelu'r ardaloedd hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae'r buddsoddiad yn cynnwys system newydd i rybuddio rhag llifogydd ledled Cymru, ac adeiladu amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd yn Abertawe a'r Friog yng Ngwynedd.

Mae'n hollbwysig fod pobl yn ymwybodol o'r risgiau y maent yn eu hwynebu, pa wasanaethau y gallant eu disgwyl gan awdurdodau cyhoeddus a pha gamau y gallant eu cymryd i leihau effaith tywydd y gaeaf. Rydym am i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru gymryd camau priodol i ymbaratoi at y gaeaf. I'w cynorthwyo i wneud hyn, rydym wedi cyhoeddi cyngor ymarferol ar ein tudalen cyngor ar dywydd y gaeaf ar wefan Llywodraeth Cymru.

In this statement, I have outlined the arrangements that we have in place to prepare for and manage these situations when they arise. It is incumbent upon each of us to take every opportunity to ensure that we are prepared for whatever befalls us this winter.

Yn y datganiad hwn, rwyf wedi amlinellu'r trefniadau sydd ar waith gennym i baratoi at y sefyllfaoedd hyn a'u rheoli pan fyddant yn digwydd. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i fachu ar bob cyfle i sicrhau ein bod yn barod at beth bynnag a ddigwydd y gaeaf hwn.

15:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Minister. Before I call other speakers, I would like to remind you that this is an opportunity to ask questions of the Minister. I have a long list of speakers, and if I am going to get through them all, it is up to each individual Member to try to curtail their contributions. Janet Finch-Saunders is first.

Diolch, Weinidog. Cyn imi alw ar siaradwyr eraill, hoffwn eich atgoffa mai cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog yw hwn. Mae gennyf restr hir o siaradwyr, ac os yw pob un ohonynt am gael cyfle, mae angen i bob Aelod geisio cadw'i gyfraniad yn fyr. Janet Finch-Saunders yn gyntaf.

15:48 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That was a really comprehensive statement and I think that we all know, following an unexpectedly glorious summer, the weather in Wales, particularly over the winter, can be quite unpredictable. You have rightly pointed out the issues that we have had with the flooding and with the snow in April.

Roedd hwnnw'n ddatganiad cynhwysfawr iawn a chredaf ein bod i gyd yn gwybod, ar ôl haf annisgwyl o ogoneddus, y gall y tywydd yng Nghymru, yn enwedig yn ystod y gaeaf, fod yn ddigon anodd ei ddarogan. Rydych wedi sôn yn briodol iawn am y problemau a gawsom o ran llifogydd ac o ran eira ym mis Ebrill.

This appears to be an annual statement of assurance, and it is only when we experience such problems that you know how well your systems are working or otherwise. It is quite reassuring that the current salt reserves are around the 250,000 tonnes mark, and I just hope that we have enough. It is quite reassuring to see the additional storage facilities that you have in north and mid Wales, in addition to those around major trunk roads. I have concerns about rural communities when things go wrong, because they can often feel quite isolated when the main arterial roads can be affected.

Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatganiad blynyddol o sicrwydd, a dim ond pan fyddwn yn cael problemau o'r fath y byddwch yn gwybod pa mor dda y mae eich systemau'n gweithio neu fel arall. Mae'n eithaf calonogol fod tua 250,000 o dunelli o gronfeydd halen ar gael ar hyn o bryd, ac rwyf yn gobeithio bod gennym ddigon. Mae'n galonogol gweld y cyfleusterau storio ychwanegol sydd gennych yn y gogledd a'r canolbarth, yn ychwanegol at y rhai o amgylch y prif gefnffyrdd. Mae gennyf bryderon am gymunedau gwledig pan aiff pethau o chwith, oherwydd gallant yn aml deimlo'n ddigon ynysig pan fydd y tywydd yn effeithio ar y priffyrdd.

Going back to the issues in April as regards the farms where we had the devastation and the problems with the fallen stock, many farmers found it very chaotic and found there to be a lack of leadership from the Welsh Government with regard to this. You said that you have put plans in place. What discussions have you had with the Minister for Natural Resources and Food to ensure that that kind of situation never happens again?

A throï'n ôl at y materion ym mis Ebrill o ran y ffermydd lle gwelsom ddinistr a phroblemau gyda'r stoc trig, roedd hi'n draed moch i lawer o ffermwyr ac roeddent yn gweld diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth. Dywedasoeh eich bod wedi rhoi cynlluniau ar waith. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd i sicrhau na welwn y math hwnnw o sefyllfa byth eto?

I am very pleased with the work that is going on with the winter wellness campaign through community pharmacies to raise awareness among older people and other vulnerable groups about winter preparedness. However, like other Members here, I am worried, when we hear about cancelled operations, about emergency planning as regards cancelled operations with hospitals. What discussions have you had with the Minister to minimise any effects on our patients?

Rwyf yn falch iawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran ymgyrch iechyd y gaeaf drwy fferyllfeydd cymunedol i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl hŷn a grwpiau eraill agored i niwed am barodrwydd at y gaeaf. Fodd bynnag, rwyf finnau, fel Aelodau eraill yma, yn poeni, pan glywn am ganslo llawdriniaethau, am gynlluniau argyfwng o ran llawdriniaethau wedi'u canslo mewn ysbytai. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â'r Gweinidog i leihau unrhyw effeithiau ar ein cleifion?

I know that, through the buy oil early campaign, you are encouraging consumers to stock up and to join collective schemes. There is one in my own constituency. I am aware of residents in very isolated rural communities who have got together and managed to do a deal with companies where they can reduce the price per litre of fuel. Do you have a plan in place, or a network of where these groups are operating, or are these not on the radar yet?

Gwn eich bod, drwy'r ymgyrch prynu olew'n gynnar, yn annog defnyddwyr i brynu eu stoc ac ymuno â chynlluniau ar y cyd. Mae un yn fy etholaeth i. Gwn am drigolion mewn cymunedau gwledig ynysig iawn sydd wedi dod at ei gilydd a llwyddo i daro bargaen â chwmnïau lle y gallant ostwng y pris am bob litr o danwydd. A oes gennych gynllun ar waith, neu rwydwaith o ble y mae'r grwpiau hyn yn gweithredu? A ydynt ar y radar eto?

That is it really. I just hope that all agencies work together. Could you confirm, once and for all in this Chamber, that every local authority and health board, and all of the agencies, now have their plans well and truly in place?

Dyna'r cyfan mewn gwirionedd. Rwyf yn mawr obeithio y bydd yr holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd. A wnewch chi gadarnhau, unwaith ac am byth yn y Siambr hon, fod cynlluniau pob awdurdod a bwrdd iechyd lleol, a phob asiantaeth, yn bendant ar waith?

15:51

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions, Janet Finch-Saunders. It is important that we learn lessons from previous winters. As you say, this is something on which, as a Welsh Government, we bring forward a statement at this time of year before winter really begins—I am not quite sure when winter begins, but when winter really kicks in.

You raised questions about the farming community and I do not accept that there was a lack of leadership from the Minister. That was in the spring, was it not, if you think about March and April? Certainly, my recollection is of seeing the Minister at kitchen tables in farmhouses, talking to farmers; that is the impression that I and many people in this Chamber got.

As a result of that severe weather and the impact that it had on a number of farm businesses, the Minister for Natural Resources and Food commissioned Kevin Roberts, director general of the National Farmers Union in England and Wales, to carry out an independent review that looked, in a wide context, at the resilience of farming in Wales. I mentioned in my opening statement that that full report would be submitted to the Minister at the end of this month.

However, there was an interim report submitted to the Minister in July. That comprised two main recommendations for the development of a contingency management plan and improving the wider resilience of farming in Wales, focusing on an appropriate integrated package of measures for the uplands in the next rural development plan to help improve farming and environmental performance. The Minister is taking those forward.

You mentioned specifically about health and local authorities and health boards having plans in place. Obviously, the Minister for Health and Social Services will have a debate this afternoon regarding the preparedness of the health service in Wales. I should say that, over the autumn term, the Minister for Health and Social Services and Gwenda Thomas, the Deputy Minister for Social Services, and I have held regular meetings with local authorities and health boards—local authorities and the health boards in their areas—to ensure that their winter plans are in place. Those meetings have reassured us that that is the case.

You mentioned the buy oil early campaign and I do not know the details of all the different groups, but it is a very good scheme, and as you say, it brings people together and they are able to buy fuel cheaper.

Diolch am y cwestiynau hynny, Janet Finch-Saunders. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu gwersi'r gaeafau a fu. Fel y dywedwch, rydym ni yn Llywodraeth Cymru'n cyflwyno datganiad ar hyn yr adeg hon o'r flwyddyn cyn i'r gaeaf ddechrau mewn gwirionedd—nid wyf yn hollol siŵr pryd y mae'r gaeaf yn dechrau, ond pan fyddwn yn teimlo'r gaeaf mewn gwirionedd.

Gofynasoch gwestiynau am y gymuned ffermio ac nid wyf yn derbyn y bu diffyg arweiniad gan y Gweinidog. Roedd hynny yn y gwanwyn, onid oedd, os ydych yn meddwl am fis Mawrth a mis Ebrill? Yn sicr, yr hyn yr wyf fi'n ei gofio yw gweld y Gweinidog wrth fyrddau ceginau mewn ffermdai, yn siarad â ffermwyr; dyna'r argraff a gefais i a llawer o bobl yn y Siambr hon.

Yn sgil y tywydd garw hwnnw a'r effaith a gafodd ar nifer o fusnesau fferm, comisynodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd Kevin Roberts, cyfarwyddwr cyffredinol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr, i gynnal adolygiad annibynnol a fu'n edrych, mewn cydestun eang, ar gydnerthedd ffermio yng Nghymru. Soniais yn fy natganiad agoriadol y byddai'r adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ddiwedd y mis hwn.

Fodd bynnag, cyflwynwyd adroddiad interim i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf. Roedd hwnnw'n cynnwys dau brif argymhelliad ar gyfer datblygu cynllun rheoli wrth gefn a gwella cydnerthedd ehangach ffermio yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar becyn integredig priodol o fesurau ar gyfer yr ucheldiroedd yn y cynllun datblygu gwledig nesaf i helpu i wella ffermio a pherfformiad amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn bwrw ymlaen â'r rheini.

Soniasoch yn benodol am iechyd ac am sicrhau bod gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynlluniau ar waith. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal dadl y prynhawn yma ynglŷn â pharodrydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dylwn ddweud fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a minnau, dros dymor yr hydref, wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd—awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yn eu hardaloedd—i sicrhau bod eu cynlluniau gaeaf ar waith. Mae'r cyfarfodydd hynny wedi rhoi sicrwydd inni eu bod ar waith.

Soniasoch am yr ymgyrch prynu olew'n gynnar ac nid wyf yn gwybod manylion yr holl wahanol grwpiau, ond mae'n gynllun da iawn, ac fel y dywedwch, mae'n dod â phobl at ei gilydd ac maent yn gallu prynu tanwydd yn rhatach.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



15:54

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, it is all too easy sometimes to knock councils. We sometimes do not recognise the actual efforts and work that takes place to deal with some of the very severe adverse weather conditions that we have had in recent times. Also, we should recognise, Minister, the contribution of the work that is undertaken by the workforce, who put themselves out for many hours and often go well beyond the duty that is expected of them. I would particularly like to praise the efforts of Rhondda Cynon Taf County Borough Council that I thought, last year, was exceptional in the work that it did in ensuring access to care homes, hospitals and so on. I have been assured that it is equally as prepared for the season ahead and has developed a winter service operational plan and more than tripled its stock holdings.

Weinidog, mae'n rhy hawdd weithiau gweld bai ar gynghorau. Weithiau, nid ydym yn cydnabod yr ymdrechion a'r gwaith gwirioneddol sy'n digwydd i ymdrin â'r tywydd garw difrifol yr ydym wedi'i gael yn ddiweddar. Hefyd, dylem gydnabod, Weinidog, gyfraniad y gwaith y mae'r gweithlu'n ei wneud; maent yn gweithio oriau hir ac yn aml yn mynd ymhell y tu hwnt i alwad dyletswydd. Hoffwn ganmol yn benodol ymdrechion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; credaf ei fod wedi gwneud gwaith rhagorol y llynedd i sicrhau mynediad i gartrefi gofal, ysbytai ac yn y blaen. Rwyf wedi cael sicrwydd ei fod yr un mor barod at y tymor sydd i ddod ac wedi datblygu cynllun gweithredol gwasanaethau'r gaeaf ac wedi mwy na threblu ei ddaliadau stoc.

15:55

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Are you coming to a question?

A ydych yn dod at gwestiwn?

15:55

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. Minister, sometimes, the expectations of individuals are that every street and pavement are going to be cleared and so on, and sometimes those expectations are unrealistic. Do you think that there is more that we could do in order to ensure that members of the public understand the efforts that are being undertaken and the plans that are in force, because it does seem, sometimes, that that message does not get through to members of the public?

Ydw. Weinidog, weithiau, mae unigolion yn disgwyl i bob stryd a phalmant gael ei glirio ac yn y blaen, ac weithiau mae'r disgwyliadau hynny'n afrealistig. A ydych yn credu bod mwy y gallem ei wneud i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn deall yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud a'r cynlluniau sydd mewn grym, oherwydd mae'n ymddangos, weithiau, nad yw'r neges honno'n cyrraedd aelodau'r cyhoedd?

15:55

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that you raise a very good point and, again, I mentioned in my opening remarks that it is important that everybody takes as much responsibility as they can and prepares. I think that this is where the early weather warnings come in, although some are not particularly scientific, we can prepare ourselves much better.

Credaf eich bod yn codi pwynt da iawn, ac, unwaith eto, soniais yn fy sylwadau agoriadol ei bod yn bwysig fod pawb yn cymryd cymaint o gyfrifoldeb ag y gallant ac yn ymbaratoi. Credaf mai dyma lle mae'r rhybuddion tywydd cynnar yn bwysig, ac er nad yw rhai'n arbennig o wyddonol, gallwn ymbaratoi'n well o lawer.

I agree about local authorities; they do a huge amount of work putting in place services to ensure that when we have very inclement weather, they are able to respond. Again, I think that they work very well with voluntary organisations. I know that in the extreme snow that we had in north-east Wales in the spring, we relied on organisations such as the Red Cross to help to get people to hospitals. However, I am very reassured. We have worked with local authorities, with emergency services and responder agencies through the Wales resilience forum to ensure that we have a very strategic and co-ordinated approach to winter resilience.

Rwyf yn cytuno ynglŷn ag awdurdodau lleol; maent yn gwneud gwaith aruthrol i roi gwasanaethau ar waith i sicrhau eu bod yn gallu ymateb pan gawn dywydd garw iawn. Unwaith eto, credaf eu bod yn gweithio'n dda iawn gyda sefydliadau gwirfoddol. Gwn ein bod, yn yr eira eithafol a gawsom yn y gogledd-ddwyrain yn y gwanwyn, wedi bod yn ddibynnol ar sefydliadau megis y Groes Goch i helpu pobl i gyrraedd ysbytai. Fodd bynnag, rwyf yn dawel iawn fy meddwl. Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol, gyda'r gwasanaethau brys a chydag asiantaethau ymateb drwy fforwm Cymru Gydnerth i sicrhau bod ein hymagwedd tuag at gydnerthedd y gaeaf yn un strategol a chydlynol.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid wyf yn siŵr iawn pam rydym yn cael datganiad ynglŷn â thywydd gaeafol yn y gaeaf. Mae'r gaeaf yn digwydd bob blwyddyn a byddai'n beth anarferol pe na bai e'n digwydd a byddai'n anarferol iawn pe na bai tywydd gaeafol yn digwydd yn y gaeaf. Felly, byddai rhywun yn disgwyl y byddai modd dygymod â'r sefyllfaoedd hynny, ac rwy'n credu bod y Deyrnas Unedig yn unigryw yn y ffaith ei bod yn cael trafferthion i ymateb i ofynion y gaeaf a thywydd gaeafol. Mae eich datganiad, Weinidog, yn ymwneud â'r materion arferol a byddai hi'n syndod pe na bai awdurdodau lleol wedi darparu ar gyfer y rheini, ond rwy'n ategu'n llwyr yr hyn a ddywedodd Mick Antoniw am ein dyled ni i aelodau'r gweithlu, sydd, wrth reswm, yn gweithio dan amodau anodd iawn ar adegau fel hyn ac sydd, yn aml, yn gosod eu hunain mewn sefyllfa o berygl hefyd.

I am not quite sure where we are having a statement on winter weather in the winter. The winter happens every year and it would be unusual if it did not happen and it would be very unusual if winter weather did not happen in the winter. So, anyone would expect that we could cope with those situations, and I think that the UK is unique in the fact that it has difficulties in responding to the demands of winter and winter weather. Your statement, Minister, concerns usual situations and it would be surprising if local authorities had not prepared for those, but I agree entirely with what Mick Antoniw said about our debt to members of the workforce who, obviously, work in very difficult circumstances at times like these and, often, put themselves in very dangerous situations.

A gaf i ofyn tri chwestiwn i chi sy'n ymwneud â'r anarferol? Nid yw hynny wedi ei gynnwys yn eich adroddiad chi. Yn y lle cyntaf, i ba raddau y mae setliad eleni, sydd yn waeth na'r arfer, yn llawer iawn llymach a gyda thoriadau llawer iawn yn fwy, yn mynd i effeithio ar allu awdurdodau lleol i ymateb? Rydych yn cyfeirio at sefyllfaoedd fel llifogydd annisgwyl, ac mae hynny yn rhywbeth sydd yn dod yn fwy o batrwm yng Nghymru, ond nid oes modd paratoi ar eu cyfer. A oes modd darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae llifogydd, fel y digwyddodd yng Ngheredigion y llynedd, yn digwydd yn annisgwyl mewn lleoedd annisgwyl, heb hanes o lifogydd? Sut mae modd dygymod â hynny? Yn yr un modd, o ran yr eira a ddigwyddodd yn y gwanwyn eleni a'r lluwchfeydd enfawr, a oes disgwyl i awdurdodau lleol ddygymod â'r fath sefyllfaoedd? Dyna'r math o gwestiynau rwy'n meddwl y dylem ni fod yn edrych arnynt—yr anarferol yn hytrach na'r arferol. Dylai'r arferol fod yn rhan o batrwm y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

May I ask three questions for you that relate to unusual situations? They are not included in your statement. First, to what extent is this year's settlement, which is worse than usual, is much more severe and with much bigger cuts, going to impact on the ability of local authorities to respond? You refer to situations such as unexpected flooding, and that is something that is becoming more of a pattern in Wales, and there is no way to prepare for them. Is there a way of preparing for such situations where floods, as happened in Ceredigion last year, occur unexpectedly in unexpected places that do not have a history of flooding? How can we cope with that? In the same way, in terms of the snow that fell in the spring of this year and the huge drifts that occurred, are local authorities expected to be able to cope with those kinds of situations? Those are the sorts of questions that I think that we should be looking at—the unusual rather than the usual. The usual things should be part of the pattern of public services in Wales.

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rhodri Glyn Thomas for those questions. I think that it is an opportunity to reassure Members and the public that we are prepared and also to raise awareness, as we encourage individuals to think ahead and plan, so that they are equipped also to deal with the range of severe weather. You say that you expect winter weather to occur in the winter, but what we saw in the spring was very unusual, certainly in north-east Wales and Wrexham, which I represent. In the 30 years that I had lived in my village, I had not seen snow like that, but that was Easter—I spent Good Friday digging out. Therefore, we have to be prepared for the whole of the year, not just for the winter.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am y cwestiynau hynny. Credaf fod hwn yn gyfle i roi sicrwydd i Aelodau a'r cyhoedd ein bod yn barod a hefyd i godi ymwybyddiaeth, wrth inni annog unigolion i feddwl ymlaen llaw a chynllunio, er mwyn iddynt hwythau hefyd fod yn barod i ymdrin ag amrywiaeth o dywydd garw. Dywedwch eich bod yn disgwyl i dywydd y gaeaf ddigwydd yn y gaeaf, ond roedd yr hyn a welsom yn y gwanwyn yn anarferol iawn, yn sicr yn y gogledd-ddwyrain ac yn Wrecsam, sef yr ardal yr wyf fi'n ei chynrychioli. Yn y 30 mlynedd y bŵm yn byw yn fy mhentref, nid oeddwn wedi gweld eira tebyg, ond adeg y Pasg oedd hynny—treuliais ddydd Gwener y Groglith yn cloddio allan. Felly, rhaid inni fod yn barod at y flwyddyn gyfan, nid at y gaeaf yn unig.

You mentioned the settlement to local government, which is for next year—it is for 2014-15—so, obviously, it will have to look at its plans for next year in light of that. However, this year, I think that local authorities are well prepared.

Soniasoch am y setliad i lywodraeth leol, sydd ar gyfer y flwyddyn nesaf—ar gyfer 2014-15—felly, yn amlwg, bydd yn rhaid i lywodraeth leol edrych ar ei chynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn sgil hynny. Fodd bynnag, eleni, credaf fod awdurdodau lleol wedi ymbaratoi'n dda.

You mentioned flooding, and I think that it does not matter how much we invest or how many defences that we build, there will always be a residual risk of flooding. Therefore, it is important that we are resilient to flooding and that we make sure that we are prepared for that. One thing that we have done, going into 2014-15, is to make sure that we continue to invest and that there is no cut to the budget in relation to flooding for 2014-15.

Soniasoch am lifogydd, ac rwyf o'r farn, waeth faint yr ydym yn ei fuddsoddi a faint o amddiffynfeydd yr ydym yn eu hadeiladu, y bydd rhywfaint o berygl o lifogydd bob amser. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gallu gwrthsefyll llifogydd a'n bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn barod at hynny. Un peth yr ydym wedi ei wneud, wrth fynd i mewn i 2014-15, yw gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i fuddsoddi ac na chaiff y gyllideb ei thorri o ran llifogydd ar gyfer 2014-15.

16:00

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for this annual statement. As Rhodri Glyn Thomas said, we do get it every year, and it is very useful to know that the preparations are in train. In terms of the actual measures themselves, I think the important thing is the information and how that information is made available to the public so that they know what to expect and what services will be available to them. In particular, Minister—and I know that you said that the Minister for Health and Social Services will be addressing these issues in more detail later—can you give us an indication as to whether winter pressure plans for local health boards will be published so that everyone is aware of what those health boards are planning to do in terms of operations and other measures to try to cope with the pressures that will be on those services over the winter?

In relation to energy-efficiency programmes, I think it is absolutely right that we should focus on and help those households that are particularly struggling to pay their fuel bills, which, I think, is many households nowadays. What advice and targeted support is available, particularly for those who are in fuel poverty, in terms of assisting them with fuel bills and with proper and timely advice on how best to maximise the resources that they have to keep themselves warm and safe over the winter period?

In terms of the salt stock, the strategic salt storage facilities are very much welcome—the extra strategic facilities that have been put in place. What partnership working is going on between local authorities to ensure that they are sharing those facilities and the stocks when things become particularly difficult?

Finally, in relation to the impact of the school closures, you say that guidance has been issued to headteachers and local authorities. Can that guidance be made public so that we are aware of what schools are being advised in terms of when they should and should not close so that we can advise constituents accordingly?

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad blynyddol hwn. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, rydym yn ei gael bob blwyddyn, ac mae'n ddefnyddiol iawn gwybod bod y paratoadau ar y gweill. O ran y mesurau eu hunain, credaf mai'r peth pwysig yw'r wybodaeth a'r ffordd y caiff y wybodaeth honno ei darparu i'r cyhoedd er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl a pha wasanaethau fydd ar gael iddynt. Yn benodol, Weinidog—a gwn eich bod wedi dweud y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi sylw manylach i'r materion hyn yn nes ymlaen—a allwch roi syniad inni a fydd cynlluniau pwysau'r gaeaf y byrddau iechyd lleol yn cael eu cyhoeddi er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o'r hyn y mae'r byrddau iechyd hynny'n bwriadu ei wneud o ran gweithrediadau a mesurau eraill i geisio ymdopi â'r pwysau a fydd ar y gwasanaethau hynny dros y gaeaf?

O ran rhaglenni effeithlonrwydd ynni, rwyf yn credu ei bod yn hollol briodol inni ganolbwyntio ar yr aelwydydd hynny sy'n ei chael yn arbennig o anodd talu eu biliau tanwydd, a'u helpu; credaf fod hynny'n berthnasol i lawer o deuluoedd y dyddiau hyn. Pa gyngor a chymorth wedi'i dargedu sydd ar gael, yn enwedig i bobl sydd mewn tlodi tanwydd, o ran eu cynorthwyo â biliau tanwydd a rhoi cyngor priodol ac amserol am y ffordd orau i wneud yn fawr o'r adnoddau sydd ganddynt i'w cadw eu hunain yn gyntes ac yn ddiogel dros gyfnod y gaeaf?

O ran y stoc halen, mae'n galonogol clywed am y cyfleusterau strategol storio halen—y cyfleusterau strategol ychwanegol sydd wedi eu rhoi ar waith. Pa waith sy'n digwydd mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn rhannu'r cyfleusterau hynny a'r stociau pan aiff pethau'n arbennig o anodd?

Yn olaf, o ran effaith cau ysgolion, dywedwch fod canllawiau wedi eu rhoi i benaethiaid ac i awdurdodau lleol. A fyddai modd cyhoeddi'r canllawiau hynny er mwyn inni fod yn ymwybodol o'r cyngor sy'n cael ei roi i ysgolion o ran pryd y dylent ac na ddylent gau fel y gallwn gynghori etholwyr yn unol â hynny?

16:02

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for those questions. In relation to the health boards' winter plans, they will be published, but, as I say, you can question the Minister for Health and Social Services more closely on those during the debate later this afternoon.

Diolch i Peter Black am y cwestiynau hynny. O ran cynlluniau gaeaf y byrddau iechyd, byddant yn cael eu cyhoeddi, ond, fel y dywedais, gallwch holi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fanylach am hynny yn ystod y ddaidl yn nes ymlaen y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to fuel poverty, winter fuel payments are non-devolved, but we know that there are people who are particularly vulnerable, and I think it is really important that we have such schemes as Nest. I know that British Gas, which manages Nest, can fast-track heating installations, for instance, during the winter for householders who are identified as being particularly vulnerable, or provide temporary heaters until installations are complete. Other energy companies also have arrangements in place, for instance, if there was a threat to power supplies. We certainly saw that with the St Jude storm; although we did not have the full impact in Wales, there were still 25,000 people without power at one time.

In relation to salt, local authorities are working closely together. I mentioned in my opening statement that we have 250,000 tonnes this year. That is an increase from 228,000 tonnes last year. What I have said to my officials is that it is really important that supplies are monitored throughout the winter as salt is used up, and I mentioned that we have two additional strategic salt storage facilities in place.

In relation to school closures, it was in autumn 2010 that the non-statutory guidance on opening schools in extreme bad weather was issued. I would have thought that it would have been published by now, but I will certainly check and let you know by note if that is not the case.

O ran tldi tanwydd, nid yw taliadau tanwydd y gaeaf wedi'u datganoli, ond rydym yn gwybod bod rhai pobl yn arbennig o agored i niwed, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn fod gennym gynlluniau megis Nyth. Gwn fod Nwy Prydain, sy'n rheoli Nyth, yn gallu cyflymu gosodiadau gwresogi, er enghraifft, yn ystod y gaeaf i aelwydydd y nodir eu bod yn arbennig o agored i niwed, neu'n gallu darparu gwresogyddion dros dro hyd nes y mae'r gosodiadau wedi'u cwblhau. Mae gan gwmnïau ynni eraill drefniadau ar waith hefyd, er enghraifft, pe bai bygythiad i gyflenwadau pŵer. Yn sicr, gwelsom hynny gyda storm St Jude; er na theimlwyd yr effaith yn llawn yng Nghymru, roedd 25,000 o bobl heb bŵer ar un adeg.

O ran halen, mae'r awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos â'i gilydd. Soniais yn fy natganiad agoriadol fod gennym 250,000 o dunelli eleni. Mae hynny'n fwy na'r llynedd, pan oedd gennym 228,000 o dunelli. Yr hyn yr wyf wedi'i ddweud wrth fy swyddogion yw ei bod yn bwysig iawn monitro cyflenwadau drwy gydol y gaeaf wrth i'r halen gael ei ddefnyddio, a soniais fod gennym ddau gyfleuster storio halen strategol ychwanegol.

O ran cau ysgolion, yn ystod hydref 2010 y cafodd y canllawiau anstatudol ar agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol eu cyflwyno. Byddwn yn meddwl y byddent wedi eu cyhoeddi erbyn hyn, ond holaf am hynny yn sicr a rhoi gwybod ichi mewn nodyn os nad dyna'r sefyllfa.

16:04

## **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement, Minister, which, within my shadow portfolio, I broadly welcome with regard to the preparation in place. However, I have some concerns and questions that I wish to put to you. Forgive me if you think that I am nit-picking, but I just want you to amplify a few points. You say in your statement that you are aware that the availability of domestic fuel oil, particularly in rural areas, is an issue of concern. Can you outline what consultation you have undertaken in putting together your winter plans, specifically how you engaged with the companies distributing oil, coal and, indeed, liquefied petroleum gas to households across Wales? You mentioned oil in particular, but I would like to know how you have tackled that generally.

Could you outline the specifics of the mutual aid operations with the WLGA? What has been done on working, in terms of mutual aid, between the border counties, taking Hereford and Powys as an example? In your statement, you referred to joint advice issued to headteachers and local authorities on whether schools should remain open. Could you give a real assurance that this will be a simpler way of making the decisions and implementing them by area? It is a small paragraph at the bottom of page 2 of your statement, but it has a profound effect on families during any winter disruption.

Diolch am eich datganiad, Weinidog; o fewn fy mhorthfolio cysgodol, rwyf yn ei groesawu at ei gilydd o ran y paratodau sydd wedi'u gwneud. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon a chwestiynau yr hoffwn eu gofyn ichi. Maddeuwch imi os credwch fy mod yn holli blew, ond hoffwn ichi ymhelaethu ar rai pwyntiau. Dywedwch yn eich datganiad eich bod yn ymwybodol fod argaeledd olew tanwydd domestig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn peri pryder. A allwch amlinellu pa ymgynghori yr ydych wedi'i wneud wrth lunio eich cynlluniau gaeaf, ac yn benodol sut y buoch yn ymgysylltu â'r cwmnïau sy'n dosbarthu olew, glo ac, yn wir, nwy petrolewm hylifedig i gartrefi ledled Cymru? Soniasoch am olew'n arbennig, ond hoffwn wybod sut yr ydych wedi ymdrin â hynny'n gyffredinol.

A wnewch chi amlinellu manylion y gweithrediadau cymorth ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? Beth sydd wedi'i wneud ynghylch gweithio, o ran cymorth ar y cyd, rhwng siroedd y gororau, er enghraifft, rhwng Henffordd a Phowys? Yn eich datganiad, cyfeiriasoch at gyngor ar y cyd a roddwyd i benaethiaid ac i awdurdodau lleol ynghylch a ddylai ysgolion aros ar agor. A allwch chi roi sicrwydd gwirioneddol y bydd hyn yn ffordd symlach o wneud y penderfyniadau a'u rhoi ar waith ym mhob ardal? Mae'n baragraff bach ar waelod tudalen 2 eich datganiad, ond mae'n effeithio'n fawr ar deuluoedd yn ystod unrhyw darfu yn y gaeaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You also mention in your statement communities doing a lot to help themselves, but you fail to mention any detailed programmes to encourage or support communities in putting together contingency plans or best practice. Could you outline anything to support that generic statement? Finally, at the risk of sounding slightly pedantic, there is no mention of a coherent communication strategy for informing residents quickly and reliably about severe weather. Will you accept that this should feature highly and correct the omission, perhaps verbally now, as many of our elderly and vulnerable in society do not have access to the internet and, indeed, in some cases do not have televisions?

Rydych hefyd yn sôn yn eich datganiad am gymunedau'n gwneud llawer i'w helpu eu hunain, ond nid ydych yn sôn am unrhyw raglenni manwl i annog neu gynorthwyo cymunedau i lunio cynlluniau wrth gefn neu arfer gorau. A allwch amlinellu unrhyw beth i ategu'r datganiad cyffredinol hwnnw? Yn olaf, er fy mod efallai'n swnio ychydig yn bedantig, nid oes sôn am strategaeth gyfathrebu gydlynol i hysbysu trigolion yn gyflym ac yn ddibynadwy am dywydd difrifol. A wnewch dderbyn y dylai hyn fod yn elfen bwysig a chywiro'r diffyg, efallai ar lafar yn awr, gan nad oes gan lawer o'r bobl oedrannus ac agored i niwed yn ein cymdeithas fynediad at y rhyngwyd ac, yn wir, mewn rhai achosion, nad oes ganddynt setiau teledu?

16:06

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for those questions. In relation to your questions on fuel, most of this work is done at an official level, and certainly within the Wales resilience forum. I have not specifically undertaken any consultation, but officials have worked very closely on my behalf in relation to that. You referred to the issue regarding education, and you will have heard me say to Peter Black that this non-statutory guidance was issued in autumn 2010. It gives generic risk assessment advice that will help headteachers when they need to assess whether they should close the school or keep it open in severe weather. Obviously, it is a decision for the headteacher: it is really important that headteachers have generic risk assessment advice, but they need to take into account their local circumstances.

Diolch am y cwestiynau hynny. O ran eich cwestiynau am danwydd, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar lefel swyddogol, ac yn sicr o fewn fforwm Cymru Gydnerth. Nid wyf wedi cynnal unrhyw ymgynghori penodol, ond mae swyddogion wedi gweithio'n agos iawn ar fy rhan yn hynny o beth. Cyfeiriasoch at y mater sy'n ymwneud ag addysg, a byddwch wedi fy nghlywed yn dweud wrth Peter Black fod y canllawiau anstatudol hyn wedi'u cyflwyno yn hydref 2010. Maent yn rhoi cyngor cyffredinol am asesu risg a fydd yn helpu penaethiaid pan fydd angen iddynt asesu a ddylent gau'r ysgol ynteu ei chadw ar agor mewn tywydd garw. Yn amlwg, penderfyniad y pennaeth yw hynny: mae'n wirioneddol bwysig fod penaethiaid yn cael cyngor cyffredinol am asesu risg, ond mae angen iddynt ystyried eu hamgylchiadau lleol.

The point on communications is a really important point. We have the winter weather advice page, which is on our Welsh Government website. However, clearly, if you do not have access to the internet, you are not going to get that. I think we need to have a look at how we cascade the information to members of the public, and I know that is something that local authorities have looked into. Obviously, radio campaigns are very important as well, and you will be aware of issues around flooding, for instance. People are able to access telephone calls, and text messages if they have a mobile phone.

Mae'r pwynt am gyfathrebu'n bwynt pwysig iawn. Mae gennym ein tudalen cyngor ar dywydd y gaeaf, sydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, wrth gwrs, os nad oes gennych fynediad at y rhyngwyd, nid ydych yn mynd i gael y cyngor hwnnw. Credaf fod angen inni edrych ar sut yr ydym yn rhaeadru'r wybodaeth i aelodau'r cyhoedd, a gwn fod hynny'n rhywbeth y mae awdurdodau lleol wedi edrych arno. Wrth gwrs, mae ymgyrchoedd radio'n bwysig iawn hefyd, a byddwch yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â llifogydd, er enghraifft. Mae pobl yn gallu defnyddio galwadau ffôn, a negeseuon testun os oes ganddynt ffôn symudol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:08.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:08.*

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not going to repeat everything that has been said, Minister, except to say that Rhodri Glyn does make a good point: we all know that winter is this way coming and that we should be prepared for it. As he rightly says, it is not unexpected and it happens every year. However, what do not happen every year are the weather changes that we are currently going through. I do not know about the rest of the people, but I have roses blooming in my garden, and it is November. Also, a couple of weeks ago, we had virtual tidal waves on Aberystwyth seafront. The point in drawing your attention to the odd things in life that happen—and these are the odd things in life that happen; we have seen areas flood that have never flooded before—is that one system that will take advantage of odd things happening in life is insurance companies. People can find themselves in a situation where they are no longer able to insure their household, simply because an event has happened and it might happen again.

So, what I want to ask, Minister, is whether you can update the Chamber on any discussions that you have had between your department and the UK Government regarding developing a proposal for a not-for-profit flood insurance scheme. Also, the other issue that people have to contend with very much at the moment is that of fuel bills. The fuel poverty that exists in rural areas exists for those people who are off mains gas. Do you have any proposals, Minister, to help in any way those people to keep warm this winter? As I understand it, they very often do not fit those schemes that we currently have for mains gas and electricity.

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. You are absolutely right; we are experiencing non-seasonal weather—that is probably the best phrase. I referred to the snow back at Easter in north-east Wales. I saw the waves at Aberystwyth online, on video, and you would certainly never have thought that it was the time of year that it actually was. Since I have been in portfolio, I have had meetings as part of the Wales resilience forum and we do not need to prepare just for winter—we are having this discussion now, before winter, but it is really important that all the agencies come together to mitigate the impact of severe weather at all times. Clearly, however, it is the winter that tends to be the focus, as it is when we have the worst of the weather.

In relation to your question about discussions about not-for-profit insurance schemes, I certainly have not had any discussions. I am not sure that I would be the Minister to have them, but I can certainly look into what colleagues are doing and what we are doing as the Welsh Government. I am sure that there are discussions going on, certainly at an official level, to see whether that can be taken forward, and I will write to you regarding that in due course.

Nid wyf am ailadrodd popeth sydd wedi cael ei ddweud, Weinidog, ac eithrio dweud bod Rhodri Glyn yn gwneud pwynt da: rydym i gyd yn gwybod bod y gaeaf ar ei ffordd ac y dylem fod yn barod ato. Fel y dywed, nid yw'n annisgwyl ac mae'n digwydd bob blwyddyn. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n digwydd bob blwyddyn yw'r newidiadau yn y tywydd yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd. Nid wyf yn gwybod am bawb arall, ond mae gennyf rosod yn blodeuo yn fy ngardd, ac mae'n fis Tachwedd. Hefyd, rai wythnosau'n ôl, cawsom donnau enfawr ar lan y môr yn Aberystwyth. Y rheswm dros dynnu eich sylw at y pethau rhyfedd sy'n digwydd mewn bywyd—a dyma'r pethau rhyfedd sy'n digwydd mewn bywyd; rydym wedi gweld llifogydd mewn ardaloedd sydd erioed wedi dioddef llifogydd o'r blaen—yw mai un system a fydd yn manteisio ar bethau rhyfedd sy'n digwydd mewn bywyd yw cwmnïau yswiriant. Gall pobl eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle na allant yswirio eu cartrefi mwyach, a hynny oherwydd bod rhywbeth wedi digwydd ac y gallai ddiwydd eto.

Felly, yr hyn yr hoffwn ei ofyn, Weinidog, yw a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am unrhyw drafodaethau rhwng eich adran chi a Llywodraeth y DU ynghylch datblygu cynnig ar gyfer cynllun yswiriant rhag llifogydd dielw. Hefyd, y peth arall y mae'n rhaid i bobl ymdopi ag ef ar hyn o bryd yw biliau tanwydd. Mae'r tlodi tanwydd sydd mewn ardaloedd gwledig yn bodoli i'r bobl hynny nad ydynt yn cael eu nwy o'r prif gyflenwad. A oes gennych unrhyw gynigion, Weinidog, i helpu'r bobl hynny i gadw'n gynnes mewn unrhyw ffordd y gaeaf hwn? Yn ôl a ddeallaf, yn aml iawn nid yw'r cynlluniau hynny sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer nwy a thrydan prif gyflenwad yn berthnasol iddynt.

Diolch am y cwestiynau hynny. Rydych yn llygad eich lle; rydym yn cael tywydd annhymhorol—dyna'r ffordd orau o'i ddisgrifio, yn ôl pob tebyg. Cyfeiriais at yr eira adeg y Pasg yn y gogledd-ddwyrain. Gwelais y tonnau yn Aberystwyth ar-lein, ar fideo, ac yn sicr ni fydddech wedi dyfalu pa adeg o'r flwyddyn oedd hi mewn gwirionedd. Ers imi ymwneud â'r portffolio hwn, rwyf wedi cael cyfarfodydd fel rhan o fforwm Cymru Gydnerth ac nid dim ond at y gaeaf y mae angen inni ymbaratoi—rydym yn cael y drafodaeth hon yn awr, cyn y gaeaf, ond mae'n bwysig iawn fod yr holl asiantaethau'n dod at ei gilydd i liniaru effaith tywydd garw ar bob adeg. Yn amlwg, fodd bynnag, tueddi i ganolbwyntio ar y gaeaf, oherwydd dyna pryd y byddwn yn cael y tywydd gwaethaf.

O ran eich cwestiwn am drafodaethau ynghylch cynlluniau yswiriant dielw, yn sicr nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau. Nid wyf yn siŵr ai fi fyddai'r Gweinidog i'w cael, ond yn sicr gallaf edrych ar yr hyn y mae fy nghydweithwyr yn ei wneud a'r hyn yr ydym ni'n ei wneud fel Llywodraeth Cymru. Rwyf yn siŵr bod trafodaethau'n digwydd, yn sicr ar lefel swyddogol, i weld a ellir symud ymlaen â hwy, a byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny maes o law.

## Datganiad: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad

*Minister for Economy, Science and Transport*

Earlier this year, I commissioned Professor Dylan Jones-Evans to undertake an independent review into the availability of finance for small and medium-sized enterprises in Wales. The aim of this review was to identify areas of particular challenge and provide recommendations for action. Professor Jones-Evans completed the first stage of his report in June and I made a statement on that report to the Chamber on 25 June. There has been progress on a number of the recommendations from the stage 1 report and I will update Members on these later in my statement. This afternoon, however, I want to focus on the Professor Jones-Evans's second stage report, a copy of which has been sent to Members. The report will be available on the Welsh Government's website following my statement this afternoon.

I would like to thank Professor Jones-Evans and his voluntary advisory panel for the work they have undertaken in this important area. In undertaking his review, the professor has carried out extensive engagement, seeking views across the banking sector and other financial institutions, intermediaries, academia and the wider business community. I would like to thank all individuals and organisations that have contributed to the review, particularly Finance Wales, for their full and frank engagement.

The report is underpinned by a substantial amount of technical data obtained from various Government and bank sources, academic papers and surveys. As a result, you will see that the review has raised important challenges for both the private sector and Government that need full and thorough consideration. Professor Jones-Evans has recommended five principles that should form the core for any future changes to the way in which the Welsh Government supports access to finance for the SME community. First, every viable business in Wales should get access to funding at an affordable price. Secondly, the primary role of Government-backed funding for SMEs is to drive forward economic development. Thirdly, it is not the role of the public sector to displace the private sector, but to address a market failure in the provision of finance to SMEs. It is critical, fourthly, that business and skills support is offered alongside financial support to businesses in Wales, rather than as separate elements. Fifthly, funding solutions should be customer-oriented. These appear to be sound foundations against which we can consider any future changes to Welsh Government economic policy.

## Statement: Review of the Availability of Funding for SMEs: Second Report

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The*

Yn gynharach eleni, comisiynais yr Athro Dylan Jones-Evans i gynnal adolygiad annibynnol o'r cyllid sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Nod yr adolygiad hwn oedd nodi meysydd sy'n arbennig o heriol a darparu argymhellion ar gyfer gweithredu. Cwblhaodd yr Athro Jones-Evans gam cyntaf ei adroddiad ym mis Mehefin a rhoddais ddatganiad am yr adroddiad hwnnw i'r Siambr ar 25 Mehefin. Bu cynnydd o ran nifer o argymhellion yr adroddiad cam 1 a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y rhain yn ddiweddarach yn fy natganiad. Y prynhawn yma, fodd bynnag, rwyf am ganolbwyntio ar adroddiad ail gam yr Athro Jones-Evans; mae copi ohono wedi'i anfon at yr Aelodau. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl fy natganiad y prynhawn yma.

Hoffwn ddiolch i'r Athro Jones-Evans a'i banel cyngori gwirfoddol am y gwaith y maent wedi'i wneud yn y maes pwysig hwn. Wrth gynnal ei adolygiad, mae'r athro wedi gwneud gwaith ymgysylltu helaeth, gan geisio barn o bob rhan o'r sector bancio a sefydliadau ariannol eraill, cyfryngwyr, y byd academiaidd a'r gymuned fusnes ehangach. Hoffwn ddiolch i'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad, yn enwedig Cyllid Cymru, am eu cyfranogiad llawn ac agored.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar lawer iawn o ddata technegol a gafwyd o wahanol ffynonellau yn y banciau a'r Llywodraeth, papurau academiaidd ac arolygon. O ganlyniad, fe welwch fod yr adolygiad wedi codi heriau pwysig i'r sector preifat ac i'r Llywodraeth a bod angen eu hystyried yn llawn ac yn drylwyr. Mae'r Athro Jones-Evans wedi argymhell pum egwyddor a ddylai fod yn ganolog i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi mynediad cymuned y busnesau bach a chanolig at gyllid. Yn gyntaf, dylai cyllid fod ar gael i bob busnes hyfyw yng Nghymru am bris fforddiadwy. Yn ail, prif swyddogaeth cyllid gan y Llywodraeth i fusnesau bach a chanolig yw hybu datblygu economaidd. Yn drydydd, nid lle'r sector cyhoeddus yw disodli'r sector preifat, ond mynd i'r afael yn hytrach â methiant yn y farchnad o ran darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig. Mae'n hollbwysig, yn bedwerydd, fod cymorth busnes a sgiliau'n cael ei gynniog ochr yn ochr â chymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru, yn hytrach nag fel elfennau ar wahân. Yn bumed, dylai atebion ariannu ganolbwyntio ar y cwsmer. Mae'r rhain i'w gweld yn sylfeini cadarn y gallwn eu defnyddio wrth ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol i bolisi economaidd Llywodraeth Cymru.

This stage 2 report has identified that access to bank funding remains an issue for SMEs in Wales, and the estimated size of the funding gap is considerable. In the discussions that I have had with the banks, I have appreciated the level of openness and the willingness expressed by the banks to work with the Welsh Government to improve the funding landscape for SMEs in Wales. Initial opportunities for collaboration between the banks and the Welsh Government have been identified, and my officials continue to explore new initiatives in this area. The stage 2 report also identifies that SMEs are not fully informed of all the alternative funding options available to them. There is a need to improve the information available to companies to further highlight the options available to them and to assist businesses to access to the right investment for their business needs. Wales is now home to two crowdfunded networks, and Welsh companies are taking advantage of the resources available to them. The review identifies that more could be done to assist companies to access crowdfunding and we will consider how the Welsh Government policy could assist in this area.

The stage 2 report suggests that there is scope to improve informal investment and venture capital as a source of funding to SMEs in Wales. To date, informal investors have not been used as effectively as they could have been in supporting start-ups in Wales, despite the relative success of xénos, the Wales Business Angel Network. We will also consider whether more could be done to ensure that there is greater focus on venture capital for growth firms at all stages of development within Wales.

Finance Wales has had an essential role, providing much-needed investment for SMEs in Wales during a time of sustained economic difficulty. In agreement with the Welsh Government, Finance Wales has pursued a commercial strategy that has driven the investments that it has made and the interest rates charged. This commercial investment approach was adopted with a number of goals in mind, including attracting private sector investment, either directly or indirectly, into Welsh businesses, and seeking to minimise, or remove altogether, the need for public sector intervention; and creating legacy funds that would continue to benefit Welsh businesses long after the initial round of supportive European funds had finished. I specifically asked the professor to look at Finance Wales's approach as part of his stage 2 report. I welcome his challenge on the future role of Finance Wales, including the impact that this could have on the interest rates charged. Finance Wales and I will need time to consider the review's findings. These are likely to be an important consideration as we develop new funds.

Mae'r adroddiad cam 2 hwn wedi nodi bod cael gafael ar gyllid banc yn dal i fod yn broblem i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod maint y bwch cyllido'n sylweddol. Yn y trafodaethau yr wyf wedi'u cael â'r banciau, rwyf wedi gwerthfawrogi'r ffaith fod y banciau wedi bod mor agored ac mor barod i gydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r tirlun cyllid i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Nodwyd cyfleoedd cychwynnol i'r banciau a Llywodraeth Cymru gydweithio, ac mae fy swyddogion yn parhau i archwilio mentrau newydd yn y maes hwn. Mae'r adroddiad cam 2 hefyd yn nodi nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu hysbysu'n llawn am yr holl opsiynau ariannu amgen sydd ar gael iddynt. Mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gwmnïau er mwyn tynnu mwy o sylw at y dewisiadau sydd ar gael iddynt ac i gynorthwyo busnesau i gael y buddsoddiad cywir ar gyfer eu hanghenion busnes. Mae Cymru bellach yn gartref i ddau rwydwaith sy'n cael arian torfol, ac mae cwmnïau o Gymru'n manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r adolygiad yn nodi y gellid gwneud mwy i gynorthwyo cwmnïau i gael gafael ar arian torfol a byddwn yn ystyried sut y gallai polisi Llywodraeth Cymru gynorthwyo yn y maes hwn.

Mae'r adroddiad cam 2 yn awgrymu bod lle i wella buddsoddi anffurfiol a chyfalaf menter fel ffynhonnell ariannu i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Hyd yma, nid yw buddsoddwyr anffurfiol wedi cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gellid bod wedi'u defnyddio i gefnogi busnesau newydd yng Nghymru, er gwaethaf llwyddiant cymharol xénos, Rhwydwaith Angylion Busnes Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried a ellid gwneud mwy i sicrhau bod mwy o bwyslais ar gyfalaf menter i gwmnïau twf ar bob cam o'u datblygiad yng Nghymru.

Mae Cyllid Cymru wedi chwarae rhan hanfodol, ac wedi darparu buddsoddiad y mae ei angen yn ddirfawr ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod cyfnod o anhawster economaidd parhaus. Mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, mae Cyllid Cymru wedi dilyn strategaeth fasnachol sydd wedi gyrru'r buddsoddiadau y mae wedi'u gwneud a'r cyfraddau llog a godir. Mabwysiadwyd yr ymagwedd buddsoddi masnachol hon gyda nifer o amcanion mewn golwg, gan gynnwys denu buddsoddiad o'r sector preifat, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i fusnesau Cymru, a cheisio lleihau, neu ddileu'n gyfan gwbl, yr angen am ymyrraeth gan y sector cyhoeddus; a chreu cronfeydd etifeddiaeth a fyddai'n parhau i fod o fudd i fusnesau Cymru ymhell ar ôl i'r rownd gyntaf o gyllid Ewropeaidd cefnogol ddod i ben. Gofynnais yn benodol i'r athro edrych ar ymagwedd Cyllid Cymru yn rhan o'i adroddiad cam 2. Rwyf yn croesawu ei her ynghylch swyddogaeth Cyllid Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys yr effaith y gallai hyn ei chael ar y cyfraddau llog a godir. Bydd angen amser ar Gyllid Cymru a minnau i ystyried canfyddiadau'r adolygiad. Mae'n debyg y bydd y rhain yn ystyriaeth bwysig wrth inni ddatblygu cronfeydd newydd.



The review identifies that the provision of support for SMEs is fragmented and a number of proposals could be explored. One of these is for a development bank for Wales to bring together both financial and non-financial support. This is a major proposal and requires serious and thorough evaluation. There are strong parallels here with the work that Professor Colyn Gardner has undertaken on community banking and I will be considering these proposals in more depth.

The full scope of the professor's recommendations will require further investigation and a short consultation period will now open. During this period, he will consult with a number of social partners, such as the trade unions and Commerce Cymru. I would also like to call on the business community, SMEs, investors, financial institutions, intermediaries and member bodies to come forward with their views to help drive change in this vital area.

I appreciate that Members will need more time to digest the report's findings because of the analytical nature of this report, the technical data included and its importance. With this in mind, the professor will hold a technical briefing session with Assembly Members later this month. I would be grateful to receive comments from Members on the report and its findings by 2 December.

Finally, I would like to update Members on progress on the some of the recommendations of the stage 1 report. I have held meetings with several high-street banks to discuss the findings of the stage 1 review and I have appreciated their willingness to discuss the issues raised. My officials have been working closely with the banks to directly address greater collaboration between Government and the banks. We are exploring a number of possible initiatives and I hope to be in a position to make an announcement in this area shortly.

We have also been working on improvements to the information available on SME funding options through Business Wales. My officials continue to work with external organisations to further improve the ability of Welsh SMEs to access the right funding for their business requirements. On 14 October, the UK Government-funded start-up loans scheme was introduced in Wales. This will form an integral part of our business start-up service and it will be administered through our existing business start-up provider network. Individuals will have access to business advice, access to the loans and ongoing support.

The development of the British business bank is progressing. I have met with the bank's acting head, Keith Morgan, and taken steps to ensure that Wales is fairly represented. I fully expect a bid to be made shortly for a fund accessible by Welsh companies.

Finally, I have written to both the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Dr Vince Cable, and the Bank of England to highlight the detrimental effects of the Basel III requirements on SME lending. I have requested that a review is undertaken to examine the effect of excluding SME lending from Basel III.

Mae'r adolygiad yn nodi bod y gefnogaeth a ddarperir i fusnesau bach a chanolig yn dameidiog ac y gellid archwilio nifer o gynigion. Un o'r rhain yw banc datblygu i Gymru i ddod â chymorth ariannol ac anariannol at ei gilydd. Mae hwn yn gynnis mawr ac mae angen ei werthuso'n ddifrifol ac yn drylwyr. Mae tebygrwydd cryf yma i'r gwaith y mae'r Athro Colyn Gardner wedi'i wneud ar fancio cymunedol a byddaf yn ystyried y cynigion hyn yn fanylach.

Bydd angen ymchwilio ymhellach i gwmpas llawn argymhellion yr athro a bydd cyfnod ymgynghori byr yn awr yn dechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ymgynghori â nifer o bartneriaid cymdeithasol, megis yr undebau llafur a Masnach Cymru. Hoffwn hefyd alw ar y gymuned fusnes, busnesau bach a chanolig, buddsoddwyr, sefydliadau ariannol, cyfryngwyr a chyrrff sy'n aelodau i gyfrannu eu barn i helpu i sbarduno newid yn y maes hanfodol hwn.

Gwn y bydd angen mwy o amser ar Aelodau i dreulio canfyddiadau'r adroddiad oherwydd natur ddadansodol yr adroddiad hwn, y data technegol sydd ynddo a'i bwysigrwydd. Felly, bydd yr athro'n cynnal sesiwn briffio technegol gydag Aelodau'r Cynulliad yn nes ymlaen y mis hwn. Byddai'n dda gennyf gael sylwadau'r Aelodau am yr adroddiad a'i ganfyddiadau erbyn 2 Rhagfyr.

Yn olaf, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt rhai o argymhellion yr adroddiad cam 1. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd â llawer o fanciau'r stryd fawr i drafod canfyddiadau'r adolygiad cam 1 a bu eu parodrwydd i drafod y materion a godwyd yn galondid imi. Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â'r banciau i roi sylw uniongyrchol i fwy o gydweithio rhwng y Llywodraeth a'r banciau. Rydym yn archwilio nifer o fentrau posibl ac rwyf yn gobeithio y byddaf mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad yn y maes hwn yn fuan.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar welliannau i'r wybodaeth sydd ar gael am opsiynau cyllido busnesau bach a chanolig drwy Fusnes Cymru. Mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio â sefydliadau allanol i wneud mwy i wella gallu busnesau bach a chanolig Cymru i gael gafael ar y cyllid iawn ar gyfer eu gofynion busnes. Ar 14 Hydref, cafodd y cynllun benthyciadau i fusnesau newydd a ariennir gan Lywodraeth y DU ei gyflwyno yng Nghymru. Bydd yn rhan annatod o'n gwasanaeth dechrau busnes, a chaiff ei weinyddu drwy ein rhwydwaith presennol o ddarparwyr dechrau busnes. Bydd cyngor am fusnes, benthyciadau a chymorth parhaus i gyd ar gael i unigolion.

Mae'r gwaith o ddatblygu banc busnes Prydain yn parhau. Rwyf wedi cwrdd â phennaeth dros dro'r banc, Keith Morgan, ac wedi cymryd camau i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n deg. Rwyf yn disgwyl i gynnis gael ei wneud yn fuan am gronfa a fydd ar gael i gwmnïau o Gymru.

Yn olaf, rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Dr Vince Cable, ac at Fanc Lloegr i dynnu sylw at effeithiau andwyol gofynion Basel III ar fusnesau bach a chanolig o ran benthycia. Rwyf wedi gofyn am gynnal adolygiad i edrych ar effaith eithrio benthycia gan fusnesau bach a chanolig o Basel III.

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement today on the access to finance stage 2 review. I will also take the opportunity to thank Professor Dylan Jones-Evans, who is in the gallery today, and his team for the report. It is a thorough report that leaves the reader in no doubt whatsoever that there are very serious issues with the availability of finance to SMEs in Wales and it raises a number of questions, particularly on the operation of Finance Wales.

Can I ask you first, Minister, about the interest rate situation? When I questioned the First Minister on 22 October about the disproportionate level of interest rates offered by Finance Wales—anywhere up to 12%—he responded that

‘Finance Wales has to be sustainable.... That means, of course, that interest rates sometimes have to be charged at a level that businesses might find to be high’.

It now transpires that businesses were right all along, and that the interest rates that have been levied over the last 10 years have been completely unjustifiable, and higher than they needed to be under EU state aid guidelines. So, Minister, what discussions have you had with Finance Wales about the level of its rates and the timescale now needed for them to be reduced?

What is particularly frustrating is that the report reveals that Finance Wales has not utilised the full range of financial instruments available under EC regulations, and with two thirds of Wales qualifying for the highest level of aid, general block exemption regulations could have been used to subsidise the interest rates on loans to hundreds of SMEs. Why did that not happen? Why have businesses in Wales ended up effectively subsidising Finance Wales by paying punitive rates of interest that are way higher than they needed to be? Will you now consider ways that businesses can be given some recompense, Minister, through, for example, a much better business rate deal, which my group, the Welsh Conservatives, have been calling for for some time?

The report goes on:

‘It remains unclear as to whether Finance Wales is still essentially operating as a commercially oriented fund manager in all but name...the Minister may have a view as to whether Finance Wales is fit for purpose’.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw am yr adolygiad cam 2 o'r cyllid sydd ar gael. Hefyd, carwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Athro Dylan Jones-Evans, sydd yn yr oriel heddiw, a'i dîm am yr adroddiad. Mae'n adroddiad trylwyr sy'n nodi'n ddiamwys fod problemau difrifol iawn o ran y cyllid sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac mae'n codi nifer o gwestiynau, yn enwedig am weithrediad Cyllid Cymru.

A gaf i ofyn yn gyntaf ichi, Weinidog, am y sefyllfa o ran cyfraddau llog? Pan holais y Prif Weinidog ar 22 Hydref am lefel anghymesur y cyfraddau llog a gynigir gan Cyllid Cymru—hyd at 12%—atebodd

‘Mae'n rhaid i Gyllid Cymru fod yn gynaliadwy.... Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, bod yn rhaid codi cyfraddau llog ar y lefel a allai fod yn uchel o safbwynt busnesau weithiau.’

Mae bellach yn amlwg mai'r busnesau oedd yn iawn, a bod y cyfraddau llog sydd wedi eu codi dros y 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn amhosibl eu cyfiawnhau, ac yn uwch nag yr oedd angen iddynt fod o dan ganllawiau cymorth gwladwriaethol yr UE. Felly, Weinidog, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Chyllid Cymru am lefel ei gyfraddau a'r amserlen sydd ei hangen yn awr er mwyn eu gostwng?

Yr hyn sy'n peri rhwystredigaeth arbennig yw bod yr adroddiad yn datgelu nad yw Cyllid Cymru wedi defnyddio'r ystod lawn o offerynnau ariannol sydd ar gael o dan reoliadau'r CE; gan fod dwy ran o dair o Gymru'n gymwys am lefel uchaf y cymorth, gellid bod wedi defnyddio rheoliadau eithrio bloc cyffredinol i gymorthdalu'r cyfraddau llog ar fenthyciadau i gannoedd o fusnesau bach a chanolig. Pam na wnaethpwyd hynny? Pam mae busnesau yng Nghymru, yn y pen draw, wedi gorfod cymorthdalu Cyllid Cymru, i bob diben, drwy dalu cyfraddau llog cosbol sy'n llawer uwch nag yr oedd angen iddynt fod? A wnewch chi yn awr ystyried ffyrdd y gall busnesau gael rhyw fath o iawndal, Weinidog, drwy, er enghraifft, fargen well o lawer o ran ardrethi busnes, sy'n rhywbeth y mae fy ngrŵp i, Ceidwadwyr Cymru, wedi bod yn galw amdano ers peth amser?

Mae'r adroddiad yn dweud hefyd:

Nid yw'n glir o hyd a yw Cyllid Cymru'n dal i fod i bob pwrpas yn gweithredu fel rheolwr cronfeydd masnachol ym mhopeth ond ei enw... efallai y bydd gan y Gweinidog farn ynghylch a yw Cyllid Cymru'n addas at y diben.

Do you have a view on that, Minister? Do you believe that this is an unsustainable situation? Do you agree that Finance Wales is not fit for purpose, and, if so, has the time come to remodel the organisation in a way that puts businesses and their needs first rather than bureaucracy, because that is what this report is saying needs to happen? Will you follow the report's suggestion and consider a development bank that, in some ways, echoes Welsh Conservative proposals last year for 'Invest Wales', which would break Finance Wales up into public-facing, locally based banks putting businesses at the centre of the lending process?

Sadly, very little has changed in terms of lending by the banks to Welsh SMEs in the last six months—something that I think you alluded to in your opening statement. I think that you would agree that we must now act swiftly to support Welsh SMEs.

Minister, this report is clear about the way forward. The new structure will need to act as a gateway for business, providing much more affordable support to businesses, and work in partnership with banks and other public and private partners to really get the economy moving.

Finally, your statement talks about a further review. Yes, there are concerns, but we know full well what those are. This report certainly puts those concerns centre stage. Put simply, Minister, Finance Wales is not working. The time has come to make it work as quickly as possible, because it is clear from this report that Welsh businesses have been ripped off for far too long.

A oes gennych farn am hynny, Weinidog? A ydych yn credu bod hon yn sefyllfa anghynnaladwy? A ydych yn cytuno nad yw Cyllid Cymru'n addas at y diben, ac, os felly, a yw'n bryd ailfodelu'r sefydliad mewn ffordd sy'n rhoi'r busnesau a'u hanghenion yn gyntaf yn hytrach na biwrocratiaeth, oherwydd dyna'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn dweud y mae angen iddo ddigwydd? A wnewch ddilyn awgrym yr adroddiad ac ystyried banc datblygu sydd, mewn rhai ffyrdd, yn adleisio cynigion Ceidwadwyr Cymru y llynedd ar gyfer 'Buddsoddi Cymru', a fyddai'n rhannu Cyllid Cymru'n fanciau lleol, sy'n ymdrin â'r cyhoedd ac yn rhoi busnesau yng nghanol y broses fenthycyca?

Yn anffodus, ychydig iawn sydd wedi newid o ran benthycyca gan y banciau i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod y chwe mis diwethaf—rhywbeth y credaf ichi ei grybwyll yn eich datganiad agoriadol. Credaf y byddech yn cytuno bod yn rhaid inni yn awr weithredu'n gyflym i gefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Weinidog, mae'r adroddiad hwn yn glir am y ffordd ymlaen. Bydd angen i'r strwythur newydd fod yn borth i fusnesau, a rhoi cymorth mwy fforddiadwy o lawer i fusnesau, a gweithio mewn partneriaeth â banciau a phartneriaid cyhoeddus a phreifat eraill i roi hwb gwirioneddol i'r economi.

Yn olaf, mae eich datganiad yn sôn am adolygiad pellach. Oes, mae pryderon, ond rydym yn gwybod yn iawn beth yw'r rheini. Mae'r adroddiad hwn yn sicr yn rhoi sylw i'r pryderon hynny. Yn syml, Weinidog, nid yw Cyllid Cymru yn gweithio. Mae'n bryd inni wneud iddo weithio cyn gynted ag y bo modd, oherwydd mae'n amlwg o'r adroddiad hwn fod busnesau Cymru yn cael bargaen wael ers yn rhy hir o lawer.

16:23

### **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to take the heat out of this, and not turn it into a witch hunt against Finance Wales. I have every confidence in the chair and board of Finance Wales. They have progressed in the work that they have been undertaking. Professor Dylan Jones-Evans does not miss any points in his report, and I tell you one thing: if I had not wanted the report, and if I had not wanted Finance Wales looked at, I would not have commissioned it. I was aware myself that there were concerns about Finance Wales and the interest rates et cetera, but I also know, as many people as those who condemn Finance Wales also praise Finance Wales for the work that it has undertaken in helping and assisting companies. So, I think that we have to put that in the background.

Hoffwn dynnu'r gwres o'r sefyllfa hon, a pheidio â'i throï'n erledigaeth yn erbyn Cyllid Cymru. Mae gennyf bob ffydd yng nghadeirydd a bwrdd Cyllid Cymru. Maent wedi symud ymlaen yn y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud. Nid yw'r Athro Dylan Jones-Evans yn methu'r un pwynt yn ei adroddiad, a dywedaf un peth wrthyhch: pe na bai arnaf eisiau'r adroddiad, a phe na bawn am i rywun edrych ar Gyllid Cymru, ni fyddwn wedi ei gomisiynu. Roeddwn yn ymwybodol fy hun o bryderon ynghylch Cyllid Cymru a'r cyfraddau llog ac ati, ond gwn hefyd fod cynifer o bobl â'r rheini sy'n condemnio Cyllid Cymru hefyd yn canmol Cyllid Cymru am y gwaith y mae wedi'i wneud i helpu a chynorthwyo cwmnïau. Felly, rwyf yn credu bod yn rhaid inni roi hynny yn y cefndir.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We also have to look at Finance Wales's commercial investment strategy, and how that was laid out. Until I became Minister, it was a much wider strategy; it was to establish an increase in FW's market share in Wales and raise a privately financed investment fund. I have now focused it far more on Wales and the needs of Wales, in terms of how I have dealt with its remit letter. Also, in terms of what it is doing in terms of some of the issues around lending, I think that we also have to recognise that, with Finance Wales, we obviously have an oversight of it, but we also have to look at issues around interest rates. When a commercial lender or investor makes an investment decision, they take into account the overall risk of the particular investment when deciding how much interest to charge. Sometimes the risks are considered too great to put a price on, so the application for funding is declined. What we have found with Finance Wales is that it has been prepared, when the banks have been prepared to go to a certain amount, to come in for that last lot of money, and it is quite normal practice then that there might be higher interest rates. We also have to recognise that there are state-aid issues, and Professor Dylan Jones-Evans has also looked very carefully at this, and how we could deal with some of these issues. I think that the whole report will allow us the opportunity to look at how we develop the role of Finance Wales and take it forward. I have been very happy with the way that Professor Dylan Jones-Evans has suggested that we might want to look at the development bank concept. This will emerge from the report and from further discussions.

I think that there is very little point in attacking Finance Wales; it has done the job that it was asked to do. There were some elements of concern from some companies about its interest rates, and there will always be concerns, whatever it does. However, I think that we have to understand that this is a report that has opened up some of the deliberations around the banks in general and, specifically, the bank that the Welsh Government owns.

Rhaid inni hefyd edrych ar strategaeth buddsoddi masnachol Cyllid Cymru, a sut y cafodd honno ei hamlinellu. Hyd nes imi ddod yn Weinidog, roedd yn strategaeth ehangach o lawer; y bwriad oedd sefydlu cynnydd yng nghyfran Cyllid Cymru o'r farchnad yng Nghymru a chodi cronfa fuddsoddi wedi'i hariannu'n breifat. Rwyf bellach wedi rhoi mwy o bwyslais o lawer ar Gymru ac anghenion Cymru, o ran y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'i lythyr cylch gwaith. Hefyd, o ran yr hyn y mae'n ei wneud mewn perthynas â rhai o'r materion sy'n ymwneud â benthycia, credaf fod yn rhaid inni hefyd gydnabod fod gennym wrth gwrs, gyda Chyllid Cymru, drosolwg arno, ond rhaid inni hefyd edrych ar faterion yn ymwneud â chyfraddau llog. Pan fydd benthyciwr neu fuddsoddwr masnachol yn gwneud penderfyniad ynghylch buddsoddi, bydd yn ystyried risg gyffredinol y buddsoddiad penodol hwnnw wrth benderfynu faint o log i'w godi. Weithiau, ystyrir bod y risg yn rhy fawr i roi pris arni, felly caiff y cais am gyllid ei wrthod. Yr hyn yr ydym wedi'i weld gyda Chyllid Cymru yw ei fod wedi bod yn barod, lle mae'r banciau wedi bod yn barod i fynd at swm penodol, i roi'r swm olaf hwnnw o arian, ac mae'n eithaf arferol dan yr amgylchiadau hynny fod cyfraddau llog yn uwch. Rhaid inni hefyd gydnabod bod materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol, ac mae'r Athro Dylan Jones-Evans hefyd wedi edrych yn ofalus iawn ar hyn, ac ar sut y gallem ymdrin â rhai o'r materion hyn. Credaf y bydd yr adroddiad cyfan yn gyfle inni i edrych ar sut i ddatblygu swyddogaeth Cyllid Cymru a bwrw ymlaen â hi. Rwyf wedi bod yn hapus iawn â'r ffordd y mae'r Athro Dylan Jones-Evans wedi awgrymu y gallem edrych ar syniad y banc datblygu. Bydd hyn yn deillio o'r adroddiad ac o drafodaethau pellach.

Nid wyf yn meddwl bod llawer o bwynt ymosod ar Gyllid Cymru; mae wedi gwneud y gwaith y gofynnwyd iddo'i wneud. Cafwyd rhywfaint o bryder gan rai cwmnïau am ei gyfraddau llog, a bydd pryderon bob amser, beth bynnag y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni ddeall bod hwn yn adroddiad sydd wedi ennyn rhai o'r trafodaethau am y banciau'n gyffredinol ac, yn benodol, am y banc y mae Llywodraeth Cymru'n berchen arno.

16:25

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, for publishing this very interesting but rather serious report, particularly regarding the fact that there has been a 30% fall in approved loans for SMEs since quarter 3 of 2011, which was two years ago. I am somewhat bemused that Finance Wales is offering higher interest rates than those demanded by the European Commission's rules on state aid. I wonder whether we can get some clarification on why that would be, given that Finance Wales is supposed to be generating economic activity in Wales. We all know that SMEs are, really, the engine room of future growth and jobs.

Diolch, Weinidog, am gyhoeddi'r adroddiad diddorol iawn, ond braidd yn ddifrifol, hwn, yn enwedig o safbwynt y ffaith y bu 30% o ostyngiad mewn benthyciadau a gymeradwywyd i fusnesau bach a chanolig ers chwarter 3 2011, sef dwy flynedd yn ôl. Mae'n peri syndod imi braidd fod Cyllid Cymru'n cynnig cyfraddau llog uwch na'r rhai a fynnir gan reolau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gymorth gwladwriaethol. Tybed a gawn ni rywfaint o eglurhad ynghylch pam y gallai hynny fod, ac ystyried mai diben Cyllid Cymru yw creu gweithgarwch economaidd yng Nghymru? Rydym i gyd yn gwybod mai o fusnesau bach a chanolig, mewn gwirionedd, y daw twf a swyddi yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

How are the banks assessing risk, valuing collateral and assessing whether to invest in any given sector at the moment? I refer back to the sorry saga of interest-rate swaps, where banks were forcing borrowers to take out complex derivatives, which neither they nor their advisers understood—indeed, neither did the lenders. One of my constituents has had their business development on hold since 2009, and has been unable to develop some £5 million-worth of business. As a result, they have been unable to get closure on this truly scandalous development, which, I understand, involves 100,000 businesses across the UK. It is, obviously, having a huge dampening effect on economic development. So, while the report published today obviously indicates the way forward, we are, nevertheless, still clearing up the mess of the way that the banks behaved in the late 2000s.

Sut y mae'r banciau'n asesu risg, yn prisio gwarantau cyfochrog ac yn asesu a ddylent fuddsoddi yn unrhyw sector penodol ar hyn o bryd? Cyfeiriaf yn ôl at saga anffodus cyfnewidiadau cyfraddau llog, lle'r oedd banciau'n gorfodi benthycwyr i gymryd deilliadau cymhleth, heb iddynt hwy na'u cynghorwyr eu deall—yn wir, nid oedd y benthycwyr yn eu deall ychwaith. Mae datblygiad busnes un o'm hetholwyr wedi cael ei ohirio ers 2009, ac mae wedi methu â datblygu gwerth tua £5 miliwn o fusnes. O ganlyniad, mae wedi methu â sicrhau diweddgllo i'r datblygiad gwirioneddol warthus hwn, sydd, rwyf ar ddeall, yn cynnwys 100,000 o fusnesau ledled y DU. Yn amlwg, mae'n cael effaith hynod wanychol ar ddatblygu economaidd. Felly, er bod yr adroddiad a gyhoeddir heddiw yn amlwg yn dangos y ffordd ymlaen, rydym, serch hynny, yn dal i glirio llanast y ffordd y bu'r banciau'n ymddwyn ar ddiwedd y 2000au.

16:27

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am well aware of the interest around the interest-rate swaps and everything else. I was, of course, very pleased to attend a meeting that was co-ordinated by Elin Jones, the Member, with some of the businesses from her constituency about some of the issues around this.

We are in discussion with the UK Government. I think that everybody is generally concerned about some of these issues; I think that it goes across the political divide. People are very concerned about how businesses have really been short-changed in terms of the advice that they should have expected to have received in good faith and did not appear to receive in any shape or form. I am sure that Members will agree with that.

I think that we have to be very careful when we start to talk about Finance Wales in relation to state aid. The state-aid rules are designed to prevent market distortion through public-centred intervention, which I think is absolutely correct. An investor primarily operating on commercial terms, like Finance Wales, is not considered aid, as they charge market rates on their investments. So, we have to be quite clear about this. The European Commission has set out guidelines that establish a lower limit on the interest rates that an investor can charge and still deem them market rates in the context of state-aid rules. This takes into account certain risk factors. The risk factors are identified in EC guidelines as being collateralisation, the level of security available to the investor and the business rates, because a judgment is made on how likely the business is to repay fully the loan and interest.

Rwyf yn ymwybodol o'r diddordeb yn y cyfnewidiadau cyfraddau llog a phopeth arall. Roeddwn, wrth gwrs, yn falch iawn o fynychu cyfarfod wedi'i gydlynu gan Elin Jones, yr Aelod, gyda rhai o'r busnesau o'i hetholaeth ynghylch rhai o'r materion sy'n ymwneud â hyn.

Rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU. Credaf fod pawb yn pryderu'n gyffredinol am rai o'r materion hyn; credaf fod hyn yn croesi'r rhaniad gwleidyddol. Mae pobl yn bryderus iawn ynglŷn â'r ffordd y mae busnesau wedi cael eu twyllo mewn gwirionedd o ran y cyngor y dylent fod wedi disgwyl ei gael gyda phob ewyllys da ac nad yw'n ymddangos eu bod wedi'i gael o fath yn y byd. Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno â hynny.

Rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni fod yn ofalus iawn wrth ddechrau siarad am Gyllid Cymru mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol. Mae'r rheolau cymorth gwladwriaethol wedi'u cynllunio i atal ystumio'r farchnad drwy ymyrraeth gyhoeddus-ganolog, sy'n hollol iawn yn fy nhyb i. Nid yw buddsoddwyr sy'n gweithredu'n bennaf ar delerau masnachol, fel Cyllid Cymru, yn cael eu hystyried yn gymorth, gan eu bod yn codi cyfraddau'r farchnad ar eu buddsoddiadau. Felly, rhaid inni fod yn hollol glir ynglŷn â hyn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi canllawiau sy'n pennu terfyn isaf i'r cyfraddau llog y gall buddsoddwr eu codi a dal i'w hystyried yn gyfraddau'r farchnad yng nghyd-destun rheolau cymorth gwladwriaethol. Mae hyn yn ystyried ffactorau risg penodol. Mae canllawiau'r CE yn nodi mai'r ffactorau risg yw defnyddio rhywbeth fel gwarant, lefel y diogelwch sydd ar gael i'r buddsoddwr a'r cyfraddau busnes, oherwydd llunir barn ar sail pa mor debygol yw hi y bydd y busnes yn ad-dalu'r benthyciad a'r llog yn llawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Professor Jones-Evans has looked at the issue, and he regards these as being substantially as above. He argues that Finance Wales has used these rates as market rates, and has not fallen foul of state-aid rules, generating savings for the businesses in which they invest. So, there is a dialogue to be had around these issues with Finance Wales. It is important that we recognise the role that state aid plays and how, sometimes, people are very frightened about it. However, I have to say that there is an issue about using the de minimus rule, with which you will be very familiar, in terms of the way that we offer Welsh Government grant support already. There are a lot of quite complex issues in this report.

Mae'r Athro Jones-Evans wedi edrych ar y mater hwn, ac mae'n ystyried eu bod fel yr uchod i raddau helaeth. Mae'n dadlau bod Cyllid Cymru wedi defnyddio'r cyfraddau hyn fel cyfraddau'r farchnad, ac nad yw wedi torri rheolau cymorth gwladwriaethol, a'i fod wedi creu arbedion i'r busnesau y mae'n buddsoddi ynddynt. Felly, mae deialog i'w chael am y materion hyn gyda Chyllid Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y rhan y mae cymorth gwladwriaethol yn ei chwarae a bod pobl, weithiau, yn ofnus iawn am y peth. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod materion yn codi ynghylch defnyddio'r rheol de minimus, y byddwch yn gyfarwydd iawn â hi, o ran y ffordd yr ydym eisoes yn cynnig cymorth grant Llywodraeth Cymru. Mae llawer o faterion eithaf cymhleth yn yr adroddiad hwn.

16:29

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau'n croesawu gwaith yr Athro Dylan Jones-Evans, a'i adroddiad, ac rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i siarad â'r Athro Jones-Evans ac i gyfrannu tystiolaeth. Mae'n amlwg, er bod Cyllid Cymru wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr—a rwy'n meddwl y byddai'n annheg inni beidio â chydabod y cyfraniad hwnnw—mae wedi methu ag ymateb yn briodol i ran sylweddol o sector y busnesau bach a chanolig eu maint. Mae cyfraddau llog uchel wedi bod yn fater cynhennus, ac mae elfennau eraill hefyd yn y berthynas gyda busnesau bach wrth fenthyca arian wedi achosi pryder. Llenwi bwlch oedd, neu mae, Cyllid Cymru yn ei wneud oherwydd methiant banciau'r stryd fawr. Mae'r cyswllt—cyswllt traddodiadol y byddai rhai yn dweud—rhwng y banciau hynny a'r gymdeithas leol, gan gynnwys y gymuned fusnes leol, wedi diflannu i raddau helaeth gyda diflaniad y rheolwr banc traddodiadol. Mae rhai o'r arferion y mae'r banciau wedi eu hymarfer—mae Jenny Rathbone wedi cyfeirio at un, sef yr 'interest rate swaps'—yn ymddangos fel petaent yn edrych ar ôl eu hunain yn hytrach nag edrych ar ôl eu cwsmeriaid. Wrth geisio cefnogi busnesau a rhoi cyllid i fusnesau bach a chanolig eu maint i ehangu, yn sicr mae'r banciau mawr wedi methu yn eu cyfrifoldeb.

Ein barn ni ym Mhlaid Cymru yn hollol glir yw bod angen creu banc busnes i Gymru—banc hyd braich oddi wrth Lywodraeth, a banc di-ddidend. Dylai banc o'r fath yn ein barn ni allu cynnig nid yn unig cymorth cyllidol, ond cefnogaeth busnes i gwmnïau sydd â chynlluniau busnes credadwy—wedi'r cwbl, nid oes neb eisiau benthyg arian i fusnes nad yw'n gynaliadwy. Rydym yn credu y byddai banc o'r fath a fyddai'n gweithredu'n gymunedol trwy Gymru gyfan yn gallu bod yn rhan o'r ateb i gyfran o'n busnesau ni, yn enwedig y rhai llai. Yn America, mae rhwydwaith cenedlaethol yr SBA yn fodel sefydlog y mae pawb yn gwybod amdano, gan wybod beth y mae'n ei wneud a sut i gael gafael ynddo. Rwy'n credu bod hynny hefyd yn rhywbeth y mae'n rhaid inni afael ynddo—mae'n rhaid i ni greu strwythur y mae busnesau yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo, gan wybod ble i fynd am gymorth.

Rwy'n croesawu eich adolygiad o Gyllid Cymru. Hoffwn gael gwybodaeth yn bennaf ar un frawddeg yn eich datganiad. Rydych yn cyfeirio at

'the relative success of xenos, the Wales Business Angel Network'.

I also welcome the work of Professor Dylan Jones-Evans, and his report, and I also welcome the opportunity to speak to Professor Jones-Evans and to contribute evidence. It is obvious, although Finance Wales has made a valuable contribution—and I think that it would be unfair for us not to recognise that contribution—it has failed to respond appropriately to a substantial part of the SME sector. High interest rates have been a contentious issue, and there are other elements in terms of its relationship with small businesses whilst lending money to them that have been a cause for concern. Finance Wales was, or is, filling a gap because of the failure of the high-street banks to lend. The link—the traditional link, some might say—between those banks and wider society, including the local business community, disappeared to a great extent with the disappearance of the traditional bank manager. Some of the practices adopted by the banks—Jenny Rathbone has referred to one: the interest rate swaps—demonstrate that they seem to be looking after themselves rather than their customers. In trying to support businesses and to provide funding to SMEs so that they develop, certainly the high-street banks have failed in their responsibilities.

Our opinion in Plaid Cymru quite clearly is that we need to create a business bank for Wales—at arm's length of Government, as a not-for-dividend bank. Such a bank, in our opinion, should not only provide financial support but business support to companies that have credible business plans in place—nobody would want to lend funds to a business that is unsustainable. We believe that a bank of that sort, working at a community level across Wales, could be part of the solution for a percentage of our businesses, particularly smaller business. In America, the national SBA network is an established model that everyone is aware of; everyone knows what it does and how to contact that organisation. I think that that is also something that we need to get to grips with—we need to create a structure that businesses are aware of and in which they can trust, and that businesses know where to go for assistance.

I welcome your review of Finance Wales. I would like you to elaborate on one sentence in your statement. You refer to

'Iwyddiant cymharol xenos, Rhwydwaith Angel Busnes Cymru'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Buaswn, os nad y prynhawn yma, yn croesawu datganiad ar beth yn union yr ydych yn ei feddwl wrth sôn am lwyddiant cymharol y cynllun hwnnw.

Wrth edrych ymlaen at y syniad o fanc datblygu i Gymru, a chan ystyried y byddwch chi'n creu model o'r fath, a ydych chi'n rhagweld ac yn dymuno y buasai corff newydd o'r fath yn gallu benthycu arian ar y farchnad agored? Ai dyna yr ydych yn ei rhagweld? Rwy'n credu bod hynny'n bwysig, gan fod angen eglurder ynglŷn â hynny'n fuan yng nghydestun deddfwriaeth arfaethedig i Gymru. Rwy'n credu bod angen i gorff o'r fath nid yn unig brofi ei fod yn annibynnol ar Lywodraeth, ond y bydd hefyd yn gynaliadwy yn y pen draw mewn termau masnachol.

I would welcome—if not this afternoon—a statement on what exactly you mean by the 'relative success' of that scheme.

In looking to this concept of a development bank for Wales, and giving consideration to creating such a model, do you anticipate, and would you hope to see, such a body being able to borrow money on the open market? Is that what you anticipate? I think that that is important, as we need clarity on that issue at an early stage in the context of proposed legislation for Wales. I think that such a body would need to prove itself to be independent of Government, but also sustainable in commercial terms.

16:33

## **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You asked some exceptionally difficult questions. I have yet to fully take on board the implications of Professor Dylan Jones-Evans's report in terms of my discussions with Finance Wales, and the work that I asked Professor Colin Gardiner to do about banking. The jury is out for me about the fundamental direction of travel that I am likely to discuss further with the Assembly in due course. I have a consultation period, where I am very anxious to have your views, such as those that you have expressed today on behalf of your party. They all need to go into the melting pot as we try to deal with what is a very difficult area. The one thing that I am absolutely certain about is that it is not the role of Government to do what the private sector does. We are there to plug, in the middle, to help when people cannot get to that final area. I think that is fundamentally important for us, in terms of the utilisation of Government resources.

I thank you as well, because you said that Finance Wales has made a very valuable contribution since it was formed to life in Wales by assisting many businesses. There is an issue in that you feel that it has failed to respond to certain things. You highlighted the rates issue, but it has definitely filled a gap there.

In terms of the business angel network, I would be delighted to get you some figures and circulate information to Members on all of these particular issues. However, like you, I feel that there is an opportunity with the review that we have undertaken to look at what we do with Government money and how we utilise that to our best advantage in order to help and support small businesses in Wales.

Rydych wedi gofyn rhai cwestiynau eithriadol o anodd. Nid wyf eto wedi ystyried yn llawn oblygiadau adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans o ran fy nhrafodaethau â Chyllid Cymru, a'r gwaith y gofynnais i'r Athro Colin Gardiner ei wneud ynghylch bancio. I mi, nid yw'n glir eto i ba gyfeiriad sylfaenol y byddwn yn mynd; mae'n debyg y byddaf yn trafod hynny ymhellach â'r Cynulliad maes o law. Mae gennyf gyfnod ymgynghori, lle'r wyf yn awyddus iawn i glywed eich safbwyntiau, fel y rhai yr ydych wedi'u mynegi heddiw ar ran eich plaid. Mae angen i'r cyfan fynd i mewn i'r pair wrth inni geisio ymdrin â'r maes anodd iawn hwn. Rydym yn ymgyhoeddwr i lenwi'r bwlch, yn y canol, i helpu pan na all pobl gyrraedd y lle olaf. Credaf fod hynny'n hanfodol bwysig i ni, o ran defnyddio adnoddau'r Llywodraeth.

Diolch ichi hefyd, oherwydd dywedasoed fod Cyllid Cymru wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i fywyd yng Nghymru ers ei ffurfio drwy gynorthwyo nifer o fusnesau. Y broblem yw eich bod yn teimlo ei fod wedi methu ag ymateb i rai pethau. Soniasoch am fater y cyfraddau, ond mae'n sicr wedi llenwi bwlch yn hynny o beth.

O ran y rhwydwaith angylion busnes, byddwn yn falch iawn o roi rhai ffigurau ichi a dosbarthu gwybodaeth i'r Aelodau am yr holl faterion penodol hyn. Fodd bynnag, rwyf finnau, fel chithau, yn teimlo bod yr adolygiad yr ydym wedi ymgymryd ag ef yn gyfle i edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud ag arian y Llywodraeth ac ar sut yr ydym yn ei ddefnyddio cystal ag y gallwn i helpu a chefnogi busnesau bach yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You made a good point about the way in which we tell everybody what is out there and what is available. I am not sure how many small businesses know about the Funding Circle, which is a peer-to-peer lender, which opened in August 2010. That has helped to offer £172 million-worth of loans to nearly 1,200 companies. However, I am not sure how many people know how this works or understand it. There is a lot more work to be done with small businesses and small and medium-sized enterprises in general to make them understand what is available, where they can get advice and what we are able to do. This is a matter that we will return to in the new year, after we have had the period of consultation and comments from Assembly Members in order that we can perhaps have a common approach with regard to the way in which we take the agenda forward in terms of what Finance Wales will be and what we anticipate it will need to deliver in the future.

Gwnaethoch bwynt da am y ffordd yr ydym yn dweud wrth bawb beth sydd ar gael iddynt. Nid wyf yn siŵr faint o fusnesau bach sy'n gwybod am y Cylch Ariannu, sef benthyciwr rhwng cymheiriaid, a agorodd ym mis Awst 2010. Mae wedi helpu i gynnig gwerth £172 miliwn o fenthyciadau i bron i 1,200 o gwmnïau. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr faint o bobl sy'n gwybod sut mae'n gweithio, nac yn ei ddeall. Mae mwy o waith o lawer i'w wneud gyda busnesau bach a chanolig yn gyffredinol i sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd ar gael, ble y gallant gael cyngor a'r hyn y gallwn ni ei wneud. Mae hwn yn fater y byddwn yn dychwelyd ato yn y flwyddyn newydd, ar ôl inni gael y cyfnod ymgynghori a sylwadau gan Aelodau'r Cynulliad er mwyn inni, efallai, sicrhau ymagwedd gyffredin o ran bwrw ymlaen â'r agenda o safbwynt beth fydd Cyllid Cymru a'r hyn yr ydym yn rhagweld y bydd angen iddo'i gyflawni yn y dyfodol.

16:36

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Minister for her statement today. It is obvious that SMEs are even more important in Wales than elsewhere in the UK because of the nature and structure of our economy. However, if we want to see growth, we have to give small businesses the opportunity to become medium sized, and medium-sized companies the opportunity to become large. Three critical areas to that are: skills, infrastructure and finance.

Since the financial crisis began, access to capital has been critically damaged. However, it is clear from this report today that Finance Wales has not been as successful as we would wish it to be in addressing that obvious market failure. I am glad that we have discussed interest rates today, because I have had constituents coming to me who have been offered match funding, along with finance from a bank, of 50:50 proportion, but Finance Wales has asked for double the interest rate on its half, and it was an unaffordable offer. You talked about the concept of risk, but where two investors are investing 50% of the money each, then the risk is the same, so there is no reason why Finance Wales should think it twice as risky as a commercial bank. You have also talked about the implications of the state aid rules, but if Finance Wales is more expensive than a commercial bank, that should not be an issue. You were able to drop interest rates from Finance Wales for enterprise zones, so you ought to be able to drop interest rates for businesses elsewhere as well. While I take on board your comment that the development bank is a much longer term consideration, right now, in the short, immediate term, what will you do to make sure that Finance Wales is acting in a more appropriate way and is offering businesses the kind of value for money that will allow them to take advantage and allow them to grow?

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Mae'n amlwg fod busnesau bach a chanolig hyd yn oed yn fwy pwysig yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn y DU oherwydd natur a strwythur ein heconomi. Fodd bynnag, os ydym am weld twf, rhaid inni roi cyfle i fusnesau bach i dyfu'n fusnesau canolig, ac i gwmnïau canolig i dyfu'n fusnesau mawr. Y tri maes allweddol yn hynny o beth yw sgiliau, seilwaith a chyllid.

Ers i'r argyfwng ariannol ddechrau, amharwyd yn ddirifrol ar fynediad at gyfalaf. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r adroddiad hwn heddiw nad yw Cyllid Cymru wedi bod mor llwyddiannus ag y byddem wedi dymuno iddo fod o ran ymdrin â'r methiant amlwg hwnnw yn y farchnad. Rwyf yn falch ein bod wedi trafod cyfraddau llog heddiw, oherwydd mae etholwyr wedi bod yn dod ataf sydd wedi cael cynnig arian cyfatebol, ynghyd â chyllid gan fanc, ar gyfran 50:50, ond mae Cyllid Cymru wedi gofyn am ddwbl y gyfradd llog ar ei hanner ef, ac nid oedd hynny'n gynnig fforddiadwy. Soniasoch am gysyniad risg, ond os yw dau fuddsoddwr yn buddsoddi 50% o'r arian yr un, yna bydd y risg yr un fath, felly nid oes dim rheswm pam y dylai Cyllid Cymru feddwl ei fod yn wynebu dwywaith cymaint o risg â banc masnachol. Rydych hefyd wedi sôn am oblygiadau'r rheolau cymorth gwladwriaethol, ond os yw Cyllid Cymru'n ddrutach na banc masnachol, ni ddylai hynny fod yn broblem. Roeddech yn gallu gostwng cyfraddau llog Cyllid Cymru ar gyfer ardaloedd menter, felly dylech allu gostwng cyfraddau llog ar gyfer busnesau mewn mannau eraill hefyd. Er fy mod yn derbyn eich sylw fod y banc datblygu yn ystyriaeth fwy hirdymor o lawer, ar hyn o bryd, yn y tymor byr, ac ar unwaith, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod Cyllid Cymru'n gweithredu mewn ffordd fwy priodol ac yn cynnig y math o werth am arian i fusnesau a fydd yn eu galluogi i gymryd mantais ac yn eu galluogi i dyfu?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



This review is very timely and I, too, would like to thank Professor Jones-Evans and his team for all of their work. This is an extremely interesting and detailed report, as you said. I agree strongly with the guiding principles that you have set out in your statement, Minister, and I am very glad that you believe them to be sound. I would like to draw out no. 4, which is the critical importance of bringing together business and skills support, alongside financial support. It draws on the experience of the UK Government's start-up loan scheme, which is now also available in Wales and has been incredibly successful. More than 2,000 young entrepreneurs were able to start up their own businesses during that pilot period. It gives people confidence not only to start up a business, but to grow. We have to think about those businesses that want to grow and want to address new markets and bring new products to the market. That is another step forward in their development that also requires that kind of confidence that the support will give them.

It protects the investment that Finance Wales is making and maximises its chance of success. Of course, it gives the Welsh economy the best possible chance to make sure that investments result in sustainable jobs and sustainable growth. Obviously, it is early days in Wales, and I hope that the Minister will come back to us and let us know how the start-up loan scheme is progressing. However, I wonder whether you can tell us—because, clearly, that principle holds good for established companies growing as well—what plans you have to expand this approach to lending to established companies. How quickly do you think that could be achieved, given that Finance Wales and Business Wales are quite separate entities at present? What barriers do you anticipate will potentially make this a difficult target?

I am also glad that you mentioned communication in your statement. If the SMEs do not know what is available to them, we could have the best system in the world—although, frankly, I am not entirely convinced that this is what the report says—but if our businesses do not know about it, it is not doing the job that we wish it to do. We need urgent action on that point of communication. Minister, what can you do now and in the medium term to improve communications with businesses and business networks to make sure that what is available to our small and medium-sized enterprises is more visible to them? Can you also tell me how the Welsh Government's activities' reach and distribution is measured and assessed? Several reports from organisations such as the Federation of Small Businesses have said that small businesses are not aware of what is available to them. What monitoring do you do, Minister, to find out how visible your work is?

Finally, Minister, thank you for the offer of the technical briefings and engagement on these very important issues. It is too important not to get it right, and I hope that you will report back to us on progress in due course. I also hope that a review in a year's time will show real progress, and that we will be able to work in a co-operative way to make sure that this report is acted on.

Mae'r adolygiad hwn yn amserol iawn a hoffwn innau, hefyd, ddiolch i'r Athro Jones-Evans a'i dîm am eu holl waith. Mae hwn yn adroddiad hynod ddiddorol a manwl, fel y dywedasoch. Cytunaf yn gryf â'r egwyddorion arweiniol yr ydych wedi'u nodi yn eich datganiad, Weinidog, ac rwyf yn falch iawn eich bod yn credu eu bod yn gadarn. Hoffwn sôn am rif 4, sef pwysigrwydd allweddol dod â chymorth busnes a sgiliau at ei gilydd, ochr yn ochr â chymorth ariannol. Mae'n defnyddio profiad cynllun benthyciadau i fusnesau newydd Llywodraeth y DU, sydd bellach hefyd ar gael yng Nghymru ac wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae dros 2,000 o entrepreneuriaid ifanc wedi gallu dechrau eu busnesau eu hunain yn ystod y cyfnod pilot. Mae'n rhoi hyder i bobl nid yn unig i ddechrau busnes, ond i dyfu. Rhaid inni feddwl am y busnesau hynny sydd yn awyddus i dyfu ac i fentro i farchnadoedd newydd a dod â chynnyrch newydd i'r farchnad. Mae hwnnw'n gam arall ymlaen yn eu datblygiad sydd hefyd yn gofyn am y math hwnnw o hyder y bydd y cymorth yn ei roi iddynt.

Mae'n amddiffyn y buddsoddiad y mae Cyllid Cymru'n ei wneud ac yn cynyddu ei siawns o lwyddo. Wrth gwrs, mae'n rhoi'r cyfle gorau posibl i economi Cymru i wneud yn siŵr bod buddsoddiadau'n arwain at swyddi cynaliadwy a thwf cynaliadwy. Wrth gwrs, megis dechrau y mae hyn yng Nghymru, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn dod yn ôl atom ac yn rhoi gwybod inni am hynt y cynllun benthycia i fusnesau newydd. Fodd bynnag, tybed a allwch ddweud wrthym—oherwydd, yn amlwg, mae'r egwyddor honno hefyd yn berthnasol i gwmnïau sefydledig sy'n tyfu—pa gynlluniau sydd gennych i estyn y dull benthycia hwn i gwmnïau sefydledig? Pa mor gyflym y gellid cyflawni hynny, yn eich barn chi, ac ystyried bod Cyllid Cymru a Busnes Cymru yn endidau cwbl ar wahân ar hyn o bryd? Pa rwystrau ydych chi'n rhagweld y gallent wneud hwn yn darged anodd?

Rwyf hefyd yn falch eich bod wedi sôn am gyfathrebu yn eich datganiad. Os nad yw'r busnesau bach a chanolig yn gwybod beth sydd ar gael iddynt, gall fod gennym y system orau yn y byd—er nad wyf, a dweud y gwir, yn gwbl argyhoeddedig mai dyna'r hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud—ond os nad yw ein busnesau'n gwybod amdani, nid yw'n gwneud y gwaith yr ydym am iddi ei wneud. Mae angen gweithredu ar frys ar y pwynt cyfathrebu hwnnw. Weinidog, beth y gallwch ei wneud yn awr ac yn y tymor canolig i wella cyfathrebu â busnesau a rhwydweithiau busnes i wneud yn siŵr ei bod yn haws i'n busnesau bach a chanolig weld beth sydd ar gael iddynt? A allwch hefyd ddweud wrthyf sut y caiff cyrhaeddiad a dosbarthiad gweithgareddau Llywodraeth Cymru eu mesur a'u hasesu? Mae nifer o adroddiadau gan sefydliadau megis Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi dweud nad yw busnesau bach yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt. Pa waith monitro ydych chi'n ei wneud, Weinidog, i gael gwybod pa mor weladwy yw eich gwaith?

Yn olaf, Weinidog, diolch am gynnydd y sesiynau briffio technegol a'r ymgysylltu ar y materion pwysig iawn hyn. Mae'n rhy bwysig i beidio â'i wneud yn iawn, ac rwyf yn gobeithio y cawn adroddiad gennych am y cynnydd maes o law. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd adolygiad ymhen blwyddyn yn dangos cynnydd go iawn, ac y byddwn yn gallu gweithio mewn modd cydweithredol i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith.

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your comments. I have to reiterate that Finance Wales typically invests in businesses that have already been turned down by traditional funders. I note your comment about the 50:50 aspect, but Finance Wales sometimes works in an exceptionally difficult area, and that is sometimes the rationale for some of the decisions that are taken.

I concur with the fourth point about the link between business and skills support, because it is sometimes not just about giving the loan; it is about whether you have someone, perhaps even it is not someone from Finance Wales, who is able to go out to that company, work with that company, see it through its difficult period, make it understand and give it the necessary support to understand the need to expand, and what you need to do in your marketplace. That linkage needs to be much stronger, and we need to look at whether Finance Wales has the capability of having the staff and personnel who can do that, or whether we could perhaps come to an arrangement with the banks to second people whom we could then utilise and send out to companies, with that role and purpose, to help and assist.

One of the big issues for us is communication. In terms of the business information helpline, we are enhancing the information that is on that helpline, and it is a good website. It is receiving over 2,000 inquiries per month and attracting about 17,000 visitors a month, so I will have to ask what more we can do to add to that. The FSB expressed concerns on this issue but, if I am being honest, the FSB has expressed concerns on a number of issues. Small businesses and microbusinesses are sometimes terribly difficult to get at in terms of communication, because they are not necessarily members of organisations. So, we will have to look innovatively at what further we can do in that area. There is no doubt that small companies are sometimes fearful of getting bigger because they are not sure what the market means and they do not understand what to do, so we have to do further work.

In terms of your point about engagement, it is my intention to engage with Assembly Members across the piece and with party spokespeople, because I would like to get to a position at the end of this second stage report by Dylan Jones-Evans where we have an element of consensus about the stages that we need to go through and the type of progress that we need to see. In the next 12 months, I would like to see fewer complaints about how interest rates are, and that I do not have letters to me about how unresponsive Finance Wales has been. On the other hand, if you were to write to me, I could show you letters that show the exact opposite as well.

This is the first stage in this dialogue. It is a very complex report from the professor, and I am very grateful that he has undertaken it with honesty and integrity. It has shone light on an area that we needed to shine a light on.

Diolch am eich sylwadau. Rhaid imi ailadrodd bod Cyllid Cymru fel arfer yn buddsoddi mewn busnesau sydd eisoes wedi cael eu gwrthod gan arianwyr traddodiadol. Nodaf eich sylwadau am yr agwedd 50:50, ond mae Cyllid Cymru weithiau'n gweithio mewn maes eithriadol o anodd, a dyna'r rhesymeg weithiau am rai o'r penderfyniadau a wneir.

Rwyf yn cytuno â'r pedwerydd pwynt am y cysylltiad rhwng cymorth busnes a sgiliau, oherwydd weithiau, nid dim ond mater o roi'r benthyciad ydyw; mae'n fater o p'un a oes gennych rywun, hyd yn oed os nad yw'n rhywun o Gyllid Cymru, sy'n gallu mynd at y cwmni hwnnw, a gweithio gyda'r cwmni hwnnw, ei dywys drwy ei gyfnod anodd, gwneud iddo ddeall a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol iddo ddeall bod angen ehangu, a'r hyn y mae angen i chi ei wneud yn eich marchnad. Mae angen i'r cysylltiad hwnnw fod yn gryfach o lawer, ac mae angen inni edrych ar p'un a oes gan Gyllid Cymru'r gallu i gael y staff a'r personél a all wneud hynny, neu a allem efallai ddod i drefniant gyda'r banciau i secondio pobl y gallem wedyn eu defnyddio a'u hanfon i gwmnïau, â'r swyddogaeth a'r diben hwnnw, sef helpu a chynorthwyo.

Un o'r materion mawr i ni yw cyfathrebu. O ran y llinell gymorth gwybodaeth busnes, rydym yn gwella'r wybodaeth sydd ar y llinell gymorth honno, ac mae'n wefan dda. Mae'n cael dros 2,000 o ymholiadau y mis ac yn denu tua 17,000 o ymwelwyr y mis, felly bydd yn rhaid imi ofyn beth arall y gallwn ei wneud i ychwanegu at hynny. Mynegodd Ffederasiwn y Busnesau Bach bryderon am y mater hwn, ond, a dweud y gwir, mae Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi mynegi pryderon am nifer o faterion. Weithiau, mae'n hynod o anodd cyrraedd busnesau bach a microfusnesau o ran cyfathrebu, gan nad ydynt o reidrwydd yn aelodau o sefydliadau. Felly, bydd yn rhaid inni edrych yn flaengar ar sut y gallwn wneud mwy yn y maes hwnnw. Nid oes amheuaeth nad yw cwmnïau bach weithiau'n ofni tyfu'n fwy oherwydd nad ydynt yn siŵr beth y mae'r farchnad yn ei olygu ac nad ydynt yn deall beth i'w wneud, felly rhaid inni wneud rhagor o waith.

O ran eich pwynt ynglŷn ag ymgysylltu, fy mwriad yw ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad o bob plaid ac â llefarwyr y pleidiau, oherwydd hoffwn fod mewn sefyllfa erbyn diwedd yr adroddiad ail gam hwn gan Dylan Jones-Evans lle mae gennym elfen o gonsensws ynglŷn â'r camau y mae angen inni eu cymryd a'r math o gynnydd y mae angen inni ei weld. Yn ystod y 12 mis nesaf, hoffwn weld llai o gwynion am y cyfraddau llog, a hoffwn beidio â derbyn llythyrau am ba mor anymatebol y mae Cyllid Cymru wedi bod. Ar y llaw arall, pe baech yn ysgrifennu ataf, gallwn ddangos llythyrau ichi sy'n dangos y gwrthwyneb yn llwyr hefyd.

Dyma'r cam cyntaf yn y ddeialog hon. Mae'n adroddiad cymhleth iawn gan yr athro, ac rwyf yn ddiolchgar iawn ei fod wedi ymgymryd ag ef â gonestrwydd ac uniondeb. Mae wedi taflu goleuni ar faes yr oedd angen taflu goleuni arno.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

## Datganiad: Parhad a Newid— Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog, Jeff Cuthbert.

## Statement: Continuity and Change Y —Refreshing the Relationship between Welsh Government and the Third Sector in Wales

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister, Jeff Cuthbert.

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Diolch, Deputy Llywydd. Following extensive engagement and formal consultation on the relationship between the third sector and Welsh Government, I am today setting out my proposals regarding the strategic direction for the future of this crucial relationship. I am minded to include these in the proposed remaking of the statutory voluntary sector scheme—what we call the third sector scheme.

We have listened to the views of a wide range of organisations and individuals. This statement is informed by those views and is based on an analysis of the wide-reaching consultation carried out over the summer. However, there will be a further period of consultation, through the third sector partnership council, before these proposals are further considered and, if it is thought appropriate, it will be included in a revised third sector scheme.

The Welsh Government values the third sector for the contribution that it makes to the long-term wellbeing of Wales and its people. A strong third sector should naturally contribute to economic, social and environmental wellbeing. Where the sector wishes to receive public funding, it should also be able to show how it contributes to Welsh Government priorities, focusing on the delivery of outcomes for people and communities. The third sector in Wales already makes a substantial contribution and it has the potential to do more. In particular, it has a major contribution to make to tackling poverty.

Our relationship with the sector in Wales is unique, as it is rooted in legislation. Welsh Ministers are required to make a scheme setting out how they propose to promote the interests of relevant voluntary organisations. This is the third sector scheme. The code of practice for funding the third sector provides guidance for the way in which Welsh Government will provide financial assistance to the sector. We are working with the third sector partnership council to update both these documents, learning from the past and looking to the future. My intention is that the updated scheme will continue to promote the interests of the sector and reaffirm Welsh Government's commitment to provide assistance to and consult with the sector.

For many years, Welsh Government has supported the third sector in Wales through a co-ordinated infrastructure. I consider that this infrastructure should reflect the priorities of the programme for government, and it needs to be clearly focused on delivering shared outcomes.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol ar y berthynas rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru, rwyf heddiw yn nodi fy nghynigion ynghylch y cyfeiriad strategol ar gyfer dyfodol y berthynas hanfodol hon. Rwy'n bwriadu cynnwys y rhain yn y cynnyg ar gyfer ail-lunio cynllun y sector gwirfoddol statudol—yr hyn yr ydym yn ei alw'n gynllun y trydydd sector.

Rydym wedi gwrandao ar farn ystod eang o sefydliadau ac unigolion. Mae'r farn honno wedi cyfrannu at y datganiad hwn ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymgynghoriad pellgyrhaeddol a gynhaliwyd dros yr haf. Fodd bynnag, bydd yna gyfnod ychwanegol o ymgynghori, trwy gyngor partneriaeth y trydydd sector, cyn i'r cynigion hyn gael eu hystyried ymhellach ac, os bydd hynny'n briodol, bydd yn cael ei gynnwys mewn cynllun diwygiedig y trydydd sector.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweld gwerth y trydydd sector oherwydd y cyfraniad y mae'n ei wneud i les hirdymor Cymru a'i phobl. Dylai trydydd sector cryf gyfrannu'n naturiol at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Lle mae'r sector yn dymuno derbyn arian cyhoeddus, dylai hefyd fod yn gallu dangos sut y mae'n cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ar gyfer pobl a chymunedau. Mae'r trydydd sector yng Nghymru eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol ac mae ganddo'r potensial i wneud mwy. Yn benodol, mae ganddo gyfraniad mawr i'w wneud i fynd i'r afael â thlodi.

Mae ein perthynas â'r sector yng Nghymru yn unigryw, gan ei fod wedi'i wreiddio mewn deddfwriaeth. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol. Dyma gynllun y trydydd sector. Mae'r cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn darparu canllawiau ar gyfer y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r sector. Rydym yn gweithio gyda chyngor partneriaeth y trydydd sector i ddiweddarau'r ddwy ddogfen hyn, gan ddysgu o'r gorffennol ac edrych tua'r dyfodol. Fy mwriad yw y bydd y cynllun, ar ôl ei ddiweddarau, yn parhau i hyrwyddo lles y sector ac aildatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i'r sector ac ymgynghori ag ef.

Am flynyddoedd lawer, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru drwy seilwaith cydgysylltiedig. Rwyf o'r farn y dylai'r seilwaith hwn adlewyrchu blaenoriaethau'r rhaglen lywodraethu, ac mae angen iddo gael ffocws clir ar gyflawni canlyniadau a rennir.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

To support the strategic direction that I am proposing today, it is my intention that, during the 2014-15 financial year, progress will be made to introduce a regional dimension to the infrastructure. In response to the views put forward in the consultation, I am minded to ensure that existing regional partnerships are strengthened and that new and innovative ways of working at regional and local levels are encouraged.

I am also proposing that local county voluntary councils and volunteer centres should move towards more formal regional working in line with the public service collaborative model. I recognise that some time will be needed to finalise and take forward these changes, and the funding arrangements for next year will allow for this. The budget for CVCs and volunteer centres will be offered on a regional basis from April 2014, but I do not expect this to mean overnight change to the way in which these bodies currently work or are funded. CVCs and volunteer centres will need to work together and with local authorities and other public services to plan the way forward, taking account of circumstances in each region.

The aim of these proposals is to provide greater flexibility through shared resources, retaining a strong community focus. The process will also need to take full account of the outcomes of the Commission on Public Service Governance and Delivery. I will shortly be writing to infrastructure bodies to set out my expectations about this in more detail.

There is clearly a continuing need for the national body for the third sector in Wales, the Wales Council for Voluntary Action. It has an important leadership role, working with Welsh Government and the sector to move forward with the changes that I am proposing today, including regional working and improving service delivery locally. I believe that this partnership will be complemented by a more direct relationship between Welsh Government and infrastructure bodies at a regional level.

We need to update how funding is distributed between the WCVA, the CVCs and volunteer sectors, to ensure that it is fair and equitable and represents good value for money overall. I have not taken any decisions about this distribution, and I will be considering a wide range of options to ensure that future arrangements are fair and equitable for all parts of Wales. We will take account of the discussions about regional working, tackling poverty, population and geography.

Er mwyn cefnogi'r cyfeiriad strategol yr wyf yn ei gynnig heddiw, fy mwriad, yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, yw cymryd camau i gyflwyno dimensiwn rhanbarthol i'r seilwaith. Mewn ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad, rwyf o blaid sicrhau bod partneriaethau rhanbarthol presennol yn cael eu cryfhau, a bod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio ar lefelau rhanbarthol a lleol yn cael eu hannog.

Rwyf hefyd yn cynnig y dylai cynghorau gwirfoddol sirol lleol a chanolfannau gwirfoddol symud tuag at ddull gweithio rhanbarthol mwy ffurfiol yn unol â model cydweithredol y gwasanaeth cyhoeddus. Rwy'n cydnabod y bydd angen rhywfaint o amser i gwblhau a gweithredu'r newidiadau hyn, a bydd y trefniadau cyllido ar gyfer y flwyddyn nesaf yn caniatáu ar gyfer hyn. Bydd y gyllideb ar gyfer Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddol yn cael ei chynnig ar sail ranbarthol o Ebrill 2014, ond nid wyf yn disgwyl i hyn olygu newid dros nos yn y ffordd y mae'r cyrff hyn yn gweithio neu'n cael eu hariannu. Bydd angen i Gynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddol weithio gyda'i gilydd a chydag awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gynllunio'r ffordd ymlaen, gan ystyried yr amgylchiadau ym mhob rhanbarth.

Nod y cynigion hyn yw darparu mwy o hyblygrwydd trwy rannu adnoddau, gan gadw ffocws cymunedol cryf. Bydd angen hefyd i'r broses roi ystyriaeth lawn i ganlyniadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddaf yn ysgrifennu'n fuan at gyrff seilwaith i amlinellu fy nisgwiliadau ynglŷn â hyn mewn mwy o fanylder.

Mae'n amlwg bod angen o hyd am y corff cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae ganddo swyddogaeth bwysig o ran arweinyddiaeth, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector i fwrw ymlaen â'r newidiadau yr wyf yn eu cynnig heddiw, gan gynnwys gweithio rhanbarthol a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau'n lleol. Credaf y bydd y bartneriaeth hon yn cael ei hategu gan berthynas mwy uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff seilwaith ar lefel ranbarthol.

Mae angen i ni ddiweddarau sut y caiff arian ei ddsbarthu rhwng CGGC, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r sectorau gwirfoddol, i sicrhau ei fod yn deg ac yn gyfiawn ac yn rhoi gwerth da am arian yn gyffredinol. Nid wyf wedi gwneud unrhyw benderfyniadau am y dull dosbarthu hwn, a byddaf yn ystyried ystod eang o opsiynau i sicrhau bod y trefniadau yn y dyfodol yn deg ac yn gyfartal ar gyfer pob rhan o Gymru. Byddwn yn ystyried y trafodaethau ynglŷn â gweithio rhanbarthol, trechu tlodi, poblogaeth a daearyddiaeth.

In our draft budget for 2014-15, we have retained an infrastructure grant of £7.3 million. I am confident that the arrangements now proposed will support the infrastructure and the relationship with the third sector into the future. I expect to confirm infrastructure funding for 2014-15 as soon as the final budget is confirmed. Funding arrangements for 2014-15 will be based on the existing formula, taking account of necessary savings. This will be contingent upon rapid progress being made in moving towards new regional arrangements and a number of related issues.

This will include reviewing in detail how we support volunteering across Wales. The emphasis will be on support for small grass-roots community organisations and individual volunteers that make a significant contribution to community resilience and the delivery of local services. Our national grant schemes—the volunteering in Wales fund and GwirVol—have proved effective, but I would like to see whether even more can be achieved and savings made through increased collaborative working between these schemes and the volunteer centres.

Local authorities and other public services are crucial partners in our wider relationship with the third sector. We will be looking to strengthen these relationships through improved local compacts. Our own research and responses to the consultation have informed my decision not to move forward at present with a third sector compacts Bill. Instead, we will provide additional guidance and strengthened monitoring arrangements. I consider that this approach is most likely to foster strong and productive relationships, and I will watch with interest to see what progress is made.

The consultation has indicated that both the third sector partnership council and ministerial meetings are valued parts of the existing engagement structure. However, responses also indicated that the third sector partnership council needs to be re-energised, increasing its engagement with the sector as a whole, including better use of technology and social networking. I consider that we must do more to ensure that the work of the TSPC is based around a shared agenda with a clear focus on outcomes. A similar approach should apply to the ministerial meetings.

Welsh Ministers remain committed to meeting with third sector representatives and see this engagement as important. The TSPC is currently supplemented by discussion-based portfolio meetings with individual Ministers. The proposal is to replace these with meetings arranged on specific concerns or subjects, principally arising out of the TSPC workstreams and ministerial priorities. I am confident that the proposals that I have set out today demonstrate the Welsh Government's commitment to supporting the third sector and to ensuring that this crucial relationship continues to grow.

Rydym wedi cadw grant isadeiledd o £7.3 miliwn yn ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15. Rwy'n hyderus y bydd y trefniadau a gynigir bellach yn cefnogi'r seilwaith a'r berthynas â'r trydydd sector yn y dyfodol. Rwy'n disgwyl cadarnhau cyllid isadeiledd ar gyfer 2014-15 cyn gynted ag y bydd y gyllideb derfynol yn cael ei chadarnhau. Bydd y trefniadau ariannu ar gyfer 2014-15 yn seiliedig ar y fformiwla bresennol, gan ystyried yr arian y mae angen ei arbed. Bydd hyn yn amodol ar symud yn gyflym tuag at drefniadau rhanbarthol newydd a nifer o faterion cysylltiedig.

Bydd hyn yn cynnwys adolygu'n fanwl sut yr ydym yn cefnogi gwirfoddoli ar draws Cymru. Rhoddir y pwyslais ar gymorth ar gyfer sefydliadau cymunedol bach a gwirfoddolwyr unigol ar lawr gwlad sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gydnerthu cymunedol a darparu gwasanaethau lleol. Mae ein cynlluniau grant cenedlaethol—y gronfa gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol—wedi bod yn effeithiol, ond hoffwn weld a ellir cyflawni mwy fyth ac arbed mwy o arian trwy fwy o gydweithredu rhwng y cynlluniau hyn a'r canolfannau gwirfoddol.

Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn bartneriaid allweddol yn ein perthynas ehangach â'r trydydd sector. Byddwn yn ceisio cryfhau'r cysylltiadau hyn trwy well compactau lleol. Mae ein gwaith ymchwil ein hunain ac ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cyfrannu at fy mhenderfyniad i beidio â symud ymlaen ar hyn o bryd gyda Bil compactau trydydd sector. Yn lle hynny, byddwn yn darparu canllawiau ychwanegol a threfniadau monitro cryfach. Rwyf o'r farn mai'r dull hwn sydd fwyaf tebygol o feithrin perthynas gref a chynhyrchiol, a byddaf yn gwyllo gyda diddordeb i weld yr hyn a gyflawnir.

Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod cyfarfodydd â gweinidogion a chyngor partneriaeth y trydydd sector yn rhannau gwerthfawr o'r strwythur ymgysylltu presennol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn dangos hefyd bod angen ail-sbarduno cyngor partneriaeth y trydydd sector, a chynyddu ei ymgysylltiad â'r sector yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys gwneud gwell defnydd o dechnoleg a rhwydweithio cymdeithasol. Rwyf o'r farn bod yn rhaid inni wneud mwy i sicrhau bod gwaith y cyngor yn seiliedig ar agenda a rennir gyda phwyslais eglur ar ganlyniadau. Dylid dilyn dull tebyg ar gyfer y cyfarfodydd â'r gweinidogion.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i gwrdd â chynrychiolwyr y trydydd sector ac yn ystyried yr ymgysylltu hwn yn bwysig. Mae'r cyngor partneriaeth ar hyn o bryd yn cael ei ategu gan gyfarfodydd portffolio seiliedig ar drafodaeth gyda Gweinidogion unigol. Y cynnig yw disodli'r rhain gyda chyfarfodydd a drefnir ar sail pryderon neu bynciau penodol, yn bennaf yn deillio o ffrydiau gwaith y cyngor partneriaeth a blaenoriaethau gweinidogion. Rwy'n hyderus y bydd y cynigion yr wyf wedi eu hamlinellu heddiw yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r trydydd sector, ac i sicrhau bod y berthynas hanfodol hon yn parhau i dyfu.

Thank you very much for your statement. You begin by referring to the formal consultation on the relationship between the third sector and the Welsh Government. How, therefore, do you respond to the Wales Council for Voluntary Action's statement in its response to that the

'Welsh Government currently lacks a clear and future looking vision or narrative for why it works with the third sector.... Such a vision could be co-production, which provides a different way of delivering public services in the future.'

I would refer you to the conference yesterday in Cardiff on co-producing resilient communities, building confidence and capacity, which said that the time for change in service delivery had arrived, by seeing everyone as equal partners in local services, breaking down the barriers between the people who provide services and those who use them, where the fear is that we do not react quickly enough or that we respond with an additional programme, rather than changing systems and structures and reforming services overall.

You state that, where the sector wishes to receive public funding, it should also be able to show how it contributes to Welsh Government priorities. How, therefore, will you ensure that we do not lose any more excellent outcome-focused charities that have failed to meet processes and either gone or gone over the border accordingly? What action, if any, have you taken to ask the sector how it can help the Welsh Government to deliver more for less in the current budgetary environment, more for the same when budgets are static and more for more when the happy day comes when budgets are once again increasing?

You refer to the code of practice for funding the third sector, providing guidance for the way in which the Welsh Government will provide financial assistance to the sector. How would you, therefore, respond to the WCVA response that short-term funding is inefficient and that transaction costs can be as high as 40% of the value? It said that existing commitments to long-term funding should be maintained and extended, with suitable performance-related break clauses. You said that infrastructure should reflect the priorities of the programme for government and needs to be clearly focused on delivering shared outcomes. How, therefore, do you respond to the WCVA response that the infrastructure must maximise benefits of new technologies to be efficient and effective, linked to direct local engagement and support—again, co-production.

Diolch yn fawr am eich datganiad. Rydych yn dechrau trwy gyfeirio at yr ymgynghoriad ffurfiol ar y berthynas rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Sut, felly, rydych chi'n ymateb i ddatganiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ei ymateb i'r ffaith

nad oes gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd weledigaeth na naratif clir sy'n edrych i'r dyfodol ar gyfer pam y mae'n gweithio gyda'r trydydd sector .... Gallai gweledigaeth o'r fath gynnwys cyd-gynhyrchu, sy'n cynnig ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Byddwn yn eich cyfeirio at y gynhadledd ddoe yng Nghaerdydd ar gyd-gynhyrchu cymunedau gwydn, meithrin hyder a gallu, a oedd yn dweud bod yr amser wedi dod i newid y dull o ddarparu gwasanaethau, trwy weld pawb felartneriaid cyfartal mewn gwasanaethau lleol, gan chwalu'r rhwystrau rhwng y bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio, lle mai'r ofn yw nad ydym yn ymateb yn ddigon cyflym, neu ein bod yn ymateb gyda rhaglen ychwanegol, yn hytrach na newid systemau a strwythurau a diwygio gwasanaethau'n gyffredinol.

Rydych yn dweud y dylai'r sector, lle y mae'n dymuno derbyn arian cyhoeddus, hefyd allu dangos sut y mae'n cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Sut, felly, y byddwch yn sicrhau nad ydym yn colli mwy o elusennau ardderchog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd wedi methu â bodloni prosesau, a naill ai wedi mynd neu wedi mynd dros y ffin yn unol â hynny? Pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd gennych i ofyn i'r sector sut y gall helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy am lai yn yr amgylchedd cyllidebol presennol, mwy am yr un faint pan fo cyllidebau yn statig a mwy am fwy pan ddaw'r diwrnod hapus pan fo cyllidebau unwaith eto'n cynyddu?

Rydych yn cyfeirio at y cod ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector, gan ddarparu canllawiau ar gyfer y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r sector. Sut byddech chi, felly, yn ymateb i ymateb CGGC bod cyllid tymor byr yn aneffeithlon ac y gall costau trafodion fod mor uchel â 40% o'r gwerth? Roedd yn dweud y dylid cynnal ac ymestyn ymrwymadau presennol i gyllid tymor hir, gyda chymalau terfynu priodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Dywedasoeh y dylai seilwaith adlewyrchu blaenoriaethau'r rhaglen lywodraethu a bod angen ffocws clir ar gyflawni canlyniadau a rennir. Sut, felly, rydych chi'n ymateb i ymateb GCCG bod yn rhaid i'r isadeiledd sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl o dechnolegau newydd i fod yn effeithlon ac yn effeithiol, yn gysylltiedig ag ymgysylltu uniongyrchol lleol a chefnogaeth — cyd-gynhyrchu unwaith eto.

You say that local voluntary councils and volunteer centres should move towards more formal regional working, in line with the public service collaborative model. How, therefore, will you ensure that that complies with business planning, cost benefit analysis and cost curves? Again, the WCVA says that any proposals to shift resources from one level to another, or a new middle tier, must be subjected to a careful cost benefit analysis, and that a cut at any level must lead to tangible and quantifiable net gains for the sector and not lead to the loss or reduction of services that are valued.

You say that local authorities and other public services need to look to strengthen relationships through improved local compacts. How, therefore, will you ensure that that is based on a real strategic partnership—again, co-design and co-delivery—rather than partnerships of inequality which, unfortunately, still persist in some areas with some public sector providers, again noting the WCVA concerns in this area?

Finally, you state that the consultation has indicated that both the third sector partnership council and ministerial meetings are a valued part of the existing engagement structure. How, therefore, would you respond to the response from the WCVA that the third sector partnership council needs to be able to consider the sector's representatives on the council and respond to their concerns?

16:57

### **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gosh, I have a lot to talk about with the WCVA. That is clearly the case. However, I have had discussions up until now, which have been positive discussions. The WCVA understands the position that we are in, and it has been party to the discussions—not just providing evidence itself but working with other third sector organisations. Those discussions will continue, of course. I mentioned in my statement that the WCVA will remain a very important part of the third sector structure within Wales. It will retain aspects of leadership; there is no doubt about that. However, there is clearly a need to move to a position where we have a better joined-up approach between the programme for government priorities and what is delivered by those third sector organisations that receive money through the Welsh Government.

The issue of co-production, which you raised, is an excellent principle. It is something that we want to see embedded. We believe in that very much indeed. Organisations with different characteristics, different ways of working and different traditions, but that know their own areas very well, coming together to contribute in that way is something that we value. We can see the logic and worth of that.

Rydych yn dweud y dylai cynghorau gwirfoddol lleol a chanolfannau gwirfoddol symud tuag at weithio rhanbarthol mwy ffurfiol, yn unol â model cydweithredol gwasanaethau cyhoeddus. Sut, felly, byddwch chi'n sicrhau bod hynny'n cydymffurfio â threfniadau cynllunio busnes, dadansoddiad cost a budd a chromliniau cost? Unwaith eto, mae CGGC yn dweud bod rhaid i unrhyw gynigion i symud adnoddau o un lefel i'r llall, neu i haen ganol newydd, fod yn destun dadansoddiad cost a budd gofalus, a bod yn rhaid i doriad ar unrhyw lefel arwain at enillion net pendant a mesuradwy ar gyfer y sector a pheidio ag arwain at golli neu leihau gwasanaethau gwerthfawr.

Rydych yn dweud bod angen i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill geisio cryfhau'r berthynas trwy well compactau lleol. Sut, felly, byddwch chi'n sicrhau bod hynny'n cael ei seilio ar bartneriaeth strategol go iawn—eto cyd-gynllunio a chyd-ddarparu—yn hytrach na phartneriaethau anghydradd sydd, yn anffodus, yn dal i fodoli mewn rhai ardaloedd gyda rhai darparwyr sector cyhoeddus, eto gan nodi pryderon CGGC yn y maes hwn?

Yn olaf, rydych yn datgan bod yr ymgynghoriad wedi dangos bod cyfarfodydd â gweinidogion a chyngor partneriaeth y trydydd sector yn rhan werthfawr o'r strwythur ymgysylltu presennol. Sut, felly, byddech chi'n ymateb i'r ymateb gan CGGC bod angen i gyngor partneriaeth y trydydd sector allu ystyried cynrychiolwyr y sector ar y cyngor ac ymateb i'w pryderon?

Bobl bach, mae gennyf lawer i siarad amdano gydag CGGC. Mae hynny'n amlwg yn wir. Fodd bynnag, rwyf wedi cael trafodaethau hyd yn hyn, sydd wedi bod yn rhai cadarnhaol. Mae CGGC yn deall y sefyllfa yr ydym ynddi, ac mae wedi bod yn rhan o'r trafodaethau—nid yn unig yn darparu tystiolaeth ei hun ond yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector eraill. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau, wrth gwrs. Soniais yn fy natganiad y bydd CGGC yn parhau i fod yn rhan bwysig iawn o strwythur y trydydd sector yng Nghymru. Bydd yn cadw agweddau ar arweinyddiaeth; nid oes amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen symud i sefyllfa lle y mae gennym ddull mwy cydgysylltiedig rhwng blaenoriaethau'r rhaglen lywodraethu a'r hyn a ddarperir gan y sefydliadau trydydd sector sy'n cael arian trwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r mater o gyd-gynhyrchu, a godwyd gennych, yn egwyddor ardderchog. Mae'n rhywbeth yr ydym am ei weld yn cael ei ymwreiddio. Rydym yn bendant iawn yn credu yn hynny. Rydym yn gweld gwerth mewn sefydliadau sydd â nodweddion gwahanol, gwahanol ffyrdd o weithio a gwahanol draddodiadau, ond sy'n adnabod eu hardaloedd eu hunain yn dda iawn, yn dod at ei gilydd i gyfrannu yn y modd hwnnw. Gallwn weld rhesymeg a gwerth hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of the code of funding changes, I did point out in my statement that I will be presenting these details—and the third sector partnership council has already had a draft of these—to the meeting, which I will be leading, next Monday. Following from that, there will be a further six-week consultation on the relationship between the third sector and the funding code before we make final decisions. I also made clear that, in terms of greater collaboration with regional working, this will not happen overnight. We will need to look carefully at the issues, practical and theoretical, that could present themselves for third sector organisations and take our time to make sure that we have the best arrangements.

In terms of the framework and engagement, third sector partnership council and ministerial meetings are valuable. As I have said, I will be launching further consultations at the third sector partnership council meeting on Monday, where the WCVA and many other third sector organisations will be present, and I am sure that we will have a good discussion. The issue of ministerial meetings will remain. They are important. I do not quite recognise the comments that you appear to have had. The comments that we have had, overwhelmingly, from the third sector organisations that took part in the consultation are that they are seen as valued. However, we need to make sure that they are focused. There has been a tendency for annual or biannual meetings to be held that merely address the whole portfolio of that Minister. I do not think that that is the best use of time. Those meetings need to be held as and when required, with a focused and clearly defined agenda. I think that the relationship will go from strength to strength.

O ran y newidiadau i'r cod ariannu, gwnaed y pwynt yn fy natganiad y byddaf yn cyflwyno'r manylion hyn—ac mae cyngor partneriaeth y trydydd sector eisoes wedi cael drafft o'r rhain—i'r cyfarfod, y byddaf yn ei arwain, ddydd Llun nesaf. Yn dilyn hynny, cynhelir ymgynghoriad chwe wythnos arall ar y berthynas rhwng y trydydd sector a'r cod ariannu cyn inni wneud penderfyniadau terfynol. Roeddwn hefyd yn gwneud yn glir, o ran mwy o gydweithredu a gwaith rhanbarthol, na fydd hyn yn digwydd dros nos. Bydd angen inni edrych yn ofalus ar y materion, ymarferol a damcaniaethol, a allai ddod i'r amlwg i fudiadau trydydd sector a chymryd ein hamser i wneud yn siŵr y sefydlir y trefniadau gorau.

O ran y fframwaith ac ymgysylltu, mae cyfarfodydd â gweinidogion a chyngor partneriaeth y trydydd sector yn werthfawr. Fel y dywedais, byddaf yn lansio ymgynghoriad arall yng nghyfarfod cyngor partneriaeth y trydydd sector ddydd Llun, lle bydd CGGC a llawer o sefydliadau trydydd sector eraill yn bresennol, ac rwy'n siŵr y byddwn yn cael trafodaeth dda. Bydd cyfarfodydd â gweinidogion yn aros. Maent yn bwysig. Nid wyf yn adnabod y sylwadau y mae'n ymddangos eich bod chi wedi'u derbyn. Mae mwyafrif llethol y sylwadau yr ydym ni wedi'u derbyn gan y sefydliadau trydydd sector a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn dangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud yn siŵr bod pwyslais penodol iddynt. Bu tuedd i gynnal cyfarfodydd blynyddol neu ddwywaith y flwyddyn dim ond i roi sylw i bortffolio cyfan y Gweinidog hwnnw. Nid wyf yn credu mai dyna'r defnydd gorau o amser. Mae angen cynnal y cyfarfodydd hynny yn ôl y gofyn, gydag agenda sydd wedi'i diffinio'n glir. Rwy'n meddwl y bydd y berthynas yn mynd o nerth i nerth.

17:00

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is quite a brief question from me, Minister. I have sent you the views of the Flintshire Local Voluntary Council on this issue, and you have been kind enough to respond. The message that I am getting from it and parts of the third sector—particularly in my constituency in Flintshire, but also through north-east Wales and, I assume, from other parts of north Wales—is this: they are concerned that all of the formulas that seem to have been under discussion for the future distribution of funding will unfairly disadvantage my constituency, north-east Wales and, in more general terms, north Wales. Can you assure me that you will look carefully at this, if there are changes in future to the distribution of funding, so that areas like mine are not disadvantaged?

Cwestiwn eithaf byr sydd gennyf fi, Weinidog. Rwyf wedi anfon barn Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Flint ar y mater hwn atoch, ac rydych wedi bod yn ddigon caredig i ymateb. Y neges yr wyf yn ei chael ganddo a rhannau o'r trydydd sector—yn enwedig yn fy etholaeth yn Sir y Fflint, ond hefyd drwy ogledd-ddwyrain Cymru ac, rwy'n tybio, o rannau eraill o ogledd Cymru—yw hyn: maent yn pryderu bod yr holl fformiwlâu yr ymddengys iddynt fod wedi cael eu trafod ar gyfer dosbarthu cyllid yn y dyfodol yn rhoi fy etholaeth i, gogledd-ddwyrain Cymru, a gogledd Cymru yn fwy cyffredinol, dan anfantais annheg. A allwch fy sicrhau y byddwch yn edrych yn ofalus ar hyn, os bydd y dull o ddosbarthu cyllid yn cael ei newid yn y dyfodol, fel nad yw ardaloedd fel fy un i dan anfantais?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:01

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member very much for raising these points.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am godi'r pwyntiau hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Yes, I am grateful for the communication that you have had with me on this. As you say, I have responded. Among the priorities, in terms of tackling the programme for government, will be the contribution that the third sector can make to tackling poverty and to the preparation of the future generations Bill as its provisions unfold and when it is submitted in the summer. However, I am very happy to give you this assurance: no decisions have been made yet on the funding levels or the funding formula, but I will not support any outcomes, in terms of funding, that affect any part of Wales disproportionately.

Ydw, rwy'n ddiolchgar ichi am gyfathrebu gyda mi ynglŷn â hyn. Fel y dywedwch, rwyf wedi ymateb. Ymysg y blaenoriaethau, o ran mynd i'r afael â'r rhaglen lywodraethu, fydd y cyfraniad y gall y trydydd sector ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ac i baratoi Bil cenedlaethau'r dyfodol wrth i'w ddarpariaethau ddatblygu a phan fydd yn cael ei gyflwyno yn yr haf. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i roi'r sicrwydd hwn i chi: nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ar y lefelau cyllido na'r fformiwlâ ariannu, ond ni fyddaf yn cefnogi unrhyw ganlyniadau, o ran ariannu, sy'n effeithio'n anghymesur ar unrhyw ran o Gymru.

17:02

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Mae'r Gweinidog yn gwbl gywir i ganmol y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector. Rwy'n credu bod y berthynas honno wedi bod yn un o gryfderau datganoli, ac mae'r berthynas wedi datblygu dros y 14 mlynedd ddiwethaf. Rwyf yn siŵr bod y trydydd sector yn deall y sefyllfa ariannol bresennol y mae'r Llywodraeth yn ei hwynebu—y cyni presennol—a bod y sector yn barod i fod yn hyblyg wrth ymateb i'r sefyllfa honno.

Mae gen i ddau gwestiwn ichi, Weiniidog. Yn gyntaf, mae problem wedi bodoli o'r cychwyn cyntaf gydag ariannu'r trydydd sector. Roedd tuedd i gynnis cytundebau 12 mis i'r sector ar y cychwyn. Erbyn hyn, rydym wedi trio symud i sefyllfa lle mae'r cytundebau hynny, gan fwyaf, dros dair blynedd. Fodd bynnag, yn eich datganiad, rydych yn dal i gadw at gyfnod o dri mis o ran y rhybudd ar gyfer dyfarniadau'r flwyddyn sy'n dilyn. Mae hwnnw'n amser byr iawn i fudiadau ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfarniadau ariannol hynny. A fydddech yn barod i edrych ar hynny unwaith yn rhagor, a cheisio ymestyn y cyfnod hwnnw, fel bod gan y mudiadau hyn gyfnod hwy i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau?

Mae'r ail gwestiwn yn ymwneud â'r ffaith bod cynifer o'r mudiadau hyn yn gymharol fach. Nid oes ganddynt weinyddiaeth fawr, felly mae'n anodd iddynt fynd drwy'r broses o dendro am gytundebau gyda Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, rydym wedi gweld rhai o'r mudiadau mawr yn gweithredu mewn ffordd eithaf bwriadol i gymryd drosodd gwaith sy'n cael ei wneud gan fudiadau cymharol fach, gan sicrhau bod y mudiadau hynny'n dod o dan y mudiad hwnnw sydd llawer iawn yn fwy. Byddwn yn rhoi Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan ichi fel enghraifft o hynny, sef mudiad a gymerodd llawer o gyfrifoldeb am waith a oedd yn cael ei wneud cyn hynny gan fudiadau cymharol fach. A ydych yn gallu rhoi sicrwydd i'r mudiadau llai hynny y bydd eu buddiannau hwy hefyd yn cael eu hamddiffyn yn y bartneriaeth hon gyda Llywodraeth Cymru ac na welwn ni sefyllfa'n codi eto fel honno a gododd gydag AWEMA?

The Minister is entirely right to praise the partnership that exists between the Welsh Government and the third sector. I think that that relationship has been one of the strengths of devolution, and that relationship has developed over the last 14 years. I am sure that the third sector understands the current financial situation that the Government is facing—the current austerity—and that the sector is willing to be flexible in responding to that situation.

I have two questions for you, Minister. First, there has been a problem from the start in terms of financing the third sector. There was a tendency to give 12-month contracts to the sector at the outset. By now, we have tried to move to a situation where those contracts are usually over three years. However, in your statement, you keep to a period of three months in terms of notice of the allocations for the following year. That is a very short period of time for organisations to respond to any changes in those financial allocations. Would you be prepared to look at that once again, and try to extend that period, so that those organisations have a longer period of time to prepare for any changes?

The second question relates to the fact that so many of these organisations are quite small. They do not have a large administration, so it is very difficult for them to go through the process of tendering for contracts with the Welsh Government. In the past, we have seen some of the large organisations operating in quite an intentional way to take over work that was being done by smaller organisations, and then ensuring that those smaller organisations came under that much larger organisation. I give you the example of the All Wales Ethnic Minority Association, which was an organisation that took up a lot of the responsibility for work that was being done before that by smaller organisations. Can you give an assurance to those smaller organisations that their interests will also be protected in this partnership with the Welsh Government, and that we will not see a situation arising again like that that arose with AWEMA?

17:05

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member very much indeed, and I hope that I caught all that he said—unfortunately, even though it is on maximum, the translation feed was very quiet.

Diolch fawr iawn i'r Aelod, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi clywed y cyfan a ddywedodd—yn anffodus, er ei fod ar ei uchaf, roedd y llinell gyfieithu yn dawel iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am grateful for your comments about the good relationship that has by and large been developed. I think that we have a position of trust, despite some earlier comments, and I look forward to that continuing. I expect to have a positive, if frank, discussion with the third sector partnership council next Monday.

I note your comments about the length of contracts and the notice period of any changes, and I certainly will make inquiries and look to see if we can do a little bit better in future with the various third sector organisations, especially the infrastructure bodies. So, I will give you that assurance.

In terms of smaller organisations, yes, I actually said in my statement that we certainly want to support the grass-roots organisations and, indeed, individuals, who often have a great contribution to make on a localised basis. I will want to see, through the code and the third sector scheme, that that is protected and that there is good co-production where necessary, even if it is a question of subcontracting work or developing sound understandings. However, I accept that we need to protect smaller organisations, and they will remain a crucial partner.

17:06

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Maybe I can start by following on from where Rhodri Glyn Thomas finished in terms of governance arrangements. This is a substantial sum of money going to the voluntary sector, and as Rhodri Glyn referred to the problems of AWEMA's governance arrangements, what assurances can you give us that governance arrangements have been made far more robust following what happened with AWEMA, so that we do not end up with similar situations whereby that money is not being used properly? There have, of course, also been problems with some Communities First partnerships and a number of other directly funded Government organisations. So, maybe, Minister, you could respond to that question.

In terms of the statement before us, Minister, I note that you say that the infrastructure should reflect the priorities of the programme for government. Perhaps you could actually tell us what that means, especially in terms of local council and voluntary sector services, which are basically trying to reflect local service priorities and the needs of a local area. You also say that you want to introduce a regional dimension to the infrastructure. Can you say what that means for compacts that are already in existence, and what it means for local working? Will it mean the merger of CVCs in future? Is that the direction of travel that you are taking?

Rwy'n ddiolchgar am eich sylwadau am y berthynas dda sydd ar y cyfan wedi'i datblygu. Credaf fod gennym sefyllfa o ymddiriedaeth, er gwaethaf rhai sylwadau yn gynharach, ac edrychaf ymlaen at weld hynny'n parhau. Rwy'n disgwyl cael trafodaeth gadarnhaol, ond onest, gyda chyngor partneriaeth y trydydd sector ddydd Llun nesaf.

Nodaf eich sylwadau am hyd y contractau a'r cyfnod rhybudd ar gyfer unrhyw newidiadau, a byddaf yn sicr yn gwneud ymholiadau ac yn ystyried a allwn wneud ychydig yn well yn y dyfodol gyda'r gwahanol sefydliadau trydydd sector, yn enwedig y cyrff seilwaith. Felly, byddaf yn rhoi sicrwydd hwnnw ichi.

O ran sefydliadau llai, do, fe ddywedais yn fy natganiad ein bod yn sicr am gefnogi'r mudiadau ar lawr gwlad ac, yn wir, unigolion, sydd yn aml â chyfraniad mawr i'w wneud ar sail leol. Byddaf am weld hynny'n cael ei ddiogelu, trwy'r cod a chynllun y trydydd sector, a gweld cyd-gynhyrchu da lle bo angen, hyd yn oed os yw'n fater o is-gontractio gwaith neu ddatblygu dealltwriaeth gadarn. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod angen inni ddiogelu sefydliadau llai, a byddant yn parhau i fod yn bartneriaid hanfodol.

Efallai y gallaf ddechrau drwy ddilyn o'r man lle y gorffennodd Rhodri Glyn Thomas o ran trefniadau llywodraethu. Mae hwn yn swm sylweddol o arian sy'n mynd i'r sector gwirfoddol, ac fel y cyfeiriodd Rhodri Glyn at broblemau trefniadau llywodraethu AWEMA, pa sicrwydd allwch chi ei roi inni y gwnaed y trefniadau llywodraethu yn llawer mwy cadarn yn dilyn yr hyn a ddigwyddodd gydag AWEMA, fel nad oes sefyllfaoedd tebyg yn codi lle nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol? Wrth gwrs, mae problemau wedi bod hefyd gyda rhai partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a nifer o gyrff eraill y Llywodraeth a ariennir yn uniongyrchol. Felly, efallai, Weinidog, y gallech ymateb i'r cwestiwn hwnnw.

O ran y datganiad ger ein bron, Weinidog, sylwaf eich bod yn dweud y dylai'r isadeiledd adlewyrchu blaenoriaethau'r rhaglen lywodraethu. Efallai y gallech ddweud wrthym beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd, yn enwedig o ran y cyngor lleol a'r gwasanaethau sector gwirfoddol, sydd yn y bôn yn ceisio adlewyrchu blaenoriaethau gwasanaethau lleol ac anghenion yr ardal leol. Rydych hefyd yn dweud eich bod yn awyddus i gyflwyno dimensiwn rhanbarthol i'r seilwaith. A allwch chi ddweud beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer cytundebau sydd eisoes yn bodoli, a beth mae'n ei olygu i drefniadau gweithio lleol? A fydd yn golygu uno Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn y dyfodol? Ai dyna'r cyfeiriad yr ydych yn mynd iddo?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You refer later in the statement to the fact that you will be updating how funding is distributed between the WCVA, the CVCs and volunteer centres. Can you say what level of consultation you will undertake in that review? Who will be consulted, and what criteria will you apply to the review? What priorities will you apply to changing the balance of funding as part of that review? Will you be looking to get more money down to the local area, or is it your intention for all that money to continue to be channelled through the WCVA? How will you make sure that we have a proper balance of funding between what is being funded nationally and what is reaching local CVCs?

You then talked about the final budget being based on the existing formula. Does that mean that local CVCs will bear the brunt of any cuts in funding? Also, how will you ensure that we will have an equitable distribution of funding across Wales, so that some local areas, which I believe are apprehensive about the way that money is being distributed—and I think that Sandy Mewies has already referred to that—will not lose out?

Finally, Minister, you go on to say that you will be looking to strengthen these relationships through improved local compacts. Can you tell me how that fits in with regional working?

Rydych yn crybwyll yn ddiweddarach yn y datganiad y byddwch yn diweddarau sut y mae arian yn cael ei ddosbarthu rhwng CGGC, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddol. A allwch chi ddweud pa lefel o ymgynghori y byddwch yn ei gymryd yn yr adolygiad hwnnw? Â phwy y byddwch yn ymgynghori, a pha feini prawf fyddwch chi'n eu defnyddio yn yr adolygiad? Pa flaenoriaethau fyddwch chi'n eu defnyddio i newid y cydbwysedd cyllido fel rhan o'r adolygiad hwnnw? A fyddwch chi'n dymuno cael mwy o arian i'r ardal leol, ynteu a yw'n fwriad gennych i'r holl arian barhau i gael ei sianelu trwy CGGC? Sut y byddwch yn gwneud yn siŵr y ceir cydbwysedd priodol rhwng yr hyn sy'n cael ei ariannu'n genedlaethol a'r hyn sy'n cyrraedd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol?

Yna soniwyd y byddai'r gyllideb derfynol yn seiliedig ar y fformiwla bresennol. A yw hynny'n golygu y bydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol yn dwyn baich unrhyw doriadau mewn cyllid? Hefyd, sut byddwch chi'n sicrhau y bydd arian yn cael ei ddosbarthu'n deg ledled Cymru, fel na fydd rhai ardaloedd lleol, yr wyf yn credu eu bod yn bryderus am y ffordd y mae arian yn cael ei ddosbarthu—a chredaf fod Sandy Mewies eisoes wedi cyfeirio at hynny—ar eu colled?

Yn olaf, Weinidog, rydych yn mynd ymlaen i ddweud y byddwch yn dymuno cryfhau'r cysylltiadau hyn drwy well compactau lleol. A allwch ddweud wrthyf sut y mae hynny'n cyd-fynd â threfniadau gweithio rhanbarthol?

17:09

### **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks very much. I will deal with the point that I think you actually mentioned twice: compacts and regional working. As I have said, we are not going to legislate on compacts; we think that we need to strengthen the guidance for them and make sure that they are applied properly and in a logical way. That will certainly increase the value of regional working. We will expect CVCs and volunteer centres to work together and to participate with public services in their area to design future arrangements that deliver our objectives on a local basis. I expect this to be fleshed out during the six weeks of further consultation that we will have within the sector on the scheme. That will also include the code of practice.

The formula arrangements predate the Assembly. There was a slight revision in 2009, but it is clear that the funding formula that we have at the moment is not really appropriate for work in 2013 and beyond. Part of the consultation will be to look at that to make sure that the funding for the WCVA and the regions is relevant and that it meets those consultation responses that came in from CVCs that want to do more work within their regions, but at the same time recognising that there is clearly a national role for the WCVA. We have not yet resolved those matters; we have not yet decided whether all the moneys will have to be channelled through the WCVA or whether we can fund regions directly. Those are things that we will continue to discuss.

Diolch yn fawr. Byddaf yn delio â'r pwynt yr wyf yn credu ichi ei grybwyll ddwywaith: compactau a gweithio rhanbarthol. Fel y dywedais, nid ydym yn mynd i ddeddfu ar gompactau; rydym yn credu bod angen inni gryfhau'r canllawiau ar eu cyfer a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol ac mewn ffordd resymegol. Bydd hynny'n sicr yn cynyddu gwerth trefniadau gweithio rhanbarthol. Byddwn yn disgwyl i Gynghorau Gwirfoddol Sirol a chanolfannau gwirfoddol weithio gyda'i gilydd a chymryd rhan gyda gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal i gynllunio trefniadau yn y dyfodol sy'n cyflawni ein hamcanion ar lefel leol. Rwy'n disgwyl rhoi cnawd ar yr esgyrn yn ystod y chwe wythnos o ymgynghori o fewn y sector ar y cynllun. Bydd hynny hefyd yn cynnwys y cod ymarfer.

Mae'r trefniadau fformiwla yn bodoli cyn y Cynulliad. Cawsant eu hadolygu ychydig yn 2009, ond mae'n amlwg nad yw'r fformiwla ariannu sydd gennym ar hyn o bryd yn wirioneddol briodol ar gyfer gwaith yn 2013 a thu hwnt. Rhan o'r ymgynghoriad fydd edrych ar hynny i wneud yn siŵr bod y trefniadau ariannu ar gyfer CGGC a'r rhanbarthau yn berthnasol a'u bod yn bodloni rhai ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n awyddus i wneud mwy o waith o fewn eu rhanbarthau, a chan gydnabod ar yr un pryd bod swyddogaeth genedlaethol yn amlwg ar gyfer CGGC. Nid ydym wedi datrys y materion hynny eto; nid ydym wedi penderfynu eto a fydd yr holl arian yn cael ei sianelu trwy CGGC neu a allwn ariannu rhanbarthau'n uniongyrchol. Mae'r rheini'n bethau y byddwn yn parhau i'w trafod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of local organisations being engaged in their communities, I would expect that to be manifested through the local service boards particularly. One of the aspects of the future generations Bill will be to put local service boards on a statutory footing. Apart from the named organisations that will be in there, we will be expecting the third sector to be involved, so there should be no doubt about how they can contribute to the programme for government.

## Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

Cynnig NDM5349 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2013.

O ran ymgysylltiad sefydliadau lleol â'u cymunedau, byddwn yn disgwyl i hynny gael ei amlygu trwy'r byrddau gwasanaeth lleol, yn benodol. Un o'r agweddau ar Fil cenedlaethau'r dyfodol fydd rhoi sail statudol i fyrddau gwasanaeth lleol. Ar wahân i'r sefydliadau a enwir, byddwn yn disgwyl i'r trydydd sector gymryd rhan, felly ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch sut y gallant gyfrannu at y rhaglen lywodraethu.

## Motion to Approve the Food Hygiene Rating (Wales) Regulations 2013

Motion NDM5349 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Food Hygiene Rating (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 14 October 2013.

17:12

### Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Cynigiad y cynnig.

I move the motion.

Mae Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn pennu'r trefniadau ar gyfer rhoi cynllun sgorio hylendid bwyd statudol ar waith yng Nghymru. Cafodd y trefniadau hynny eu cadarnhau gan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth sy'n hawdd ei deall am safonau hylendid busnesau bwyd yng Nghymru.

The Food Hygiene Rating (Wales) Regulations 2013 set out the arrangements for implementing the statutory food hygiene rating scheme in Wales. Those arrangements were confirmed by the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013. The intention of the Act is to ensure that customers are provided with information that is easy to understand on the hygiene standards of food businesses in Wales.

The regulations before Members today contain a small number of changes from those consulted on earlier this year. These changes have been made in response to the consultation exercise. The one major change is that the proposed requirement to routinely publish local authority food hygiene inspection reports in full has been withdrawn. Only two responses to the consultation were in favour of the original proposition, while 32 of the 51 responses received were firmly against. Local authorities were strongly opposed, as were industry bodies, such as the British Beer and Pub Association, and representative bodies such as the Welsh Retail Consortium and the Confederation of British Industry Wales.

Mae'r rheoliadau ger bron yr Aelodau heddiw yn cynnwys nifer fach o newidiadau o'i gymharu â'r rhai yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn gynharach eleni. Gwnaed y newidiadau hyn mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori. Yr un newid mawr yw bod y gofyniad arfaethedig i gyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd awdurdodau lleol yn llawn fel mater o drefn wedi cael ei dynnu'n ôl. Dim ond dau ymateb i'r ymgynghoriad oedd o blaid y cynnig gwreiddiol, ac roedd 32 o'r 51 o ymatebion a gafwyd yn gadarn yn erbyn. Roedd awdurdodau lleol yn gwrthwynebu'n gryf, yn ogystal â chyrrff y diwydiant megis Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, a chyrrff cynrychiadol megis Consortiwm Manwerthu Cymru a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Therefore, although the regulations before you today do not require full, routine publication, I do nevertheless intend to go further than the position originally proposed. The regulations will require the Food Standards Agency to publish extended information for consumers, providing them with a narrative breakdown of what the single displayed score means against the three components that make up a rating. Local authorities will be required to provide this breakdown to the Food Standards Agency. I would like to put on record this afternoon my gratitude to the FSA for the considerable help that it has provided in taking the scheme forward. The consultation responses suggest that publishing the material in that way will make it more readily accessible to consumers and will, in practice, be a more useful and practical way of extending access to information.

In a second change, the original consultation document proposed that sensitive establishments such as police stations, military bases and prisons should be excluded from the scheme. Respondents to the consultation disagreed. Having reflected on those views, I conclude that they are correct. Consequently, the regulations before the Assembly today mean that the results of food hygiene inspections at such establishments will be made public. However, I intend to ensure that both child minders and adult carers operating from a private dwelling should be exempt from the scheme. Were this not to take place, it would require the publication of these addresses on the FSA website. That would give rise to potential child protection concerns, and concerns about the protection of vulnerable adults who are cared for in a private dwelling. As a result, the regulations before you today do not require publication of food hygiene ratings in those circumstances.

A third and final change as a result of consultation is to increase the period for local authorities to migrate hygiene ratings provided under the Food Standards Agency's voluntary scheme to the new statutory basis by an additional six months. That is, to 18 months in total. This adjustment gives local authorities greater flexibility to migrate food business ratings to the new statutory scheme by way of programmed or planned inspections, easing the transition for both local authorities and food businesses. It will also allow local authorities to concentrate available resources on food hygiene inspections themselves.

Provided these regulations are approved today, they will come into force on 28 November. The only exception is regulation 8, which requires the publication of a breakdown of ratings. This will come into force in November 2014.

Finally, note that I intend to bring forward one further set of regulations to the floor of the National Assembly in which powers will be taken to require certain food businesses to display a reference to their rating on their websites and on their publicity materials where customers can buy food without seeing a rating. That remains our clear policy intention but some practical complexities mean that further engagement with food businesses and local authorities is necessary before I bring forward a further set of regulations in 2014.

Nid yw'r rheoliadau ger eich bron heddiw felly yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiadau'n llawn, fel mater o drefn. Serch hynny, rwy'n bwriadu mynd ymhellach na'r sefyllfa a gynigiwyd yn wreiddiol. Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyhoeddi gwybodaeth estynedig i ddefnyddwyr, gan roi dadansoddiad naratif iddynt o'r hyn y mae'r sgôr sengl a arddangosir yn ei olygu o'i chymharu â'i thair elfen. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r dadansoddiad hwn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Hoffwn gofnodi'r prynhawn yma fy niolch i'r Asiantaeth am ei chymorth sylweddol wrth weithredu'r cynllun. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y bydd y deunydd yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr trwy ei gyhoeddi yn y modd hwnnw ac y bydd, yn ymarferol, yn ffordd fwy defnyddiol ac ymarferol o sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwyddach.

Mewn ail newid, roedd y ddogfen ymgynghori wreiddiol yn cynnig y dylai sefydliadau sensitif megis gorsafoedd heddlu, canolfannau milwrol a charchardai gael eu heithrio o'r cynllun. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn anghytuno. Ar ôl pwysu a mesur y safbwyntiau hynny, dof i'r casgliad eu bod yn gywir. O ganlyniad, mae'r rheoliadau gerbron y Cynulliad heddiw yn golygu y bydd canlyniadau arolygiadau hylendid bwyd mewn sefydliadau o'r fath ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu sicrhau y dylai gwarchodwyr plant a gofalwyr i oedolion sy'n gweithredu o anedd breifat gael eu heithrio o'r cynllun. Pe na byddai hyn yn digwydd, byddai'n ofynnol cyhoeddi'r cyfeiriadau hyn ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Byddai hynny'n arwain at bryderon amddiffyn plant posibl, a phryderon ynglŷn ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac sy'n cael gofal mewn anedd breifat. O ganlyniad, nid yw'r rheoliadau ger eich bron heddiw yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd yn yr amgylchiadau hynny.

Y trydydd newid, sef yr olaf, o ganlyniad i'r ymgynghoriad yw rhoi chwe mis ychwanegol i awdurdodau lleol symud sgoriau hylendid a ddarparwyd o dan gynllun gwirfoddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd i sail statudol newydd. Hynny yw, 18 mis i gyd. Mae'r addasiad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i symud sgoriau busnes bwyd i'r cynllun statudol newydd drwy arolygiadau wedi'u trefnu neu eu cynllunio, gan hwyluso'r broses bontio i awdurdodau lleol a busnesau bwyd. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ganolbwyntio adnoddau sydd ar gael ar arolygiadau hylendid bwyd eu hunain.

Ar yr amod bod y rheoliadau hyn yn cael eu cymeradwyo heddiw, byddant yn dod i rym ar 28 Tachwedd. Yr unig eithriad yw rheoliad 8, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi dadansoddiad o'r sgoriau. Daw hwn i rym ym mis Tachwedd 2014.

Yn olaf, nodwch fy mod yn bwriadu cyflwyno un gyfres arall o reoliadau i lawr y Cynulliad Cenedlaethol lle y bydd pwerau yn cael eu cymryd i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd penodol arddangos cyfeiriad at eu sgôr ar eu gwefannau ac ar eu deunyddiau cyhoeddusrwydd lle y gall cwsmeriaid brynu bwyd heb weld sgôr. Dyna yw ein bwriad polisi eglur o hyd ond mae rhai cymhlethdodau ymarferol yn golygu angen ymgysylltu ymhellach â busnesau bwyd ac awdurdodau lleol cyn i mi gyflwyno cyfres arall o reoliadau yn 2014.

17:17

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I just want to make a very brief contribution to this item to say that we will be supporting the Minister's proposed regulations. We feel that they are fair and take a very balanced and proportionate approach to the responses that have been received through the consultation process on the draft regulations that were issued by the Government. As Members of this Assembly will well know, my party has campaigned long and hard for a scores-on-the-doors type of approach to food hygiene ratings in Wales over a number of years, and we are delighted that progress is being made through the publication of these regulations today. We see no reason to delay these any further, and we will be supporting them wholeheartedly.

Rwyf eisiau gwneud cyfraniad byr iawn yn unig i'r eitem hon i ddweud y byddwn yn cefnogi rheoliadau arfaethedig y Gweinidog. Rydym yn teimlo eu bod yn deg ac yn dangos agwedd gytbwys a chymesur iawn tuag at yr ymatebion a dderbyniwyd trwy'r broses ymgynghori ar y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Fel y bydd Aelodau'r Cynulliad hwn yn gwybod yn dda, mae fy mhlaid i wedi ymgyrchu'n hir ac yn galed dros nifer o flynyddoedd o blaid rhoi sgoriau hylendid bwyd ar y drysau yng Nghymru, ac rydym wrth ein bodd bod pethau'n symud yn eu blaenau trwy gyhoeddi'r rheoliadau hyn heddiw. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros oedi ymhellach, a byddwn yn eu cefnogi'n llwyr.

17:17

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would like to thank the Minister for bringing forward the regulations today for an affirmative process before this National Assembly on the basis of wide consultation, which was the promise made to the committee and to the Welsh public while the legislation was making its journey through. The Minister finds himself yet again in a situation where it would have been difficult for him to do anything else, having chaired the committee's scrutiny of the legislation. However, I am glad to see that the ministerial car and box has not dissuaded him of the cases made before that committee.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r rheoliadau heddiw ar gyfer gweithdrefn gadarnhaol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hwn ar sail ymgynghori eang. Dyna'r addewid a wnaed i'r pwyllgor ac i'r cyhoedd yng Nghymru tra bod y ddeddfwriaeth ar ei thaith. Mae'r Gweinidog yn ei ganfod ei hun unwaith eto mewn sefyllfa lle y byddai wedi bod yn anodd iddo wneud dim arall, ar ôl cadeirio'r pwyllgor wrth iddo graffu ar y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rwy'n falch o weld nad yw'r car a'r blwch gweinidogol wedi ei ddarbwylllo yn erbyn yr achosion a gyflwynwyd gerbron y pwyllgor hwnnw.

The responses are indeed proportionate and yet at the same time give the public the assurances and information that it needs to be able to go beyond the display in an establishment to find out further detail as to why that establishment has been given that grading. I am grateful that the Minister has sought to ensure that as many premises as possible have to report on their grading. It is perfectly appropriate that he should seek to exempt only those that are looking after people in private dwellings. I look forward to hearing from the Minister how he can overcome the concerns with regard to displays on promotional material and websites. This was an important part of the committee's consideration. It was felt that, as the way in which we purchase food changes in a digital age, access to that rating in a different format was important. I look forward to hearing from the Minister how he intends to overcome some of the difficulties he has alluded to.

Mae'r ymatebion yn wir yn gymesur ac eto ar yr un pryd yn rhoi'r sicrwydd a'r wybodaeth angenrheidiol i'r cyhoedd allu mynd y tu hwnt i'r sgôr a arddangosir mewn sefydliad i ddarganfod rhagor o fanylion ynghylch pam mae'r sefydliad hwnnw wedi cael y sgôr honno. Rwy'n ddiolchgar bod y Gweinidog wedi ceisio sicrhau bod yn rhaid i gymaint o safleoedd â phosibl roi gwybod am eu sgoriau. Mae'n gwbl briodol y dylai geisio eithrio dim ond y rhai sy'n gofalu am bobl mewn anheddau preifat. Edrychaf ymlaen at glywed gan y Gweinidog sut y gall oresgyn y pryderon o ran arddangos sgoriau ar ddeunydd hyrwyddo a gwefannau. Roedd hynny'n rhan bwysig o ystyriaeth y pwyllgor. Teimlwyd ei bod yn bwysig gallu gweld y sgôr mewn fformat gwahanol, gan fod y ffordd yr ydym yn prynu bwyd yn newid mewn oes ddigidol. Edrychaf ymlaen at glywed gan y Gweinidog sut y mae'n bwriadu goresgyn rhai o'r anawsterau y mae wedi cyfeirio atynt.

17:19

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

17:19

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

To take that final point first, Members will be interested to know that, in order to bring about the practical change that the committee and the Government in its turn has endorsed, it is necessary for the Welsh Government to provide, under the technical standards directive, information to the European Commission via the Department for Business, Innovation and Skills. When we did this over the summer in relation to our intention to bring forward these regulations, the Spanish authorities questioned the extent to which the promotion of food hygiene ratings by food businesses in Wales would be carried out under the regulations that we had submitted. So, we had to go through a further round of discussions with businesses, we had to give three months' notice of our intention to do this, and we had to have a three-month standstill period to allow other European countries to take an interest in what is going on on the floor of the Assembly this afternoon. Then we will be able to bring forward—we are confident—regulations that will do what the committee wanted us to do and that, I think, businesses in Wales support.

More broadly, I thank all Members for their constructive comments this afternoon and their continued involvement in a process that I believe has already engaged the enthusiastic support of the public in Wales.

Gan ystyried y pwynt olaf yn gyntaf, bydd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod bod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd trwy'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, o dan y gyfarwydddeb safonau technegol, er mwyn sicrhau'r newid ymarferol y mae'r pwyllgor a'r Llywodraeth yn ei dro wedi ei gymeradwyo. Pan wnaethom hyn dros yr haf o safbwynt ein bwriad i gyflwyno'r rheoliadau hyn, roedd awdurdodau Sbaen yn cwestiynu i ba raddau y byddai busnesau bwyd yng Nghymru yn hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd o dan y rheoliadau yr ydym wedi eu cyflwyno. Felly, roedd rhaid inni fynd trwy rownd arall o drafodaethau gyda busnesau, roedd yn rhaid inni roi tri mis o rybudd o'n bwriad i wneud hyn, ac roedd yn rhaid inni gael cyfnod segur o dri mis i ganiatáu i wledydd eraill yn Ewrop gymryd diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ar lawr y Cynulliad brynhawn heddiw. Yna, byddwn yn gallu cyflwyno rheoliadau—rydym yn hyderus—a fydd yn gwneud yr hyn y mae'r pwyllgor yn dymuno inni ei wneud ac y mae busnesau yng Nghymru, rwy'n meddwl, yn eu cefnogi.

Yn fwy cyffredinol, hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu sylwadau adeiladol y prynhawn yma ac am barhau i gymryd rhan mewn proses sydd eisoes, rwy'n credu, wedi sicrhau cefnogaeth frwd y cyhoedd yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:20

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

Diolch, Weinidog. Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013**

Cynnig NDM5350 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2013.

**Motion to Approve the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013**

Motion NDM5350 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Family Absence for Member of Local Authorities (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 October 2013.

17:21

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

These regulations bring into effect the provisions in Part 2 of the Local Government (Wales) Measure 2011, and form an important part of the package introduced through the Measure to promote and support the membership of local authorities. I will also be publishing guidance to support these regulations, as well as amending the Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007 to place responsibility for family absence matters with the council rather than its executive.

Approving these regulations today will ensure that, for the first time anywhere in the UK, Welsh councillors who are pregnant, have given birth, have adopted a child, or are the partners of others who have done so, will have a legally recognised entitlement to reasonable time off from their duties. I am well aware that the existing profile of local government in Wales means that the occasions on which these entitlements will be taken up might be fairly infrequent. I also appreciate that some councillors who could be entitled to family absence may choose not to take it up or not to take it up in full. However, that is beside the point. If we want to attract a more diverse population of councillors, more reflective of the electorate, with more female members, more young members and more employed members, individuals need to know that they will have decent terms and conditions for what is, these days, a highly demanding and time-consuming role.

The right to take family absence means that councillors in this position can be open about why they are missing meetings or not fulfilling other duties. They will not have to feel guilty, as if they should not be councillors if they were going to need this time out. It will be for political groups, other members and local authorities themselves to decide how to manage the absence of their colleagues, just as we have had to do in this Assembly on occasion, and just as people have to in their workplaces. This reform sits alongside the introduction of democratic services committees and the heads of democratic services to ensure that the needs of non-executive members are recognised.

The Measure also required reasonable levels of training and development to be provided, the timing of meetings to be reviewed, the production of annual reports by individual councillors, and, soon, the possibility of councillors being able to attend meetings remotely if it is practicable and convenient for them to do so. I believe that this is an important step in promoting equality and diversity in local government, and I urge Members to support the motion.

Mae'r rheoliadau hyn yn dod â'r darpariaethau i rym yn Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac yn ffurfio rhan bwysig o'r pecyn a gyflwynwyd trwy'r Mesur i hyrwyddo a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol. Byddaf hefyd yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r rheoliadau hyn, yn ogystal â diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 i roi'r cyfrifoldeb am faterion absenoldeb teuluol yn nwylo'r cyngor yn hytrach na'i weithrediaeth.

Trwy gymeradwyo'r rheoliadau hyn heddiw byddwn yn sicrhau, am y tro cyntaf yn unrhyw le yn y DU, bod cynghorwyr Cymru sy'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth, wedi mabwysiadu plentyn, neu sy'n bartneriaid i rywun sydd wedi gwneud hynny, yn cael hawl a gydnabyddir o dan y gyfraith i amser rhesymol i ffwrdd o'u dyletswyddau. Rwy'n ymwybodol iawn bod proffil presennol llywodraeth leol yng Nghymru yn golygu y gall yr hawliau hyn yn cael eu harfer yn weddol anaml. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi y gall rhai cynghorwyr a allai fod â hawl i absenoldeb teuluol ddewis peidio â'i gymryd neu beidio â'i gymryd yn llawn. Fodd bynnag, nid yw hynny nac yma nac acw. Os ydym am ddenu cynghorwyr mwy amrywiol, sy'n adlewyrchu'r etholwyr yn well, mwy o fenywod, mwy o aelodau ifanc a mwy o aelodau cyflogedig, mae angen i unigolion wybod y byddant yn cael telerau ac amodau gweddus ar gyfer yr hyn sydd, y dyddiau hyn, yn swyddogaeth lawn her, sy'n cymryd llawer o amser.

Mae'r hawl i gymryd absenoldeb teuluol yn golygu y gall cynghorwyr yn y sefyllfa hon fod yn agored ynghylch pam maent yn colli cyfarfodydd neu'n peidio â chyflawni dyletswyddau eraill. Ni fydd yn rhaid iddynt deimlo'n euog, fel pe na ddylent fod yn gynghorwyr os oes arnynt angen y seibiant hwn. Mater i grwpiau gwleidyddol, aelodau eraill ac awdurdodau lleol eu hunain fydd penderfynu sut i reoli absenoldeb eu cydweithwyr, yn union fel yr ydym wedi gorfod ei wneud yn y Cynulliad hwn ar adegau, ac yn union fel y mae'n rhaid i bobl ei wneud yn eu gweithleoedd. Cyflwynir y diwygiad hwn ochr yn ochr â chyflwyniad pwyllgorau gwasanaethau democrataidd a phenaethiaid gwasanaethau democrataidd i sicrhau bod anghenion aelodau anweithredol yn cael eu cydnabod.

Roedd y Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol darparu lefelau rhesymol o hyfforddiant a datblygiad, adolygu amseriad cyfarfodydd, paratoi adroddiadau blynyddol gan gynghorwyr unigol, ac, yn fuan, y posibilrwydd y gallai cynghorwyr fynychu cyfarfodydd o bell os yw hynny'n ymarferol ac yn gyfleus iddynt. Rwy'n credu bod hwn yn gam pwysig o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn llywodraeth leol, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No Member has indicated that they wish to take part. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

Nid oes yr un Aelod wedi nodi eu bod yn dymuno cymryd rhan. Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol

# Legislative Consent Memorandum on the Local Audit and Accountability Bill

Cynnig NDM5259 Alun Davies  
Motion NDM5259 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol sy'n ymwneud â'r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol y mae eu hardaloedd yn rhannol oddi fewn i Gymru, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Local Audit and Accountability Bill relating to audit arrangements for Internal Drainage Boards (IDBs) whose areas fall partly within Wales, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:24

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiad y cynnig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Deputy Presiding Officer, I thank you for the opportunity to explain the background to the legislative consent motion on the UK Local Audit and Accountability Bill in relation to the arrangements covering audit and publication of information for cross-border internal drainage boards. I also thank the Assembly's Public Accounts Committee for its work in scrutinising the legislative consent memorandum and I note its concerns, which I will address. I also thank the Chair of that committee for the way in which he has conducted that inquiry and kept me informed of the work that the committee is doing.

Ddirprwy Lywydd, diolch ichi am y cyfle i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol y DU sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer archwilio a chyhoeddi gwybodaeth ym maes byrddau draenio mewnol trawsffiniol. Rwyf hefyd yn diolch i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad am ei waith yn craffu ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Nodaf ei bryderon, a byddaf yn mynd i'r afael â nhw. Rwyf hefyd yn diolch i Gadeirydd y pwyllgor am y ffordd y mae wedi cynnal yr ymchwiliad hwnnw a rhoi gwybod imi am y gwaith y mae'r pwyllgor yn ei wneud.

The Local Audit and Accountability Bill makes provision for, and in connection with, the abolition of the Audit Commission in England and the bodies it is responsible for auditing. In Wales, there are three internal drainage boards, one of which is wholly in Wales, and there are two cross-border IDBs. The Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board, which is wholly in Wales, is audited in accordance with the Public Audit (Wales) Act 2004 and is therefore audited by the auditors appointed by the Auditor General for Wales. The two remaining cross-border IDBs are currently audited in accordance with the audit regime set out in the Audit Commission Act 1998. In practice, the two cross-border IDBs already adhere to the Audit Commission Act 1998 and follow the English audit regime set out in the Accounts and Audit (England) Regulations 2011. This, however, is not a legal obligation. The Accounts and Audit (England) Regulations 2011 are cited as applying to England only. So, while the accounts of the two cross-border IDBs must be audited in accordance with the 1998 Act, the 2011 regulations do not currently apply to them. There is therefore a loophole that means that no statutory audit processes for these bodies are currently in force.

Mae'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol yn darparu ar gyfer, ac mewn cysylltiad â, diddymu'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr a'r cyrff y mae'n gyfrifol am eu harchwilio. Ceir tri bwrdd draenio mewnol yng Nghymru, un ohonynt yn gyfan gwbl yng Nghymru, a dau sy'n croesi'r ffin â Lloegr. Mae Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru, yn cael ei archwilio yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac felly yn cael ei archwilio gan yr archwilywyr a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r ddau Fwrdd Draenio Mewnol trawsffiniol yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd yn unol â'r gyfundrefn archwilio a nodir yn Neddf y Comisiwn Archwilio 1998. Yn ymarferol, mae'r ddau Fwrdd trawsffiniol eisoes yn cadw at Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 ac yn dilyn trefn archwilio Lloegr a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Lloegr) 2011. Nid yw hon, fodd bynnag, yn rhwymedigaeth gyfreithiol. Nodir bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Lloegr) 2011 yn berthnasol i Loegr yn unig. Felly, er bod yn rhaid i gyfrifon y ddau Fwrdd trawsffiniol gael eu harchwilio'n unol â Deddf 1998, nid yw rheoliadau 2011 yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Felly, mae bwch yn y gyfraith sy'n golygu nad oes unrhyw brosesau archwilio statudol ar gyfer y cyrff hyn mewn grym ar hyn o bryd.

I note the view of the Public Accounts Committee that it would be more appropriate for us to legislate to bring these bodies into the Welsh audit regime. I agree with this in principle, and I announced yesterday my intention to go further than this and to transfer the functions, assets and staff of these bodies to Natural Resources Wales in 2015. This would bring all of these matters within the Welsh audit regime. The Westminster Bill is expected to come into force at the same time. Approving this legislative consent motion this afternoon would simply enable a contingency to regularise the situation in the event that our wider changes are delayed for any reason. It will allow the Bill to extend the requirement to observe proper accounting practices to all bodies to which the Bill applies. This will bring the two cross-border IDBs in Wales into the accounting and audit regime that applies to local authorities in England.

As an alternative to this legislative consent motion, we could, of course, prepare and bring forward legislation to deal specifically with this matter, as suggested by the Public Accounts Committee. However, the two organisations involved are very small and, in the circumstances, this approach, we believe, would be disproportionate and a poor use of the time of officials and the Assembly.

I therefore ask Assembly Members to note the written statement that I made yesterday, and to note the remarks that I have made this afternoon, and I ask Assembly Members to support this legislative consent motion.

Nodaf farn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n fwy priodol i ni ddeddfu i ddod â'r cyrff hyn o fewn cyfundrefn archwilio Cymru. Rwy'n cytuno â hyn mewn egwyddor, a chyhoeddais fy mwriad ddoe i fynd ymhellach na hyn, ac i drosglwyddo swyddogaethau, asedau a staff y cyrff hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2015. Byddai hyn yn dod â'r holl faterion hyn o fewn cyfundrefn archwilio Cymru. Disgwylir i Fil San Steffan ddod i rym ar yr un pryd. Trwy gymeradwyo'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn brynhawn heddiw, byddem yn syml yn sefydlu cynllun wrth gefn i reoleiddio'r sefyllfa pe digwydd i'n newidiadau ehangach gael eu gohirio am unrhyw reswm. Bydd yn caniatáu i'r Bil ymestyn y gofyniad i ddilyn arferion cyfrifyddu priodol, i bob corff y mae'r Bil yn berthnasol iddynt. Bydd hyn yn dod â'r ddau Fwrdd Draenio Mewnol trawsffiniol yng Nghymru i'r gyfundrefn gyfrifon ac archwilio sy'n berthnasol i awdurdodau lleol yn Lloegr.

Fel dewis arall i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, gallem, wrth gwrs, baratoi a chyflwyno deddfwriaeth i ymdrin yn benodol â'r mater hwn, fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r ddau sefydliad dan sylw yn fach iawn ac, o dan yr amgylchiadau, fe gredwn y byddai'r dull hwn yn anghymesur ac yn ddefnydd gwael o amser swyddogion a'r Cynulliad.

Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad nodi'r datganiad ysgrifenedig a wneuthum ddoe, a nodi'r sylwadau yr wyf wedi'u gwneud y prynhawn yma, a gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

17:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Public Accounts Committee, Darren Millar.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Darren Millar.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:27 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Public Accounts Committee did indeed report on the legislative consent memorandum on 9 July. In the time available, I want to briefly run through our conclusions. I also want to thank the Minister for the way that he has engaged with the committee and kept me, as Chair of the committee, informed about his proposals.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 9 Gorffennaf. Yn yr amser sydd ar gael, rwyf am fynd yn gryno trwy ein casgliadau. Rwyf hefyd am ddiolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi ymgysylltu â'r pwyllgor a rhoi gwybod i mi, fel Cadeirydd y pwyllgor, am ei gynigion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As the Minister has said, the Local Audit and Accountability Bill seeks to abolish the Audit Commission and put in place a new local audit and accountability framework for local public bodies in England. As part of this Bill, it provides for two cross-border internal drainage boards to be subject to new audit arrangements that are being made for 'smaller authorities' in England. That, of course, means a lighter touch audit regime.

Fel y mae'r Gweinidog wedi dweud, nod y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol yw diddymu'r Comisiwn Archwilio a sefydlu fframwaith archwilio ac atebolrwydd lleol newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus lleol yn Lloegr. Fel rhan o'r Bil hwn, mae'n gwneud darpariaeth i'r ddau fwrdd draenio mewnol trawsffiniol fod yn destun trefniadau archwilio newydd sy'n cael eu gwneud ar gyfer 'awdurdodau llai' yn Lloegr. Mae hynny, wrth gwrs, yn golygu cyfundrefn archwilio lai manwl.

As the Bill seeks to abolish the Audit Commission, which currently has responsibility for the audit arrangements for cross-border IDBs, we agree with the Minister that some new audit arrangements need to be put in place for those bodies. However, the committee did not agree that the most appropriate solution is for the cross-border IDBs to be subject to the new arrangements in England. Both of the IDBs in question, Lower Wye Internal Drainage Board and Powysland Internal Drainage Board, are situated mainly in Wales and it would seem sensible for them to be subject to the same audit regime that currently applies to the Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board, the only drainage board that is wholly within Wales.

The Public Accounts Committee recently published a report on issues raised by the Wales Audit Office report on the 'Audit of Accounts 2010-11 Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board'.

In our report we identified major concerns about the historic adequacy and effectiveness of the board's governance arrangements and its financial management practices. We considered that there were unclear lines of accountability and a lack of transparency, concluding that this was a clear example of how not to run a public-funded organisation. However, I am keen to stress that, although we concluded that these concerns do not reflect on the current drainage board's management team, they do illustrate the importance of effective, independent and robust arrangements for auditing public bodies.

I believe that it is to the Wales Audit Office's credit that it published a report that highlighted these issues, despite the fact that this also raised questions about the effectiveness of its own audit work in respect of the board.

The issue that I believe Members need to consider today is whether a private sector auditor, appointed and contracted by the drainage board itself, would have been prepared to undertake and publish a similarly critical report. Would such an auditor be able to resist pressure from a drainage board not to undertake certain work, or to report the outcome of its work privately, or not at all? That is a scenario that this legislative consent memorandum will enable. As a result of its work in this area, the Wales Audit Office has developed an understanding of the particular demands associated with the auditing of drainage boards. Indeed, the auditor general has told us that he considers the WAO to be well placed to undertake audit work on other drainage boards and would be pleased to do so.

Gan fod y Bil yn ceisio diddymu'r Comisiwn Archwilio, sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am drefniadau archwilio Byrddau Draenio Mewnol trawsffiniol, rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod angen rhoi rhai trefniadau archwilio newydd ar waith ar gyfer y cyrff hynny. Fodd bynnag, nid oedd y pwyllgor yn cytuno mai'r ateb mwyaf priodol yw i'r Byrddau Draenio Mewnol trawsffiniol fod yn destun y trefniadau newydd yn Lloegr. Mae'r ddau Fwrdd dan sylw, Bwrdd Draenio Mewnol Gwy Isaf a Bwrdd Draenio Mewnol Powysland, wedi cael eu lleoli yn bennaf yng Nghymru a byddai'n ymddangos yn synhwyrol iddynt fod yn destun yr un drefn archwilio ag sy'n berthnasol ar hyn o bryd i Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, yr unig fwrdd draenio sy'n gyfan gwbl o fewn Cymru.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad yn ddiweddar ar faterion a godwyd gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar yr 'Archwiliad o Gyfrifon 2010-11 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg'.

Nodwyd pryderon sylweddol yn ein hadroddiad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol fu trefniadau llywodraethu'r bwrdd a'i arferion rheoli ariannol yn y gorffennol. Roeddem o'r farn bod llinellau atebolrwydd yn aneglur a bod diffyg tryloywder, gan gasglu bod hon yn enghraifft glir o sut i beidio â rhedeg sefydliad a ariennir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, er ein bod wedi dod i'r casgliad nad oedd y pryderon hyn yn adlewyrchu ar dîm rheoli'r bwrdd draenio presennol, rwy'n awyddus i bwysleisio eu bod yn dangos pwysigrwydd trefniadau effeithiol, annibynnol a chadarn ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus.

Rwy'n credu ei bod yn glod i Swyddfa Archwilio Cymru ei bod wedi cyhoeddi adroddiad sy'n tynnu sylw at y materion hyn, er gwaethaf bod hyn hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd ei gwaith archwilio ei hun o ran y bwrdd.

Y mater yr wyf yn credu y mae angen i'r Aelodau ei ystyried heddiw yw a fyddai archwilydd sector preifat, wedi'i benodi a'i gontractio gan y bwrdd draenio ei hun, wedi bod yn barod i gyhoeddi adroddiad yr un mor feirniadol. A fyddai archwilydd o'r fath yn gallu gwrthsefyll pwysau gan fwrdd draenio i beidio â gwneud gwaith penodol, neu i gyflwyno adroddiad preifat, neu ddim o gwbl, am ganlyniad ei waith? Mae honno'n sefyllfa y bydd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ei alluogi. O ganlyniad i'w gwaith yn y maes hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datblygu dealltwriaeth o ofynion penodol sy'n gysylltiedig ag archwilio byrddau draenio. Yn wir, mae'r archwilydd cyffredinol wedi dweud wrthym ei fod yn ystyried bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i ymgymryd â gwaith archwilio ar fyrddau draenio eraill ac y byddai'n falch o wneud hynny.

I appreciate that the Minister has made a statement today, and I note the content of that statement, which seeks to bring the responsibilities of IDBs in Wales within Natural Resources Wales in the future, from 2015. However, I urge some caution in that changing the audit arrangements for the Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board, with just 12 months to go before the introduction of a change in its circumstances in terms of its functions being absorbed into Natural Resources Wales, would not, in my opinion, represent a good use of public money. That is, changing the audit regime just 12 months before that organisation is, perhaps, merged into Natural Resources Wales.

Therefore, the committee very clearly recommends that we do not give our assent to this legislative consent memorandum. Instead, we believe that, even in the short term, that Wales would be better served by the audit regime that currently applies to Caldicot and Wentlooge being applied to the other existing internal drainage boards that are currently mainly in Wales.

17:31

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Members will already know from what the Chair of the Public Accounts Committee has just said that, as a committee, we considered this LCM in some detail and it was our conclusion as a committee that we should not support it. Clearly, as a result of the abolition of the Audit Commission in England, new arrangements are needed for cross-border drainage boards. However, as our report outlines, we need a proper regime of accountability and I do not feel that, as has already been mentioned, the new English provisions would encourage robust challenge, and we certainly need that in relation to these bodies.

We need to keep in mind as well that they are technically cross-border bodies, but the majority of their operations are in Wales, and it makes perfect sense that both the lower Wye and the Powysland drainage boards be subject to the same audit regime that applies to Caldicot and Wentlooge, as recommended by our committee.

The committee did not feel that it could endorse this consent memorandum, and I see no reason to change my mind now. Today, by some coincidence, we have had notification that the Minister intends to absorb the drainage board's functions and staff into Natural Resources Wales. I assume that he would need to get agreement for that, which he does not have at this point, so let us not jump the gun there. Therefore, I see no reason why this development should alter my group's approach, and we will not be supporting the consent motion today. These organisations may be small, but they carry out extremely valuable work, and I am sorry that the Minister feels that their size should prevent us from dealing with them as recommended. This group will not be supporting him today.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y Gweinidog wedi gwneud datganiad heddiw, ac rwy'n nodi cynnwys y datganiad hwnnw, sy'n ceisio dod â chyfrifoldebau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol, o 2015. Fodd bynnag, rwy'n annog pwyll gan na fyddai, yn fy marn i, yn ddefnydd da o arian cyhoeddus i newid trefniadau archwilio Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, gyda dim ond 12 mis i fynd cyn cyflwyno newid yn ei amgylchiadau o ran cynnwys ei swyddogaethau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Hynny yw, newid y gyfundrefn archwilio dim ond 12 mis cyn i'r sefydliad hwnnw, efallai, gael ei gyfuno â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Felly, mae'r pwyllgor yn argymhell yn glir iawn nad ddylem roi ein cydsyniad i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn. Yn lle hynny, rydym yn credu, hyd yn oed yn y tymor byr, y byddai Cymru'n cael ei gwasanaethu'n well trwy ddefnyddio'r gyfundrefn archwilio sy'n berthnasol ar hyn o bryd i Gil-y-coed a Gwynllŵg, ar gyfer y byrddau draenio mewnol presennol eraill sydd ar hyn o bryd yn bennaf yng Nghymru.

Bydd yr Aelodau eisoes yn gwybod o'r hyn y mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd ei ddweud ein bod, fel pwyllgor, wedi ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn fanwl a'n casgliad fel pwyllgor oedd na ddylem ei gefnogi. Mae'n amlwg bod angen trefniadau newydd ar gyfer byrddau draenio trawsffiniol, o ganlyniad i ddiddymu'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad, mae angen trefn briodol o atebolrwydd ac nid wyf yn teimlo, fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll, y byddai darpariaethau newydd Lloegr yn annog her gadarn, ac yn sicr mae angen hynny arnom mewn cysylltiad â'r cyrff hyn.

Mae angen i ni gadw mewn cof yn ogystal eu bod yn dechnegol yn gyrff trawsffiniol, ond y cynhelir y rhan fwyaf o'u gweithrediadau yng Nghymru, ac mae'n gwneud synnwyr perffaith fod byrddau draenio Gwy Isaf a Powysland yn dilyn i'r un drefn archwilio ag sy'n berthnasol i Gil-y-coed a Gwynllŵg, fel yr argymhellwyd gan ein pwyllgor.

Nid oedd y pwyllgor yn teimlo y gallai gymeradwyo'r memorandwm cydsyniad hwn, ac ni welaf unrhyw reswm i newid fy meddwl yn awr. Heddiw, trwy ryw gyd-ddigwyddiad, rydym wedi cael gwybod bod y Gweinidog yn bwriadu cynnwys swyddogaethau a staff y bwrdd draenio yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n tybio y byddai angen iddo gael cytundeb ar gyfer hynny, nad yw ganddo ar hyn o bryd, felly gadewch inni beidio ag achub y blaen yn hynny o beth. Felly, ni welaf unrhyw reswm pam y dylai'r datblygiad hwn newid agwedd fy ngrŵp, ac ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad heddiw. Efallai fod y sefydliadau hyn yn fach, ond maent yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn, ac mae'n ddrwg gennyf fod y Gweinidog yn teimlo y dylai eu maint ein hatal rhag delio â nhw fel yr argymhellwyd. Ni fydd y grŵp hwn yn ei gefnogi heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:33

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have to confess that I am now confused as to exactly what it is we are being asked to consent to. It is clear that these drainage boards carry a risk, as we have seen from the sorry saga in relation to Caldicot and Wentlooge, which was looked into both by the Wales Audit Office and the Public Accounts Committee. There are substantial financial risks for the local authorities that were involved in that, which were indeed only fortuitously picked up by the Wales Audit Office. So, it is entirely appropriate that the Wales Audit Office, which has developed this expertise in relation to the way in which drainage boards work, also takes on the auditing of the additional two drainage boards, which straddle the border between England and Wales. I was of the view that that is what was happening, but having listened to both Darren Millar and Jocelyn Davies, it would appear that that is not what the Minister is suggesting. I would welcome some clarification on that.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn awr yn ddryslyd o ran beth yn union y gofynnir i ni gydsynio iddo. Mae'n amlwg bod risg ynghlwm wrth y byrddau draenio hyn, fel yr ydym wedi gweld o saga drist Cil-y-coed a Gwynllŵg, a archwiliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae risgiau ariannol sylweddol i'r awdurdodau lleol a oedd yn rhan o hynny, a chodwyd drwy lwc yn unig gan Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, mae'n gwbl briodol bod Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi datblygu'r arbenigedd hwn o safbwynt y ffordd y mae byrddau draenio yn gweithio, hefyd yn ymgymryd ag archwilio'r ddau fwrdd draenio ychwanegol, sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Roeddwn i o'r farn mai dyna beth oedd yn digwydd, ond ar ôl gwrandao ar Darren Millar a Jocelyn Davies, mae'n ymddangos nad dyna y mae'r Gweinidog yn ei awgrymu. Byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ynghylch hynny.

The single most important issue arising out of the abolition of the Audit Commission in England is that public bodies in England will, in future, be allowed to appoint their own auditors. When private companies appoint their own auditors, it is often a way of hiding what they do not want the public to know about. We should be resisting that sort of regime, and I would welcome some clarification from the Minister about what exactly is being proposed.

Yr un mater pwysicaf sy'n deillio o ddiddymu'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr yw bydd gan gyrrff cyhoeddus yn Lloegr, yn y dyfodol, yr hawl i benodi eu harchwilwyr eu hunain. Pan fydd cwmnïau preifat yn penodi eu harchwilwyr eu hunain, mae'n aml yn ffordd o guddio'r hyn nad ydynt am i'r cyhoedd gael gwybod amdano. Dylem fod yn gwrthsefyll trefn o'r fath, a byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad gan y Gweinidog am beth yn union sy'n cael ei gynnig.

17:35

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We share the concerns of the members of the Public Accounts Committee with regard to this LCM, and in the circumstances we will, unfortunately, not be able to support the motion either. The reason for that is the level of concern among members of the Public Accounts Committee with regard to the regime that we investigated at the Caldicot and Wentlooge drainage board. I understand that this is a situation where the audit regime in England means that, in effect, these bodies come under the definition of smaller authorities. That will not only mean that they appoint their own auditors, but that also, as Darren Millar outlined, there will be a light touch within those audit regimes. Although the Minister tries to reassure us that the written statement means that these bodies will be subsumed within Natural Resources Wales, that is a matter and decision that will have to be taken in due course. If that was not to proceed, this light touch, private regime would operate within these three drainage boards.

Rydym yn rhannu pryderon aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, ac yn yr amgylchiadau ni fyddwn, yn anffodus, yn gallu cefnogi'r cynnig ychwaith. Y rheswm am hynny yw lefel y pryder ymhlith aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ran y drefn y gwnaethom ymchwilio iddi ym mwrdd draenio Cil-y-coed a Gwynllŵg. Rwy'n deall bod hon yn sefyllfa lle y mae'r gyfundrefn archwilio yn Lloegr yn golygu bod y cyrrff hyn i bob pwrpas, yn cael eu diffinio fel awdurdodau llai. Bydd hynny'n golygu eu bod yn penodi eu harchwilwyr eu hunain, ond hefyd, fel yr amlinellodd Darren Millar, bydd y cyfundrefnau archwilio hynny'n llai trylwyr. Er bod y Gweinidog yn ceisio ein sicrhau bod y datganiad ysgrifenedig yn golygu y bydd y cyrrff hyn yn cael eu cynnwys o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae hynny'n fater ac yn benderfyniad y bydd yn rhaid ei wneud maes o law. Pe na byddai hynny'n digwydd, byddai'r drefn breifat, lai trylwyr hon yn gweithredu o fewn y tri bwrdd draenio hyn.

As a committee, we were concerned as to why the Government had not brought forward a decision on whether these bodies should have been subsumed within Natural Resources Wales at an earlier stage. There has been some delay, and the original timetable outlined has not been met.

Fel pwyllgor, roeddem yn bryderus ynghylch pam nad oedd y Llywodraeth wedi cyflwyno penderfyniad ynghylch a ddylai'r cyrrff hyn fod wedi cael eu cynnwys o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynharach. Bu rhywfaint o oedi, ac ni chadwyd at yr amserlen a amlinellwyd yn wreiddiol.

17:36

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I have made it clear that this is our preferred policy objective, and we have consulted on this. So, this is something that we have made—[Interruption.] There is no delay, and it is no coincidence that I made a statement this morning—it was to inform the debate this afternoon. This has been through a period of consultation and debate before; Members might have missed it, but that has certainly been the case.

There is a crashing irony in the Conservatives and Liberal Democrats standing up here and saying that we cannot allow these two bodies to be subsumed by the English system, when they are proposing this for public bodies in England. I find that a crashing irony. Perhaps you need to speak to your colleagues across the border and say to them that that system is not right—[Interruption.]

I endorse the findings of the Public Accounts Committee. I wholly agree with the report, and I have made it clear on a number of occasions that I agree with the analysis and conclusions of the report. Had we not been planning to bring forward proposals to bring the internal drainage boards within NRW, we would be seeking to legislate to bring them within the Welsh audit regime, as you suggest should be done. That is the alternative way forward for a long-term solution to this. If I believed for one moment that we would not be able to deliver a process by which the IDBs are subsumed into NRW, and therefore subject to all the different audit regimes of NRW, my alternative would be to establish them as standalone bodies within Wales subject to the Welsh audit regime. I agree with your criticisms of what has been proposed for England, and I completely agree with your view of the robust nature of the audit process available to us in Wales.

I do not for a moment seek to argue that the proposals for England provide the robust independence of audit facilities that I believe is probably needed in that country, and I certainly would not suggest that Members vote for this legislative consent motion if I believed that we would be providing this system for these bodies in the long-term future. As I have made clear, we have a loophole to deal with, and we have a very quick process available to us to bring these bodies within the structures of NRW.

I invite the Assembly to support the policy proposal and to support the legislative consent motion, which would allow the UK coalition Government to legislate on our behalf on this matter, and will enable us to—

Rwyf wedi nodi'n eglur mai dyma yw ein hamcan polisi o ddewis, ac rydym wedi ymgynghori ar hyn. Felly, mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i wneud—[Torri ar draws.] Nid oes unrhyw oedi, ac nid yw'n gyd-ddigwyddiad fy mod wedi gwneud datganiad fore heddiw—roedd hynny er mwyn cyfrannu at y ddadl brynhawn heddiw. Mae cyfnod o ymgynghori a thrafodaeth wedi bod ynglŷn â hyn o'r blaen; efallai bod Aelodau wedi ei gollu, ond mae hynny'n sicr wedi digwydd.

Mae eironi aruthrol yn y ffaith fod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sefyll yma ac yn dweud na allwn ganiatáu i'r ddau gorff gael eu cynnwys yn system Lloegr, pan maent yn cynnig hynny ar gyfer cyrff cyhoeddus yn Lloegr. Rwy'n ystyried hynny'n eironi aruthrol. Efallai bod angen ichi siarad â'ch cydweithwyr ar draws y ffin a dweud wrthynt nad yw'r system honno'n iawn—[Torri ar draws.]

Cymeradwyaf ganfyddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Cytunaf yn llwyr â'r adroddiad, ac rwyf wedi nodi'n eglur ar sawl achlysur fy mod yn cytuno â dadansoddiad a chasgliadau'r adroddiad. Pe na baem wedi cynllunio i gyflwyno cynigion i wneud y byrddau draenio mewol yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru, byddem yn ceisio deddfu i ddod â nhw o fewn y gyfundrefn archwilio yng Nghymru, fel yr awgrymwyd y dylid ei wneud. Dyna'r ffordd arall ymlaen ar gyfer ateb hirdymor i hyn. Pe byddwn yn credu am eiliad na fyddem yn gallu cyflawni proses lle mae'r Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu cynnwys yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, ac felly'n ddarostyngedig i holl wahanol gyfundrefnau archwilio Cyfoeth Naturiol Cymru, fy newis arall fyddai eu sefydlu fel cyrff annibynnol yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio Cymru. Rwy'n cytuno â'ch beirniadaeth chi o'r hyn a gynigir ar gyfer Lloegr, a chytunaf yn llwyr â'ch barn am natur gadarn y broses archwilio sydd ar gael i ni yng Nghymru.

Nid wyf am eiliad yn ceisio dadlau bod y cynigion ar gyfer Lloegr yn darparu'r cyfleusterau archwilio annibynnol, cadarn yr wyf yn credu sy'n angenrheidiol yn y wlad honno yn ôl pob tebyg, ac yn sicr ni fyddwn yn awgrymu bod yr Aelodau'n pleidleisio dros y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn pe byddwn yn credu ein bod yn darparu'r system hon ar gyfer y cyrff hyn yn y dyfodol tymor hir. Fel yr wyf wedi'i ddweud yn glir, mae gennym fwch yn y gyfraith, ac mae proses gyflym iawn ar gael inni i ddod â'r cyrff hyn o fewn strwythurau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwy'n gwahodd y Cynulliad i gefnogi'r cynnig polisi ac i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth glymblaid y DU ddeddfu ar ein rhan ar y mater hwn, a bydd yn ein galluogi i—

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A gymerwch chi ymyriad?

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will not; I have run out of time.

Na wnaf; mae fy amser yn dirwyn i ben.

17:40	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You can take the intervention. I will allow you time to respond fully to the debate.</p>	<p>Gallwch gymryd yr ymyriad. Byddaf yn caniatáu amser ichi ymateb yn llawn i'r ddadl.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:40	<p><b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, the motion before us is a legislative consent motion. You are now asking, in the Chamber, for us to agree to something completely different. That is, the absorption of the functions into Natural Resources Wales.</p>	<p>Weinidog, cynnig cydsyniad deddfwriaethol cynnig sydd ger ein bron. Rydych yn awr, yn y Siambr, yn gofyn inni gytuno i rywbeth hollol wahanol. Hynny yw, cynnwys swyddogaethau yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:40	<p><b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No.</p>	<p>Nac ydw.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:40	<p><b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You are. That is exactly what you just outlined to us. It is ridiculous—</p>	<p>Ydych. Dyna'n union yr ydych newydd ei amlinellu inni. Mae'n chwerthinlyd—</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:40	<p><b>Alun Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No. I am outlining the policy that we will be pursuing in response to what happened in Caldicot and Wentlooge, to the Wales Audit Office report and to the Public Accounts Committee report. We have responded to that in the way that I have described and I am describing to you now the process that we will follow in order to deliver the policy objective that we have, which is to deliver a far more streamlined, effective and robust system of dealing with these matters.</p> <p>However, we have in front of us a legislative consent motion. I would not be asking Members to support this afternoon if I felt that we would be providing for these two rather small bodies the English audit system in perpetuity. I do not believe that we will be doing that, but I believe that we need to close the loophole that exists, where they are not subject to any audit regime. This is very much a short-term solution in order to deliver the longer-term solution of delivering these to NRW, which I am sure there would be very little political disagreement about. That is the direction of travel in which the Government seeks to move. It is not to deliver the English system for these two public bodies in perpetuity.</p> <p>If we were not to have the alternative in place, and if the Assembly says that it does not wish these bodies to go within the structures of NRW, then, yes, it would be our intention to bring forward legislation to bring these two bodies within the Welsh audit system. However, I regard that as very much a second-best option to actually providing for NRW to take over the functions of these bodies.</p>	<p>Na. Rwy'n amlinellu'r polisi y byddwn yn ei ddilyn mewn ymateb i'r hyn a ddigwyddodd yng Nghil-y-coed a Gwynllŵg, i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rydym wedi ymateb i hynny yn y ffordd a ddisgrifiais ac rwy'n disgrifio i chi yn awr y broses y byddwn yn ei dilyn er mwyn cyflawni'r amcan polisi sydd gennym, sef darparu system lawer symlach, mwy effeithiol a chadarnach o ymdrin â'r materion hyn.</p> <p>Fodd bynnag, mae gennym o'n blaenau gynnig cydsyniad deddfwriaethol. Ni fyddwn yn gofyn i Aelodau gefnogi hwn y prynhawn yma pe byddwn yn teimlo y byddem yn darparu system archwilio Lloegr ar gyfer y ddau gorff eithaf bach hyn am byth. Nid wyf yn credu y byddwn yn gwneud hynny, ond rwy'n credu bod angen i ni gau'r bwch sy'n bodoli, lle nad ydynt yn destun unrhyw gyfundrefn archwilio. Ateb tymor byr yw hyn yn sicr, er mwyn cyflawni'r ateb tymor hwy, sef cynnwys y rhain yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n siŵr mai ychydig iawn o anghytuno gwleidyddol a fyddai ynghylch hynny. Dyna'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn ceisio mynd iddo. Nid cyflwyno system Lloegr ar gyfer y ddau gorff cyhoeddus am byth.</p> <p>Pe na byddem yn llwyddo i sefydlu'r dewis arall, a phe byddai'r Cynulliad yn dweud nad yw'n dymuno i'r cyrff hyn ddod yn rhan o strwythurau Cyfoeth Naturiol Cymru, yna, ie, ein bwriad fyddai cyflwyno deddfwriaeth i ddod â'r ddau gorff o fewn system archwilio Cymru. Fodd bynnag, rwy'n ystyried bod hynny'n ddewis ail orau o'i gymharu â darparu i Gyfoeth Naturiol Cymru fabwysiadu swyddogaethau'r cyrff hyn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

In conclusion, I thank the Deputy Presiding Officer for his patience on this. The amendments in the Local Audit and Accountability Bill will ensure that the audit and publication of information for internal drainage boards, whose areas cover both Wales and England, are regularised and addressed in the event of any delay to our wider proposals. If this is rejected, the loophole will continue. There will be no alternative audit structures, as has been outlined by the Public Accounts Committee; there will simply be the loophole. Therefore, I agree, in principle, with the Public Accounts Committee, and I agree with the recommendations and with the analysis. However, I would like to deliver this contingency to enable us to get from where we are today to where we want to be in April 2015 —

Jenny Rathbone a gododd—

I gloi, diolch i'r Dirprwy Lywydd am ei amynedd yn hyn o beth. Bydd y diwygiadau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol yn sicrhau bod y drefn o archwilio a chyhoeddi gwybodaeth ar gyfer byrddau draenio mewnol, y mae eu hardal yn cwmpasu Cymru a Lloegr, yn cael eu cysoni ac yn cael sylw os bydd unrhyw oedi i'n cynigion ehangach. Os bydd hwn yn cael ei wrthod, bydd y bwch yn y gyfraith yn parhau. Ni fydd unrhyw strwythurau archwilio amgen, fel yr amlinellwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; dim ond bwch. Felly, rwy'n cytuno, mewn egwyddor, â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac rwy'n cytuno â'r argymhellion ac â'r dadansoddiad. Fodd bynnag, hoffwn gyflawni'r cynllun wrth gefn hwn er mwyn ein galluogi i symud o'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw i'r sefyllfa yr ydym eisiau bod ynddi ym mis Ebrill 2015 —

Jenny Rathbone rose—

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Do you intend to give way, Minister, to your colleague? A ydych chi'n bwriadu ildio, Weinidog, i'ch cydweithiwr?

17:43 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I will not give way again. Nid wyf am ildio eto.  
To where we want to be in April 2015, when these bodies are brought within the aegis of NRW. I'r sefyllfa yr ydym eisiau bod ynddi ym mis Ebrill 2015, pan fydd y cyrff hyn yn dod yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru.

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are objections, therefore I defer voting under this item until voting time. Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly gohiriaf y pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.  
*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.* *Voting deferred until voting time.*

## Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, amendment 3 in the name of William Graham, and amendments 4, 5, 6 and 7 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5348 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi gwaith GIG Cymru a'i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o'n blaenau.

## NHS and Social Service Plans for Winter Preparedness

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, gwelliant 3 yn enw William Graham, a gwelliannau 4, 5, 6 a 7 yn enw Aled Roberts.*

Motion NDM5348 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the work of the Welsh NHS and its partners in preparing for the coming winter.

17:43 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*  
I move the motion. Cynigiau y cynnig.



I am grateful for the opportunity to discuss the preparation that has been made by the Welsh NHS and its partners, as we face another difficult winter.

In last week's debate on health matters here in the Chamber, I was struck by the way in which Members of all parties set out their support and appreciation of the work that staff carry out, day after day, in providing care for patients in Wales.

In today's debate, the doctors, nurses, porters, ambulance workers and all of those many others who will be on the front line over the coming months need to know that their National Assembly is behind them in their efforts. They need to know that our ambition for them and for their patients is that the service they provide will be safe and successful, despite the pressures we know that they will face.

Those pressures will be real and inescapable. They apply in Wales, as they apply in all other parts of the United Kingdom. No-one opening a newspaper or listening to the radio over recent days will have failed to read the accounts. For instance, conditions at an accident and emergency department in Belfast have been described as

'worse than anywhere else in the UK'

by the College of Emergency Medicine, and unsustainable against the forthcoming winter. In Scotland, 'crammed' accident and emergency departments suffer from acute staff shortages and the impact of a new strain of *Clostridium difficile*, and in England, the president of the College of Emergency Medicine predicted, only last week, that the coming winter is set to,

'be worse than the last winter which itself was the worst we have ever had'.

I point to those things not in any way to carp at or to be critical of efforts being made elsewhere in the United Kingdom, but simply to point out that Wales is quite certainly not immune to these pressures. Here, too, last winter extended into March and April, with an end to winter that was unlike any other for more than half a century before it. Here, too, the impact on our unscheduled care services was profound.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i drafod y gwaith paratoi sydd wedi ei wneud gan y GIG yng Nghymru a'i bartneriaid, wrth i ni wynebu gaeaf anodd arall.

Yn y ddadl yr wythnos diwethaf ar faterion iechyd yma yn y Siambwr, cefais fy nharo gan y ffordd y mae Aelodau o bob plaid yn nodi eu cefnogaeth a'u gwerthfawrogiad o'r gwaith y mae staff yn ei wneud, ddydd ar ôl dydd, wrth ddarparu gofal i gleifion yng Nghymru.

Yn nabl heddiw, mae angen i'r meddygon, nyrsys, porthorion, gweithwyr ambiwlans a phob un o'r nifer o rai eraill a fydd ar y rheng flaen yn ystod y misoedd nesaf yn gwybod bod eu Cynulliad Cenedlaethol yn eu cefnogi yn eu hymdrechion. Mae angen iddynt wybod mai ein huchelgais ar eu cyfer hwy ac ar gyfer eu cleifion yw y bydd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn ddiogel ac yn llwyddiannus, er gwaethaf y pwysau yr ydym yn gwybod y byddant yn ei wynebu.

Bydd y pwysau hwnnw'n wirioneddol ac yn anochel. Mae'n berthnasol yng Nghymru, fel y mae'n berthnasol ym mhob rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Ni fydd unrhyw un sydd wedi agor papur newydd neu wrando ar y radio yn ystod y dyddiau diwethaf wedi methu â darllen yr hanesion. Er enghraifft, mae amodau mewn adran damweiniau ac achosion brys yn Belfast wedi cael eu disgrifio fel bod:

yn waeth nag yn unman arall yn y DU

gan y Coleg Meddygaeth Frys, ac yn anghynladwy yn erbyn y gaeaf sydd i ddod. Yn yr Alban, mae adrannau damweiniau ac achosion brys 'llawn dop' yn dioddef o brinder staff difrifol ac effaith math newydd o *Clostridium difficile*, ac yn Lloegr, rhagwelodd llywydd y Coleg Meddygaeth Frys, dim ond yr wythnos diwethaf, y bydd y gaeaf sydd ar ddod:

yn waeth na'r gaeaf diwethaf a oedd ei hun y gwaethaf yr ydym erioed wedi ei gael.

Tynnaf sylw at y pethau hynny nid mewn unrhyw ffordd i gwyno ynghylch neu i fod yn feirniadol o ymdrechion sy'n cael eu gwneud mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, ond yn syml i dynnu sylw at y ffaith nad yw Cymru yn ddiogel, yn bendant iawn, rhag y pwysau hwn. Yma, hefyd, ymestynnodd y gaeaf diwethaf i fis Mawrth ac i fis Ebrill, gyda diwedd i'r gaeaf a oedd yn wahanol i unrhyw un arall am fwy na hanner canrif cyn hynny. Yma, hefyd, gwelwyd effaith ddifrifol ar ein gwasanaethau gofal heb ei drefnu.

When I became Minister for health, I said that planning and preparing for the winter of 2013-14 was one of my top three priorities. This afternoon, I want to set out, very rapidly, the actions that have been taken in the months that have followed. In comparison with this time last year, we have a new national clinical lead, Dr Grant Robinson, appointed and in place to provide senior leadership to unscheduled care services in Wales. We have created a new national planning forum, involving all the major organisations—the Royal College of Nursing, the College of Emergency Medicine and so on—to co-ordinate our efforts across all LHBs. We have injected £150 million into the NHS, to help create resilience against rising demand and the post-Francis safety and quality agenda. We made £10 million of that sum available before the summer break, so that nurse recruitment on the wards could be set in motion before the onset of winter, and we have significantly reduced the time taken to carry out that recruitment to help get staff into post. We have introduced new schemes to divert demand into community pharmacies in Wales, including flu vaccination, to free up other parts of the primary care team to help keep more fragile elderly people in their homes this winter.

We have moved progressively to implement the recommendations of the McClelland review of the Welsh ambulance service, so that the performance of that service has improved month on month ever since we emerged from the worst of last winter, and so that we go into the winter months ahead with a far better platform than this time last year. The same is true of our accident and emergency departments, which go into this winter in a better place against all key indicators than was the position this time in 2012.

While touching on performance against targets, let me say, once again, that I am determined to act over this winter to reform the unscheduled care regime targets here in Wales, so that they focus fully on achieving the best outcomes for patients. Members will have read, only last week, the National Audit Office report that identified the four-hour A&E waiting time target as,

'one of the main reasons for the increase in short-stay emergency admissions'

in English hospitals. I am determined to eliminate such perversities, where they exist in our system here in Wales.

Pan ddeuthum i'r swydd Gweinidog iechyd, dywedais fod cynllunio a pharatoi ar gyfer gaeaf 2013-14 yn un o fy nhair prif flaenoriaeth. Y prynhawn yma, rwyf am nodi, yn gyflym iawn, y camau a gymerwyd yn ystod y misoedd dilynol. O'i gymharu â'r adeg yma y llynedd, mae gennym arweinydd clinigol cenedlaethol newydd, Dr Grant Robinson, wedi'i benodi a'i sefydlu i ddarparu arweinyddiaeth uwch i wasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Rydym wedi creu fforwm cynllunio cenedlaethol newydd, sy'n cynnwys yr holl brif sefydliadau—Coleg Brenhinol y Nyrsys, y Coleg Meddygaeth Frys ac yn y blaen—i gydgyssylltu'n hymdrechion ar draws pob BILl. Rydym wedi cyfrannu £150 miliwn i mewn i'r GIG, er mwyn helpu i greu gwytnwch yn erbyn y galw cynyddol a'r agenda diogelwch ac ansawdd ôl-Francis. Sicrhawyd bod £10 miliwn o'r swm hwnnw ar gael cyn toriad yr haf, fel y gellid dechrau recriwtio nyrsys ar y wardiau cyn i'r gaeaf ddod, ac rydym wedi lleihau'r amser a gymerir i wneud y recriwtio hwnnw yn sylweddol i helpu i gael staff mewn swyddi. Rydym wedi cyflwyno cynlluniau newydd i ddargyfeirio galw i fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys y brechiad rhag y fflw, i ryddhau rhannau eraill o'r tîm gofal sylfaenol i helpu i gadw pobl hŷn fwy bregus yn eu cartrefi y gaeaf hwn.

Rydym wedi symud yn raddol i weithredu argymhellion adolygiad McClelland o wasanaeth ambiwlans Cymru, fel bod perfformiad y gwasanaeth wedi gwella fis ar ôl mis byth ers i ni ddod drwy'r gwaethaf o'r gaeaf diwethaf, ac fel ein bod yn mynd i mewn i fisoedd y gaeaf sydd o'n blaenau gyda llwyfan llawer gwell na'r adeg hon y llynedd. Mae'r un peth yn wir am ein hadrannau damweiniau ac achosion brys, sy'n mynd i mewn i'r gaeaf hwn mewn lle gwell yn erbyn yr holl ddangosyddion allweddol nag oedd y sefyllfa ar yr adeg hon yn 2012.

Tra fy mod yn sôn am berfformiad yn erbyn targedau, gadewch i mi ddweud, unwaith eto, fy mod yn benderfynol o weithredu dros y gaeaf hwn i ddiwygio targedau'r gyfundrefn gofal heb ei drefnu yma yng Nghymru, fel eu bod yn canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion. Bydd yr Aelodau wedi darllen, dim ond yr wythnos diwethaf, adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a nododd yr amser aros o bedair awr mewn adran damweiniau ac achosion brys fel:

un o'r prif resymau dros y cynnydd mewn derbyniadau brys arosiadau byr

mewn ysbytai yn Lloegr. Rwy'n benderfynol o gael gwared ar groesineb o'r fath, lle mae'n bodoli yn ein system yma yng Nghymru.

Planning and preparation have to happen at a national level, but services are provided through local health boards and their partners, as set out in their local plans, which are being published. That is why the Deputy Minister for Social Services, the Minister for local government and I have met all LHBs and all local authorities in Wales together, to discuss the practical actions that they are taking to work together over the coming months. These plans at the front line, to give you just a few examples, include: the deployment of senior consultants at the front door of hospitals in the Aneurin Bevan LHB area, so that incoming patients can be admitted directly to wards, rather than having to pass through A&E departments; the focus in Cwm Taf on working directly with nursing homes to reduce attendances at A&E; the 39 extra nurses already recruited and in post at ABMU; the additional specialist nurse capacity to be deployed in Powys; the seven-day-a-week working by social workers in the Betsi Cadwaladr area; and the two-day reduction in the average length of stay in Cardiff and Vale LHB, against a background where a half a day reduction in length of stay across Wales is equivalent to 350 beds released back into the Welsh NHS. At Hywel Dda, there is the possible recalibration between planned elective surgery and emergency orthopaedic capacity, so that it can deal effectively with the demands that it knows that it will face. This option is being discussed widely with staff at the LHB. No decision will be made until the board next meets on 28 November.

As I have said before, in this Chamber, it is an impossible position for opposition parties to demand that local health boards take actions to prepare for the winter and immediately carp and criticise the minute that those preparations are made.

I hope that, from all that I have said this afternoon, it will be clear that the Government side will support amendments 2, 3 and 5, which provide constructive suggestions for ways of improving winter planning further for the future. We will reject amendments 1 and 4 because they misunderstand and misrepresent the Hywel Dda position. We will reject amendment 6 because it is backward-looking and, I think, ill-conceived. We will also reject amendment 7 because no matter how flawless the planning, it is a simple practical impossibility to ensure, as the amendment requires, that any delays are avoided and that not a single operation should be postponed.

Ar ôl dweud hynny, rwy'n edrych ymlaen at y ddadl y prynhawn yma ac at glywed cyfraniadau a fydd yn adeiladol, rwy'n siŵr, gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr. Diolch yn fawr.

Mae'n rhaid i gynllunio a pharatoi ddigwydd ar lefel genedlaethol, ond mae gwasanaethau'n cael eu darparu drwy fyrddau iechyd lleol a'u partneriaid, fel y nodir yn eu cynlluniau lleol, sy'n cael eu cyhoeddi. Dyna pam y mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Llywodraeth leol a minnau wedi cwrrd â phob BILL a phob awdurdod lleol yng Nghymru gyda'i gilydd, i drafod y camau ymarferol y maent yn eu cymryd i weithio gyda'i gilydd dros y misoedd nesaf. Mae'r cynlluniau hyn ar y rheng flaen, i roi ychydig o enghreifftiau i chi, yn cynnwys: y defnydd o uwch ymgynghorwyr wrth ddrws ffyrnt ysbytai yn ardal BILL Aneurin Bevan, fel y gall cleifion sy'n dod i mewn gael eu derbyn yn uniongyrchol i wardiau, yn hytrach na gorfod mynd trwy adrannau damweiniau ac achosion brys; y ffocws yng Nghwm Taf ar weithio'n uniongyrchol gyda chartrefi nyrsio i leihau presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys; y 39 o nyrsys ychwanegol sydd eisoes wedi eu recriwtio ac mewn swydd ym Mhrifysgol Abertawe Bro Morgannwg; y gallu nyrs arbenigol ychwanegol sydd i gael ei ddefnyddio ym Mhowys; y gweithio saith diwrnod yr wythnos gan weithwyr cymdeithasol yn ardal Betsi Cadwaladr; a'r gostyngiad o ddau ddiwrnod yn hyd cyfartalog arhosiad ym Mwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro, yn erbyn cefndir sy'n golygu bod gostyngiad hanner diwrnod yn hyd yr arhosiad ledled Cymru yn gyfystyr â 350 o welyau yn cael eu rhyddhau yn ôl i'r GIG yng Nghymru. Yn Hywel Dda, ceir yr ailgalibro posibl rhwng llawdriniaethau dewisol a gynlluniwyd a gallu orthopedig brys, fel y gall ymdrin yn effeithiol â gofynion y mae'n gwybod y bydd yn eu hwynebu. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei drafod yn eang gyda staff yn y BILL. Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gwneud tan fydd y bwrdd yn cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd.

Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, yn y Siambr hon, mae'n sefyllfa amhosibl i'r gwrthbleidiau fynnu bod byrddau iechyd lleol yn cymryd camau i baratoi ar gyfer y gaeaf a chwyno a beirniadu'n syth y munud y mae'r paratoadau hynny'n cael eu gwneud.

Rwy'n gobeithio, o'r cyfan yr wyf wedi'i ddweud y prynhawn yma, y bydd yn amlwg y bydd ochr y Llywodraeth yn cefnogi gwelliannau 2, 3 a 5, sy'n cynnig awgrymiadau adeiladol o ran ffyrdd o wella cynllunio ar gyfer y gaeaf ymhellach ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gwrthod gwelliannau 1 a 4 am eu bod yn camddeal ac yn camgyfleu sefyllfa Hywel Dda. Byddwn yn gwrthod gwelliant 6 gan ei fod yn edrych yn ôl ac, yn fy marn i, wedi'i lunio'n wael. Byddwn hefyd yn gwrthod gwelliant 7 oherwydd pa bynnag mor ddi-wall yw'r cynllunio, mae'n syml yn ymarferol amhosibl i sicrhau, fel y mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol, bod unrhyw oediadau yn cael eu hosgoi ac na ddylid gohirio unrhyw lawdriniaeth.

Having said that, I am looking forward to the debate this afternoon and to hearing the contributions that will be constructive, I am sure, from Members on all sides of the Chamber. Thank you.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn ei henw.

I have selected the seven amendments to the motion and I call on Elin Jones to move amendments 1 and 2 that were tabled in her name.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y penderfyniad i ohirio llawdriniaethau orthopedig yn ardal Hywel Dda.*

*Regrets the postponement of orthopaedic operations in the Hywel Dda area.*

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.*

*Believes that planning for winter pressures should be a routine matter and should not lead to deterioration of services.*

17:52

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiau welliannau 1 a 2.

I move amendments 1 and 2.

Efallai taw'r peth cyntaf i'w ddweud mewn dadl o'r fath yw bod y gaeaf yn digwydd bob blwyddyn, yn weddol o 'routine'. Nid yw'r gaeaf ei hun yn sioc i neb, gan gynnwys yr NHS a Llywodraeth Cymru. Hefyd, nid yw'r gaeaf yn unfurf wrth gwrs. Yr hyn sy'n rhoi pwysau penodol ac anghyffredin ar yr NHS yw'r cyfnodau hynny pan fydd y tymheredd yn gostwng at rewi a thu hwnt i rewi. Mae hyn yn cael ei ddangos yn glir iawn yn ystadegau'r gaeaf diwethaf, gaeaf 2012-13, a'r dangosyddion sy'n cael eu heffeithio gan dywydd oer, er enghraifft amseroedd aros mewn unedau argyfwng, yr amser 'hand-over' o'r ambiwlans i'r ysbyty, a'r amser rhyddhau claf o'r ysbyty—'delayed discharge of care'. I'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, roedd y 'peak' yn y ffigurau hyn y llynedd nid yn Rhagfyr, Ionawr na Chwefror, ond yn hytrach ym mis Mawrth ac ym mis Ebrill. Dywedodd y Gweinidog ei hun bod y gaeaf yn hwyr, a dwyster ac oerni'r gaeaf yn digwydd ym mis Mawrth a mis Ebrill. Dyna pryd yr oedd y cyfnod pan oedd y problemau a'r pwysau mwyaf penodol, mwyaf amlwg, yn yr ystadegau a oedd o'n blaenau ni fel y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar, yn y graffiau a ddangosodd y Gweinidog ei hun i ni. Eleni, roedd y pwysau dwys hynny ar y gwasanaeth iechyd yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, nid ym mis Tachwedd. Fel y dywedodd Joyce Watson ynghynt y prynhawn yma, mae'r rhosys yn ei gardd hi yn tyfu ac yn blodeuo eleni ym mis Tachwedd. Felly, y cwestiwn sy'n fy nharo i ar y pwynt hwn yw: a oes gwir angen i fwrdd iechyd fel Hywel Dda i ohirio llawdriniaethau orthopedig ym mis Tachwedd? Maen nhw'n cael eu gohirio nawr. Mae tystiolaeth glir iawn gan gleifion yn fy etholaeth i yn dangos bod eu llawdriniaethau wedi eu gohirio gan eu hymgynghorwyr hyd yn oed cyn y dyddiad hwnnw o 28 Tachwedd y cyfeiriodd y Gweinidog ato.

Perhaps the first thing to say in a debate of this sort is that the winter happens annually, relatively routinely. The winter in itself does not come as a surprise to anyone, including the NHS and the Welsh Government. Also, the winter is not uniform. What places particular and unusual pressure on the NHS are those periods when the temperature drops to freezing point and beyond. This is demonstrated clearly in the statistics for last winter, 2012-13, and the indicators that are affected by cold weather, such as waiting times in accident and emergency units, the hand-over time from ambulance to hospital, and the time taken to release patients from hospital—the delayed discharge of care. For most of the health boards, the peak in these figures for last year was not in December, January or even February, but in March and April. The Minister himself said that the winter was late in arriving, with the worst weather arriving in March and April. That was when the most specific and apparent problems emerged in the statistics before us as the Health and Social Care Committee recently, in the graphs that the Minister himself showed us. This year, that intensive pressure on the health service happened in March and April, not in November. As Joyce Watson told us earlier this afternoon, the roses in her garden are in full bloom in November. So, the question that strikes me on this point is: is there truly a need for a health board, such as Hywel Dda, to postpone orthopaedic operations in November? They are being postponed now. Patients in my constituency have clear evidence that their operations have been postponed by their consultants even before that date of 28 November to which the Minister referred.

Felly, mae'r triniaethau yn cael eu gohirio nawr ym mis Tachwedd er bod tymheredd y mis hwn yn weddol o fwy a'r rhosys yn tyfu yn ein gerddi ni. Mae'r pwynt hwn yn cael ei wneud gyda fy nhafod ychydig yn fy moch, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf o dan unrhyw amheuaeth erbyn hyn mai pwysau ariannol sydd wrth wraidd penderfyniad bwrdd iechyd Hywel Dda i ohirio llawdriniaethau orthopedig, ac mai rhyw fath o esgus cyfleus yw cuddio y tu ôl i bwysau'r gaeaf. Hyd yn hyn, wrth gwrs, nid yw bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cyhoeddi ei gynllun paratoi ar gyfer y gaeaf. Credaf y bydd y cynllun hwnnw'n cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf. Felly, nid ydym yn gallu craffu o ddifrif ar sut y bydd canslo llawdriniaethau yn helpu i leihau problemau sy'n deillio o'r tywydd oer. A ydym yn disgwyl gweld y llawfeddygon orthopedig hynny, a'r nyrsys sydd ar y wardiau penodol hynny, i lawr yn yr adran ddamweiniau neu allan yn y gymuned, yn atal pobl rhag cyrraedd 'A&E'? Rwyf yn amau'n fawr a yw'r gwasanaeth iechyd a'r gweithluoedd o fewn ysbytai yn ddigon hyblyg i ymateb yn y modd hwnnw ar hyn o bryd.

Mae Ilora Finlay yn gwneud gwaith i'r Gweinidog ar 'unscheduled care'. Pan ddaeth hi i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar, crislodd un o brif broblemau'r gwasanaeth iechyd, pan ddywedodd fod yr NHS, a'r ysbytai yn benodol, yn derbyn pobl 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, ond eu bod ond yn rhyddhau pobl o'r ysbytai hynny rhyw bedwar diwrnod a hanner yr wythnos. Mae hynny'n creu'r 'blockages' hyn yn ein gwasanaeth iechyd ac, yn benodol, yn ein hysbytai. Wrth gwrs, yn enwedig yn y cyfnodau oer hynny yn y gaeaf, pan fydd rhagor o bobl a chleifion yn dod drwy'r drws ffrynt, mae hynny'n creu problemau penodol.

Felly, yn fy marn i, yr hyn sydd angen ei ystyried yn awr yw caniatáu i'r NHS a gwasanaethau cymdeithasol fod yn fwy hyblyg. Amlinellodd y Gweinidog rai o'r camau y mae rhai byrddau iechyd yn eu cymryd. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth mai drwy greu mwy o hyblygrwydd ac integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, yn y tymor hir, y gall y materion hyn o ran paratoi ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol fod yn llawer mwy 'seamless' yn y gaeaf a thu hwnt. Dyna pam y mae Plaid Cymru yn arbennig o falch ein bod wedi dod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru a'r 'Lib Dems' i gyflwyno cronfa ofal integredig a fydd yn hyrwyddo ac yn symleiddio integreiddio rhwng gwasanaethau, fel bod ein cleifion yn cael y gwasanaeth integredig y maent yn ei haeddu yn ystod y gaeaf a thrwy'r flwyddyn.

Therefore, the operations are being postponed now in November although the temperatures this month are relatively clement and the roses are growing in our gardens. This point is made in a slightly tongue-in-cheek way, but I do have to say that I am now under no doubt that it is financial pressure that is at the heart of the decision taken by Hywel Dda Local Health Board to postpone orthopaedic surgery, and that hiding behind winter pressures is a convenient excuse. To date, Hywel Dda health board has not published its winter preparedness plan. I believe that that plan will be published next week. Therefore, we cannot truly scrutinise how cancelling operations assists in reducing cold weather problems. Would we expect to see those orthopaedic surgeons and the nurses from those wards down in the A&E department or out in the community, preventing people from going to A&E? I doubt very much whether the NHS and hospital workforces are flexible enough to respond in that way at present.

Ilora Finlay is doing work for the Minister on unscheduled care. When she came to the Health and Social Care Committee recently, she summed up one of the main problems of the health service, when she said that the NHS, and hospitals particularly, were admitting patients 24-hours a day, seven days a week, but only discharging people on some four and a half days a week. That creates these blockages in our health service and, specifically, in our hospitals. Of course, especially during cold winter periods, when more people and patients come through the front door, that creates specific problems.

Therefore, in my opinion, what needs to be looked at now is to allow the NHS and social services to be more flexible. The Minister outlined some of the steps that some health boards are taking. However, there is no doubt that it is by providing greater flexibility and integrating health and social services that, in the long term, these issues of preparing health and social services to be much more seamless in the winter and beyond can be achieved. That is why Plaid Cymru is particularly proud that we came to an agreement with the Welsh Government and the Lib Dems to introduce an integrated care fund that will promote and simplify integration between services, so that our patients are provided with the integrated service that they deserve during the winter and throughout the year.

17:57

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 3 yn enw William Graham.

*Gwelliant 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a*

I call Darren Millar to move amendment 3 in the name of William Graham.

*Amendment 3—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls upon the Welsh Government to:*

*a) publish an annual National Winter Preparedness Plan for the Welsh NHS; and*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*b) cytuno bod cynlluniau o'r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.*

*b) agree that such plans be subjected to a post implementation evaluation to determine their effectiveness.*

17:57

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 3 in the name of William Graham.

I am very pleased that we are having this debate today. It is something that we have called for as an opposition party, and we are very grateful to the Government for acceding to our request. It is mid November and winter is well on the way. The first thing that I would want to recognise is that the NHS has been preparing better than it has in previous years for the cold weather that is ahead, and that it has been doing so in conjunction with local authorities and other partners, which is a positive step in the right direction. That said, I am very disappointed that we are at this late stage, in late November, and that most of the health boards in Wales are yet to publish their plans for public scrutiny. Many of them will not be signing off those proposals until towards the end of this month, or even in December. It is rather premature, perhaps, for us to be having this debate when there is no nationally identified and publicly available plan from each health board for us to be able to scrutinise.

The chief executive of NHS Wales was before the Public Accounts Committee this morning. It was quite clear, from the evidence that he gave to us, that Hywel Dda's plan is not going to be signed off until 28 November, and that the health board has been rapidly trying to row back from the announcement that it made, very clearly and unambiguously, on 21 October, that there would be many operations postponed as a result of its plans to deal with winter pressures. If it made that announcement on 21 October, why is that announcement not being firmed up until 28 November? The Minister says that this is a recalibration exercise of elective versus non-elective surgery. I find that an extraordinary word to use, Minister, and I challenge you to use it to those many people throughout the Hywel Dda area who have received letters telling them that their operations have been cancelled as a result of the pressure that our NHS is under. We know that last winter was very harsh. We know that concerns were raised by the BMA, by the College of Emergency Medicine and others—I think that it was the College of Emergency Medicine that said that our A&E departments were at the point of meltdown when it came to the winter of last year. So, I think that it is important that we are having this debate, in order to move things forward.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiad welliant 3 yn enw William Graham.

Rwy'n falch ein bod yn cael y ddadl hon heddiw. Mae'n rhywbeth yr ydym wedi galw amdano fel gwrthblaid, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r Llywodraeth am gytuno i'n cais. Mae'n ganol mis Tachwedd a'r gaeaf yn sicr ar y ffordd. Y peth cyntaf y byddwn yn dymuno ei gydnabod yw bod y GIG wedi bod yn paratoi yn well nag y mae wedi bod yn ei wneud yn y blynyddoedd blaenorol ar gyfer y tywydd oer sydd o'n blaenau, a'i fod wedi bod yn gwneud hynny ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, sy'n gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir. Wedi dweud hynny, rwy'n siomedig iawn ein bod ar y cam hwyr hwn, yn hwyr ym mis Tachwedd, a bod y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yng Nghymru eto i gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer craffu cyhoeddus. Mae llawer ohonynt na fyddant yn cymeradwyo'r cynigion hynny tan tua diwedd y mis hwn, neu hyd yn oed ym mis Rhagfyr. Mae hi braidd yn gynnar, efallai, i ni fod yn cael y ddadl hon pan nad oes cynllun wedi'i nodi'n genedlaethol a chynllun sydd ar gael i'r cyhoedd gan bob bwrdd iechyd i ni allu craffu arnynt.

Roedd prif weithredwr GIG Cymru gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma. Yr oedd yn eithaf clir, o'r dystiolaeth a roddodd i ni, nad yw cynllun Hywel Dda yn mynd i gael ei gymeradwyo tan 28 Tachwedd, a bod y bwrdd iechyd wedi bod yn ceisio tynnu'n ôl yn gyflym oddi wrth y cyhoeddiad a wnaeth, yn glir iawn ac yn ddiamwys, ar 21 Hydref, y byddai llawer o lawdriniaethau'n cael eu gohirio o ganlyniad i'w gynlluniau i ymdrin â phwysau'r gaeaf. Os yw wedi gwneud y cyhoeddiad hwnnw ar 21 Hydref, pam nad yw'r cyhoeddiad hwnnw'n cael ei gadarnhau tan 28 Tachwedd? Dywed y Gweinidog fod hwn yn ymarfer ailgalibro o lawdriniaeth ddewisol yn erbyn llawdriniaeth nad yw'n ddewisol. Rwy'n ystyried hwnnw'n air rhyfedd iawn i'w ddefnyddio, Weinidog, ac rwy'n eich herio i'w ddefnyddio gyda'r nifer fawr o bobl hynny ledled ardal Hywel Dda sydd wedi derbyn llythryau yn dweud wrthynt fod eu llawdriniaethau wedi cael eu canslo o ganlyniad i'r pwysau sydd ar ein GIG. Gwyddom fod y gaeaf diwethaf wedi bod yn galed iawn. Gwyddom fod pryderon wedi'u codi gan Gymdeithas Feddygol Prydain, gan y Coleg Meddygaeth Frys ac eraill—rwy'n meddwl mai'r Coleg Meddygaeth Frys a ddywedodd bod ein hadrannau damweiniau ac achosion brys mewn argyfwng dybryd pan ddaeth gaeaf y llynedd. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cael y ddadl hon, er mwyn symud pethau ymlaen.

We will support all of the amendments before the Chamber today. I have already touched on the Hywel Dda situation. The Lib Dems' amendment 7 talks about the dramatic cut in the number of beds in the NHS. The Minister is quite right; the timeliness of getting people discharged from hospital when they do not need to be there is freeing up some capacity. That is going to have a positive impact this winter, but will it be enough, particularly with the reorganisation proposals coming forward across Wales? They propose cuts in excess of the gains that are being made as a result of the improvements in the discharge planning process, which the Minister has alluded to. So, you create extra bed capacity with one hand, and you chop it off with the other as a result of the reorganisation proposals. I am not sure that the NHS will be able to cope. I have not seen all the proposals yet, because they are not in the public domain, as we have already made clear, so I have no idea how the Minister can say to us with any confidence that he expects the NHS to be able to meet the demands that will be before it over the cold weather period when he has not seen the plans either, because they have not been published. I find that absolutely remarkable.

I think that it is important also that the Minister set some ambitious targets for the prevention of ill health. The flu vaccine, for example, has a really important part to play in that. To be fair, the Government has made strides in the right direction to try to achieve a better result when it comes to ensuring that older people and younger people, in particular, are protected by the flu vaccine. However, contrast the situation in England against that in Wales when it comes to NHS staff. In England, there is a 75% target for all NHS staff to be vaccinated against the flu. In Wales, it is only 50% this year, and only 35% of people were actually vaccinated in the previous 12 months. So, I think, Minister, that we have to be a bit more ambitious, we desperately need a national plan, we do not need it at such a late date as this, and we have to make sure that it is available for public scrutiny. So, I am disappointed all round that, today, Minister, you think that you can stand there and tell us with confidence that the NHS will be able to cope when you have no evidence to back that up.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau sydd gerbron y Siambur heddiw. Rwyf eisoes wedi sôn am sefyllfa Hywel Dda. Mae gwelliant 7 y Democratiaid Rhyddfrydol yn sôn am y toriad dramatig yn nifer y gwelyau yn y GIG. Mae'r Gweinidog yn llygad ei lle; mae prydlondeb rhyddhau pobl o'r ysbyty pan nad oes angen iddynt fod yno yn golygu bod rhywfaint mwy o welyau ar gael. Mae hynny'n mynd i gael effaith gadarnhaol y gaeaf hwn, ond a fydd yn ddigon, yn enwedig gyda'r cynigion ad-drefnu sy'n cael eu cyflwyno ar draws Cymru? Maent yn cynnig toriadau sy'n fwy na'r enillion sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r gwelliannau yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion, y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ati. Felly, rydych chi'n creu gwelyau ychwanegol gydag un llaw, ac rydych yn torri hynny â'r llall o ganlyniad i'r cynigion ad-drefnu. Nid wyf yn siŵr y bydd y GIG yn gallu ymdopi. Nid wyf wedi gweld yr holl gynigion eto, oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r cyhoedd, fel yr ydym eisoes wedi ei wneud yn glir, felly nid oes gennyf unrhyw syniad sut y gall y Gweinidog ddweud wrthym gydag unrhyw hyder ei fod yn disgwyl i'r GIG fod yn gallu diwallu'r gofynion a fydd o'i flaen yn ystod y cyfnod tywydd oer pan nad yw yntau wedi gweld y cynlluniau ychwaith, oherwydd nad ydynt wedi eu cyhoeddi. Rwyf yn gweld hynny'n gwbl ryfeddol.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig hefyd bod y Gweinidog yn gosod rhai targedau uchelgeisiol ar gyfer atal salwch. Mae gan y brechlyn fflw, er enghraifft, ran bwysig iawn i'w chwarae yn hynny o beth. I fod yn deg, mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i'r cyfeiriad cywir i geisio sicrhau gwell canlyniad o ran sicrhau bod pobl hŷn a phobl iau, yn arbennig, yn cael eu hamddiffyn gan y brechlyn fflw. Fodd bynnag, cyferbynnwch y sefyllfa yn Lloegr â'r sefyllfa yng Nghymru o ran staff y GIG. Yn Lloegr, ceir targed o 75% ar gyfer holl staff y GIG i gael eu brechu yn erbyn y fflw. Yng Nghymru, nid yw ond 50% eleni, a dim ond 35% o bobl gafodd eu brechu mewn gwirionedd yn y 12 mis blaenorol. Felly, yn fy marn i, Weinidog, mae'n rhaid i ni fod ychydig yn fwy uchelgeisiol, mae gwir angen cynllun cenedlaethol arnom, nid oes ei angen arnom ar ddyddiad mor hwyr â hyn, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ei fod ar gael ar gyfer craffu cyhoeddus. Felly, rwy'n siomedig yn gyffredinol, heddiw, Weinidog, eich bod yn meddwl y gallwch sefyll yn y fan yna a dweud wrthym yn hyderus y bydd y GIG yn gallu ymdopi pan nad oes gennyf unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.

18:02

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 4 i 7, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu at gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ohirio'r holl lawdriniaethau orthopedig dewisol dros y gaeaf.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

I call on Kirsty Williams to move amendments 4 to 7, which were tabled in the name of Aled Roberts.

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets Hywel Dda Local Health Board's proposed plans to postpone all elective orthopaedic surgery over the winter.*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.*

Gwelliant 6—Aled Roberts

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu at y ffaith y cafodd 2,600 o lawdriniaethau eu gohirio y llynedd oherwydd bod mwy o bwysau dros y gaeaf ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol er mwyn osgoi unrhyw achosion o oedi neu ganslo llawdriniaethau oherwydd pwysau'r gaeaf yn y dyfodol.*

Gwelliant 7—Aled Roberts

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu at y ffaith bod 2,713 yn llai o welyau mewn ysbytai yng Nghymru nag a oedd yn 2003, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael er mwyn helpu i ateb yr her a ddaw yn sgîl y galw dros y gaeaf.*

*Calls on the Welsh Government to publish each Local Health Board's winter preparation plan.*

Amendment 6—Aled Roberts

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that 2,600 operations were postponed last year due to increased winter pressures and calls on the Welsh Government to work with Local Health Boards to avoid any delays or cancelled operations due to winter pressures in the future.*

Amendment 7—Aled Roberts

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that there are 2,713 fewer hospital beds in Wales than in 2003 and calls on the Welsh Government to increase the number of beds available to help meet the challenge of winter demand.*

18:02

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 4, 5, 6 and 7.

I begin by acknowledging that it is inescapable that NHS services will be put under greater pressure during the winter months. The Minister is absolutely right: there is not a single part of the NHS in the United Kingdom that is not having to face up to these very real challenges. As has been mentioned previously, winter should not come as a surprise to us, or to the NHS, and we should be able to predict with a reasonable amount of accuracy what kind of demands will be placed on the service with each drop by a degree in the temperature outside. We can predict at which point those with underlying chronic illnesses will see a deterioration in their conditions and will look for medical support, we can predict the likelihood of an increase in the number of slips, falls and accidents related to the weather, and we should be able to put in place a set of contingencies to deal with those. Of course, we may get lucky; it might be a mild winter and viruses might pass us by, but we cannot rely on that. Hope is not a strategy; what we need is to plan and prepare for the worst and hope that it will not come to pass.

I saw at first hand last year the immense strain that front-line staff were put under as patient after patient after patient came through the doors when they had no place to put them and no way to admit them to hospital. The patients just kept coming. We owe it to the patients, and to the staff in our hospitals, for the managers and the Welsh Government to get their plans right this year, to avoid the long waits for ambulances and the trolley waits in A&E, along with the adverse impact on those people who, through no fault of their own, require elective treatment during the winter months. Their pain, their discomfort and their need does not go away just because it is December or January.

Cynigiad welliannau 4, 5, 6 a 7.

Dechreuaf drwy gydnabod ei bod yn anochel y bydd gwasanaethau'r GIG yn cael eu rhoi dan fwy o bwysau yn ystod misoedd y gaeaf. Mae'r Gweinidog yn llygad ei le: nid oes unrhyw ran o'r GIG yn y Deyrnas Unedig nad yw'n gorfod wynebu'r heriau gwirioneddol hyn. Fel y soniwyd yn flaenorol, ni ddylai'r gaeaf fod yn syndod i ni, nac i'r GIG, a dylem fod yn gallu rhagfynegi yn weddol gywir pa fath o alwadau fydd yn cael eu rhoi ar y gwasanaeth gyda phob cwmp fesul gradd yn y tymheredd y tu allan. Gallwn ragweld ar ba bwynt y bydd y rhai sydd â salwch cronig yn gweld dirywiad yn eu cyflyrau ac y byddant yn chwilio am gymorth meddygol, gallwn ragweld y tebygolrwydd o gynydd yn y nifer o lithriadau, codymau a damweiniau sy'n gysylltiedig â'r tywydd, a dylem allu sefydlu cyfres o gynlluniau wrth gefn i ymdrin â hynny. Wrth gwrs, efallai y byddwn yn lwcus, gallai fod yn aeaf tyner a gallai frysau basio heibio i ni, ond ni allwn ddibynnu ar hynny. Nid yw gobaith yn strategaeth; yr hyn yr ydym ei angen yw cynllunio a pharatoi ar gyfer y gwaethaf a gobeithio na fydd yn digwydd.

Gwelais drosof fy hun y llynedd, y straen aruthrol a roddir ar staff rheng flaen wrth i glaf ar ôl claf ar ôl claf ddod drwy'r drysau pan nad oedd ganddynt unrhyw le i'w rhoi a dim ffordd o'u derbyn i'r ysbyty. Roedd y cleifion yn dal i ddod. Er mwyn y cleifion, a'r staff yn ein hysbytai, dylai'r rheolwyr a Llywodraeth Cymru gael eu cynlluniau'n iawn eleni, er mwyn osgoi amseroedd aros hir ar gyfer ambiwlansys a'r amseroedd aros ar droli yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, ynghyd â'r effaith andwyol ar y bobl hynny, heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain, sydd angen triniaeth ddewisol yn ystod misoedd y gaeaf. Nid yw eu poen, eu hanesmwythdra na'u hangen yn diflannu dim ond am ei bod yn fis Rhagfyr neu'n fis Ionawr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



It seems that, last year, we had a particular difficulty with cancelled and postponed operations. I had hoped that the plans for preparedness for winter were to avoid that situation being repeated this year as much as possible. It seems that—in the Hywel Dda scenario, at least—to avoid those cancelled operations, the answer is not to schedule them at all. Let us be clear what that means: we are admitting that, in a large part of Wales, we cannot run a 12-month-of-the-year NHS service. We cannot do it for 12 months of the year. The Minister says that it is a recalibration; I am looking at the announcement made on 21 October and it is clear that this is a strategic decision taken by that board to cancel elective work. Last year, it had an additional 160 beds, which it staffed, and it has decided that it does not want to operate the same system this year. It is a clear choice. It could have operated that system again but it has decided not to do so, for whatever reason. That is the result. What we need is the ability to plan for surge capacity in district general hospitals, in community hospitals, in primary care and, crucially, in social care. That is the missing link in today's debate: how NHS services are going to link up with social care services to avoid unnecessary pressure.

Finally, I turn to the issue of the publication of reports. The Minister, in his letter to the Health and Social Care Committee last week, said that he would give us an update and that he had reminded the LHBs of the importance of having these in the public domain. There is no obvious mention of it on the Abertawe Bro Morgannwg LHB website. Aneurin Bevan LHB says on its website that it will not approve its plans until 27 November. Cardiff and Vale University Local Health Board has a document—sorry, I have made that mistake before; it is a collection of slides—on its website about how it will deal with winter pressures. There is just one page on Hywel Dda's website, and there is no sign of it of Betsi Cadwaladr's website. Hats off to Cwm Taf LHB—its comprehensive paper of June 2013 sets out what it wants to and needs to do. It also has a pretty hefty price tag attached to it, I can tell you. Powys LHB has draft plans.

The Minister said that he will update the Health and Social Care Committee when he has had further discussions with the LHBs. Minister, winter is here. You promised that those plans would be published. Could you tell us today when you expect to see them in the public domain?

Mae'n ymddangos, y llynedd, ein bod wedi cael anhawster arbennig gyda llawdriniaethau wedi'u canslo a'u gohirio. Roeddwn wedi gobeithio y byddai'r cynlluniau ar gyfer parodrwydd ar gyfer y gaeaf yn osgoi'r sefyllfa rhag cael ei hailadrodd eleni gymaint ag y bo modd. Mae'n ymddangos—yn sefyllfa Hywel Dda, o leiaf—er mwyn osgoi'r llawdriniaethau hynny a ganslwyd, yr ateb yw peidio â'u trefnu nhw o gwbl. Gadewch i ni fod yn glir beth y mae hynny'n ei olygu: rydym yn cyfaddef, mewn rhan helaeth o Gymru, na allwn redeg gwasanaeth GIG 12 mis y flwyddyn. Ni allwn wneud hynny am 12 mis y flwyddyn. Dywed y Gweinidog mai ailgalibro yw hyn; rwy'n edrych ar y cyhoeddiad a wnaed ar 21 Hydref ac mae'n amlwg bod hwn yn benderfyniad strategol a wnaed gan y bwrdd i ganslo gwaith dewisol. Y llynedd, roedd ganddo 160 o welyau ychwanegol, a oedd wedi'u staffio, ac mae wedi penderfynu nad yw am weithredu yr un system eleni. Mae'n ddewis clir. Gallai fod wedi gweithredu'r system honno eto, ond mae wedi penderfynu peidio â gwneud hynny, am ba bynnag reswm. Dyna'r canlyniad. Yr hyn yr ydym ei angen yw'r gallu i gynllunio ar gyfer ymchwydd mewn capasiti ysbytai dosbarth cyffredinol, mewn ysbytai cymuned, mewn gofal sylfaenol ac, yn hanfodol, ym maes gofal cymdeithasol. Dyna'r hyn sydd ar goll yn nadl heddiw: sut y mae gwasanaethau'r GIG yn mynd i gysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol i osgoi pwysau diangen.

Yn olaf, trof at fater cyhoeddi adroddiadau. Dywedodd y Gweinidog, yn ei lythyr i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr wythnos diwethaf, y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni a'i fod wedi atgoffa'r byrddau iechyd lleol o bwysigrwydd sicrhau bod y rhain yn eiddo i'r cyhoedd. Nid oes sôn amlwg amdano ar wefan BILL Bro Morgannwg Abertawe. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn dweud ar ei wefan na fydd yn cymeradwyo ei gynlluniau tan 27 Tachwedd. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddogfen—mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi gwneud y camgymeriad yna o'r blaen; casgliad o sleidiau ydyw—ar ei wefan am sut y bydd yn ymdrin â phwysau'r gaeaf. Nid oes ond un dudalen ar wefan Hywel Dda, ac nid oes unrhyw arwydd ohono ar wefan Betsi Cadwaladr. Pob clod i BILL Cwm Taf—mae ei bapur cynhwysfawr Mehefin 2013 yn nodi'r hyn y mae ei eisiau ei wneud, ac y mae angen iddo ei wneud. Gallaf ddweud wrthyfch fod pris tra sylweddol ynghlwm wrtho hefyd. Mae gan BILL Powys gynlluniau drafft.

Dywedodd y Gweinidog y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol pan fydd wedi cael trafodaethau pellach gyda'r Byrddau Iechyd Lleol. Weinidog, mae'r gaeaf yma. Roeddech yn addo y byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi. A allwch chi ddweud wrthym heddiw pryd yr ydych chi'n disgwyl y byddant yn eiddo i'r cyhoedd?

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Despite some opportunistic amendments tabled by the opposition parties, for me the starting point today must be a recognition that NHS Wales has never worked so hard to plan for the pressures of winter. That is not to be complacent, not least because, in the end, good preparation can never be a guarantee in itself that the health service will be able to cope with the kind of unprecedented surge in demand that we saw last winter. However, it would be refreshing if, for once, the Welsh Conservatives and others backed instead of attacked our NHS. Surely even they can give credit where it is due and recognise the tremendous amount of hard work that has gone in at every level of our health service to ensure that we are in the best possible place to cope with the stresses and strains that will inevitably come in the period ahead.

I also think that the Minister himself deserves praise. It was clear during scrutiny in the Health and Social Care Committee recently that winter preparations have been accorded top priority since he took office. I welcome his decision to establish a new national planning forum to ensure that this year's winter plans are sufficiently robust and realistic and subject to a process of peer review. I am also pleased that the Minister has finally broken through the silos that have dogged winter planning in the past, and emphasised the need for the ambulance service, health boards, social services and other key partners to work together in developing single area plans. This joint approach will help ensure that we make the most of the significant extra investment secured during the last spending round, which is money that will support the continued development of our national immunisation programme, as well as providing a much needed cash boost for A&E departments up and down Wales—extra investment that shows that Welsh Labour will continue to support our NHS with the resources that it needs, despite being ruthlessly starved of cash by the Tories and Liberal Democrats in Westminster.

Er gwaethaf rhai gwelliannau manteisgar a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau, i mi mae'n rhaid mai'r man cychwyn heddiw yw cydnabod nad yw GIG Cymru erioed wedi gweithio mor galed i gynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf. Nid bod yn hunanfodlon yw hynny, nid lleiaf oherwydd, yn y pen draw, na all paratoi da fyth sicrhau ynddo'i hun y bydd y gwasanaeth iechyd yn gallu ymdopi â'r math o ymchwyydd digynsail yn y galw a welsom y gaeaf diwethaf. Fodd bynnag, byddai'n braf pe byddai, am unwaith, y Ceidwadwyr Cymreig ac eraill yn cefnogi yn hytrach nag ymosod ar ein GIG. Siawns y gallant hwy, hyd yn oed, roi clod lle mae'n ddyledus a chydnabod y llwyth aruthrol o waith caled sydd wedi ei wneud ar bob lefel o'n gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn y lle gorau posibl i ymdopi â'r pwysau a'r straen a fydd yn anorfdod yn dod yn y cyfnod sydd o'n blaenau.

Rwyf hefyd yn credu bod y Gweinidog ei hun yn haeddu canmoliaeth. Roedd yn amlwg yn ystod craffu yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar bod paratoadau'r gaeaf wedi cael y flaenoriaeth uchaf ers iddo ddechrau yn y swydd. Rwy'n croesawu ei benderfyniad i sefydlu fforwm cynllunio cenedlaethol newydd i sicrhau bod cynlluniau gaeaf eleni yn ddigon cadarn a realistig ac yn destun proses o adolygiad gan gymheiriaid. Rwyf hefyd yn falch fod y Gweinidog o'r diwedd wedi torri drwy'r gweithredu ynysig sydd wedi bod yn rhwystr i gynllunio ar gyfer y gaeaf yn y gorffennol, ac sydd wedi pwysleisio'r angen i'r gwasanaeth ambiwlans, y byrddau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid allweddol eraill weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynlluniau ardal unigol. Bydd y dull gweithredu ar y cyd hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad ychwanegol sylweddol a sicrhawyd yn ystod y cylch gwariant diwethaf, sef arian a fydd yn cefnogi datblygiad parhaus ein rhaglen imiwneiddio genedlaethol, yn ogystal â rhoi hwb ariannol mawr ei angen i adrannau damweiniau ac achosion brys ar hyd a lled Cymru—buddsoddiad ychwanegol sy'n dangos y bydd Llafur Cymru yn parhau i gefnogi ein GIG gyda'r adnoddau y mae eu hangen, er iddi gael ei hamddifadu'n ddirugaredd o arian gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You made reference there to NHS finances. In the Public Accounts Committee this morning, we were told by the Welsh NHS Confederation that the real-term cuts to the NHS over the past few years had been in the order of 10%. Is that something that you welcome?

Cyfeiriasoch hefyd at gyllid y GIG. Yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma, dywedwyd wrthym gan Gydffederasiwn GIG Cymru bod y toriadau gwirioneddol i'r GIG dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod oddeutu 10%. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych yn ei groesawu?

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is something that you should look at, because they are your cuts, from your Government in Westminster. Although I cannot speak in detail on preparations in other parts of Wales, I have been genuinely impressed by the level and range of activity that is taking place at the Aneurin Bevan health board in my patch. There are steps like the introduction of targeted GP call handling that sees consultant physicians discussing alternatives to admission when it is more appropriate; the redeployment of acute care physicians to other hospitals in the area, so that demand can be redistributed away from bottlenecks like the Royal Gwent Hospital; and innovations like the paramedic practitioners jointly funded by the health board and ambulance trust, allowing more clinical discretion on the ground, so that more risk can be managed in the community. Equally, I am pleased that Aneurin Bevan has recruited three new emergency care consultants, that emergency department consultant cover at the Royal Gwent has been extended in time for the winter period, and that, in my area at least, the health board will be opening an additional 110 beds to cope with demand.

Yes, there are real pressures out there. In particular, I remain concerned about the ambulance service's ability to cope, with response times in Torfaen on the slide once again, and the transformative change that is needed in the service yet to take place. However, none of this bears any resemblance to the picture of our NHS in Wales that we see painted week in, week out at Westminster by David Cameron and in this Chamber by his accomplices, the Welsh Conservatives. Of course the ageing population is a huge challenge, yes, we need to do more to break down the barriers that exist between health and social care, and of course we must continue to strive towards ending a situation whereby hospital is the only port of call for many elderly and vulnerable patients. However, I have one final message for the Welsh Conservatives today: read carefully and try to digest the conclusions of the Public Health Wales report into the factors driving the pressures that we have seen on unscheduled care in recent years. That report made it crystal clear that increased poverty is a major factor, in particular fuel poverty. If the Tories really want to help the health service this winter, they could, at the stroke of a pen, halt their pernicious welfare reform policies, like the bedroom tax, which are damaging our communities, hurting individuals and adding to pressures on the NHS. They could take on the big six energy companies, which are being left to squeeze hard-pressed consumers until the pips dry while David Cameron stands by and does nothing.

Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y dylech edrych arno, oherwydd mai eich toriadau chi ydyn nhw, gan eich Llywodraeth chi yn San Steffan. Er na allaf siarad yn fanwl ar y paratodau mewn rhannau eraill o Gymru, gwnaed argraff wirioneddol arnaf gan lefel ac amrywiaeth y gweithgareddau sy'n digwydd ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan yn fy ardal i. Mae camau fel cyflwyno ymdrin â galwadau meddygon teulu wedi'u targedu sy'n golygu bod meddygon ymgynghorol yn trafod dewisiadau amgen i dderbyn pan fydd hynny'n fwy priodol; adleoli meddygon gofal aciwt i ysbytai eraill yn yr ardal, er mwyn i'r galw gael ei ailddosbarthu oddi wrth dagfeydd fel Ysbyty Brenhinol Gwent; a datblygiadau arloesol fel yr ymarferwyr sy'n barafeddygon a ariennir ar y cyd gan y bwrdd iechyd a'r ymddiriedolaeth ambiwlans, gan ganiatáu mwy o ryddid i wneud penderfyniadau clinigol ar lawr gwlad, fel y gellir rheoli mwy o risg yn y gymuned. Yn yr un modd, rwy'n falch bod Aneurin Bevan wedi recriwtio tri ymgynghorydd gofal brys newydd, bod mwy o ymgynghorwyr ar gael yn adran achosion brys Ysbyty Brenhinol Gwent mewn pryd ar gyfer cyfnod y gaeaf, ac y bydd y bwrdd iechyd, yn fy ardal i o leiaf, yn agor 110 o welyau ychwanegol i ymdopi â'r galw.

Oes, mae pwysau gwirioneddol ym mhob man. Yn arbennig, rwy'n dal yn bryderus ynghylch gallu'r gwasanaeth ambiwlans i ymdopi, gydag amseroedd ymateb yn Nhorfaen yn llithro unwaith eto, a'r newid trawsnewidiol sydd ei angen yn y gwasanaeth eto i ddigwydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debyg o gwbl i'r darlun o'n GIG yng Nghymru a welwn yn cael ei bortreadu wythnos ar ôl wythnos yn San Steffan gan David Cameron ac yn y Siambr hon gan ei gynorthwyr, y Ceidwadwyr Cymreig. Wrth gwrs, mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn her enfawr, oes, mae angen i ni wneud mwy i waredu'r rhwystrau sy'n bodoli rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth gwrs, mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i roi terfyn ar sefyllfa pan mai'r ysbyty yw'r unig fan sydd ar gael ar gyfer llawer o gleifion oedrannus ac agored i niwed. Fodd bynnag, mae gennyf un neges olaf i'r Ceidwadwyr Cymreig heddiw: darllenwch yn ofalus a cheisiwch dreulio casgliadau adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r ffactorau sy'n sbarduno'r pwysau yr ydym wedi'i weld ar ofal heb ei drefnu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr adroddiad yn ei gwneud hi'n gwbl glir bod mwy o dlodi yn ffactor pwysig, yn enwedig tlodi tanwydd. Os yw'r Torïaid wir eisiau helpu'r gwasanaeth iechyd y gaeaf hwn, gallent, yn rhwydd iawn, atal eu polisiau diwygio lles dinistriol, fel y dreth ystafell wely, sy'n niweidio ein cymunedau, sy'n creu loes i unigolion ac sy'n ychwanegu at y pwysau ar y GIG. Gallent herio'r chwe chwmni ynni mawr, sy'n cael eu caniatáu i lethu defnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd i'r eithaf tra bod David Cameron yn sefyll o'r neilltu ac yn gwneud dim.

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is strange that the previous speaker disagrees with the findings of the Wales Audit Office report; but I will leave that to her.

Mae'n rhyfedd bod y siaradwr blaenorol yn anghytuno â chanfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ond gadawaf hynny iddi hi.

Fuel poverty is a major contributor to winter hospital admissions and excess winter deaths. Wales has an unacceptably high rate of excess winter deaths compared to some of our northern European neighbours. Many can be prevented if we improve the thermal efficiency of homes and keep people warm in the winter months. Nearly one in three households in Wales were in fuel poverty in 2012, up from 26% in 2008. National Energy Action Cymru estimates that recently announced energy price increases are likely to push another 18,000 Welsh households into fuel poverty.

We know that being cold and living in a cold home impacts on health. The aged 85-and-over population of Wales is projected to more than double to 186,000 by 2035. In addition, more people are surviving conditions like cancer and neurological conditions, and these changes will have an impact on the NHS. It is vital, therefore, that we support people to live independent lives in their own homes, taking full advantage of schemes that help to improve and protect health. Although the Welsh Government schemes Nest and Arbed have helped to keep households out of fuel poverty, the 2013 UK fuel poverty monitor also called for Wales to consider following the example of England in developing and implementing an official cold weather plan, to protect the health and welfare of vulnerable individuals during periods of severe winter weather. England's cold weather plan involves a wide range of statutory and voluntary agencies and individuals, and includes a warm homes, healthy people fund enabling local authorities and partners to reduce the scale of mortality and morbidity resulting from cold housing, and providing interventions including emergency heating and energy efficiency improvements and warm packs.

In 2009, I launched the Energy Retail Association's home heat helpline, 'The little book of energy', in the Assembly, providing advice to help people cut their energy bills. The home heat helpline is free, and advises people worried about paying their energy bills and keeping warm during the winter.

Last month, I sponsored the National Energy Action Cymru and RWE npower Assembly event to showcase the Health Through Warmth scheme, helping people in Wales with long-term illnesses who need help to fund and install heating and insulation in their homes, and available to people who may be ineligible for means-tested Welsh and UK Government schemes. It has now been rolled out across Wales, and we need to increase the number of referrals to ensure that maximum use is made of the support available for vulnerable people to improve their levels of warmth, comfort and quality of life.

Mae tlodi tanwydd yn cyfrannu'n helaeth at dderbyniadau i ysbytai yn y gaeaf a marwolaethau ychwanegol y gaeaf. Mae gan Gymru gyfradd annerbyniol o uchel o farwolaethau ychwanegol y gaeaf o'i gymharu â rhai o'n cymdogaion yng ngogledd Ewrop. Gellid atal llawer ohonynt pe byddem yn gwella effeithlonrwydd thermol cartrefi ac yn cadw pobl yn gynnes yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd bron i un o bob tri chartref yng Nghymru mewn tlodi tanwydd yn 2012, i fyny o 26% yn 2008. Mae National Energy Action Cymru yn amcangyfrif bod codiadau ym mhrisiau ynni a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn debygol o wthio 18,000 arall o aelwydydd Cymru i dlodi tanwydd.

Rydym yn gwybod fod bod yn oer a byw mewn cartref oer yn effeithio ar iechyd. Rhagwelir y bydd y boblogaeth sy'n 85 oed a hŷn yng Nghymru yn mwy na dyblu i 186,000 erbyn 2035. Yn ogystal, mae mwy o bobl yn goroesi cyflyrau fel canser a chyflyrau niwrolegol, a bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar y GIG. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gan gymryd mantais lawn ar gynlluniau sy'n helpu i wella a diogelu iechyd. Er bod cynlluniau Nyth ac Arbed Llywodraeth Cymru wedi helpu i gadw teuluoedd allan o dlodi tanwydd, roedd monitor tlodi tanwydd 2013 y DU hefyd yn galw ar Gymru i ystyried dilyn esiampl Lloegr wrth ddatblygu a gweithredu cynllun tywydd oer swyddogol, er mwyn diogelu iechyd a lles unigolion sy'n agored i niwed yn ystod cyfnodau o dywydd garw'r gaeaf. Mae cynllun tywydd oer Lloegr yn cynnwys amrywiaeth eang o asiantaethau ac unigolion statudol a gwirfoddol, ac mae'n cynnwys cronfa cartrefi cynnes, pobl iach sy'n galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i leihau graddfa'r marwolaethau ac afiachusrwydd o ganlyniad i dai oer, a darparu ymyraethau gan gynnwys gwresogi mewn argyfwng a gwelliannau effeithlonrwydd ynni a pheycynnau cynnes.

Yn 2009, lansiais linell gymorth cartrefi cynnes y Gymdeithas Manwerthu Ynni, 'Llyfr Bach Ynni', yn y Cynulliad, gan ddarparu cyngor i helpu pobl i leihau eu biliau ynni. Mae'r llinell gymorth cartrefi cynnes yn rhad ac am ddim, ac yn cynghori pobl sy'n poeni am allu talu eu biliau ynni a chadw'n gynnes yn ystod y gaeaf.

Y mis diwethaf, noddais ddigwyddiad National Energy Action Cymru a RWE npower y Cynulliad i arddangos y cynllun Iechyd Trwy Gynhesrwydd, gan helpu pobl yng Nghymru sydd â salwch hirdymor ac sydd angen cymorth i ariannu a gosod system wresogi ac inswleiddio yn eu cartrefi, sydd ar gael i bobl a allai fod yn anghymwys ar gyfer cynlluniau Llywodraeth Cymru a'r DU ar sail prawf modd. Mae bellach wedi ei gyflwyno ledled Cymru, ac mae angen i ni gynyddu nifer yr atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n agored i niwed i wella eu lefelau o gynhesrwydd, cysur ac ansawdd bywyd.

Last week, I hosted the Energy Best Deal review event in the Assembly, with speakers from the Office of Gas and Electricity Markets, Citizens Advice Cymru and the Centre for Sustainable Energy. This reviewed the campaign by energy regulator Ofgem and national charity Citizens Advice, which is helping to ensure that consumers get the best deal for their gas and electricity. Energy Best Deal delivers sessions aimed at low-income consumers and front-line staff who work with people at risk of fuel poverty, who can be signposted to a range of further help with issues such as fuel debt, benefits entitlement and energy efficiency. At least 175 sessions will be delivered in Wales up to next March.

Yr wythnos diwethaf, cynhaliais ddiwyddiad adolygu Bargen Orau Ynni yn y Cynulliad, gyda siaradwyr o'r Marchnadoedd Swyddfa Nwy a Thyrdan, Cyngor ar Bopeth Cymru a'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy. Roedd hyn yn adolygu'r ymgyrch gan y rheoleiddwr ynni Ofgem a'r elusen genedlaethol Cyngor ar Bopeth, sy'n helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y fargen orau ar gyfer eu nwy a'u trydan. Mae Bargen Orau Ynni yn cyflwyno sesiynau wedi'u hanelu at ddefnyddwyr incwm isel a staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd, y gellir eu cyfeirio at amrywiaeth o gymorth pellach gyda materion fel dyled tanwydd, hawl i fudd-daliadau ac effeithlonrwydd ynni. Bydd o leiaf 175 o sesiynau yn cael eu darparu yng Nghymru hyd at fis Mawrth nesaf.

18:16

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. Do you think that an energy price freeze would be of assistance to the people that you are talking about?

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Ydych chi o'r farn y byddai rhewi prisiau ynni o gymorth i'r bobl yr ydych yn sôn amdanynt?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:16

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We need to drill down on the facts rather than take action that could actually make things worse.

Mae angen i ni archwilio'r ffeithiau yn fanwl yn hytrach na chymryd camau a allai mewn gwirionedd wneud pethau'n waeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Last month, I sponsored Energy Saving Week at the Assembly with the Energy Saving Trust. Last Friday, I held a Nest surgery with the Energy Saving Trust in Flint town hall, promoting the free support available to home owners and private tenants to help to reduce their energy bills under this scheme.

Y mis diwethaf, noddais Wythnos Arbed Ynni yn y Cynulliad gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Ddydd Gwener diwethaf, cynhaliais gymhorthfa Nyth gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn neuadd y dref yn Y Flint, er mwyn hyrwyddo'r cymorth rhad ac am ddim sydd ar gael i berchnogion tai a thenantiaid preifat i helpu i leihau eu biliau ynni dan y cynllun hwn.

The UK Government has announced that the Office of Fair Trading, Ofgem and the Competition and Markets Authority will now look every year at energy prices. It has also given Ofgem new powers to force energy companies to compensate customers for misselling and overcharging. The UK Energy Bill will help people to get the best energy tariff deal. The UK Government's £135 warm home discount is available on electricity bills to 2 million low-income and vulnerable UK households. The UK Government has protected winter fuel payments for almost 13 million pensioners, and has increased cold-weather payment funding for over 4 million people. Of course, the Green Deal lets people make energy-saving improvements to their homes without upfront costs, and its energy company obligation has already delivered more than 80,000 energy-saving home improvements in low-income households.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd y Swyddfa Masnachu Teg, Ofgem a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd bellach yn edrych bob blwyddyn ar brisiau ynni. Mae hefyd wedi rhoi pwerau newydd i Ofgem i orfodi cwmnïau ynni i ddigolledu cwsmeriaid ar gyfer cam-werthu a chodi gormod. Bydd Bil Ynni y DU yn helpu pobl i gael y fargen tariff ynni orau. Mae disgownt cartref cynnes £135 Llywodraeth y DU ar gael ar filiau trydan i 2 filiwn o aelwydydd incwm isel ac agored i niwed yn y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi diogelu taliadau tanwydd gaeaf ar gyfer bron i 13 miliwn o bensiynwyr, ac wedi cynyddu'r cyllid taliad tywydd oer ar gyfer dros 4 miliwn o bobl. Wrth gwrs, mae'r Fargen Werdd yn caniatáu i bobl wneud gwelliannau arbed ynni i'w cartrefi heb gostau ymlaen llaw, ac mae ei rhwymedigaeth cwmni ynni eisoes wedi cyflawni mwy na 80,000 o welliannau arbed ynni yn y cartref i gartrefi incwm isel.

As today's motion notes, therefore, the Welsh NHS must work with its partners in preparing for the coming winter, preventing hospital admissions and avoidable deaths. As we heard from everybody in the room at the Energy Best Deal event last week, party politics should be kept out of the issue.

Fel y noda cynnig heddiw, felly, mae'n rhaid i GIG Cymru weithio gyda'i bartneriaid wrth baratoi ar gyfer y gaeaf sydd ar ddod, gan atal derbyniadau i'r ysbty a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Fel y clywsom gan bawb yn yr ystafell yn y digwyddiad Bargen Orau Ynni yr wythnos diwethaf, ni ddylai gwleidyddiaeth plaid fod yn rhan o'r mater.

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will not keep any party politics out, because I am a politician. Since the Hywel Dda Local Health Board has announced plans to halt some elective orthopaedic surgery this winter, we have seen lots of public debate, and we expect that. I welcome today's debate as a good opportunity to answer questions, to clear up confusion and to clarify situations. I welcome the chance to do so because this decision affects people's day-to-day lives, and I think that those people deserve some frankness and some fairness.

Let us remind ourselves of why the health board has taken that decision. The fact is that, in previous years, lots of operations have been cancelled at the last minute due to emergency admissions. We have heard a lot of talk today about weather; we have heard a lot of talk about the fact that winter always comes. Those things are true, but overly focusing on the extreme cold weather misses the point about damp weather leading to bronchial conditions and exacerbating those conditions; that is a fact.

The other fact that has been missing from the table today is clouded in judgment—we know that winter comes and we know that people need to prepare, and we see a health board that has tried to rise to that challenge. It has tried to prepare, and it gets criticised for acting in a way that will actually meet some of the needs of the people who will come through the door. I ask Members to think about the people who will come through the door. They will be mostly elderly patients who will have fallen and who will have a broken hip. If that person does not get a bed immediately, he or she is at risk of dying. That is a fact; let us start dealing with some facts.

If you asked someone in a neighbouring bed whether they were prepared to wait for somebody else to have emergency surgery rather than their having elective surgery for something that they could have waited for, I think that the answer clearly would be 'yes'.

Ni fyddaf yn osgoi unrhyw wleidyddiaeth plaid, oherwydd fy mod yn wleidydd. Gan fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cyhoeddi cynlluniau i atal rhywfaint o lawdriniaethau orthopedig dewisol y gaeaf hwn, rydym wedi gweld llawer o drafodaeth gyhoeddus, ac rydym yn disgwyl hynny. Rwy'n croesawu dadl heddiw fel cyfle da i ateb cwestiynau, i glirio dryswch ac i egluro sefyllfaoedd. Rwy'n croesawu'r cyfle i wneud hynny oherwydd bod y penderfyniad hwn yn effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd, a chredaf fod y bobl hynny'n haeddu rhywfaint o onestrwydd a rhywfaint o degwch.

Gadewch inni atgoffa'n hunain pam fod y bwrdd iechyd wedi cymryd y penderfyniad hwnnw. Y ffaith yw, yn y blynyddoedd blaenorol, bod llawer o lawdriniaethau wedi eu canslo ar y funud olaf oherwydd derbyniadau brys. Rydym wedi clywed llawer o sôn heddiw am y tywydd, rydym wedi clywed llawer o sôn am y ffaith fod y gaeaf yn dod bob amser. Mae'r pethau hynny'n wir, ond mae canolbwyntio'n ormodol ar y tywydd oer eithafol yn methu'r pwynt am dywydd llaith yn arwain at gyflyrau bronciol ac yn gwaethygu'r cyflyrau hynny; mae hynny'n ffaith.

Mae'r ffaith arall sydd wedi bod ar goll o'r tabl heddiw wedi cael ei chymylu mewn barn—rydym yn gwybod bod y gaeaf yn dod ac rydym yn gwybod bod angen i bobl baratoi, ac rydym yn gweld bwrdd iechyd sydd wedi ceisio ymateb i'r her honno. Mae wedi ceisio paratoi, ac mae'n cael ei feirniadu am weithredu mewn modd a fydd mewn gwirionedd yn diwallu rhai o anghenion y bobl a fydd yn dod drwy'r drws. Gofynnaf i'r Aelodau feddwl am y bobl a fydd yn dod drwy'r drws. Byddant yn bennaf yn gleifion oeddrannus a fydd wedi syrthio ac a fydd â chlun wedi torri. Os nad yw'r person hwnnw'n cael gwely ar unwaith, bydd ef neu hi mewn perygl o farw. Mae hynny'n ffaith, gadewch i ni ddechrau ymdrin â rhai ffeithiau.

Pe byddech yn gofyn i rywun mewn gwely cyfagos a ydynt yn barod i aros er mwyn i rywun arall gael llawdriniaeth frys yn hytrach na'u bod nhw'n cael llawdriniaeth ddewisol ar gyfer rhywbeth y gallent fod wedi aros amdano, rwy'n credu mai'r ateb, yn amlwg fyddai 'ydym'.

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What analysis has the health board carried out to ensure that those waiting for hip and knee replacements will not see an exacerbation of their problems because of a lack of surgery, which would actually drive emergency demand? Has it carried out an analysis to ensure that, by taking this decision on elective surgery, it does not help to increase the number of people who have those slips and falls and require emergency surgery? Has it done that?

Pa ddadansoddiad y mae'r bwrdd iechyd wedi ei wneud i sicrhau na fydd y rhai sy'n aros am glun a phen-glin newydd yn gweld gwaethygu eu problemau oherwydd diffyg llawdriniaeth, a fyddai mewn gwirionedd yn sbarduno galw brys? A yw wedi cynnal dadansoddiad i sicrhau, drwy gymryd y penderfyniad hwn ar llawdriniaeth ddewisol, nad yw'n helpu i gynyddu nifer y bobl sydd wedi cael y llithriadau a'r codymau y soniwyd amdanynt ac sydd angen llawdriniaeth frys? A yw wedi gwneud hynny?

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is an important point, and I will be raising that further on.

Mae hwnna'n bwynt pwysig, a byddaf yn ei godi ymhellach ymlaen.

I believe that it is better to be upfront with people and to let patients know exactly when they will receive treatment, rather than keeping people hanging on and messing them around. None of us likes it when we do not know whether we have a fixed appointment. There is nothing worse than constant postponements. People like to know where they are. Therefore, a definitive decision on elective orthopaedic surgery during the winter months might help with that. However, I also recognise that there is anecdotal evidence coming to light that questions the validity of those claims by Hywel Dda Local Health Board. Like others here this afternoon, Minister, I ask you to examine those cases.

I also ask you, Minister, for assurances that you are satisfied that, come the spring and summer, those who have waited patiently for their operations will be seen as soon as they are scheduled and that you are satisfied with the criteria that Hywel Dda Local Health Board is using to identify non-emergency patients. After all, you do not have to be at death's door to be unable to work. However, being unable to go to work because of your physical condition is, for many, equally an emergency. We need to look at some of those things.

Finally, in response to a question asked by my colleague the Member for Llanelli, Keith Davies, last week the First Minister gave his assurance that Hywel Dda's decision will not have a negative impact on the plans to develop Prince Philip Hospital as a centre of excellence for orthopaedics. Indeed, the First Minister suggested that dealing with emergency orthopaedics is an important element of training. There is still some persistent concern as to whether the plans for Price Philip Hospital are still on the cards. I ask you today, Minister—and would be extremely grateful if you would do so—to endorse that this afternoon.

Rwy'n credu ei bod yn well bod yn onest gyda phobl a gadael i gleifion wybod yn union pryd y byddant yn cael triniaeth, yn hytrach na chadw pobl yn aros ac achosi problemau iddynt. Nid oes yr un ohonom yn hapus pan nad ydym yn gwybod pa un a oes gennym apwyntiad sefydlog. Does dim byd gwaeth na gohiriadau cyson. Mae pobl yn hoffi gwybod beth sy'n digwydd. Felly, efallai y bydd penderfyniad terfynol ar lawdriniaeth orthopedig ddewisol yn ystod misoedd y gaeaf yn helpu gyda hynny. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod tystiolaeth anecdotaidd yn dod i'r amlwg sy'n cwestiynu dilysrwydd yr honiadau a wneir gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Fel eraill sydd yma y prynhawn yma, Weinidog, rwy'n gofyn i chi edrych ar yr achosion hynny.

Rwyf hefyd yn gofyn i chi, Weinidog, am sicrwydd eich bod yn fodlon, pan ddaw'r gwanwyn a'r haf, y bydd y rhai sydd wedi aros yn amyneddgar am eu llawdriniaethau yn cael eu gweld cyn gynted ag y cânt eu trefnu ac eich bod yn fodlon ar y meini prawf y mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn eu defnyddio i nodi cleifion nad ydynt yn achosion brys. Wedi'r cyfan, nid oes rhaid i chi fod ar fin marw i fetu mynd i weithio. Fodd bynnag, mae methu â mynd i'r gwaith oherwydd eich cyflwr corfforol, i lawer, yn llawn cymaint o argyfwng. Mae angen i ni edrych ar rai o'r pethau hynny.

Yn olaf, mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan fy nghydweithiwr yr Aelod dros Lanelli, Keith Davies, yr wythnos diwethaf rhoddodd y Prif Weinidog ei sicrwydd na fydd penderfyniad Hywel Dda yn cael effaith negyddol ar y cynlluniau i ddatblygu Ysbyty'r Tywysog Philip fel canolfan o ragoriaeth ym maes orthopedeg. Yn wir, awgrymodd y Prif Weinidog fod ymdrin ag orthopedeg frys yn elfen bwysig o hyfforddiant. Mae rhywfaint o bryder parhaus ynghylch pa un a yw'r cynlluniau ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip yn dal i fod yn debygol. Rwy'n gofyn heddiw i chi, Weinidog—a byddem yn hynod ddiolchgar pe byddech yn gwneud hynny—i gadarnhau hynny y prynhawn yma.

18:23

## **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to take part in this debate today. I agree that, with regard to public services, it is right that the Government makes preparations for winter service challenges and that those plans are comprehensive and robust. I agree on that point. However, leaving aside for a moment the question of whether these proposals put forward by Hywel Dda are viable and proportionate, views have been expressed around the Chamber about those issues, and I would like to focus my contribution on the engagement and consultation process that Hywel Dda has adopted in trying to obtain buy-in for its proposals from clinicians and other staff, who, as the Minister for health has said, will remain responsible for the care of individual patients.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Rwy'n cytuno, o ran gwasanaethau cyhoeddus, ei bod yn iawn fod y Llywodraeth yn gwneud paratoadau ar gyfer heriau'r gaeaf a bod y cynlluniau hynny'n gynhwysfawr ac yn gadarn. Rwy'n cytuno ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, gan adael o'r neilltu am funud y cwestiwn a yw'r cynigion hyn a gyflwynwyd gan Hywel Dda yn hyfyw ac yn gymesur, mae safbwyntiau wedi cael eu mynegi o amgylch y Siambur am y materion hynny, a hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y broses ymgysylltu ac ymgynghori y mae Hywel Dda wedi'i mabwysiadu wrth geisio cael cydsyniad ar gyfer ei gynigion gan glinigwyr a staff eraill, a fydd, fel y mae'r Gweinidog iechyd wedi'i ddweud, yn parhau i fod yn gyfrifol am ofal cleifion unigol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would like to expand on the question that I asked the First Minister earlier today. The First Minister avoided answering my question, but I hope that the Minister for health will be able to provide an answer. Last week, I was approached by Dr Simon Morpeth and his colleagues at a health centre near Machynlleth. He told me that they were first made aware of Hywel Dda's plans in the previous week's edition of the 'Cambrian News'. He had read comments made by me, but he had not been informed of this at all by the health authority. He said that he had two very unhappy patients so far who had expected their orthopaedic operations to be performed before Christmas at Bronglais, but who were now waiting indefinitely because they had no indication from the board as to what the level of delay would be.

We know that the health board has nearly 1,800 orthopaedic patients waiting over the 26-week waiting time target, with 638 patients waiting over the 36-week target time for treatment. Dr Morpeth's final comments to me were the most telling. He said that, in 18 years in mid Wales, this was the first time that this has happened in such a premature and pre-emptive fashion without any dialogue with primary care.

Following our discussion, Dr Morpeth approached the assistant medical director at Bronglais. It seems that Hywel Dda simply forgot to inform GPs in north Powys and south Gwynedd about the winter plans, even though 30% of the workload at Bronglais comes from these areas.

I heard Lynne Neagle's contribution and she may believe that that is acceptable, but, to me, it is absolutely astonishing. GPs are the gatekeepers to secondary care, and there is a duty for them to be consulted about how hospitals to which they directly refer patients practically go about dealing with services and capacity pressures caused by winter weather.

My final point, which I have raised previously and which has been supported by the evidence of others here today, is that there already seems to be a moratorium on orthopaedic treatment in place, within the health board, until further notice. I find that very strange given that the options are still being consulted on. So far, the consultation and engagement process on these plans has been flawed, and officials at the health board have not been open and transparent with regard to what they have been telling staff and you as the Government. Given that the First Minister and the Minister for health have backed the health board's approach, I would be very interested to hear your views on these issues given the new evidence provided today.

Hoffwn ehangu ar y cwestiwn a ofynnais i'r Prif Weinidog yn gynharach heddiw. Fe wnaeth y Prif Weinidog osgoi ateb fy nghwestiwn, ond rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog iechyd yn gallu rhoi ateb. Yr wythnos diwethaf, daeth Dr Simon Morpeth a'i gydweithwyr ataf mewn canolfan iechyd ger Machynlleth. Dywedodd wrthyf eu bod wedi cael gwybod am gynlluniau Hywel Dda am y tro cyntaf yn rhifyn yr wythnos flaenorol o'r 'Cambrian News'. Roedd wedi darllen sylwadau a wnaed gennyf i, ond nid oedd wedi cael gwybod am hyn o gwbl gan yr awdurdod iechyd. Dywedodd fod ganddo ddau glaf anhapus iawn hyd yn hyn a oedd wedi disgwyl i'w llawdriniaethau orthopedig gael eu cynnal cyn y Nadolig ym Mronglais, ond a oedd ebyrn hyn yn aros am gyfnod amhenodol oherwydd nad oedd unrhyw arwydd gan y bwrdd ynghylch pa mor hir fyddai'r oedi.

Rydym yn gwybod bod gan y bwrdd iechyd bron i 1,800 o gleifion orthopedig yn aros yn hwy na'r targed amser aros o 26 wythnos, gyda 638 o gleifion yn aros yn hwy na'r amser targed o 36 wythnos ar gyfer triniaeth. Sylwadau terfynol Dr Morpeth wrthyf fi oedd y mwyaf trawiadol. Dywedodd, mewn 18 mlynedd yn y canolbarth, mai dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd mewn modd mor gynamserol a blaenachubol heb unrhyw ddeialog gydag ymarferwyr gofal sylfaenol.

Yn dilyn ein trafodaeth, aeth Dr Morpeth at y cyfarwyddwr meddygol cynorthwyol ym Mronglais. Mae'n ymddangos bod Hywel Dda yn syml wedi anghofio rhoi gwybod i feddygon teulu yng ngogledd Powys a de Gwynedd am gynlluniau'r gaeaf, er bod 30% o'r llwyth gwaith ym Mronglais yn dod o'r ardaloedd hyn.

Clywais gyfraniad Lynne Neagle, ac efallai ei bod hi'n credu bod hynny'n dderbyniol, ond, i mi, mae'n gwbl syfrdanol. Meddygon teulu yw porthorion gofal eilaidd, ac mae dyletswydd i ymgynghori â hwy ynghylch sut y mae ysbytai y maent yn atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol iddynt yn ymarferol yn mynd ati i ymdrin â wasanaethau a phwysau gallu a achosir gan dywydd y gaeaf.

Fy mhwynt olaf, yr wyf wedi'i godi o'r blaen ac sydd wedi ei gefnogi gan dystiolaeth eraill sydd yma heddiw, yw ei bod yn ymddangos eisoes bod moratoriwm ar driniaeth orthopedig wedi'i sefydlu, o fewn y bwrdd iechyd, hyd nes y ceir rhybudd pellach. Rwy'n gweld hynny'n rhyfedd iawn o ystyried bod ymgynghori yn dal i gael ei gynnal ar yr opsiynau. Hyd yn hyn, mae'r broses ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y cynlluniau hyn wedi bod yn ddiffygiol, ac nid yw swyddogion yn y bwrdd iechyd wedi bod yn agored ac yn dryloyw o ran yr hyn y maent wedi bod yn ei ddweud wrth staff ac wrthyh chithau fel y Llywodraeth. O gofio bod y Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd wedi cefnogi ymagwedd y bwrdd iechyd, byddai gennyf gryn ddiddordeb mewn clywed eich barn ar y materion hyn o ystyried y dystiolaeth newydd a ddarparwyd heddiw.



I was very pleased to hear the Minister say earlier that he met the Deputy Minister for Social Services and the Minister for local government to look at preparation for winter. I know that winter comes every year, but in addition to that there is a change in demography and an increase in the number of elderly people, there is growth in A&E department attendances, which is particularly steep among the population aged 85 plus, and pressures look only set to grow.

I place on record my thanks to all the medical staff across all hospitals in Wales for their hard work and dedication, particularly during the winter. However, like Joyce Watson, I am particularly interested in what is happening in Hywel Dda. Hywel Dda's proposals for elective non-emergency orthopaedic surgery have naturally caused concern among constituents in Llanelli, and among members of staff at Hywel Dda. Yesterday, I attended the Hywel Dda Community Health Council meeting in Burry Port, where the board's vice chair was keen to emphasise that these plans are currently in proposal form only, that there was a meeting of clinicians at the end of last week and that they were meeting with senior members of the Hywel Dda Local Health Board today.

Last week, I called for weekly monitoring of any implemented plans, and I would be interested in further details of how these will work in practice. Patients must be kept up to date with decisions and operation dates resulting therefrom. I note the Welsh Government expectation that all winter plans ought to be published by local health boards immediately after being cleared by their respective boards. I would add that we need continuing updates on the progression of these plans and the wider time frames around them from each health board.

Following the Welsh Government's winter forum, I know that further assurances were sought on joint working, especially with social care. I am keen to receive an assurance from Hywel Dda Local Health Board that the orthopaedic proposals, if implemented, will not have a negative impact on the provision of and the reliance on social care, and that social care need, any increased reliance on carers and any impact on ability to work will all be taken into account in patient assessments, and will be considered when determining the urgent nature of operations.

Given Hywel Dda's statement that these are proposals, dates are needed on when firm decisions will be made. For example, Hywel Dda conducts pre-operative assessments six weeks in advance, and that needs to be streamlined alongside operation dates.

Roeddwn yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn dweud yn gynharach ei fod wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth Leol i edrych ar baratodau ar gyfer y gaeaf. Rwy'n gwybod bod y gaeaf yn dod bob blwyddyn, ond yn ogystal â hynny mae newid mewn demograffeg a chynnydd yn nifer y bobl oedrannus, mae twf mewn ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, yn enwedig ymhlith y boblogaeth 85 oed a hŷn, ac mae'n ymddangos mai cynyddu yn anorfod fydd y pwysau.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r holl staff meddygol ym mhob ysbyty yng Nghymru am eu gwaith caled a'u hymroddiad, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, fel Joyce Watson, mae gennyf ddi-ddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd yn Hywel Dda. Mae cynigion Hywel Dda ar gyfer llawdriniaethau orthopedig dewisol nad ydynt yn achosion argyfwng wedi achosi pryder yn naturiol ymysg etholwyr yn Llanelli, ac ymhlith aelodau o staff yn Hywel Dda. Ddoe, euthum i gyfarfod Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda ym Mhorth Tywyn, lle'r oedd is-gadeirydd y bwrdd yn awyddus i bwysleisio mai dim ond ar ffurf cynnig y mae'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd, y bu cyfarfod o glinigwyr ddiweddd yr wythnos diwethaf, a'u bod yn cwrrd ag uwch aelodau o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda heddiw.

Yr wythnos diwethaf, galwais am fonitro wythnosol o unrhyw gynlluniau a weithredwyd, a byddai gennyf ddi-ddordeb mewn cael rhagor o fanylion am sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae'n rhaid sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch penderfyniadau a dyddiadau'r llawdriniaethau sy'n deillio o hynny. Nodaf ddisgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai holl gynlluniau ar gyfer y gaeaf gael eu cyhoeddi gan fyrddau iechyd lleol yn syth ar ôl iddynt gael eu clirio gan eu byrddau penodol. Hoffwn ychwanegu bod angen diweddariadau parhaus ar gynnydd y cynlluniau hyn a'r fframiau amser ehangach o'u cwmpas oddi wrth pob bwrdd iechyd.

Yn dilyn fforwm gaeaf Llywodraeth Cymru, rwy'n gwybod y gofynnwyd am sicrwydd pellach ar weithio ar y cyd, yn enwedig gyda gofal cymdeithasol. Rwy'n awyddus i dderbyn sicrwydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda na fydd y cynigion orthopedig, os cânt eu gweithredu, yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth a'r ddibyniaeth ar ofal cymdeithasol, ac y bydd yr angen am ofal cymdeithasol, unrhyw gynnydd mewn dibyniaeth ar ofalwyr ac unrhyw effaith ar y gallu i weithio i gyd yn cael eu hystyried wrth asesu cleifion, ac yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar frys llawdriniaethau.

Yn sgil datganiad Hywel Dda mai cynigion yw'r rhain, mae angen dyddiadau pryd y bydd penderfyniadau cadarn yn cael ei gwneud. Er enghraifft, mae Hywel Dda yn cynnal asesiadau cyn-llawdriniaeth chwe wythnos ymlaen llaw, ac mae angen i hynny gael ei symleiddio ochr yn ochr â dyddiadau llawdriniaethau.

On the other side of the spectrum, if proposals are implemented, detail is needed from health boards on when they expect to return to normal capacity, whether these will be phased, and whether these dates will be reactionary and flexible. I am aware that the Welsh Government has developed an unscheduled care dashboard to provide near-live information to inform health boards' decisions on when to escalate locally. Is this something that can have a multi-purpose function to indicate when demand is not currently at escalated levels?

I do not think that amendments about postponement of operations in Hywel Dda are sufficiently detailed. They do not make clear the situation regarding which cases are emergency ones. I have repeatedly sought assurance that all emergency cases will be treated. In any plans to deal with winter pressures, capacity for proper treatment of emergency cases must be provided.

The Welsh Government campaigns, such as Choose Well This Winter, plans for an NHS 111 number, and Keep Well This Winter, are in place. Winter pressures stem from very real instances, from minor ailments to flu, viruses and wider. It is important that we signpost patients to the most effective and appropriate service. Research suggests that around 18% of general practice workload and 8% of emergency department consultations each year are for common ailments and could be effectively managed by community pharmacists. While this cannot act as a catch-all situation to eradicate all effects of winter pressures, it is a mechanism at our disposal, which, if effectively utilised, can direct patients to the most appropriate medical advice, and take pressure off GPs and hospitals where it is safe to do so for sustainability.

The financial difficulty faced by Hywel Dda health board was discussed and acknowledged at the last health board meeting, including how managers are involved in weekly meetings on finances. The Welsh Government has provided £19 million extra to Hywel Dda health board this year, tasked partly for maintaining performance in the coming months. What discussions has the Minister for health had with Hywel Dda health board on expectations here?

After all of the talk from England about our NHS, let us turn to its NHS. Our Minister for Health and Social Services said to the Health and Social Services Committee that Public Health Wales's analysis believes that if you isolate all of the different reasons that there were for creating patients last winter, the single most significant one was the impact, as Lynne said, of fuel poverty—

Ar ochr arall y sbectrwm, pe byddai'r cynigion yn cael eu gweithredu, mae angen manylion gan fyrdau iechyd ynghylch pryd y maent yn disgwyl dychwelyd i allu arferol, pa un a fydd y rhain yn cael eu cyflwyno'n raddol, a pha un a fydd y dyddiadau hyn yn adweithiol ac yn hyblyg. Rwy'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu dangosfwrdd gofal heb ei drefnu i ddarparu gwybodaeth agos at fod yn fyw i lywio penderfyniadau byrddau iechyd ar pryd i gynyddu yn lleol. A yw hyn yn rhywbeth a allai gael swyddogaeth aml-bwrpas er mwyn dangos pryd nad yw galw cyfredol ar lefelau uwch?

Nid wyf yn credu bod diwygiadau ynghylch gohirio llawdriniaethau yn Hywel Dda yn ddigon manwl. Nid ydynt yn gwneud y sefyllfa'n glir o ran pa achosion sy'n rhai brys. Dro ar ôl tro rwyf wedi ceisio sicrwydd y bydd pob achos brys yn cael eu trin. Mewn unrhyw gynlluniau i'r trindrin â phwysau'r gaeaf, mae'n rhaid i'r gallu ar gyfer triniaeth briodol mewn achosion brys gael ei ddarparu.

Mae ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru, megis Dewis Doeth y Gaeaf Hwn, cynlluniau ar gyfer rhif 111y GIG, a Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn, ar waith. Mae pwysau'r gaeaf yn deillio o achosion gwirioneddol, o fân anhwylderau i'r fflw, firsau ac ehangach. Mae'n bwysig ein bod yn cyfeirio cleifion at y gwasanaeth mwyaf effeithiol a phriodol. Mae ymchwil yn awgrymu bod tua 18% o'r llwyth gwaith meddyg teulu cyffredinol ac 8% o ymgynghoriadau adran achosion brys bob blwyddyn yn ymwneud ag anhwylderau cyffredin y gellid eu rheoli'n effeithiol gan fferyllwyr cymunedol. Er na all hyn greu sefyllfa sy'n cwmparu pob agwedd ar gael gwared ar holl effeithiau pwysau'r gaeaf, mae yn fecanwaith sydd ar gael i ni, a fydd, os caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, yn gallu cyfeirio cleifion i'r cyngor meddygol mwyaf priodol, a chymryd pwysau oddi ar feddygon teulu ac ysbytai lle mae'n ddiogel i wneud hynny ar gyfer cynaladwyedd.

Cafodd yr anhawster ariannol a wynebwr gan fwrdd iechyd Hywel Dda ei drafod a'i gydnabod yn y cyfarfod bwrdd iechyd diwethaf, gan gynnwys sut y mae rheolwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd wythnosol ar gyllid. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £19 miliwn ychwanegol i fwrdd iechyd Hywel Dda eleni, yn rhannol ar gyfer cynnal perfformiad yn y misoedd i ddod. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog iechyd wedi'u cael gyda bwrdd iechyd Hywel Dda ar ddisgwyliadau yn hyn o beth?

Wedi'r holl siarad o Loegr am ein GIG ni, gadewch i ni droi at ei GIG nhw. Dywedodd ein Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod dadansoddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn credu pe byddech yn ynysu pob un o'r gwahanol resymau a oedd yn gyfrifol am greu cleifion y gaeaf diwethaf, yr un mwyaf arwyddocaol unigol oedd effaith, fel y dywedodd Lynne, tldi tanwydd—

18:32

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Conclude, please.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:32	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Of fuel poverty and the fact that, in many communities, the issue of fuel poverty and reduced benefits meant that people's likelihood of ending up in poor health and admitted through an emergency department was increased.	Tlodi tanwydd a'r ffaith, mewn llawer o gymunedau, bod y mater o dlodi tanwydd a budd-daliadau gostyngol yn golygu bod y tebygolrwydd i bobl ddiweddu mewn iechyd gwael a chael eu derbyn drwy adran achosion brys wedi cynyddu.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
18:32	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.	I call the Minister to reply to the debate.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
18:32	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i> I thank Members for what has been, on the whole, an entirely constructive and useful debate.	Diolch i'r Aelodau am yr hyn sydd wedi bod, ar y cyfan, yn ddadl hollol adeiladol a defnyddiol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	I will spend one minute, once again, dealing with the issue of Hywel Dda LHB. On 21 October, Hywel Dda first published some options for its winter plan. It said that it wished to consult staff and other stakeholders on those options and that is exactly what it is doing.	Byddaf yn treulio un munud, unwaith eto, yn ymdrin â mater BILL Hywel Dda. Ar 21 Hydref, cyhoeddodd Hywel Dda am y tro cyntaf rai opsiynau ar gyfer ei gynllun gaeaf. Dywedodd ei fod yn dymuno ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill ar yr opsiynau hynny a dyna'n union y mae'n ei wneud.	
	We cannot have it both ways. We cannot, on the one hand, want to ask, 'Why has Hywel Dda not mind its mind up about what it is going to do?' and on the other ask, 'Why has Hywel Dda not been asking other people about what it intends to do?' I saw Hywel Dda's chief executive and its chair yesterday. They assure me that they would make final decisions on 28 November, and that will be as a result of the discussions that it is having. It is regrettable if some people in the Hywel Dda health board vicinity had not heard about its plans, but I am quite sure that they have heard about them now.	Ni allwn ei chael hi bob ffordd. Ni allwn, ar y naill law, fod eisiau gofyn, 'Pam nad yw Hywel Dda wedi penderfynu beth y mae'n mynd i'w wneud?' a gofyn ar y llaw arall, 'Pam nad yw Hywel Dda wedi bod yn gofyn i bobl eraill am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud?' Gwelais brif weithredwr a chadeirydd Hywel Dda ddoe. Fe'm sicrhawyd ganddynt y byddent yn gwneud penderfyniadau terfynol ar 28 Tachwedd, ac y bydd hynny'n deillio o'r trafodaethau y maent yn eu cael. Mae'n anffodus os oes rhai pobl yng nghyffiniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda heb glywed am ei gynlluniau, ond rwy'n eithaf siŵr eu bod wedi clywed amdanynt erbyn hyn.	
	In that sense, there is no moratorium on operations happening at the moment and, when the health board reaches its conclusions, I will of course, listening to the points that Joyce Watson and Keith Davies have made, be in conversations with it about the way that those plans are put into practice over the winter.	Yn yr ystyr hwnnw, nid oes moratoriwm ar lawdriniaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd a, phan fydd y bwrdd iechyd yn dod i'w gasgliadau, byddaf wrth gwrs, yn gwrandao ar y pwyntiau y mae Joyce Watson a Keith Davies wedi'u gwneud, byddaf yn cynnal sgysiaau a'r bwrdd am y ffordd y mae'r cynlluniau hynny'n cael eu rhoi ar waith dros y gaeaf.	
	Let me turn to more general and more—	Gadewch i mi droi at bwyntiau mwy cyffredinol a mwy—	
18:34	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> A wnewch chi ildio?	Will you give way?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
18:34	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Wrth gwrs.	Of course.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
18:34	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rydych chi'n dweud nad oes 'moratorium' ynglŷn â llawdriniaethau ar hyn o bryd, ond mae gennyf etholwyr sydd wedi cael dyddiadau ar gyfer eu hapwyntiad cyn llawdriniaeth, ac maen nhw wedi cael galwadau ffôn i ddweud nad oes pwynt iddynt fynd i'r apwyntiadau hynny oherwydd na fydd y llawdriniaeth yn digwydd. Mae hyn yn ystod y mis hwn. Felly, beth rydych chi'n ddweud wrth fy etholwyr i?	You say that there is no moratorium on operations at present, but I have constituents who have been given dates for their pre-operative appointment, and they have had phone calls to say that there is no point in them attending those appointments, because the operations will not take place. This is during this month. So, what do you say to my constituents?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

Beth rwy'n ddweud yw hyn: clywais ddoe oddi wrth brif weithredwr Hywel Dda ei fod ef a phobl eraill ar y bwrdd wedi dweud wrth bob un sy'n gweithio i'r bwrdd nad ydym yn mynd i ganslo dim byd tan mae'n dod i benderfyniad ddiwedd y mis. Dywedodd wrthyf os oes gan unrhyw Aelod Cynulliad etholwyr sydd wedi ei ddweud yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud i fi, dylent fynd ato ef, ac mae'n fodlon edrych mewn i bob achos lle mae pobl yn dweud bod hynny wedi digwydd yn barod, achos mae'r prif weithredwr wedi dweud wrthyf mai polisi'r bwrdd yw na fydd hynny'n digwydd.

I want to turn now to some of the more general points made in the debate. Elin Jones began by reminding us that, of course, winter comes every year and brings particular pressures with it. That is why planning ahead of winter is so important. It would be foolish indeed to wait until Joyce Watson's roses have disappeared, and I have finally finished picking raspberries on my allotment, to start planning for the winter. It was a point well made by Elin. She was the first person to highlight a theme that was picked up by many others: that the key to getting through this winter is flexibility between the different services that together have to provide for some of our most vulnerable citizens.

In addition to some of the examples that I gave earlier on, I could point to the evidence that we had from local authorities across Wales, some of whom are keeping care packages open for two weeks after someone is admitted to hospital, so that, if someone is ready to be discharged, you do not have to go through the assessment again or reassemble the care package—it is there and waiting for them. Local authorities across Wales are making sure that their social services and social care departments are fully staffed over the Christmas and new year period, so that we do not get a two-week period when no-one moves out of a hospital because there are no staff there to organise it, and to make sure that discharges as well as admissions taking place at weekends. Those are all points well made, and the work that has been going on has, I think, moved us very far forward in making that happen.

I am grateful to Darren Millar for his opening remarks. I think that it is fair for me to say to Members that this is the first year ever that local health boards will have published their winter plans, and I am determined that they will. I wrote to the Chair of the Health and Social Care Committee this morning setting out a timetable against which each health board in Wales will publish their plans, and all of them bar one will be published by the end of this month.

What I say is this: I heard yesterday from the chief executive of Hywel Dda that he and others on the board have told everyone working for the board that they are not going to cancel anything until it comes to a decision at the end of the month. He told me that if any Assembly Member has constituents that have said what the Member has said to me, they should approach him, and he is willing to look into every case where people say that that has happened already, because the chief executive has told me that the policy of the board is for that not to happen.

Rwyf am droi yn awr at rai o'r pwyntiau mwy cyffredinol a wnaed yn y ddadl. Dechreuodd Elin Jones drwy ein hatgoffa bod y gaeaf, wrth gwrs, yn dod bob blwyddyn ac yn dod â phwysau penodol gydag ef. Dyna pam mae cynllunio cyn y gaeaf mor bwysig. Byddai'n ffôl yn wir, i aros hyd nes y mae rhosod Joyce Watson wedi diflannu, a minnau o'r diwedd wedi gorffen casglu mafon ar fy rhandir, cyn dechrau cynllunio ar gyfer y gaeaf. Roedd yn bwynt a gyflwynwyd yn dda gan Elin. Hi oedd y person cyntaf i dynnu sylw at thema a godwyd gan nifer o rai eraill: mai'r allwedd i gael trwy'r gaeaf hwn yw hyblygrwydd rhwng y gwahanol wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn gorfod darparu ar gyfer rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Yn ogystal â rhai o'r enghreifftiau a roddais yn gynharach, gallwn dynnu sylw at y dystiolaeth a gawsom gan awdurdodau lleol ledled Cymru, y mae rhai ohonynt yn cadw pecynnau gofal ar agor am bythefnos ar ôl i rywun gael ei dderbyn i'r ysbyty, er mwyn sicrhau, os yw rhywun yn barod i gael ei ryddhau, nad oes rhaid i chi fynd drwy'r asesiad eto neu aildrefnu pecyn gofal—mae yno ac yn aros amdanynt. Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn gwneud yn siŵr bod eu gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau gofal cymdeithasol wedi eu staffio'n llawn dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd, fel nad ydym yn cael cyfnod o bythefnos pan nad oes neb yn symud allan o'r ysbyty oherwydd nad oes staff yno i drefnu hynny, ac i wneud yn siŵr bod rhyddhau yn ogystal â derbyniadau yn digwydd ar benwythnosau. Mae'r rhain i gyd yn bwyntiau a wnaed yn dda, ac mae'r gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen, rwy'n credu, wedi ein symud ni ymlaen yn bell iawn tuag at wneud i hynny ddigwydd.

Rwy'n ddiolchgar i Darren Millar am ei sylwadau agoriadol. Credaf ei bod yn deg i mi ddweud wrth yr Aelodau mai dyma'r flwyddyn gyntaf erioed y bydd y byrddau iechyd lleol wedi cyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer y gaeaf, ac rwy'n benderfynol y byddant yn gwneud hynny. Ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bore yma yn nodi amserlen pryd y bydd pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyhoeddi eu cynlluniau, a bydd pob un ohonynt namyn un yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y mis hwn.

18:38

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I appreciate that you have written to the Chair of the Health and Social Care Committee and that your letter details when plans are due to be published. However, it does not say when those plans are due to be ratified and confirmed. The publication of those plans will precede board meetings to approve those plans, usually a week later—in other words, after the start of the winter.

Rwy'n sylweddoli eich bod wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a bod eich llythyr yn manylu pryd y mae cynlluniau i fod i gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, nid yw'n dweud pryd y mae'r cynlluniau hynny i fod i gael eu dilysu a'u cadarnhau. Bydd cyhoeddi'r cynlluniau hynny'n rhagflaenu cyfarfodydd bwrdd i gymeradwyo'r cynlluniau hynny, fel arfer wythnos yn ddiweddarach—mewn geiriau eraill, ar ôl dechrau'r gaeaf.

18:38

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

My understanding, Darren, is that the plans will be ratified at boards and immediately published, so you will be seeing the ratified plans by the end of this month. It is important that the plans are discussed at board level, because they are its plans and the board must have ownership of those plans.

Fy nealltwriaeth i, Darren, yw y bydd y cynlluniau yn cael eu cadarnhau mewn cyfarfodydd byrddau a'u cyhoeddi ar unwaith, felly byddwch yn gweld y cynlluniau wedi'u cadarnhau erbyn y diwedd y mis hwn. Mae'n bwysig bod y cynlluniau yn cael eu trafod ar lefel bwrdd, oherwydd mai ei gynlluniau ef ydynt ac mae'n rhaid i'r bwrdd fod yn berchen ar y cynlluniau hynny.

The Conservative amendment 3 to the debate calling for a national plan has some very important ideas in it, and I think we are closer to having the elements for a national plan this year than we ever have been before, and the Government will accept that amendment in the spirit of looking to see whether next year we might be able to put together a national plan picture for Members to see.

Mae gwelliant 3 y Ceidwadwyr i'r ddatl sy'n galw am gynllun cenedlaethol yn cynnwys rhai syniadau pwysig iawn, ac rwy'n credu ein bod yn nes at gael yr effennau ar gyfer cynllun cenedlaethol eleni nag yr ydym wedi bod erioed o'r blaen, a bydd y Llywodraeth yn derbyn y gwelliant hwnnw yn yr ysbryd o edrych i weld a fyddwn ni, y flwyddyn nesaf efallai yn gallu llunio darlun cynllun cenedlaethol i'r Aelodau gael ei weld.

I agree very much with what Darren Millar had to say about flu vaccination. It is very important that we have ambitious targets for flu vaccination. I have tried to be more serious with staff members in the health service this year about the professional obligation that I think that they have to make sure that they are vaccinated against a very avoidable illness.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a oedd gan Darren Millar i'w ddweud am frechu rhag ffliw. Mae'n bwysig iawn bod gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer cael brechiad ffliw. Rwyf wedi ceisio bod yn fwy difrifol gydag aelodau staff yn y gwasanaeth iechyd eleni am y rhwymedigaeth broffesiynol rwy'n credu sydd ganddynt i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu brechu yn erbyn salwch y gellir yn hawdd ei osgoi.

Kirsty Williams said that we can predict the effects of temperature, and indeed we can, but we cannot predict when temperatures will shift. The analysis by Public Health Wales shows random peaks—spikes in demand—in an unpredictable way that then have an impact on admission.

Dywedodd Kirsty Williams y gallwn ragweld effeithiau tymheredd, ac yn wir fe allwn wneud hynny, ond ni allwn ragweld pryd y bydd y tymheredd yn newid. Mae'r dadansoddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod y galw'n cynyddu'n gyflym ar brydiau mewn ffordd anrhagweladwy a bod hynny wedyn yn cael effaith ar dderbyniadau i'r ysbty.

I will end by referring to Mark Isherwood's detailed account of those factors that contribute to ill health and which precipitate emergency admissions. Excess winter deaths are not, in the majority, caused by sudden cold weather, but by insidious damp and acute exacerbations of chronic conditions. However, I must say to him, interesting and constructive as his contribution was, that the English cold weather plan provided by the coalition Government is to cut people's benefits, put up their bills and then push their needs into the NHS.

Rwyf am gloi drwy gyfeirio at gyfrif manwl Mark Isherwood o'r ffactorau hynny sy'n cyfrannu at salwch ac sy'n achosi derbyniadau brys. Nid yw marwolaethau ychwanegol y gaeaf, gan fwyaf, yn cael eu hachosi gan dywydd oer sydyn, ond gan leithder llechwraidd a chyflyrau cronig yn gwaethygu'n aciwt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud wrtho, er mor ddiddorol ac adeiladol yr oedd ei gyfraniad, mai cynllun tywydd oer Lloegr a ddarperir gan y Llywodraeth glymblaid yw torri budd-daliadau pobl, cynyddu eu biliau ac yna gwrthio eu hanghenion i mewn i'r GIG.

18:40

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Thank you, Minister. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are objections. Therefore, I defer all votes on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time will now follow. I will proceed to take the first vote unless there are three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will move straight to voting time.

Bydd y cyfnod pleidleisio'n dilyn yn awr. Byddaf yn symud ymlaen i gymryd y bleidlais gyntaf os nad oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly symudwn yn syth at y cyfnod pleidleisio.

### Cyfnod Pleidleisio

[Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

[Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

[Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

[Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

### Voting Time

[Motion not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.](#)

*Motion not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Amendment not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.](#)

*Amendment not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.](#)

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

[Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.](#)

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

[Amendment not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.](#)

*Amendment not agreed For 28, Against 29, Abstain 0.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.](#)

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

[Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.](#)

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.](#)

[Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Cynnig NDM5348 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig NDM5348 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi gwaith GIG Cymru a'i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o'n blaenau.

Notes the work of the Welsh NHS and its partners in preparing for the coming winter.

*Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.*

*Believes that planning for winter pressures should be a routine matter and should not lead to deterioration of services.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Calls upon the Welsh Government to:*

*a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a*

*a) publish an annual National Winter Preparedness Plan for the Welsh NHS; and*

*b) cytuno bod cynlluniau o'r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.*

*b) agree that such plans be subjected to a post implementation evaluation to determine their effectiveness.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.*

*Calls on the Welsh Government to publish each Local Health Board's winter preparation plan.*

[Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.](#)

[Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

18:44

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:44.*

*The meeting ended at 18:44.*